This is a reproduction of a library book that was digitized by Google as part of an ongoing effort to preserve the information in books and make it universally accessible.

Google™ books

https://books.google.com

GRUFFYDD AB CYNAN.

Celt 3257.1.30

Harvard College Library

FROM THE FUND OF

CHARLES MINOT

Class of 1828

Digitized by Google

2454
Galloway
143 5/-
8.8

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Gruffydd ab Cynan.

Digitized by Google

RHAMANT HANESYDDOL:

GRUFFYDD AB CYNAN.

GAN

Ellis Pierce

ELLIS O'R NANT,

AWDWR "NANWS ACH RHOBERT," "HOBERT O YSTRAD CLWYD," "WILLIAM OWAIN, PENCRAIG," ETC.

Gwobrwyedig yn Eisteddfod Genedlaethol Liverpool, 1884.

DOLYDDELEN:
CYHOEDDWYD GAN ELLIS PIERCE (ELLIS O'R NANT), LLYFRWERTHYDD.

BLAENAU FFESTINIOG:
ARGRAFFWYD GAN JONES A ROBERTS, HIGH STREET.

1885.

Digitized by Google

IV. 7857
Celt 5257.1.30



Digitized by Google

AT Y DERBYNWYR.

FEL y mae yn hollol hysbys, ymgymerais â chyfansoddi y rhamant hon gogyfer ag Eisieddfod Genedlaethol Liverpool, yr hon a gynaliwyd yn Medi, 1884. Hysbysais fel cynorthwy i'r beirniaid i ganfod allan y seiliau ar ba rai yr adeiledais fy chwedloniaeth hanesiol yn y wedd a ganlyn:—"Dilynais *hanes* Gruffydd yn fanwl ac yn ddifwlch, yr hwn a ddaeth trosodd o'r Werddon pan yn llanc oddeutu wyth ar hugain oed, i wneyd ymgais i enill 'treftad ei dad,' tua'r flwyddyn 1080, ac a derfynodd ei yrfa tua'r flwyddyn 1137. Darllenais ei Fuchedd, Brut Aberpergwm, a'r holl Frutiau Cymreig, yn nghyda'r holl hanesion traddodiadol, heb adael o'r neilldu y farddoniaeth a geir yn y Myfyrian, o waith Meilyr, ei fardd teuluaidd; Enwogion Cymru, Hanes y Brytaniaid a'r Cymry, Hanes Cymru, Carnhunawc, ac un Meudwy Mon; *Camden's Britannia,* a holl hanesion eraill am dano, yn nghyda hanes y cyfnod newn gwahanol lyfrau. Gwnaethym yr hyn oll a allwn i gysoni yr hanesion pan yn gwrthddyweyd eu gilydd. Canfyddais fod rhai yn traethu dychymygion ag oeddynt yn milwrio yn erbyn y *Fuchedd,* yr hon a ysgrifenwyd yr oes gyntaf ar ol, fel y gellir casglu oddiwrth amryw ymadroddion ynddi."

Ar daer ddymuniad rhai cyfeillion ag sydd yn ddiflino yn llafurio o blaid purdeb a dillyndra iaith, rhodiad a buchedd ddilwgr, ac i goethi a dyrchafu tôn cymdeithas, gadewais allan rai ymadroddion perthynol i'r cyfnod hwnw y tueddid hwy i gredu na fuasai y darllenydd yn enill rhyw lawer yn y cyfeiriad hwnw trwy eu darllen. Cynwysa hanesion hen gymeriadau fel hyn lawer o addysg. Nid oes un cymeriad nad oes ynddo nodweddion i'w gochel yn gystal ag i'w dilyn. Tra yr ymgedwais at yr hanes yn ddiwyro, nid anghofiais lenwi y bylchau â chwedloniaeth i greu asbri a hwyl yn mynwes y darllenydd. Ni ddilynais gynllun unrhyw awdwr Cymreig na Seisnig. Cyfansoddais *ramant ar Gruffydd ab Cynan.*

Yr unig un o'r beirniaid, hyd y gallwn ganfod oddiwrth arwyddion â'r pwyntyl ar ymyl y ddalen, a ddarllenodd fy

Digitized by Google

rhamant yn fanwl ydyw Llyfrbryf. Tueddid ef i ranu y wobr rhyngof fi ac un arall. Tueddid Llew Llwyfo fodd bynag i atal y wobr, ond ni nodai ei resymau dros wneyd hyny. Pan ystyriwyf safon rhagoroldeb cyfansoddiadau buddugol o'r natur yma, megis "Huw Huws, Gwenhwyfar," "Llewelyn Parri," ac eraill, nis gallaf lai na chyflwyno hwn i'r cyhoedd, fel nid yn unig yn *gyfartal*, ond yn *rhagori* ar eraill a farnwyd yn deilwng o wobr mewn Eisteddfodau Cenedlaethol! Dyma hi i ti, ddarllenydd, barnwyd hi yn gyfartal deilwng ag un arall i sefyll ar ben y rhestr, ac i gael rhan o'r wobr.

Fy mhenderfyniad o'r cychwyn oedd dwyn allan y *rhamant* yn llyfr swllt. Mae yn anturiaeth lled ddielw, gan ei fod yn llyfr deunaw o faintioli lled dda. Llwyddais i gael enwau agos i ddwy fil o danysgrifwyr at y gwaith, a bwriedais gyhoeddi rhestr o'r enwau; ond gwelaf ped y gwnawn y cymerai bythefnos yn hwy o amser, ac y chwyddid y llyfr i ryw 16 tudalen yn chwanegol, yr hyn a chwyddai y draul, fel y gadewid fi nid yn *enillwr*, ond yn *golledwr* ar yr anturiaeth. Dan yr amgylchiadau gobeithio y bydd i'r cyfeillion caredig fy esgusodi am beidio cyhoeddi y rhestr.

Darfu i'r arlunydd medrus Mr. Barker (Arlunydd Glan Conwy) barotoi darlun o Gruffydd ab Cynan i addurno y gwaith, a bydd i'w gael am chwe'cheiniog yn chwanegol.

ELLIS O'R NANT.

Dolyddelen,
Mawrth 28ain, 1885.

Digitized by Google

RHAMANT HANESYDDOL.

GRUFFYDD AB CYNAN.

PENOD I.

Y MODD Y MAE GRUFFYDD I DDRINGO I'R ORSEDD.

Ar foreu tymhestlog, yr haner olaf o'r unfed ganrif ar ddeg, mewn ystafell palasdy, a safai ar esgynfa, yn gyfagos i'r fan y saif Coleg y Drindod yn bresenol yn ninas Dulyn (Dublin), eisteddai gwraig o ymddangosiad a gosgedd dywysogaidd. Boneddiges dal a lluniaidd o gorff, gwynebpryd glandeg--un yn argyhoeddi pob un a ddelai i'w gwyddfod ei bod yn teilyngu ac yn hawlio parch, ac un hefyd a berchid yn fawr. Siaradai yn arafaidd a phwyllog ar bob testyn y cymerai afael ynddo, yn gystal ag ar bob un a ddygid i'w sylw gan eraill, pa un bynag a wneid hyny fel cwestiwn o gywreinrwydd, neu ynte gyda'r amcan o bysgota chwaneg o wybodaeth.

Dangosai ei bod yn meddu ystor eang o wybodaeth hanesyddol o barth i'w theulu ei hun a llinach ei phriod—Cynan ab Iago. Yn wastad ceid ei hyfforddiant yn llawn o ddoethineb. Dysgai bob un pa fodd i weithredu, yn y fath fodd, fel i gyraedd y nod y cyrchid ato. Ymresymai yn bwyllog a chadarn yn erbyn i neb adael i nwydau, creulondeb a balchder gael eu ffordd, yr hyn agos bob amser a greai hafog, ac a adawai y rhai a'u meddent mewn helbulon a thrallod. Caredigrwydd ac addfwynder, hyd y byddai yn ddichonadwy, a ddylai fod yn arwyddair, a nodweddu bywyd pob dyn a dynes yn eu rhedfa is y rhôd.

Dadganai yn eglur a dificesg y dylai pob un wneyd defnydd yn ddiffwlch o'r moddion priodol i gyraedd yr hyn a chwenychai, ac y mynai ei sicrhau. Nad oedd dim anhawsder, ond meddwl ac ystyried yn fanwl a chwilio allan yn deg, sicrhau a meddu

Digitized by Google

yn hollol yr hyn y dymunid dyfod i feddiant o hono, ac yn arglwydd arno. Yr oedd ei hedrychiad yn toddi y rhai oll a ymddangosent o flaen ei llygaid. Tawai pob un, ac ai yn fud o'i blaen—y tywysog fel y gwreng, y boneddwr fel y foneddiges, y cwerylgar fel yr addfwyn, a wefreiddid i ddystawrwydd, fel pe dan effeithiau rhyw gyfaredd, pan fyddai yn wyddfodol mewn cwmni.

Eisteddai y boreu y cyfeirir ato, mewn cadair wellt ddofn a bwäog yn y gongl, gyda phlentyn bychan ar ei glin. Yr ochr arall gyferbyn â hi eisteddai llanc, tua saith neu wyth ar hugain oed, can belled ag y gallai un ddarllen y blynyddoedd yn ei wynebpryd, yr hwn a syllai yn myw ei llygaid, ac a wrandawai yn astud ar yr addysg a'r cynghorion a gyfranai, yr hwn a ddarlunir gan rai ag oeddynt yn cydoesi ag ef yn iaith a dullwedd y cyfnod boreuol hwnw: "Yn wr cymedrol o faint, gwallt melyn arno, ac ymenydd gwresog, ac wyneb crwn da ei liw, a llygaid mawr gweddus, ac aeliau teg, a barf weddus, a mwnwgl (gwddf) crwn, a chnawd gwyn, ac aelodau grymus, a bysedd hirion, ac ysgeiriau union, a thraed teg, cywraint oedd a hyawdl mewn amryfaelion ieithoedd, a bonheddig oedd yntau a thrugarog wrth ei giwdawd (genedl), a chreulawn wrth ei elynion, a gwychraf gwr yn y frwydr."

"Wel Gruffydd, fe hoffwn, yn chwanegol eto lefeinio dy feddwl," mynegai Ranillt (dyna oedd enw y foneddiges y cyfeirir ati, a mam y llanc a ddarluniwyd), "pa fath wr ydyw dy dad, a pha fath dreftad sydd iddo, a pha ryw freniniaeth sydd yn perthyn iddo yr ochr acw i'r dwfr," gan gyfeirio ei llaw i gyfeiriad Ynys Mon, "a pha ryw dreiswyr sydd yn ei phreswyliaw.

"Ond fel yr wyf wedi dyweyd ddegau o weithiau, nid allaf ymatal rhag dyweyd eto, fe fuasai mewn meddiant o honi eto oni bai am annoethineb y teulu. Gwnaethant eu hunain yn hollol anmhoblogaidd. Yr oedd Iago dy daid, yn dywysog o allu a dylanwad mawr yn Ngwynedd, ond ni feddai allu mwy na'i dylwyth o'i flaen i chwanegu at ei gyfeillion. Ymddygai yn greulawn tuag y rhai nad oeddent o'i rengoedd, trwy dynu eu llygaid, eu dyspaddu, a chan amlaf eu lladd. Hyn o angenrheidrwydd, a'i gwnaeth yn anmhoblogaidd. Mae gwelyth a thylwyth dy dad wedi cael eu hynodi trwy yr holl genedlaethau, fel rhai creulawn pan na fyddai achos cyfiawn yn galw am hyny. Codwyd terfysg yn eu herbyn lawer tro o bryd i bryd, am nad oeddynt yn arwain eu llywiaeth yn deg, nac yn gyfunwedd â'r safle y gosodwyd hwy ynddi. Hwythau wedi

Digitized by Google

llwyddo i ddarostwng y cyfryw a ymddygent yn greulawn tuag at y carcharorion. Anaml y gollyngid un yn rhydd. Y bywyd a gymerid ymaith, pryd na byddai achos cyfiawn yn galw am hyny, mewn lluaws o amgylchiadau. Tybient mai dyna oedd y cynllun mwyaf effeithiol iddynt weithio eu hunain i awdurdod, ac i sicrhau iddynt eu hunain awenau yr orsedd. Cwbl fethiant a fu hyny.

"Rhaid i bob un a enilla allu ac awdurdod fel tywysog yn Ngwynedd wneyd hyny trwy sicrhau ewyllys da y deiliaid. Nid eill un tywysog sefyll yn hir os na fydd y deiliaid yn bleidiol iddo, yn ei barchu, ac yn wir yn ei haner addoli."

"Yr wyf yn methu deall mam," arllwysai Gruffydd allan, gan frochi, a syllu yn guchiog ar y tân, "pa beth a allesid wneyd â deiliaid anfoddog a chwerylgar, rhai yn codi yn erbyn awdurdod gyfreithlawn a threftadol y tywysog, *ond* rhyfela a hwy, eu dilygeidio, eu dysbaddu a'u lladd. Pa beth a allasai fy nhaid Iago wneyd *ond* a *wnaeth*? Yr oedd Gruffydd ab Llewelyn wedi codi gwrthryfel yn ei erbyn fel y clywaist ti yn adrodd. Dodwyd cad ar faes i ostegu y cythrwfl, ac i adferu heddwch, ond yn anffodus trodd y rhyfel yn ei erbyn, gorchfygwyd a lladdwyd ef."

"Nid felly yr oedd chwaith. Nid wyt yn cofio yr hanes, fel yr adroddais ef i ti. Nid yn erbyn dy daid Iago yr oedd Gruffydd yn brwydro, neu yn gwrthryfela—yn erbyn un Hywel ab Edwyn, y dododd Gruffydd gad ar faes. Gruffydd a fu y gorchfygwr, yntau Hywel a ffodd at dy daid am nodded, yr hwn er nad oedd unrhyw achos cyfiawn yn galw am hyny, a'i hachlesodd. Nid oedd hyn oll ond ymyryd â chynhen na ddaliai un berthynas ag ef, yr hyn sydd megis un yn cymeryd ci yn erbyn ei glustiau. Erlynodd Gruffydd ar ei ol, ac yn y cadgyrch, collodd Iago ei fywyd. Tebyg yw nad oedd y deiliaid yn teimlo eu bod dan rwymau i ymladd brwydr un nad oeddynt yn gwybod dim am dano, ac na ddeuai oddiwrtho un math o ddaioni iddynt. Pa wedd bynag, y mae yn amlwg na ddarfu iddynt ymladd ond ychydig, neu y mae yn sicr na fuasai Gruffydd yn llwyddo mor hylaw i'w orchfygu a'i ladd.

"Mae yn gofyn doethineb mawr mewn tywysog; un clodfawr felly oedd Llewelyn, tad Gruffydd, yr hwn a lwyddodd i weithio ei hunan i awdurdod, ac yn dywysog ar yr holl Frytaniaid. Enillodd fodd ac ewyllys da y Cymry yn lled gyffredinol. Y mae tywysog llwyddianus i fod yn greadur ei oes, plentyn amgylchiadau, a chreadigaeth yr amser y mae yn byw, symud ac

Digitized by Google

yn bod ynddo. Mae i fod yn hanfodol yn gymeriad ymarferol, a phan y mae yn cymeryd awenau y llywodraeth, pa un bynag a ydyw hyny yn disgyn i'w ddwylaw fel eiddo treftadol, neu fel coeg-chwareu, nid yw i holi, pa beth a allasai, neu pa beth nad allasai ei syniadau ar y cwestiwn hwn neu y cwestiwn arall fod; y mae yn unig i chwilio allan y cynllun mwyaf angenrheidiol, llesol a hyrwydd i ddwyn yn mlaen lwyddiant ei dywysogaeth. Ni ddylid beio un tywysog am ymddygiadau a syniadau gwahanol mewn gwahanol adegau ar ei fywyd. Nid ydyw i fod fel pren neu faen, yn sefyll yr un fath o hyd. Y mae i blygu i amgylchiadau. Mae gan ei ddeiliaid eu nwydau, ac y mae hyd yn nod yn ddyledswydd ar dywysogion yn achlysurol fabwysiadu syniadau nad oes ganddynt unrhyw gydymdeimlad â hwy. Nid ellir *bod yn dywysog* heb ddilyn y cynllun hwn. Rhaid i'r bobl gael arweiniwr ac arweiniwr wrth fodd eu calonau, neu, onite, buan y ceir eraill yn codi i fyny, ac yn creu plaid. Fel hyn y mae syniadau a rhagfarnau y bobl yn galw ar y tywysog i wyro i'w canlyn, ac i ddylanwadu arno, pa fodd i ymddwyn a gweithredu, ond *yn gyfl* wahanol i hyn, y mae yr oll agos yn Nghymru wedi ymddwyn a gweithredu. Hyn a hyn yn unig sydd wedi dwyn oddiamgylch y fath rwygiadau, a'r fath ddinystr yn mhlith y tywysogion. Yr oedd y Pab Gregori yn deall y syniad hwn yn dda, pan yr anfonodd Awstin Fonach i bregethu a lledaenu yr efengyl yn Lloegr yn y chweched ganrif, pan y gorchymynai iddo symud ymaith y delwau oddiar yr allorau, ac o'r temlau paganaidd; ond rhoid archiad caeth i beidio dinystrio yr allorau eu hunain, gan y byddai i'r bobl gael eu denu i fynychu yr addoliadau Cristionogol, pan y canfyddent eu bod yn cael eu dwyn yn mlaen yn y lleoedd, y rhai a arferent eu parchu. A chan fod y paganiaid yn arfer aberthu, ac yn gwledda gyda'r offeiriadon ar yr hyn a aberthent, fe gynghorodd yntau hefyd i'r cenhadon eu darbwyllo ar wyliau Cristionogol i ladd eu hanifeiliaid yn nghymydogaeth yr eglwys, a mwythfoddio eu hunain yn y gwleddoedd llawen hyny, gyda'r hyn yr oeddynt wedi ymarfer. Dengys hyn yn eglur nad oedd yn anhysbys o'r ffordd, a'r unig ffordd effeithiol i lywio dynolryw."

"Mae honyna yn ffordd anhawdd iawn ei dilyn," ebe Gruffydd. "Daw rhywbeth o hyd a llawer cant o ddygwyddiadau i fwrw un i lawr bendramwnwgl mewn oes."

"Rhaid i ti ddysgu dyoddef, a chyd-ddwyn llawer â'r hyn sydd hollol groes i'th deimlad, dy farn, a balchder dy galon. Rhaid i ti wneyd dy oreu i greu cyfeillion, a chyfeillion o'r iawn

Digitized by Google

ryw o bawb. Os na wnai hyny, ni waeth i ti aros gartref. Bu dy daid gyda gosgorddlu o ryfelwyr yn ei ddilyn, yu ymdrechu adenill tywysogaeth ei dad yn ol. Darfu iddynt ymladd yn ddewr yn erbyn Gruffydd a'i lu. Gorchfygwyd a daliwyd ef yn garcharor. Amcanwyd ei ddwyn drosodd i'r Werddon, ond rhuthrodd pobl y wlad fel un gwr, a chipiwyd ef o'u dwylaw, pan oeddynt ar fedr hwylio i'r Werddon. Aflwyddiant fu ei ymgais a'i ymgyrch bob tro. Cilio yn ol mewn cywilydd a gwarth a fu raid iddo yn mhob amgylchiad. Ti a weli os byth y tueddir di i wneyd rhuthrgyrch ar y wlad nad *elli* enill y Dywysogaeth drwy ymladd â'r trigolion, ond trwy fyned drosodd yn gyfeillgar ac ymdrechu gwneyd cyfeillion, a darbwyllo deiliaid y wlad i frwydro o'th blaid—felly y llwyddi. Ni elli lwyddo un sut arall."

"Yr wyf yn analluog i ganfod y llwyddaf i wneyd hyny. Nis gallaf weled y deilliai un daioni i mi hwylio drosodd heb fyddin o'r ochr yma, a byddin ddigon cref i wneyd un rhuthrgyrch cyffredinol, carcharu rhai, a lladd rhai eraill sydd yn bleidiol i Trahaearn ab Caradog. Cymeryd meddiant o'r holl gestyll a'r amddiffynfeydd. Byddai raid i mi fyned drosodd gyda llynges a llu o wyr arfog. Dyma Afleoedd fy nhaid yn frenin Dinas Dulyn, a rhanbarthau eraill, byddai yn hawdd iddo fy nghynorthwyo i adfeddianu treftad fy hynafiaid, lle y mae estronwyr wedi ei threisiaw. Galwaf hefyd gyda Murchath Frenin, yr hwn sydd mewn safle y byddai yn hawdd iddo fy nghynorthwyo. Byddai yn hawdd i mi feddianu y wlad, a gosod fy hunan yn dywysog arni o bant i bentan. Buan y troai pawb o fy mhlaid yno, pan ddeuent i ddeall pa fath ryw ddyn ydwyf, a phwy ydyw fy ngwehelyth,—fod genyf hawl, ac mai fi yn unig sydd â hawl i fod yn dywysog ar Wynedd. Buan y bydd i bob un droi i ymladd gyda mi, a chwipio allan o fodolaeth y trais ymwthwyr Trahaearn ab Caradog a Chynwrig ab Rhiwallon, sydd yn trais feddianu, ac yn eistedd ar orsedd na pherthyn iddynt."

"Ni fydd i gymaint o sylw, creda di fi, gael ei dalu i dy hawl, o ran tras a haniad i'r orsedd. Rhaid i dy ymddygiad rhagorol a'th ddoethineb dy wthio i'r orsedd, a hyny yn unig, a dim arall a eill dy ddal i fyny wedi yr esgynot. Y syniad yna a goleddai, ac a gorddai yn ymenydd Gruffydd ab Llewelyn. Tybiai fod yr hawl a feddai, ac anrhydedd ei dad clodfawr yn ddigon i sicrhau yr orsedd a'r llywodraeth yn ei ddwylaw ef a'i ddisgynyddion o genedlaeth i genedlaeth, ond nid felly y bu. Cymerwyd ymaith ei fywyd nid gan estroniaid, ond gan ei

Digitized by Google

ddau frawd—Bleddyn a Rhiwallon, brodyr unfam. Ni wiw i ti, fe weli, ymorchestu, nac ymorfoleddu mewn gwaedoliaeth, na hawliau. Nid yw dy fod di na neb arall o waedoliaeth breninol, yn rhoi hawl ddiwyro i'r orsedd. Rhaid i ti gael cymhwysder i lanw y swydd. Nid digon ydyw yr enw, heb yr *anianawd*, a hyny yn wirioneddol hefyd. Nid pladur un bladur, os nad ellir gwneyd gwaith pladur â hi. Mae dy fod yn hanu o linach breninol yn llawer, ond os bydd i ti orphwys ar hyny fe ddeui i'r un dynged ag y daeth y lleill. Bydd raid i ti, heblaw y llu a gei i fyned drosodd gyda thi, sicrhau gwasanaeth gwyr da yn Mon a manau eraill yn Nghymru, i ymladd gyda thi, a gwneyd y goreuon yn farwniaid. Maent yn meddu mantais nad yw gan wyr y wlad yma. Gwyddant am bawb, am bob congl a chilfach, a gallant gyfarwyddo pa fodd i fyned yn mlaen. Nid eill dyn dyeithr ymladd o gwbl. Y mae yn fwy na haner hurt. Nid wyr ar ba law i droi, na pha fodd i hwylio ei gerddediad. Nid oes neb a ll ymladd yn dda ond yn y wlad y mae yn gynefin â hi—ci ar ei domen ei hun. Heblaw hyny wedi i ti sicrhau cefnogaeth rhai o wyr urddasol y tir, bydd i'r cyfryw enill eraill o'th blaid. Bydd yn fil gwell i ti gael cynifer ag a elli o ddeiliaid o'u gwirfodd, yn hytrach na rhai wedi eu gorchfygu trwy ryfel. Deiliaid peryglus ydyw deiliaid a orfodir i ddyfod yn gyfryw i ti. Byddi mewn enbydrwydd am dy fywyd o hyd—ni fydd i ti lonyddwch, ond y lleill a gei o ddichon o dy blaid yn mhob bwlch cyfyng. Cofia fy nghyngor a dilyn ef, a bydd dy lwyddiant yn ddifeth, a'th lywodraeth yn un hollol gysurus i ti, ac i'th ddeiliaid. Mae cysur y naill bob amser yn gysur i'r llall, ac anheddwch y naill yn anheddwch i'r llall."

"Nis gallaf weled daioni o siarad llawer," sylwai Gruffydd, "yr wyf am fyned i'r amrywiol leoedd a nodais i godi byddin, ac am hwylio trosodd. Nid yw treulio gormod o amser i siarad o fawr les i neb—haws dyweyd mynydd na myned drosto, a haws lawer rhoi cyngor na'i wneyd."

Ar hyn cipiodd ei ddyddosben, a hwyliodd allan ei gerddediad i gasglu byddin, ac i sicrhau llynges. Pan yn agor y ddor, wele yn sefyll, ac yn syllddremio yn ei wyneb, ddyn o faintioli mawr, dyn hir uwchlaw dwy lath. Syllai y naill, a syllai y llall—ciliai y naill megis yn ol, a chiliai y llall yr un wedd. Pengrymai y naill, a phengrymai y llall. Pesychai un, a phesychai arall. Dyma lle mae y ddau yn fud, dim gair yn llithro allan. Y mae y ddau yn hollol wrageddos, ac yn arswydo gwrthdarawiad, yr hyn a ddiwedda, ond odid yn angeu i un o'r

Digitized by Google

ddau, neu hwyrach i'r ddau. O'r diwedd tora Gruffydd allan mewn llais croch,

"Beth sydd i wneyd i'r dyn? Eglura i mi, ai heddychol dy ddyfodiad, neu fe holltaf dy ben fel dellten."

PENOD II.

HWYLIO AM LYNGES.

Yr oedd yr ymadroddion yn cael eu llefaru yn y Wyddelaeg. Nid oedd y dyeithrddyn yn deall gair. Nid atebodd iddo air, ac ni wnai unrhyw arwydd ei fod yn arswydo rhag yr hyn oedd i ddilyn. Pensynai fel dyn newydd ddianc allan o ddyryswch. Yr oedd ei wisg yn hollol Gymreig, y fath a wisgid gan y milwyr yr adeg hono. Yr oedd yr hugan a wisgai wedi ei gwau, ac yn gwasgu yn dŷn am ei ranau uchaf; y breichiau yn noethion, y llodrau nid oeddynt yn cyraedd ond hyd ei benlin, gyda llinyn yn crychu y cyfryw am ei hosanau. Nid arferid unrhyw foddion fel ag a geir yn ein dyddiau ni i ddal y llodrau i fyny. Yr oedd y gwneuthuriad yn y wasg yn amgau yn dŷn, fel nad oedd yn debyg yr ymollyngai rhagllaw, fel y buasai llodrau yn ein dyddiau ni yn gwneyd heb gyplysau dros yr ysgwyddau. Crogai ei gleddyf yn ei wain, gydag ochr ei glun. Meddai wynebpryd siriol, gwrol, a phenderfynol; ac arddangosai arwyddion ei fod yn un tra deallgar, yn un a allai ddarllen arwyddion yr amseroedd, a threiddio i'r dyfodol, a hawdd y gallasai un dybio y medrai dreiddio i mewn i amcanion a dybenion y dyn a gyfarfyddai ac y treuiai yn ei wyneb. Nid hawdd un diwrnod yn ei fywyd a fuasai ei gael i weithredu, fel pe dan ddylanwad cyfaredd y dydd cyntaf o Ebrill. Nid un dydd nac un awr ar ei fywyd y gellid ei hud-ddenu i dori cnau gweigion, nac i gamgymeryd un peth am beth arall. Ymddangosai yn hollol dawel a digyffro, tra yr oedd Gruffydd yn haerllio, ac yn gollwng dros ei wefusau eiriau chwerwon, yn hawlio gwybod pa reswm, a pha neges oedd wedi ei gymhell i wneyd ei ymddangosiad o flaen eu llys hwy yn ninas Dulyn. Yr oedd y dyn dyeithr lawer yn dalach Edrychai i lawr ar Gruffydd, er ei fod yn gyfagos i, os nad yn ddwy lath o daldra. Parhai i fytheirio bygythion yn y Wyddelaeg, ac yntau a dorodd allan yn Gymraeg:

"Ni waeth i ti heb siarad â mi, os siarad yr wyt hefyd, os na elli wneyd yn iaith y wlad acw. Nid wyf yn gallu dirnad ystyr un gair."

Digitized by Google

wyf yn llawn tân, ac yn hwylio, ac yn ymawyddu am hwylio. Mae yr helynt yn fy ysu tel tân. Dos i lawr i gyfeiriad y porthladd, byddaf yno yn fuan."

PENOD III.

O FLAEN CASTELL RHUDDLAN.

Fel yr hysbysai, aeth Gruffydd o amgylch y ddinas, ac i fanau eraill i chwythu corn y gad, i gasglu byddin ynghyd i fyned trosodd i enill treftad ei dad, ac i adfeddianu yr orsedd oddiar y treiswyr. Mewn llai o amser nag y buasai neb yn dysgwyl, nac yn wir yn dychymygu, nac yn breuddwydio, casglwyd llu arfog ynghyd, a sicrhawyd llynges gref, ac esgynwyd i'r llongau. Codwyd hwyliau i'r gwynt. Llefai pawb yn gynhes, "Gwynt teg ar eich hol." Nid arferwyd y dywediad o ddirmyg, fel ag y gwneir yn ein dyddiau ni, ond o deimladau da, ac o ddymuniad am lwyddiant neillduol i'r fordaith, ac i'r rhuthrgyrch wedi tirio o honynt. Dyma bob gewyn ar lawn waith, a phob hwyl i fyny. Cyflymir yn mlaen trwy y tonau trochionog. Weithiau y gwynt yn eu herbyn, a phryd arall o'u tu, y weilgi yn lluchio tros y llongau, hyd nes yr ofnid ar rai adegau y suddai y cyfan, ac y caent fedd yn eigion y tywod. Ond dyna hwy yn tirio yn Abermenai. Yr oeddynt yn barod yn awr i'r gad, ond nid oedd cad i gael eu rhoi ar faes, cyn ymgynghori â gwyr y wlad. Ni wyddent â phwy i ymladd, nac yn mha le i ddechreu. Nid oeddynt yn goresgyn gwlad newydd, lle yr oedd yr holl drigolion yn estroniaid, ac anhysbys o honynt, a hwythau yr un wedd yr ochr arall. Yma yr oedd llu o berthynasau Gruffydd o du ei dad, y rhai a fyddent yn barod i'w gydnabod yn fuan, ac o'i wthio i fyny i'r orsedd, pan wneid y newydd yn hysbys iddynt.

Nid ellid gwneyd hyny yn well na thrwy rai o wyr y wlad, rhai yn deall ansawdd y gwahanol randiroedd, ac yn alluog i ddeall pa fodd i fyned yn mlaen gyda phob symudiad. Yr oedd yn angenrheidiol chwilio allan am y cyfryw a sicrhau nifer oddiyma ac oddidraw, fel y byddai iddynt eu cyfarwyddo pa fodd i hwylio allan.

Gruffydd a anfonodd genadwri, trwy law Cynfrig Hir, at wyr Mon, trwy eraill at wyr Arfon, ac at feibion Merwydd o Leyn; neb amgen nag Asser, Meiriawn, a Gwgawn, a gwyr da eraill, yn eu galw hwy oll i'r maes, ac i alw gydag ef, fel y gallai

Digitized by Google

eu dysgyblu, a'u hwylio allan i ryfela. Yr oedd y rhai hyn oll yn wyr o fri, ac yn swyddogion milwraidd diail, a rhyfelwyr pybyr, ond i bwy ar ol y cyfan y gellid ymddiried yn yr oes farbaraidd hono? Pwy a ellid gael yn ffyddlawn—un a fyddai yn sicr o ymladd o blaid yr hwn a broffesai ei fod yn gyfaill iddo?

Daeth y tri, ynghyd ag eraill i'w gyfarfod, i gael ymgom, ac i dderbyn ei gyfarwyddyd pa fodd i droi allan. Yr oedd Asser yn fwy siaradus nag un o'i frodyr, ac nag un o'r llu oedd wedi dyfod i'w gyfarfod, a llefai yn uchel "Henffych a hawdd-amor i ti, Gruffydd fab Cynan, daethost ti yma o ddymuniad ein calon. Ni welodd ein llygaid mo honot erioed o'r blaen. Pa beth yw natur dy ymweliad â'n gwlad, a pha beth ydyw dy ddymuniad i ni wneyd?"

"Daethum trosodd," ebai Gruffydd, "i adfeddianu yr orsedd a gymerwyd ymaith, trwy drais oddiar fy nhad—y mae yn eiddo cyfreithlawn i mi. Myfi a neb arall ydyw eich arglwydd priawd. Nid oes gan neb hawl ynddi ond myfi. Yr wyf yn gweddiaw arnoch i ymladd yn wrol yn erbyn yr arglwyddi lladronaidd ac anmhriodawr hyn sydd wedi treisio treftad fy nhad."

"Yr ydym yn hollol barod i wneyd dy ddymuniad. Byddai yn well genym di na neb arall i eistedd ar yr orsedd, ac i arwain awenau y llywodraeth. Dyma ni at dy wasanaeth, a gwnawn yr hyn a allwn i'th wthio i fyny, ac i'th ddal i fyny. Parod ydym i golli pob dyferyn o waed er dy fwyn. Nid oes genym neb ond tydi ag y dymunem ei weled yn dywysog, ac yn eistedd ar orsedd —nid yn unig Gwynedd, ond Deheubarth hefyd. Bydded i ffawd ac amser dy weithio i gyfuno y ddwy orsedd yn un, fel y bu yn amser Llewelyn oes yn ol. Seinier dy glod yn fuan o afon Gwy i afon Gaer."

"Rhagorol! rhagorol! dan ddylanwad yr ysbrydion y lleferi Asser. Ni fu dynion o gynghorwyr erioed well na chwi. Duwiau ydych, ac nid dynion. Gwnaf chwi yn benaethiaid," byrlymiai Gruffydd allan.

"Oni fyddai yn well i ti hwylio ar hyd yr arfordir, a galw yn Rhuddlan gyda Rhobert, y barwn enwog, a'r cadlywydd diail, nai i Huw, Iarll Caer, a gweddiaw am ei gynorthwy yntau yn erbyn dy elynion? Nid yw Trahaearn, na Chynwrig ab Rhiwallon wrth fodd ei galon. Byddai yn hawdd sicrhau ei ffafr, a'i gael i gydymuno â ni i'w hymlid a'u diorseddu. Rhaid i ni wneyd ein trefniadau yn gadarn. Ni wiw i ni gychwyn heb wneyd ein parotoadau, yn y fath fodd, fel y byddwn yn

Digitized by Google

sicr o orchfygu. Rhaid i ni ofalu fod pob wy yn iawn, eistedd ar y cyfryw, fel y bydd iddo ddeor, a dwyn allan gyw. Ni fynwn un cloncwy."

"Yna yr ydych yn credu mai gwell i chwi fyddai peidio rhoi cad ar faes, hyd nes myned i Ruddlan at Rhobert, fel y gellid ei gael yntau i ymuno â chwi yn yr hyfelgyrch yn erbyn Cynwrig yn Lleyn, gorchfygu a lladd hwnw yn gyntaf, ac yna gwneyd ymosodiad yn ddilynol ar Trahaearn, a lladd hwnw," ebai Gruffydd.

"Yn hollol felly," ebai Asser.

"Rhaid i mi, o ganlyniad, hwylio tuag yno, i chwilio allan pa beth a allaf wneyd."

"Nid oes dim amser i'w golli," ebai Asser, "a byddwn ninau yn barod i gydymuno â'i lu yntau."

"Gan fod Rhobert yn nai i Iarll Caer, oni fyddai yn well ceisio ei gael yntau i ddyfod allan gyda'i lu i ryfela?"

"Nid elli wneyd byth yn ddoethach. Nid oes dim sydd yn well na chael pobl o'n tu, ac i ymladd o'n plaid."

"Ni ddaw dim lles o siarad chwaneg," ebai Gruffydd.

"Os daw rhyw ddaioni o'r hyn a siaradwyd," ebai Asser.

Dyma Gruffydd yn hwylio i'r fordaith. Y mae wedi llwyr anghofio holl gynghorion Cynfrig Hir, pa un ai doeth ai anoeth. Rhaid gadael i'r dyfodol ddadblygu a dangos y cyfryw yn eu lliw priodol eu hunain.

Yn ei ddilyn, ac yn gydymaith iddo, ac yn dringo i'r llong y mae Cynfrig Hir, purach cyfaill a glanach ei galon nid anadlodd, awyr erioed. Dilynai ei sodlau yn benisel. Nid ynganai air, gydag anhawsder y llwyddid i dynu allan atebion i'r cwestiynau a ofynid iddo. Pensynai a thueddai i fyned o'r neilldu, fel pe dan afiechyd trwm. Yr oedd Gruffydd, fodd bynag yn llawn asbri, yn siarad ar draws ac ar hyd, ei feddwl yn uchel a'i galon yn falch. Fe welai oleuni heb ddim tywyllwch—yr awyr yn hollol ddisglaer, heb gynifer ag un cwmwl cymaint a chledr llaw yn un man. Fe welai ei ffordd yn arwain yn unionsyth i'r orsedd, heb un groesffordd, rhiw, na chlipyn i'w droed dripio yn unlle. Ffordd wastad, lydan ar ei hyd, fel y gellid rhedeg cerbyd yn rhwydd ar hyd-ddi. Ni fyddai galw arno i agor llidiart nac i groesi camfa.

Y fath hwyl, y fath lwyddiant sydd yn ein haros! Byddaf cyn pen nemawr fisoedd wedi adfeddianu fy nhreftad, wedi rhoi cyrff y treiswyr drwg yn ysglyfaeth i fwystfilod y maes ac ehediaid fulturaidd yr awyr, eu diwedd fydd i gigfranod y

Digitized by Google

creigiau dynu eu llygaid. Bydd i minau gael fy nghoroni yn ben, nid ar Wynedd yn unig, ond ar Ddeheubarth hefyd; a bydd fy nhywysogaeth yn ddisigl."

"Nid y boreu y mae canmawl diwrnod teg," sibrydai Cynfrig mewn tôn sarug. "Ni fydd i feibion Merwydd, Huw, na Rhobert, sefyll yn hir o'th blaid. Bleiddiaid mewn crwyn defaid bob copa walltog. Gelynion nad elli eu dysgwyl yn *wir* gyfeillion. I'm tyb i, y mae myned ar hynt i Ruddlan a Chaer yn weithred mor ffol ag a fuasai myned i ofyn ffafr penaeth y tywyllwch i ledaenu pelydrau goleuni!"

"Pw! pw! pw! paid a siarad yn ynfyd. Fe lwyddwn i'w cael oll yn gyfeillion i'm hyrwyddo i fyny i'r orsedd."

"Da, da iawn; ond bydd yn ddigon buan barnu wedi gweled y diwedd, a gwaeddi hoi o! wedi enill y gamp. Mae yn rhy fuan eto."

Nid oedd yr hwn a fynai fod yn dywysog yn gallu llyncu dim a ddywedai, nac un dywediad yn siglo ei gred. Hwylid yn mlaen yn gyflym. Chwythai awel gref o'u tu, a phelydrai llewyrch dysglaer yr haul yn danbaid, fel i chwanegu llawer at gysuron y fordaith. Heb braidd yn wybod, dyma hwy wedi cyrhaedd genau yr Elwy. Hwyliwyd i fyny yn gyflym y Glwyd. Dyma hwy o flaen Castell Rhuddlan. Cawod o saethau yn ehedeg ac yn rhwygo yr awyr oddeutu eu penau. Arwyddion yn cael eu dangos a llyman o heddychol ddymuniad yn chwyfio oddiwrth bob llong. Cyn hir, y mae y Castellwyr yn dyfod i ddeall nad oedd y llynges yn un ryfelgar. Cychod yn cael eu parotoi. Dyma hwy yn hwylio i gyfeiriad y llynges. Rhwyfent yn gyflym. Curid y rhwyfau yn erbyn y dwfr yn galed a gerwin, yr hyn a achosai iddo godi yn donau. Maent yn dynesu. Beth fydd natur yr ymgyfarfyddiad a'r ymddyddan? Cawn weled rhagllaw.

PENOD IV.

TYNU Y GATH O'R CWD.

Yn y cwch y cyfeiriwyd ato yr oedd Rhobert (Arglwydd Rhuddlan) a Huw Flaidd, neu Fras—adenw lled annymunol, ond hollol nodweddiadol o'r cymeriad. Ni fu blaidd erioed cyffelyb iddo, nac un a hoffai yn fwy ymfrashau trwy fwyta eraill i fyny bob mymryn. Nid oedd enw ein harwr yn anhysbys i'r naill na'r llall. Heb amgylchu, nac arfer un math o resymau tros ei

Digitized by Google

waith yn galw gyda hwy, arllwysai allan ei chwedl. Yr oedd yn ei benglog pan yn cysgu fel yn effro:—

"Y fi ydyw Gruffydd mab Cynan—wedi dyfod o Werddon, lle mae fy mam Rhacwel, lle bu raid i nhad fyned ar ffo. Yr wyf o dras ac o waedoliaeth tywysog o bob ochr. Treftad fy nhad sydd wedi cael ei goresgyn, ei threisio a'i hawlio gan rai heb rith o hawl i'r orsedd. Y fi bia y llywyddiaeth, a fi raid ei chael hefyd. Yr wyf wedi dyfod hyd atoch i weddiaw am eich cefnogaeth i ymlid fy ngelynion. Yr wyf wedi sicrhau llu o wyr pybyr, rhyfelwyr Mon ac Arfon."

"Yr wyf yn hollol gydsynio i ddyfod i'th gynorthwyo. Nis galiaf ddyfod fy hun; ond y mae gen' i ryw driugeinwyr o wyr nerthol, y rhyfelwyr goreu fu erioed yn gafael mewn bwau saethau, yn diweinio ac yn mesur y cleddyf a'r bidog."

Huw Fras a ysgydwai ei ben, pan alwyd ei sylw, ac a ddadganai nad oedd yn alluog i wneyd dim. Lled sarug ac uchelfrydig oedd ei don a holl rediad ei ymadroddion. Ei olygon yn hollol ddiystyrllyd—hollol nodweddiadol o'r gwaed a redai yn ei wythienau. Anhawdd, gallai un dyb'o, fuasai cael ei help i wthio ein harwr yn dywysog ar lygod, chwaithach ar fodau dynol. Mwy addfwyn a charedig oedd Rhobert o lawer. Pan oedd Gruffydd ar hwylio yn ol, sylwai Rhobert:—

"Y mae cares i ti, dynes o bwyll a synwyr cryf neillduol, yn aros yn y Castell; gwraig Llywarch Hwlbwrch, yn dwyn yr enw Tangwystl. Y mae Llywarch yn was neillduol yn y Castell, a bu yn drysorwr i Gruffydd ab Llewelyn. Byddai yn ddoeth i ti fyned i'w gwyddfod gyda mi, fel y byddo i chwi ymgydnabyddu. Cyn pen nemawr fynydau, dyma ef o fewn muriau y Castell, ac yn wyneb yn wyneb â Thangwystl.

"Dyma Gruffydd ab Cynan, dy gar o'r Werddon, y buost yn son ac yn siarad cymaint am dano," ebai Rhobert, gan hwylio ei gerddediad ymaith, a gadael y ddau, heb arall i sylwi na gwrandaw ar yr hyn a ddilynai mewn un wedd.

Fflachiai a thaniai ei llygaid o lawenydd. Rhedodd i ystafell gyfagos gan ddychwelyd yn ddioed gyda chrys o liain main, y goreu a'r harddaf yn yr holl wlad, a phais wedi ei gwneyd o ysgin Gruffydd Frenin. Pan yn ei hestyn gollyngai allan:—

"Dyma i ti roddion gwerthfawr. Henffych well i ti, a gobeithio y byddi yn frenin rhagllaw. Nid oes neb y byddai yn well genyf ei weled yn eistedd ar orsedd Gwynedd na thydi."

"Mae yn ymddangos i mi mai hyny yw dymuniad calon Rhobert hefyd," ebai Gruffydd.

Digitized by Google

"Gochel ymddiried gormod. Mae ef fel yr holl genedl, weithiau y ffordd yma ac weithiau y ffordd draw. Hwi! cwn y dref, hai ein ci ninau! a elli ddysgwyl oddiwrth hil gethin y Saeson a'r Normaniaid?"

"Ai tybed ei fod yn rhywbeth heblaw yr hyn ydyw yn ymddangos? Nis gallaf fyth gredu," ebai ein harwr.

"Nid oes ddadl nad *yw heddyw yn amgen* na'r hyn ydyw yn *ymddangos*. A fydd iddo barhau yn bur hyd nes y byddi wedi myned trwy yr ymgyrch? Tri pheth sydd anhawdd ei adnabod: diwrnod, derwen a dyn. Mae yr awgrymiad yn ddigon. Gofala am ddysgu dy wers yn iawn."

"Ynfydrwydd rhagfarnllyd. Nid yw dyn sydd mor garedig a chlyfar a Rhobert yn gyfryw na fydd iddo wneyd ei creu i ymlid y trawsfeddianwyr o'r wlad, ac i'm gosod inau yn meddiant o dreftad fy ngwehelyth."

"Da iawn! ond peth hawdd ydyw bod yn rhy hygoelus a gorfod dyoddef yn hallt a wylo dagrau yn llif. Os wyt yn credu nad elli feddianu yr orsedd heb ei help, goreu po gyntaf i ti hwylio yn ol. Os nad oes genyt rai cadarnach a mwy disigl na chwiwgwn o Saeson a Normaniaid i bwyso arnynt am eu nawdd a'u cefnogaeth i'th hyrwyddo i'r orsedd, byddi hebddi, a byddi farw yn grwydryn heb le i roi dy ben i lawr."

"Lle i roi 'mhen i lawr, a chrwydryn digartref neu beidio, rhaid i mi wneyd cyfeillion o bawb, a chael pawb i ymladd o'm plaid—Cymry yn gystal â Saeson! Cymeraf bob un yn gyfaill a ddengys garedigrwydd i mi, ac a wena yn fy wyneb, ac a gydreda â mi yn erbyn fy ngelynion, ac a hyrwydda fy ngherddediad i orsedd Gwynedd! Gwae! gwae! nhw os bydd iddynt droi allan fel arall—yn llai na dynion!"

"Nid yw y rhan fwyaf," ebai Tangwystl, "yn dy wyneb yr hyn a fyddant yn dy gefn. Mae digon, a chei weled hyny, y rhai a'th gusanant, fel Judas gynt, yn debyg o'th ladd, pan yn traethu yn dy wyneb eiriau heddwch. Cei lawer o ffalsder mewn llu mawr o bobl. 'Hai gyda'r ci, hai gyda'r ysgyfarnog.' 'Ni bu Arthur ond tra bu.' Tra bu yn llygadu yn dy wyneb, yn bwyta ar dy fwrdd, a than dy arolygiaeth, yr oedd yn bob peth i ti; ond aeth o'th wyddfod, ac nid yw mwyach gyda thi, nac o'th blaid."

"Nid wyf yn gweled," ebai Gruffydd, "y gallaf fforddio amser i siarad â thi. Rhaid hwylio yn ol hyd yn Abermenai. Bydd y triugeinwr o gyfoeth Rhobert, meibion Merwydd, a llu eraill yn rhoi cad ar faes yn fuan, yn erbyn Cynwrig ab Rhiw-

Digitized by Google

allon, y breninyn o Bowys. Bydd ei gorff ef i frain ac adar ysglyfaethus yn ddioed, ac yna dilynir hyny gydag ymosodiad ar Trahaearn ab Caradawc, y brenin mwy, ac yna *gorsedd* ***Gwynedd*** **i mi.**"

"Anhawdd genyf gredu yr esgyni i'r orsedd mor hyrwydd ag y darlunir genyt. Paid a synu dim na gofidio, os cei lawer cant o siomedigaethau a thrallodion. Paid ag arswydo chwaith os bydd raid i ti orfod cilio o'r maes, ac yn ol eto i'r Werddon, gadael Gwynedd, a marw mewn dinodedd bythol. Gelli gael cryn helbulon yn yr ymgyrch gyntaf yn nghantref Lleyn. Nid yw Asser, Meiriawn a Gwgawn yn rhai y buaswn yn ymddiried dim iddynt, ond tra yn fy ngolwg. Ffals, a ffals neillduol, o *hil* ydynt, ac ni welwyd, hyd y gwn, rai mwy rhagrithiol. Tra yn gwenu yn dy wyneb, feallai y trywanir di yn dy galon. Heblaw hyny, y maent yn berthynasau i hil Llewelyn. Mae ganddynt hwy mewn canlyniad fwy o gydymdeimlad â'r cyfryw na chyda thi, ac y mae yn ddiddadl yr hoffent rai o'r cyfryw ar yr orsedd yn well na thydi. Mae Trahaearn yn un o'r gwaed, ac yn bendifaddeu, fe red eu cydymdeimlad o blaid, nid yn unig parhad, ond helaethiad a chryfhad ei orsedd. Dichon y cei eu cefnogaeth i ryfela ac i ladd Cynwrig. Llawn mor debyg y gwnant hyny yn galonog a dihafarch; ond ni fydd iddynt wneyd hyny o deimlad da ac o ddymuniad dy weled di yn goresgyn y wlad, ac yn ymsefydlu yn dywysog, fy nghar. Yn fy meddwl i, bydd eu nôd hwy i gyrchu ato, yn wahanol i dy un di. Pa un ai tydi yn mhen y rhyfelgyrch a fyddi wedi bod yn cyflafanu iddynt hwy i gyrhaedd eu nôd, ai ynte i ti dy hun, sydd eto i ddyfod i'r golwg? Tybio yr wyf y bydd y naill yn dysgwyl i'r brwydro, yn y pen draw, arwain i gyfeiriad hollol wahanol. Mae amcan y naill a'r llall yn *hunangar*, a phob un yn dysgwyl i'r frwydr droi o'i du, a phalmantu ei ffordd i lwyddiant. Un o'r *un* anianawd ydyw Rhobert hefyd."

"Ni choelia'i nad wyt yn ynfydu. Pe bawn yn coleddu dy syniad, ac yn gweithredu ar yr egwyddor o ddrwgdybio pob un, ac o amheu cywirdeb pob enaid, fe fyddai yn waeth nag ofer i mi anturio i faes y gwaed; a buasai yn ddoethach i mi hwylio yn ol at deulu Racwel, fy mam. Nid felly y try allan, y mae y gwr cadarn ar faes y gad, neb llai na Meiriawn Goch, y pendefig o uchel waedoliaeth o Edeyrnion, yn addaw dyfod i'r maes i frwydro o'm plaid. Nid ellid cael ei ragorach, na rhyfelwr dewrach."

"Gwaeth, gwaeth, a saith waeth eto," ebai Tangwystl. "Bu-

Digitized by Google

asai yn well gen' i y *cythraul* ei *hun* nag ef. Mae yn ddrwg genyf drosot. Mae rhyw ysbryd yn sibrwd yn fy nghlust, gobeithio mai un *celwyddog* ydyw, nis gwn o ba le y daeth, na pha beth ydyw ei enw, y bydd i'th hygoeledd dy arwain megys gerfydd dy drwyn, a bydd i hyny ddwyn helyntion blin i'th ran."

"Yr oeddwn yn tybio yn sicr mai rhyw ysbryd, a gwyddwn un o ba le, oedd yn pwnio yn dy ben. Ystrelgi drwg ydyw, paid a gwrandaw arno, na dyweyd dim ar ei ol. Nid ydyw ei straeon drwg o ddim gwerth. 'Does ganddo na chynllun na rheol, ond i arwain y byd i bendramwnwgl."

"Beth bynag ydyw yr ysbryd," ebai Tangwystl, "credaf dy fod di yn cael dy arwain yn gwbl gan ysbryd cyffelyb i'r un y *myni* di i'r hwn a sibryda i mi *fod*."

"Rhaid i mi derfynu, y mae yn hwyr glas hwylio. Mae y llongau yn barod, dacw yr hwyliau i fyny. Mae y llu yn dysgwyl. Mae yn llawn bryd hwylio am Abermenai. Yr wyt dan ddylanwad rhyw fath o ysbrydion, y rhai y bydd i mi weddio yn daer rhagddynt, na ddaw un o honynt i ddylanwadu arnaf, nac i'm llywio. Yn iach! yn iach! Heddwch a syberwyd fyddo'th ran."

PENOD V.

TRWST GELYNION NEU DONAU Y MOR.

Yr ydym yn cael ein harwr, gyda'r triugeinwyr o gyfoeth Rhobert, yn hwylio yn gyflym yn ol am Abermenai, lle yr oedd yn arfaethu, trefnu a pharotoi ei fyddin i'r ymgyrch. Cyn iddo gychwyn yr oedd meibion Merwydd wedi cael eu hanfon dan ei gyfarwyddyd, fel yspiwyr i archwilio holl ranau cantref Lleyn, er cael allan yr holl arsyllfeydd, yr amddiffynfeydd, y fan lle byddid nid yn unig yn debyg, ond yn sicr o ddyfod i ymgudd'a Cynwrig, pan ddychwelid yn ol, fel i fyned ar ei warthaf a'i gymeryd yn garcharor, neu ei ladd—gwneyd y naill neu y llall fel y byddai yn fwyaf hwylus a manteisiol, er gwneyd yr ymgyrch yn llwyddianus. Yr oedd hyny i gael ei wneyd yn y fath fodd fel ag i achosi can lleied ag a ellid o dywallt gwaed.

"Yr ydych chwi," ebai ein harwr," yn hollol hysbys o bob glan a chilfach o'r wlad, ac yn gwybod am holl ysgogiadau y breninyn Cynwrig, ac yn meddu mantais i wybod pa le y mae ef, a'i gadlu, yn farchogion a phedyd (gwyr traed) yn gwersyllu

Digitized by Google

bob dydd a nos, neu hwyrach yn fwy manwl na hyny. Ewch trwy wahanol ranau y wlad yn y fath fodd fel nad eill neb gael lle i'ch drwgdybio. Mae yn hawdd i chwi wneyd hyny; yr ydych yn wyr o gyfoeth, yn meddu ceffylau, gwartheg, a defaid. Hawdd fydd i chwi ymlwybro yn lladradaidd, a ffuantu eich bod ar ymchwil am rai o'ch anifeiliaid crwydredig. Peidiwch a siarad wrth eich gilydd, wrth na bychan na mawr o barth i'ch harchwiliad. Byddwch wedi teithio o ben i ben i'r wlad, ac wedi dychwelyd erbyn y deuaf yn ol o Ruddlan, gyda gwyr grymus o Degeingl i ruthro i'r gadgyrch. Cewch yn ganlynol i hyny, arwain eich gwyr eich hunain, a lluoedd Mon a Rhuddlan i'r fan lle bydd y treisiwr yn aros a thori ei ben ef a'r rhai nad ellir eu troi o'n plaid, a'u dwyn yn rhan a chyfran o honom, wedi i'r frwydr fyned trosodd, fel pe yn geiliogod rhedyn. Cofiwch beth bynag am i'r ymdaith gael ei chuddio. Na fydded i sisial lleiaf ddyfod allan o'ch genau, rhag i'r cyfryw gael ei ddwyn megis ar adenydd yr awelon i glustiau y goresgynwr dihawl."

Yr oedd Asser a'i frodyr yn calonog gydsynio â'r cynllun, ac yn gosod allan y byddai iddynt deithio gyda glan y môr, pan yn myned ac yn dychwelyd o'r berfeddwlad. Dangosid mai ychydig fyddai yr amser iddynt gwblhau yr holl ymdaith yn mlaen, yn gystal ag yn ol.

Yn ddilynol i hyn, esgynodd ein harwr i un o'i longau, a hwyliwyd ymaith i gyfeiriad Rhuddlan, i sicrhau cefnogaeth o'r parth hwnw. Meibion Merwydd gyda gosgorddlu fugeiliol a hwyliasant heb fod nepell o'r arfordir, gan ffuantu eu bod yn ymchwil am ferlod oeddynt wedi myned ar grwydr. Un siaradus a thafodrydd neillduol oedd Asser. Nid oedd wedi ei gynysgaeddu â'r gras o beidio siarad a brolio ei hun yn mhob congl lle yr elai. Tywalltai allan ei holl sach, ac ysgydwai hi. Yr oedd yr anrhydedd o gael eu penodi yn archwilwyr i Gruffydd ab Cynan, yn anrhydedd nas gallent fod yn ddystaw yn ei chylch. Yn llawen, llawen, ac wedi mwy na haner bendroni, aethant i'w taith, ond nid yn dawedog. Siaradai a chynlluniai pob un, a cheid hwy yn gweled gweledigaethau, ac yn prophwydo llwyddiant, wedi terfynu o'r ymgyrch. Yr oedd y si wedi myned allan yn lled gyffredinol cyn nos dranoeth. Maent yn hyrdd-deithio yn gyflym, ac yn parablu yn barhaus. Dyma hwy wedi cyraedd Clynog; a gwyr Cynwrig yn bygwth cymeryd ymaith eu bywydau. Yma bu raid iddynt ymnoddi rhag ofn gwyr Powys.

Digitized by Google

Pan yn hwylio yn ol o Ruddlan, yr oedd ein harwr yn uchel a llawen ei galon, yn sicr yn ei feddwl, y byddai Asser a'i lu, wedi dychwelyd yn ol, yn dysgwyl ei ddyfodiad yn bryderus yn y porthladd, gyda braslun o'r gadgyrch, wedi ei dynu allan, fel na fyddai eisiau colli dim amser. Gwelai Asser yn rhoi cad ar faes, ac yn arwain y rhuthrgyrch yn unionsyth i'r fan lle yr oedd Cynwrig yn aros, yn anfon ei ben ef, a'r rhai nad ellid da o honynt i ehedfan, ac yntau yn cael ei osod yn dywysog ar y rhan dan sylw, i aros hyd nes yr ymwthiai yn mlaen yn dywysog holl Wynedd.

Ar y lan canfyddai ein harwr ddyn ieuanc fel pe mewn dygn boenau, a gofidus gyflwr, yn teithio yn ol ac yn mlaen. Synai pa beth a allai hyny fod. Syllai i'r cyfeiriad yma, ac yna i'r cyfeiriad arall, gan ddysgwyl gweled meibion Merwydd. Hyny nid allai, er craffu yn fanwl. Dyma y llong, ar fwrdd pa un yr oedd, yn dynesu at y lan, ac o fewn cyraedd siarad â'r gwr ieuanc.

"Pwy wyt ti, a pha beth ydyw dy enw?" gofynai Gruffydd, yr hwn yn wastad agos, yn ddiamynedd, a osodai lu o gwestiynau yn dyn, yn ysgil eu gilydd.

"Un o Arfon wyf fi, mab i gywarchwr o'r un enw a minau. Fy enw yw Einiawn, a phwy wyt tithau sydd yn gofyn i mi?"

"Myfi ydyw Gruffydd."

"Pa Ruffydd? Gruffydd y tywysog o'r tu hwnt i'r mor?"

"Ie, dyna'r Gruffydd ydwyf. Pa neges sydd genyt mewn lle fel hyn, a oes genyt rywbeth i'w ddyweyd am helynt y wlad?"

"Daethym ar redeg ar neges i'th gyfarfod i fynegu i ti ddarfod i feibion Merwydd ollwng y gath o'r cwd. Daeth i glustiau gwyr Powys mai yspiwyr oeddynt dan gyfarwyddyd Gruffydd, neb llai na dy hunan, yn archwilio ansawdd y wlad, yn edrych ei noethder, ac y byddai iddynt gael eu dilyn gan fyddin o wyr arfog, y rhai a oddeithient yr holl fangre yn lludw. Cilgwthiwyd hwy yn ol, ac y maent yn awr yn ymnoddi yn Nghlynog, a gwyr orfog yn bygwth cymeryd ymaith eu heinioes."

"Dyna nhw y chwilod têS trystfawr, y cacwn y meirch, er maint ddarfu i mi beri iddynt gadw yn ddystaw, y maent wedi dyfetha yn ulw fy holl gynlluniau. Yn ymnoddi yn Nghlynog, aïe, y pryfaid ilwydion, y daear foch diddim! Y nhw yn wir o bawb yn son am roi cad ar faes. Y maent fel malwod wedi tynu eu cyrn i mewn, ac ymglapio. Yr oeddwn yn lled ofni, wrth dwrw Asser, nad allai lwyddo i fyned yn mlaen gyda'r cynllun a osodais i lawr iddo. Y mae yn debyg iawn i gacynen

Digitized by Google

y meirch. Ond rhaid gwneyd y goreu o'r gwaethaf. A wyddost ti amcan daear, pa le y mae Cynwrig yn ymlochesu, fel y gellir trefnu i alw heibio Clynog, gyda'r llu sydd genyf, a'r pedwar ugeinwr o Ynys Fon, fel y gallom gael ei ben ef ac eraill i ddychryn brain sydd yn peri colled gyda'r cynyrch yr adeg yma o'r flwyddyn? Os gellir eu cael i wneyd y gwasanaeth hwn, fe fyddant wedi gwneyd *un* da, a'r unig *dda* a ddarfu iddynt erioed gwblhau."

"Nid ydynt nepell oddiyno, mewn caerfa a elwir Penygaer," ebai Einiawn, "lle y mae prif amddiffynfa a phalasdy Cynwrig. Mae pen blwydd ei ddau efell, y rhai cyntafanedig i ddygwyddo yn fuan. Mae darllaw mawr wedi bod gogyfer â gwledd sydd i gymeryd lle, a dywedid i mi gan un o'i weision gwahanredolaf, bod y wledd i gael ei chadw amryw ddyddiau, ac y bydd yno uchel loddest nos drenydd. Bydd pob un yn mesur y llawr, ac mor analluog i wneyd defnydd o'u traed a'u breichiau, a phe buasai y rhanau hyny wedi eu hesgeuluso yn eu creadigaeth.

"Ni fu cyfleusda mwy euraidd erioed i ddyn roi cad ar faes, ac i enill y frwydr. Hawdd fyddai iladd pob copa walltog o fewn y fangre. Rhaid dieneidio pob un sydd yn sefyll i fyny yn ein herbyn, yn mhob congl a chilfach. Nid ydynt i ladd y rhai sydd yn debyg i droi yn ddeiliaid i mi. Yr wyf fi am aros yma hyd nes yr elo y frwydr trosodd. Byddaf yn awchus ddysgwyl am y dynghedfen. Dyma Tudur a Chollwyn i arwain byddin,—marchogion a phedyd Mon. Rhuthrwch a gyrwch yn mlaen, yn ddihafarch. Teithiwch yn ystrywus heibio gwyr Clynog, lle y mae meibion Merwydd yn chwareu mig â gwyr Powys. A oes yno lawer o honynt yn eu gogyfaddaw (bygwth), dywed Einiawn?"

"Nis gwn i ddim. Ni welais i neb, na neb arall yn dyweyd ei fod wedi gweled un dyn: ond fe glybuwyd eu swn, fel twrf taranau yn trystian yn fawr, yr hyn a barodd arswyd a braw i ni oll, yn fwy felly gan ei bod yn nos, a chrynai aelodau pob un o honom fel deilen," ebai Einiawn.

"Chlywais i erioed y fath ffwlbri! Yr hen wylanod a sianiaid cadachog,—yn dychryn ac yn rhedeg i lechu heb weled dim. Swn wedi eu hymlid, a digon tebyg nad oedd y swn ddim amgen na swn tonau y mor. A fu rhai o honoch yn gyfagos i for cyn myned i Glynog, a chyn fy nghyfarfod i yn y fan yma?"

"Nid wyf yn gwybod. Ni fum i ddim, ac nid wyf yn meddwl chwaith y bu neb o'r lleill," ebai Einiawn.

"A wyt ti yn sicr, nad rhuadau a gwrthdarawiadau ac ys-

Digitized by Google

lotiádau y llanw oedd y twrf a glywsoch? pa fath dwrw oedd y swn?" ebai Gruffydd.

"Nac wyf yn sicr. Hyn a wn, na welais un dyn, nac anifail yn un man, ac er edrych i bob cyfeiriad, a chraffu yn fanwl. Ryw swn suo a suo, ni chlywais erioed swn yr un fath."

"Y mulod diddim. Mae yn resyn eich bod wedi eich geni erioed, ac yn fwy o aflwydd na hyny, fod neb wedi cymeryd trafferth i'ch magu—y pryfaid genwair gwael. Achlod, na fuasech wedi myned i gyraedd y llanw, a chael eich cludo ymaith, rhag cywilydd clywed son am danoch. Dyna yr unig fedd a ddylasech, ac a ddylech gael. Nid oes un o honoch yn werth drychu bedd iddo. Os na fydd i chwi weithio yn ddihafarch yn Mhenygaer, mi fynaf er eich gwarth a'ch gwaradwydd eich dyspaddu o'r lleiaf hyd y mwyaf, fel y byddo i'ch had golli, a'ch coffadwriaeth ddiflanu o'r tir. Cerdda ymaith ar frys, ac arwain y minteioedd hyn mor ddirgel ag y gelli. Na fydded i swn gwynt na dwfr dy ddychrynu di na hil Merwydd. Os na ddilyni fy nghyfarwyddyd i'r llythyren, gwae dy ddau lygaid a'th wrywdod di a hwythau. Gwnewch y defnydd a ddywedais o'u penau, wedi y lladdoch hwy."

PENOD VI.

NODWEDD Y GENADWRI O GADGYRCH PENYGAER.

O WYDDFOD ein harwr ymlithrodd Einiawn, gyda lluaws o gymdeithion, i roi cad ar faes yn erbyn gwyr Powys, a chedyrn lu Cynwrig. Er bod yn eu plith wyr o ryfelwyr dewr a phybyr, bob un yn arfog,—gwyr Tegeingl a milwyr Mon a ffurfient gadlu cadarn, digon, gallasai un dybio, i orchfygu unrhyw lu a ddygid i'w herbyn; maent yn unol, ac ymddangosai y llu yn gyfryw ag y buasai gan drefiad neu ddinas gadarn eu harswyd,—y mae eu llwyddiant rywfodd i'w gwestiyno.

Y mae Gruffydd, gydag ychydig nifer, yn aros ar ol. Mae ei gyfarwyddiadau wedi cael eu rhoi, a gwae os na ddilynir hwy!

Nid rhyw foddog a rhywiog neillduol y mae Einiawn yn teimlo. Cafodd gyfarchiadau chwerwach a llawer mwy sarhaus nag a fuasai ef yn deimlo yn rhydd i'w rhoi i neb ei hun.

Pan yn teithio yn mlaen yn gyflym gyda bustl a surni yn llenwi ei ysbryd, clywid ef yn sisial: "Son am y fath beth a

Digitized by Google

thynu ein llygaid, a chwanegu at hyny y creulondeb o'n dyspaddu! Nid oedd ryfedd i'w wehelyth fyned fel nad ellid cael neb i'w caru, nac i ymladd o'u plaid. Nid oedd yn syndod yn y byd i'w dad Cynan orfod ffoi i'r Werddon, ac yno, yn ol fy marn i, y dylasai yntau a phob copa walltog o'r hil aros! Pwy fyth a wirionai i ymladd o blaid rhai fel hyn!"

Yr oedd doluriau ac anheddwch mawr yn meddianu ysbryd ein harwr tra yn y porthladd yn aros am y newydd. Yr oedd fel pe buasai rhyw ddysgwyliadau yn codi yn ei feddwl am y newydd o faes y frwydr y dydd cyntaf. Pryder a phryder a'i llywodraethai bob modfedd o hono. Ymsymudai o'r naill gyfeiriad i'r llall. Ymsaethai yr awydd am y newydd fel gwefrdan trwy ei holl adeilwaith, yr hyn a barai iddo dori allan i lefain wrtho ei hun: "Achlod i'r hen falwod sal, y maent yn hir yn dychwelyd gyda'r newydd am y dynghedfen! Ai tybed na fydd iddynt lwyddo i ladd Cynwrig, a dwyn ei ben i mi? Os felly fydd, fe gaiff cigfran y clogwyn gyfle i dynu ei lygaid a gwledda i'w chiniaw. Bydd llenwi cylla yr aderyn hwnw, er gwaeled peth ydyw, y gwasanaeth goreu a wnaeth ei ddau lygad erioed. Mae gan y gigfran fwy o hawl i gael gwneyd gwledd ar ei lygaid nag sydd ganddo ef, ac nag a fu ganddo, i draws-hawlio fy awdurdod i yn gysylltiol a Thrahaearn, i eistedd ar, a llywio Gorsedd Gwynedd! Pa le y maent bellach tybed? A ydyw Einiawn wedi llwyddo i bwnio i gnau llaeth y gath, meibion Merwydd, nad bygythion dewrion wyr Powys ydyw yslotiadau, dygyfor tonau y môr, swn gwynt yn y creigiau, llais brain yn y meusydd, a thwrf gwylanod y môr? Ai tybed y bydd iddynt allu myned yn ddigon ystrywus a llwynogaidd ar warthaf y gloddestwyr yn Mhenygaer, a chwblhau yr erfa heb yn wybod iddynt? Eu lladd bob un fuasai y goreu, a buasai yn rheitiach i mi roi archiad felly iddynt. Nedd faga lau, ac o geudod y niwl y daw gwlaw allan bob amser. Ni fydd i neb sydd yn ei luesty ef ddyfod yn ddeiliaid ufudd a hawddgar i mi. Byddant fel drain mewn nyth, ac yn bigiadau yn fy ystlys."

Ymsoniai fel hyn ar draws ac ar hyd. Teithiai y ffordd yma, ac yna draw. Rhedai a neidiai ar adegau i gyfeiriad y wybren, fel ped yn cael ei godi a'i ysgubo gan ryw nwyfiant angerddol, neu ryw allu trydanol o'r byd anweledig, gan syllu i'r cyfeiriad o ba le y dysgwyliai frys-negesydd, i'w hysbysu o'r modd y trodd y fantol. Yn nghanol ei holl wroldeb, llenwid ef â gwangalondid, a chrynai o'i goryn i'w sawdl. Iasau o arswyd ofnadwy a dreiddient trwyddo, y rhai a'i harweinient i gredu bod pob un

Digitized by Google

yn wenieithiwr, ac nad oedd yn ddyogel iddo ymddiried i'r rhai ffyddlonaf.

Er ei fod yn un tra hygoelus, yn rhy dueddol i gymeryd pob un yn gyfunwedd â'i ymddangosiad ac â'r hyn a broffesai, ymdaflai ar adegau i'r eithafrwydd yr ochr arall. Nid allai gredu bod neb i ymddiried ynddo. Ofnai mai troi yn elynion iddo a wnai yr oll a anfonodd allan.

Yn hwyr y pumed dydd, pan mewn dwfn anobaith, ei olygon wedi pylu wrth graffu, gwelai ddyn yn carlamu ar draed tuag ato. Dychlamai a llonai ei galon o lawenydd. Yr oedd ei rediad a'i holl ysgogiadau yn dwyn arno arwyddion un yn dwyn brys-neges o newyddion da. Dyma ef yn dynesu, ei wynebpryd yn fflachio ac yn serenu o newyddion da. Adnabu ein harwr ynddo ef Einiawn, a hwyliodd i'w gyfarfod. Ust! beth ydyw y newydd? Gwrandewch arno yn traethu ei genadwri. Fe wna hyny cyn y geill neb gael cyfle i holi gair. Mae Gruffydd yn gwelwi yn ei wyneb, ac yn ofni.

"Llwyddiant anarferol fu ein hymgyrch, Gruffydd Frenin," a wthiai Einiawn allan o'i enau yn byffiog a chlonciog, a'i anadl megis yn ei ddwrn, wedi rhedeg yr holl ffordd, hyd nes yr oedd wedi llwyr golli ei nerth, gair a phwff o anadl bob yn ail. "Esgynasom ael y bryn, ac aethom i mewn i Benygaer heb yn wybod i un gwr. Pob un nid yn unig yn feddw, ond yn farw feddw. Y gwylwyr tuallan yn gydwastad â'r llawr. Nid ellid dweyd y gwahaniaeth, ac nid aethom i geisio chwaith, rhyngddynt a chelaneddau wedi syrthio yn nydd y gad. Ond i fod yn sicr y caem ymwared o honynt rhagllaw, ac i foddloni ein hunain na fyddai y bywyd a fu o un gwasanaeth iddynt yn ol llaw, gofalasom am wneyd pob un, fel os byddai iddo godi y cymerai gryn yspaid iddo i ddyfod o hyd i'w ben."

"Pa sut fu i chwi wneyd eich ffordd i mewn? oedd y dorau yn agored? oedd pob un yn feddw oddimewn? pa beth fu tynged Cynwrig? a lwyddwyd i dori ei gneuen llaeth y gath? ac os felly pa le y mae?"

"Du—du—du—wch anwyl, yr wyf wedi colli y rhan gyntaf o'th holion. Nis gwn eu haner. 'Delli di ddim holi yn fanach—un ar unwaith?" pwffiai Einiawn.

"Ysgrwb yn meddu cof llai gafaelgar a mwy diwerth na'r estrys! Dywed dy chwedl yn hyrwydd, yn dy ddull dy hun," taranai Gruffydd, mewn llais cras, gan wisgo arwydd ei fod yn pallu yn ei amynedd.

"Yr oedd y dorau yn agored led y pen, dim ond y rhagddor

Digitized by Google

i atal y cwn a'r moch i wneyd eu ffordd i mewn. Darfu i ni ruthro i mewn gyda'n bwyeill a'n gwahanol arfau yn barod i waith. Llefai Meiriawn Goch o Edeyrnion, un o wyr Rhobert, y safai ef ar y brif fynedfa, y tuallan i'r muriau, ac os byddai i rai wneyd ymgais i groesi y rhiniog y byddai iddo groesaw i wneyd hyny os gallai heb ei ben. Yr oeddynt oll yn feddw ac yn mesur y llawr. Ni fu erioed y fath lu, a darfu i ninau ddechreu eu medi o'u cwr; ond darfu i dri meib Merwydd ein darbwyllo i atal ein llaw, gan fod yn eu plith geraint iddynt hwy, y rhai nid oeddynt yn dymuno eu dinystrio gyda'r lleill."

"Yr ellyllon o'r fagddu, beth oedd yn eu corddi! Nid hyny oedd y rheol i fod! Arbed ceraint yn wir! Ond gan gofio, waeth befo; hwyrach y gallwn eu gwneyd hwy ac eraill a arbedwyd yn ddeiliaid ffyddlawn i ni. Ond hwda, beth fu ffawd Cynwrig?"

"Rhuthrais i fyny i'r ystafell freninol, lle yr oedd yn eistedd mewn cadair yn feddw a hollol ddiymadferth, a chydag un ddyrnod â'r fwyell hon anfonais ei ben i ehedeg! Ysgydwodd yntau, a rhoddodd ryw hyll naid yn ŷ cyfwng, a disgynodd ei draed ar ei ben ei hun! Yr oedd penau eraill o safle uchelwyr wedi eu dadgysylltu oddiwrth eu cyrff,—dynion yn llawn o waed, yr hwn a fyrlymai allan, gan ymsaethu i fyny a lliwio y nenfwd. Pistylliai i bob cyfeiriad, a dyma fi wedi fy lliwio ag ef o'm pen i'm traed!"

"Wel, pa beth a wnaethoch gyda'i ben? a ddygwyd neu a ydyw yn cael ei ddwyn i mi?"

"Gadawyd ei hyll ben yno, a'i ddau droed yn ei sathru ganddo ef ei hun, yn fwyd i gwn annwn."

"Yr wyf yn synu na fuasech yn dwyn ei ben gyda chwi yma; ond ran hyny waeth am dano."

"Ond," ebai Einiawn, "y mae gen i awydd cael anrheg genyt. Nid wyt am dynu fy nau lygad, na'm hanghymhwyso i gymeryd gwraig, ar ol i mi frwydro mor dda. Y wobr 'goelfain enwedig,' er cof am yr ymgyrch, ydyw cael Dylat yn wraig i mi, yr hon gynt fu yn ordderch-wraig i Bleddyn, ewyrth i Cynwrig o frawd ei dad."

"Y creadur dwl, gelli feddwl y cei hi o'm rhan i. Nid oes arnaf fi ddim gwenwyn i ti ei chael beth bynag."

"Nage, nid o fregedd ond o ddifrif," mwmiai yntau mewn tôn edliwgar ac erfyniadol."

"Paid ag ynfydu! Cymer di hi o'r naill neu y llall, a gwna undeb a hi o fregedd neu o ddifrif mor fuan ag y gelli! Bydded yn goelfain i ti am dy chwedl o fawr lawenydd i mi."

Digitized by Google

Pan oeddynt yn siarad fel hyn, ac yn dysgwyl yn awchus am ddychweliad y lleill o'r cadgyrch, yn edrych ac yn sylldremu i'r cyfeiriad hwnw yr oedd dau lygad ein harwr ar hyd yr adeg. Yr oedd ei drem yn gwisgo arwydd benderfynol o naddu ei ffordd yn mlaen trwy rwystrau o bob rhyw, hyd nes goresgyn holl Wynedd. Yr oedd dyfodiad y lleill yn ol i benderfynu pa gyfeiriad a gymerai yn y dyfodol. Pan yn y dysgwyliadau pryderus hyn, clywai swn o'r tu ol. Pa fath swn ydoedd? Llais yn llefain, Holo! holo! Dadweiniwch a gloywch eich cleddyfau!"

PENOD VII.

CYNLLUNIAU I GORONI GRUFFYDD YN BEN.

Dwfn a dwys oedd yr arswyd a'r dychryn a feddianai Gruffydd ac Einiawn pan glywsant floedd i'r gad o'u hol. Nid allai ein harwr, ar y pryd, ddwyn ei feddwl i amgyffred na gweithredu. Yr oedd y waedd wedi syfrdanu y naill yn gystal a'r llall. Meddwl, siarad, a bloeddio nid allai y naill na'r llall. Llaw na throed nid allent symud. Yr oedd pob elfen fywydol fel wedi ei llethu a'i chloi i fyny. Arswyd a dreiddiai o fawd y troed i ben y coryn. Sicr ydyw bod yr olwg yn welw ar y ddau. Yr oedd y waedd wedi pendroni y ddau. Yn ddioed symudwyd hwy allan o'u syfrdandod gan lef, yr hon a adnabyddwyd fel llais Asser, yn tori allan: "Pwy ydych chwi? Mynegwch cyn i ni roi eich penau i orwedd lle y mae eich traed."

Ni fu i'n harwr oedi un eiliad heb wneyd yn hysbys nad oedd angen codi y cleddyf, na saethu gyda'r bwa. Un parod oedd Asser gyda'i dafod, a gorsiaradus yn mhob amgylchiad, fel y sylwyd yn flaenorol; ond ni luniai un amser "y gwadn fel y byddai y troed." Byddai bob amser yn llawer hwy a lletach. Nid oedd ganddo amcan daear pa beth a allai, na pha beth nad allai wneyd mewn amser penodedig. Cleddai feddwl uchel am dano ei hun, a thybiai y gallai amgylchu môr a mynydd mewn un dydd. Dyma hwy wyneb yn wyneb a'n harwr, ac Asser a seiniai hunan-glod:

"Oni ddarfu i ni ddyfod yn llwyddianus yn y cyrch?"

"Tipyn o hen wrachod a fu chwi hefyd ar y cyntaf: llochesu ac ymlochesu yn Nghlynog rhag ofn y gelyn, swn yr hwn a

Digitized by Google

"Pa sut y gwn i? I mi y mae y wlad yn hollol ddyeithr."

"Wel, credwyf mai goreu fyddai i ni groesi trwy Lanberis a thrwodd i Nant Conwy."

"Gad gychwyn ynte. Mae yn llawn bryd i ni hwylio ein cerddediad, neu dyma lle y byddwn."

PENOD VIII.

YR YMGYRCH YN ERBYN TRAHAEARN.

Ar ol taith flin trwy dir disathr, ac anwastad, corsiog, a llawn o siglenau, i'r rhai y suddai ein harwr, a lluaws o'i arweinwyr a'i ddilynwyr hyd eu gwasg ar adegau, a chydag anhawsder yr ymrolid ac yr ymysgydwid allan gyda'r bwau saethau a'r cadfwyeill, y maent oll yn lluddiedig,—yn ddamweiniol ac yn hollol annysgwyliadwy, yn dyfod ar draws Trahaearn a'i wyr. Dyma y naill yn canfod y llall, ac yn crynu ac yn gwelwi o arswyd fel eu gilydd. Y mae ein harwr a'i fyddin wedi gogwydd llawer o filldiroedd yn fwy i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain nag y bwriadent pan yn hwylio eu hunain ar eu taith. Dyma hwy mewn glyn cyfyng, wedi cyfarfod â mintai ffyrnig Trahaearn, gydag ef ei hun ar y maes yn eu harwain, a'u calonogi i ryfel. Cawod o saethau wedi trochi en blaenau mewn gwenwyn, yn cael eu cyfnewid, ac yn suddo i gnawd gwyr o'r naill ochr fel y llall. Gwyr Gruffydd yn cael eu llenwi a math o ffyrnigrwydd o wadn y troed i ben y coryn. Maent wedi eu llenwi a math o gynddaredd orgynddeiriog, hyd nes y mae swn y cyfryw yn rhinciadau eu danedd, a rhwnc eu gyddfau. Cluda eu traed hwy yn mlaen gyda chyflymdra melltenol, y saethau o bob tu yn gwau fel cawod o genllysg. Gwyr ein harwr a welir megis yn ehedeg at eu gelynion, a'u llygaid yn fflachio, yn tanio, ac yn melltenu yn angerdd eu llid a'u dialedd. Wele hwy wedi croesi yr afon. Ust, ust, ust, maent gledd yn nghledd, a gwelir penau y gelynion, gwyr Trahaearn, yn hollti fel dernyn o bren onen îr un haner yn cwympo i gyfeiriad pob ysgwydd, hyd nes yr oedd pob haner yn ffurfio math o astellfwrdd o fath na welwyd ei gyffelyb cyn nac ar ol hyny. Penau eraill a syrthient, y rhai a achosent i'r lleill—y rhai byw—faglu ar eu traws, a chwympo, fel Saul gynt ar eu cleddyfau eu hunain, a marw gyda'u cymdeithion yn y fan. Dyma frwydr-fwyell yn chwyrnu heibio llechwedd pen Trahaearn ei hun, gan fwrw i lawr ei ddyddosben, a chneifio croen

Digitized by Google

ei glust ymaith. Ni chafodd ond diangfa gyfyng. Bu agos i'w fywyd a myned ymaith gyda'i ddyddosben. Y mae yr holl lanerch o'r ddau tu i'r afon yn goch gan waed. Gwaed yn llifo ac yn jochio i wyneb gwŷr byddin y naill fel y llall. Dyma y frwydr ar ben. Trahaearn a'i ychydig wyr a adawyd yn weddill yn ffoi ymaith. Gwyr ein harwr yn fwy eu cynddaredd nag erioed, yn eu hymlid yn greulawn, ac yn dilyn yn dŷn eu sodlau, ac yntau ei hun mor llawn ag ŵy o gynddeiriogrwydd, ac awydd diwreiddio yr oll, wreiddyn a changhen, fel na fyddai dim yn aros ond eu celaneddau ar faes y gwaed, a llefai yn groch:

"Ymleddwch, rhedwch, carlamwch ar eu sodlau, lleddwch bob copa. Nedd faga lau, a niwl o'i geudod yntau y daw y gwlaw, fel y gwyr pob un. Gadewch eu hymlid, eu herlyn trwy y coedwigoedd, y gelltydd, y pantleoedd, y glynoedd blinion, y nentydd, ac i bob man lle y bydd iddynt ffoi, ac allan o argyffiniau Gwynedd, os nad ellir cymeryd ymaith eu bywyd cyn i ni gyraedd y terfynau eithaf. Nid oes un o honynt i gael byw os gellir rywfodd ei ladd."

Pan yn siarad yn ffyrnig ac yn ffrochwyllt fel hyn, llifai ewyn yn didau o'i enau. Ymferwai ac ymdrochionai fel crochan yn crychferwi yn grychias ar y tân, ac yn byrlymio tros yr ymyl. Yr oedd wedi anghofio—wedi llwyr ollwng tros gof—gynghor ei fam Racwel iddo, pan ar yr aelwyd gartref, i wneyd a allai i oresgyn a meddianu treftad ei daid, trwy frwydro can lleied ag a allai, a chael pobl trwy ei ddull deniadol a thirion i ganfod mai efe o bawb a fuasai y tywysog mwyaf dymunol i fod yn ufudd a gostyngedig iddo,—i ddinystrio ac i ladd can lleied ag a allai. Eu henill o'i blaid yn addfwyn a deniadol oedd y gwladlywiaeth a gymhellai i'w sylw. Dim o hyn nid oedd yn agos iddo heddyw. Pan yn ffoi gyda y cyflymder mwyaf, cwympai ambell un yn nghanol dyrysni y dyrys-goed a phob math o anialwch, trwy y rhai y gorfodid hwy i naddu eu taith o flaen eu gelynion,—deuai llef allan o enau ein harwr:

"Torwch y ddau ben i bob un, a'r canol hefyd, fel y byddwch yn siwr o ddyfod ar draws y bywyd. 'Does wybod lle mae y bywyd mewn pethau fel hyn, y maent fel pryfaid genwair yn debyg o wingo pan wedi y toroch bob un yn ddau."

Ei gyfarwyddyd a ddilynid i'r llythyren yn mhob amgylchiad. Yr oedd peidio yn beryglus, ac yn sicr o ddwyn cosbedigaeth chwerw, dim llai na cholli einioes i'r neb a anufuddhai. Erlynid gyda'r ffyrnigrwydd mwyaf. Yr oedd yn adeg oer.

Digitized by Google

Dechreuwyd y frwydr yn gynar—yn wir yn blygeiniol yn y boreu. Ni fu yr ymladdfa ond ber. Gyrwyd hwy i ffoi, a buwyd yn eu herlyn trwy y dydd y diwrnod hwnw, y nos ddilynol, a'r dydd canlynol. Dysgwyliai ein harwr y buasai yn llwyddo i oddiweddyd Trahaearn, a gosod ei gorff, neu ei "ran furgynaidd," fel y galwai efe ef, yn dryblith ar lawr, a'i barotoi yn y fath fodd fel na byddai gwaith malu na thrafferth i fwyst-filod rheibus y maes nac adar ysglyfaethus yr awyr ei gludo ymaith yn fân demigau i ymborthi arno yn y daeargelloedd a llochesau y creigiau gerllaw. Dilynwyd ei sodlau ef a'i ychydig wyr o fewn cyraedd ergyd bwa saeth ambell waith, ac ar adegau eraill yn llawer agosach—o fewn cyraedd ergyd cadfwyell; ac nid oeddid yn esgeuluso gwneyd cynyg oreu byth a ellid dan yr amgylchiadau gyda'r naill yn gystal a'r llall, ond ai y naill ergyd fel y llall i'r ddaear neu yr awyr, yr hyn a achosai iddo ollwng allan iaith nad oedd o unrhyw anrhydedd i neb, hyd yn nod yn yr oes farbaraidd hono, a chrugleisiai bod rhyw ysbryd gwarcheidwol yn cyfryngu ac yn troi ymaith yr ergydion o'u cyfeiriad cychwynol, fel nad oedd ond oferedd gwastraffu amser a nerth gyda'r cyfryw. Yr oedd yr ymlidiaeth yn cael ei dwyn yn mlaen gyda'r fath yni rhedegol fel nad oeddynt yn cael seibiant i sylwi pa ffordd yr oeddynt yn erlyn nac yn teithio. Bu agos iddynt a chwympo dros glogwyni mewn un amgylch-iad, a rhuthro i ganol llyn mewn amgylchiad arall, nid amgen llyn y Bala, yr hwn oedd wedi rhewi dros ei arwyneb, ond nid yn ddigon cadarn i gynal neb i deithio drosto. Ymlidiwyd ef trwodd i Ddeheubarth Cymru. Dyma hwy wedi ymlid cyhyd ag y caniata eu tenyn iddynt. Pa beth yn 'chwaneg a allent wneyd? Ai tybed nad ydyw ein harwr wedi cael digon ar frwydro ac anheddwch? Onid eill ef bellach gael digon i'w osod ar yr orsedd, fel y geill yn ol llaw gael deiliaid ufudd, a phob un yn barod i'w gydnabod yn wir a chyfreithlawn etifedd yr orsedd? Ped y mabwysiadai gynllun doeth, gallai yn hawdd lwyddo i ddwyn hyny oddiamgylch. Ond pa beth a wna? Ceir gweled.

PENOD IX.

CYNFRIG YN AMHEU NAD YW GORSEDD GRUFFYDD YN DDISIGL.

Yn nwydwyllt ei natur, yn orgynddeiriog o gynddaredd, edrychai Gruffydd ar ol treisiwr ei dreftad yn teithio dros y

Digitized by Google

terfynau islaw Machynlleth, yn croesi afon Dyfi, ac yn curo yn herfeiddiol y rhan ol o hono ei hun gyda chledr ei law arno ef, a'r rhai oedd yn syllu gydag ef ar yr olygfa. Fel y gwelir ambell geffyl neu anifail barus yn edrych dros y clawdd ar faes o ŷd neu adladd, yn yr hwn y mawr chwenychai fod, ac o'r hwn yn fwy y blysia bori, edrychai ein harwr ar ol ei elyn, yn llidiog; a gwisgai ei adeilwaith arwyddion amlwg y teimlai awydd rhoi llam dros yr afon, ac arwain ei wyr ar ei ol, a phwyso yn mlaen hyd nes y goddiweddid ef, a gwneyd o hono bastai i'r cwn a'r brain. Edrychai a chraffai ar ei ysgogiadau. Sylwid fod nwydwylltedd ei natur yn ei gludo i gyfeiriad yr afon, fel y cludir gwelltyn gyda'r cenllif. Ni ddeuai swn na llais allan o'i enau. Yn ddiswta, dyma fe yn troi ar ei sawdl, ac yn wyneb yn wyneb ag ef y mae Meiriawn Goch o Edeyrnion, y pendefig, yr hwn oedd wedi ei ddilyn yn yr holl frwydrau, ac wedi chwareu ei ran tuhwnt i ddim allesid ddysgwyl.

"Wel, Meiriawn! da, a thu hwnt i allu dyn fu dy ran yn yr ymgyrch. Yr wyt yn deilwng o gael dy godi yn farwn i mi, a thi a gei fod hefyd," oedd y geiriau a lithrent dros wefusau Gruffydd.

"Y mae ein cadgyrch wedi ei chloi i fyny gan yr afon—hyd yma a dim cam yn mhellach y gallwn fyned, a gresyn hyny," ebai Meiriawn.

"Y mae wedi ein gwneyd yn deg, ac i'n blino a'n cythruddo, i'n herio megis, welaist ti ef yn ein gwawdio gyda chledr ei law? Buasai yn dda gan fy nghalon fyned ar ei ol, a gosod ei ben lle y gosodai ei law, yn dâl iddo am ei ymddygiad; ond hidia befo, feallai y daw y dydd eto pryd y gosodir ef yn ngafael edifeirwch lled effeithiol. Mae yn bryd i ni droi yn ol i chwynu ac i arloesi y wlad o lu o fras a mân arglwyddi a ymfudasant yma o leoedd eraill; ac maent yn gwladychu y wlad yn anwir, yn ymsefydlu heb rith o hawl."

"Nid gwaith bychan ydyw hyny: y maent fel llygod yn eu rhif, a gelod penagored yn eu rhaib a'u dinystr ar gynyrch y wlad."

"Ni fydda'i ddim yn hir heb wneyd pen ar eu penagored. Rhaid troi yn ol y mynyd yma. Pa ffordd, pa sut, a pha beth a wnawn wrth ddychwelyd?"

"Credwyf fi mai dilyn ôl ein traed yn ol fyddai y goreu. Mae yr holl laddedigion i'w claddu, a hwyrach y gallem ni wneyd y gymwynas hono. 'Does neb arall a wna."

"Yr holl laddedigion eisieu eu claddu! 'Does eisieu claddu

Digitized by Google

mo'r hen ysgerbydau, eu gadael hwy i'r bwystfilod a'r brain sydd eisieu. Cigfranod y creigiau a dyno eu llygaid a'u hymenyddiau bob un, ac a'u bwytao cyn y dychwelom yn ol. Bwrier eu celaneddau o'r llwybr i'r mieri, y drain, y manwydd, y grug, y corsydd, y siglenydd, dros y cornentydd a'r creigiau, fel y byddo cyfleusderau ac amgylchiadau yn dygwydd. Na chladder un o honynt. Ni thalant am y drafferth. Mae corff marw gelyn yn sawyro yn hyfryd i'm ffroenau i bob amser."

Dyma yr ymgyrch yn hwylio yn ol, yn dilyn ar hyd yr un llwybr ag y buont ychydig oriau yn ol, yn erlyn eu gelynion, a bwrid cyrff meirw y gelynion yn y wedd a gynlluniwyd yn yr ymddyddan blaenorol gan ein harwr. Dychwelid gyda llawn mwy o gyflymdra. Nid oeddynt wedi dwyn gyda hwy ddarpariaeth ddigonol mewn ymborth. Gwneid y diffyg hwnw i fyny trwy droi ar yr aswy neu ar y dde i'r anedd-dai, neu y bwthynod a ganfyddid, i wledda ar y cyfryw ymborth a lwyddid i'w gael. Nid hir y buont ar eu taith ddychweliadol cyn cyrhaedd y Cyfyng, neu y Glyn Cyfyng, lle y dechreuodd y frwydr, a galwyd ef "Gwaed erw neu Tir Gwaedlyd." Yr oedd ein harwr a'i ymladdwyr yn lluddedig a diffygiol oherwydd poethder a ffyrnigrwydd yr ymgyrch. Chwys a lifai i lawr ar hyd yr holl adeilwaith o amgylch-ogylch, gan ddechreu yn y coryn, i lawr i'w hesgidiau. Yr oedd y cyfryw yn llawnion o chwys a gwaed, yr hwn a siglenai, ac a yslotiai gyda phob symudiad. Eu dillad yn deryg tew o waed y gelyn, yn gymysgedig â gwaed eu gwyr eu hunain, a gwympasant yn nydd y rhyfel. Ychydig, ychydig mewn cymhariaeth yw nifer y rhai a ddychwelasant mewn heddwch. Y mae nifer y rhai a gwympasant ar faes y gwaed, yn llawer lluosocach na nifer y rhai a adawyd i ddychwelyd. Nid oes rhith o gymhariaeth rhwng nifer y naill a nifer y llall. Ychydig ydyw y nifer, a thruenus, torcalonus, a gresynus ydyw eu hymddangosiad. Yr hin sydd oer a rhewog. Yn y sefyllfa newynog a difaeth, chwyslyd, a lluddedig hon, y mae y fintai ar hyn o bryd, ar ol yr ymladdfeydd gwaedlyd a fu; y mae sefyll neu eistedd yn beryglus i'r bywyd, er fod hyny yn llwyr anhebgorol i adenill, ac i adnewyddu y nerth a gollwyd. Dyma hwy megys wedi cyraedd pen y daith yn ol. Tawelwch a dystawrwydd a deyrnasai. Ni ddeuai gair na sŵn allan o enau un o honynt. Nid edrychai ac ni sylwai y naill ar y llall. Yn bentwr tŷn yn eu gilydd, ac yn gorphwys ceir hwy y naill yn erbyn y llall, yn debyg i'r modd y gwelir defaid mewn corlan, ar ol cael eu hymlid a'u hel yn fileinig ar hyd y cynefin, cyn

Digitized by Google

llwyddo i'w casglu i mewn; eu gwefusau isaf sydd yn torchi ac yn syrthio tuag i waered, a'r rhai uchaf yn ymollwng yn llarpiau ar eu hol; y cauadau yn gollwng tros y llygaid, fel pe buasai y gallu anianyddol twythrugl (*Indian Rubber*) hwnw sydd yn gollwng ac yn codi y cyfryw wedi colli ei nerth. Y gwddf a ymddangosa yn rhy wan i ddal y pen. Diymadferth a swrth ydyw gallu yr ymenydd. Ond nid hir erioed y gwelwyd nac y gwelir ein harwr yn ddiymadferth ei feddwl, nac mewn un ystyr arall. Y mae Cynfrig Hir gerllaw, yr hwn o rodiad ac anianawd sydd yn gyffelyb i'n harwr, ond yn llawer mwy gwyliadwrus a gochelgar. Nid hawdd y llwyddir i'w hudo ef i fagl na rhwyd o un math. Nid oedd ein harwr wedi cael unrhyw ymddyddan o bwys gydag ef er pan y cyfarfu ag ef y waith gyntaf, pan yr agorai ddor palasdy ei fam yn Nublin, wrth hwylio allan i chwilio am wyr i'w gynorthwyo i adfeddianu ei dreftad, pryd yr agorai ei enau ac y dywedai:

"Yr ydym ar ol ychydig o ymladdfeydd a brwydrau gwaedlyd wedi llwyddo i droedio y treisiwr dihawl Trahaearn tuallan i derfynau fy nhreftad. Yr wyf bellach wedi cipio y dywysogaeth o law y treiswyr a'i preswyliai. Dyma fi bellach yn dywysog Gwynedd. Yr wyf am ddechreu gwastadhau y deyrnas, lluniaethu y werin a'i llywio â gwialen haiarn. Bydd i mi dynu llygaid, tori pen, neu ddyspaddu pob un a gyfodo i'm herbyn. Gwneir un o'r tri yn mhob achos, fel y byddo fy neall a'm doethineb yn fy nghyfarwyddo ar y pryd. Bydd fy llywodraeth yn un gadarn, disigl, a gogoneddus. Nis gallaf feddwl am gynllun gwell i osod fy ngorsedd ar dir disigl."

"Gwynt, gwynt ewyn trochionog ar wyneb y dwfr," ebai Cynfrig; "nid wyt yn nes, coelia di fi, i feddianu gorsedd Gwynedd na phan y cyfarfum di gyntaf. Paid a bloeddio hyd nes y deui allan o'r coed. Y mae amseroedd blinion i'n haros eto. Ni elli fyth osod i fyny, sefydlu, na chadarnhau perfeddwlad, canol, a chonglau tir Gwynedd i ti dy hun gyda dilyn y dull o ladd, dilygeidio, a dyspaddu. Hen arferion dy wehelyth ydyw hyny, yr hyn a enynodd ac a gyneuodd ddigofaint a llid lled gyffredinol yn eu herbyn yn ngwahanol ranau y wlad. Er mai dy dad Cynan oedd etifedd cyfreithlawn yr orsedd, ac efe oedd i olynu ac i gerdded i esgidiau dy daid Iago ab Idwal pan y collodd ei fywyd yn y cythrwfl, ond nid felly y bu. Nid oedd nemawr un o bleidwyr iddo, nac yn barod i sefyll i fyny drosto, ac i hawlio y dywysogaeth iddo. Hyn a achoswyd oherwydd creulonderau eu natur, yr hyn a ddangosid yn mhob

Digitized by Google

amgylchiad. Bu raid i'th dad encilio ar ffo i'r Werddon. Nid yw hyny eto wedi llwyr golli dros gof. Dilyn llwybrau dy deidiau yw hyn o beth, ac ail agor yr hen friwiau, y rhai ydynt erbyn heddyw rhai wedi cramenu, ac eraill wedi llwyr wellhau. Dygai hyn yr un dynged i'th ran a gyfarfu'th dad o'th flaen, neu feallai gwaeth na hyny, rhywbeth cyffelyb a ddaeth i ran dy daid. Hawdd fyddai adgyfodi yr holl ysbrydion drwg. Son am luniaethu gwerin a llywio â gwialen haiarn sydd annoeth ynot! 'Rwy'n meddwl i mi grybwyll hyn yn flaenorol. Nid yw'n waeth ei chwanegu eto."

"Nid yw yr hyn oll a ollyngaist allan ond adlais un yn ymbalfalu yn y tywyllwch. Y mae y bobl wedi llwyr gyfnewid eu syniadau yrwan, a diau nad oes nemawr un nad yw yn ymarferol yn gwybod beth yw edifeirwch am ymddwyn fel y darfu iddynt tuag at ein gwehelyth. Y mae y cylch-gyfnewidiadau o chwyldroadau, o ymladdfeydd gwaedlyd, ac o dywallt gwaed, wedi argyhoeddi pob un, lled debyg, nad yw yr hyn a wnaethant yn iawn. Bu hyny er drwg ac nid er da iddynt. Llawer gwell yn mhob ystyr fuasai pe buasent wedi hyrwyddo ffordd fy nhad, y gwir etifedd, i'r orsedd. Ond dyma fi wedi meddianu y freniniaeth, a phawb yn llefain, 'Henffych well i ti, Ruffydd Frenin.' Caf deyrnasu bellach mewn heddwch."

"Dim o'r fath beth. Y mae i ti afrifed elynion, yn mhlith y rhai y ffuanti di sydd yn gyfeillion da ac yn dy bleidio. Daeth llawer gyda thi i ymladd a'u calonau heb fod gyda thi. Nid yr un peth oedd ac sydd genyt ti mewn golwg, ag oedd ac sydd ganddynt hwy mewn golwg," ebai Cynfrig.

"Gwarchod fi! Beth wyt yn feddwl? A glywaist! beth glywaist, a phwy glywaist yn sisial awgrymiadau o'r fath yma?"

"Nis gallaf weled y byddai hyny o un fantais i ti. 'Rwy'n gallu casglu a thynu allan lawer o bethau oddiwrth edrychiad y gwynebpryd ac ysgogiadau eraill. Geill y bydd ystormydd erchyll a rhuthriadau dychrynllyd yn cael eu gwneyd ar dy hawliau i eistedd ar yr orsedd, ac ymgais i roi y flaenoriaeth i eraill. Nid yw gwir hawl i sefyll dim yn y dyddiau cyrhyrfus hyn. 'Trecha treisied' a fydd y llywodraeth. Cadw dy gledd allan o'r wain i daraw pan y gelwir hyny, ond dim cynt. Y mae arwyddion terfysglyd a dryc-hin yn ymyl. Gofala am dy gadfwyell. Nid yw hi, y cledd, na'r bwa i'w gosod o'r neilldu," ebai Cynfrig.

"Dychymygion ofer, breuddwydion gwrach, sibrwd a sisial dyn o'i go'," llefai ein harwr yn ffrochwyllt, gan daraw ei gad-

Digitized by Google

fwyell yn y llawr, mor agos i droed Cynfrig nes y bu agos iddo dori darn ymaith o'i esgid.

"Amser a ddyg hyny i'r goleuni, ac nid bloeddio a churo y llawr a'r gadfwyell," ebai Cynfrig braidd yn llidiog.

PENOD X.

DIGALONDID YN LLETHU CALON GRUFFYDD FEL NA FYNAI EI GYSURO.

Yr oedd yr ymddyddan blaenorol wedi siglo cred ein harwr i raddau yn mharhad ei lwyddiant a heddwch diderfyn ei deyrnasiad. Treiddiai arswyd ac ofnau fel gwefrdan trwyddo. Gwelai yn ei feddwl anfoddogrwydd ac anesmwythdra yn mhlith ei ddeiliaid yn mhob congl a chilfach. Pob un yn flin o hono fel tywysog, ac yn dyheu am gyfleusdra i godi arfau yn ei erbyn, ac i osod rhywun ar yr orsedd yn ei le. Meddyliau drwg a'i llanwai, ac amheuon o bob math a ordoai ac a chwyldroai yn ei feddwl. Pob un agos a ganfyddai yn barod i ymuno â Rhobert Gastellwr, neu Huw Flaidd, i'w ddiorseddu ac i'w ymlid o'r wlad. Yn y gwely, ni roddai hûn i'w lygaid, nac esmwythdra i'w feddwl. Yn ddiswta neidiai allan o'i orweddle, fel ped yn gweled y gelynion yn dyfod, ac yntau yn anmharod i'w cyfarfod. Oddiallan clywai swn eu traed, eu llefain, a'u hysgrechfeydd, megis yn dyheu am ei einioes.

"Tywysog Gwynedd yn wir," mwmiai, "dyma be' ydi bod yn dywysog! Gwell ydyw pryd o ddail gyda llonyddwch, a gwell, os na ddaw rhyw fwy o oleuni, fuasai i mi fod wedi aros yn y Werddon."

Yn blygeiniol un boreu, pan eto yn ei wely, er yn hollol effro, yn ei lys yn Aberffraw, clywai swn traed a sain siarad y tuallan. Dychryn a chyffro a'i meddianai, a sicrhai yn ei feddwl fod y diwedd wedi dyfod. Clywai lais Asser, Cynfrig, ac eraill yn galw arno dirio allan o'r gwrthbanau, a dyfod i lawr i drafod a gwrandaw ar gwestiwn dyrys a phwysig, eu bod wedi teithio ar redeg i'w weled ac i ymgynghori ag ef pa wedd i weithredu ac i ruthro allan i'r maes i gyfarfod gelyn arall, yr hwn oedd yn debyg o ysgwyd ei orsedd i'w sylfeini, os na chymerid camdioed a mesurau uniongyrchol. Pan yn yswalpio o'i wely, llefai yn gyffrous:

"Wel, afiwydd, afiwydd eto; yr hyn a fawr ofnais a ddaeth i

Digitized by Google

mi, a'r hyn a arswydais a ddygwyddodd i mi! O ba le y mae wedi d'od, a beth sydd wedi dygwydd? Ai Trahaearn sydd wedi galw mor fuan i'm haflonyddu?"

Y mae yn rhuthro i'w cyfarfod i glywed y genadwri. Asser oedd y cyntaf a gyfarfu, efe a siaradai, ac efe a gaiff siarad.

"Rhobert Gastellwr sydd wedi galw estron-genedl o Ffrainc, neu o Loegr, neu o rywle, i wladychu Gwynedd. Y mae tebygrwydd y bydd iddo eu gwthio yn mlaen, er nad ydynt eto ond ar y cyffiniau, fel haint ar hyd a lled Gwynedd, a'u cefnogi i gipio yr holl dywysogaeth oddiarnom."

"O ba le daeth, a phwy ddywedodd hyn?" ebai Gruffydd.

"Cenadwri ydyw oddiwrth Llywarch Hwlbwrch o'r Castell. Y mae Tangwystl mewn helynt a phryder mawr. Yr ydym wedi dyfod yma i'th anog i ymarfogi a chynull dy lu i fyned yno gyda ni heb golli dim amser."

"Heb oedi dim! Asser, Cynfrig, a'r llu sydd yma, cynullwch y llu, a bloeddiwch i'r gad! Y gwyr meirch cesglwch i gyfarfod eu rhai hwythau!"

"Y mae y cyfan wrth law, ac yn barod i ruthro allan i'r gadgyrch."

Cyflymodd yr orymdaith yn mlaen tua Chastell Rhuddlan, mor chwim ag y gwelir gwynt yn chwythu y niwl ar hyd llechweddau ein mynyddoedd. Yr oedd y ffordd a deithient yn ddrwg ac anhygyrch. Nid oedd gan y naill na'r llall amcan daear i ba bwynt nac i ba le yr oeddynt yn cyfeirio. Ni wyddai y naill na'r llall yn mha lecyn y safai y Castell. Bu eu taith ar hyd yr amser ar draws y tir, ac nid allai cynifer ag un fynegu yn mha gyfeiriad nac yn mha le y gorweddai Castell Rhuddlan. Er nad oedd rhyw amser maith er pan fu ein harwr ar ymweliad â'r Castell yn cardota cynorthwy oddiwrth y Castellwr, o ba le y cafodd driugeinwyr o etholedigion o Degeingl. Buasai yn llawer gwell iddo pe na fuasai erioed wedi bod yma yn gerain am gynorthwyo y cyfryw i'r gad. Gwnaethant lawer mwy o niwaid nag o les i achos ei deyrnas. Yr oeddynt wedi cael mantais i weled noethder y wlad, beth oedd yn wan a diffygiol yn y tywysog rhyfelgar. Yr oedd y Castellwr yn awyddus ac yn dyheu am gael hyn allan. Yr oeddynt wedi llwyddo i bysgota bod y nifer luosocaf o'r rhai oeddynt yn ymladd o blaid ein harwr yn llochesu yn eu mynwesau elyniaeth tuag ato, ac na fuasai unrhyw anhawsder i allu troi calonau y cyfryw i ymladd yn ei erbyn. Mor fuan ag y daethant yn ol, ac i'r Castellwr gael meddiant o'r wybodaeth hon, gwahoddodd o

Digitized by Google

Loegr y dyeithriaid hyn i ddyfod i wladychu Gwynedd. Yr oeddynt yn barod yn ymsefydlu ar y cyffiniau, ac yn ymwthio yn mlaen, gan orfodi y trigolion i gilio yn ol i gyfeiriad y Gonwy,—gan eu lladd a'u llarpio megis y llarpia y bleiddiaid ddefaid. Yr oedd ymdaith gosgorddlu ein harwr o'r Gonwy i gyfeiriad Castell Rhuddlan, fel y tybiai, yn y nos, ac yn cyfarfod â'r gelynion yn lluoedd ar hyd yr ymdaith. Yr oedd eu mynediad yn debyg i siglen denyn,—ar adegau yn ymwthio yn mlaen, ac yna yn cael eu gwthio yn ol gan y gelyn gyda cholled fawr. Mynych hefyd y cyfarfu â hen sefydlwyr brodorol a chyntefig y wlad, y rhai oeddynt yn gefnogwyr ac i ddyfod yn ddeiliaid iddo, y rhai a fedid i lawr dan y gred mai y Lloegriaid treisiol a ddygwyd i'r wlad gan Rhobert Gastellwr oeddynt.

Yr oeddynt yn ddiffygiol a lluddedig, yn cael eu gwthio gan y gelyn i'r berfeddwlad, mor bell, gellid tybio, a chyffiniau Dinbych. Ar hyd yr ymdaith yr oeddynt yn cyfarfod â gwyr meirch a thraed y gelynion, y rhai oeddynt yn llawer trymach a chadarnach na rhai ein harwr, llu o'r rhai a ddygasai o'r Werddon, o Fon, ac o Arfon. Teimlai Gruffydd y frwydr megis yn troi yn ei erbyn. Curai ei galon, fel y clybuwyd ei swn gan Tudur, y gwas o Fon, un cefnog a doniol yn mhlith y llu, yr hwn a lefai:

"Wel hai! Gruffydd, beth sydd yn bod? y mae swn o'th fewn fel swn cynion pres Rhufeinig, yn curo ac yn twmpian, fel pe b'ai yna fwnwyr yn tyllu am blwm o'th fewn. Beth sydd yn bod, a beth sydd i ddygwydd, fachgen?"

"'Rwy' wedi diffygio a thori fy nghalon yn llwyr. Nis gwn pa beth i'w wneyd, nac ar ba law i droi. Y mae pob peth yn troi yn ein herbyn. Y mae y dydd, mae yn wir, yn dechreu tori; ond i mi y mae yn nos dywyll fel y fagddu, a'r gobaith am enill yn diflanu fel cydyn o niwl ar ael y bryn."

"Tori dy galon yn wir, fachgen!" chwarddai yntau,—arferai y gair bachgen am bob un, hen ac ieuanc, mawr a bach yn ddiwahaniaeth, "dim o'r fath beth, y mae dy galon, gwrandaw, yn curo ac yn tyrfu mwy nag y bu erioed. Y mae ei swn o bell, ac ni fu calon erioed yn gwneyd ei gwaith yn well. Y mae ganddi swn fel dau faen melin. Y mae yn amlwg nad yw eto wedi darfod malu arnat!"

"Swn dau faen melin wedi myned yn wag ydyw!".

"Nage yn wir, swn llawn iawn ydyw. Mae digon o waed ynot i fod mewn dau neu dri o ddynion. Waeth i ti heb godi bwganod i'th ben oni b'ai fod bodolaeth iddynt yn rhywle heblaw yn dy ben," ebai Tudur.

Digitized by Google

"Ni waeth heb fregedd; pe b'ai y gelynion yn ein goddiweddyd nid allwn ddim ond plethu fy nwylaw ac erfyn am drugaredd, gwaith y mae yn gas gan fy nghalon i feddwl am dano, a gorchwyl llawn mor anhawdd i mi ei wneyd ag a fuasai ehedeg fel aderyn. Y mae tuhwnt a thuallan i'm natur yn hollol. Nid ydyw yn fy elfen. Tebyg ydyw i waith pysgodyn yn nofio ar dir sych."

"'Does dim eisieu i ti 'neyd dim o'r fath. Gloewa dy gledd, ymwrola. I ba beth yr ai yn wrageddos! Paid a gadael i'th galon gychwyn i lawr yr allt, neu i lawr, i lawr, i lawr, fel y rholia maen i lawr gallt serth yr ä, a'r canlyniad fydd i bob peth fyn'd yn dipia deilchion yn rhwb ystrel."

"Y mae wedi cychwyn, ac yn rholio fel y gwelaist faen yn chwyrndaflu. Swn rholio i lawr ydi y twrf a'r dadwrdd a glywi. Pen yr argae wedi ei agor, y dwfr yn hyll-rhuthro allan. Ni ellir gwneyd dim, y mae drosodd am byth."

"Hoio, hoio, hoio, fachgen! 'Does dim darbwyllo arnat? Yr wyt mor llwfr a digalon a'r un ferch a welais erioed. Gresyn na fuasai dillad y cyfryw am danat. Yr wyt yr un walltiad yn barod. Ni fuasa' neb yn gwybod wed'yn nad merch fuaset ti."

"'Dyw hyny yn gysur yn y byd i mi, nac yn debyg o wella fy nolur. Waeth i ti un gair na chant, y mae yn anhawdd i un beidio tori ei galon pan yn gweled y gelynion fel gwybed yn gwau, ac fel tocyn morgrug, mwyaf yn y byd a bwniwch chwi arno, mwyaf yn y byd a ddaw i'r golwg. Dyma ni wedi ymladd ar hyd y ffordd. Pob un a gyfarfum yn ymarfogi,—parotoi eu bwäu saethau, ac yn blaenllymu eu bidogau. Neb yn barod i ymnesu atom, ac i ddyfod o'n hochr. Pob un yn elyn,—dim rhagolwg y ceir deiliaid o gwbl."

"Fachgen, hidia ddim blewyn, dyro hwb i'th galon; os cawsom bob un yn elyn, a rhwystrau, ffordd anhygyrch hyd yma ar ein taith, ac os bu raid i ni ymladd â phob un, darfu i ni eu gorchfygu hyd yn hyn. Cymer galon, yr hyn a wnaed a ellir wneyd. Yr oedd yn dueddol i bob un ein cymeryd yn lle gelynion yn y tywyllwch, ac yna bu raid i ni ymwneyd â hwy fel gelynion. Ond y mae y dydd erbyn hyn wedi ymlid y nos, ac fe ddichon y bydd i ni daraw yn well yn y dyfodol, ac mai yn gyfeillgar ac nid yn rhyfelgar y bydd y fintai nesaf."

"Wel di, wel di, dacw gad eto ar y maes—gwyr meirch a phedyd fel gwenyn neu gacwn cwn yn gwau. Wel aflwydd, aflwydd arall, llawn mwy ffyrnig yn arllwys," llefai yn ffrochwyllt."

Digitized by Google

PENOD XI.

HOLLTI YN DDELLT Y SAETH RYFEL.—MATER SYDD I ORCHFYGU MATER.

Y MAENT yn gwasgu yn mlaen. Y mae pob un yn nghanol dychryn. Nid oes na gwyr meirch na gwyr traed mewn safle i ymfyddino. Y maent oll ar wasgar. Swn ebwch na llais ni ddaw o un genau. Dystawrwydd ac arswyd a lywodraetha bob un o wadn y troed i ben y coryn. Eu gwallt a saif yn syth ar ben y coryn. Eu bwäu-saethau, eu cadfwyeill, eu cleddyfau, a'u bidogau, er yn eu meddiant ac yn eu dwylaw, ac yn barod i ryfel, ni theimla un, ac nid ŵyr y naill mwy na'r llall ddim am danynt. Y maent yn y fath arswyd fel nad ydynt yn hysbys bod ganddynt draed na breichiau. Er bod yr arfau rhyfel yn eu meddiant ac yn eu dwylaw, fel y mynegwyd, nid ydynt dan yr ymdeimlad na'r ymsyniaeth eu bod yn meddu na breichiau, nac arfau i ymbarotoi ac i ymfyddino i ryfel, na thraed na choesau i ffoi ymaith, pe hyny yn angenrheidiol. Eu gliniau a gurant yn sigledig y naill yn erbyn y llall, a'u calonau oll a gurant fel calon cyw aderyn bach ar ffo ac wedi colli ei fam, ac amrantau eu llygaid a gauant rhag ofn y dinystr sydd yn cyflymu tuag atynt. Trwst a llais y gelyn, fel y tybir, a glywir yn dynesu. Eu llygaid yn gystal a'u clustiau sydd gauedig, fel pe byddai i hyny leihau rhyferthwy y dinystr pan y daw, a lliniaru y dialedd poenus pan eu goddiweddir rai o'r eiliadau nesaf. Eu hanadl a atelir megis yn eu dyrnau, y gwefusau a'r danedd a wesgir yn nghyd yn y fath fodd fel nad oes anadl yn gwneyd ei ffordd allan ond trwy y ffroenau. Tybiai Gruffydd ei fod yn clywed y waedd i ryfel o'r tu ol iddo, a chlywa lais yn fuan a adwaena yn dda—neb amgen na'r eiddo Llywarch Hwlbwrch—yn swnio yn garuaidd a chyfeillgar:

"Holltwch yn ddellt y saeth ryfel, a melldith y duwiau o bob lliw a llun ar yr hwn ni fydd iddo ei hanfon o gylch, fel y byddo i bob un gael darn o honi, ac y byddo iddi ei lenwi mor llawn ag wy o ysbryd rhyfel."

"Hoio! hoio! hoio!" llefa llais, "a ydyw Gruffydd yn mhlith y llu? Byddin—cadgyrch pwy? Llefwch allan, neu bydd i ni ollwng cawod o saethau i'ch plith, cawod mor dew a chawod o genllysg—digon aml a chydgysylltiol i gymeryd ymaith fywyd, nid yn unig chwi, ond y mân-wybed a ddygwydd fod o fewn eu harfod a'u gwanaf; os gwyr cethin, crachlyd o Normaniaid,

Digitized by Google

gwae chwi; os nad e', llefwch allan, neu byddwch yn ymgreinio ar hyd y llawr, ac yn ymdrybaeddu yn eich gwaed."

"Ateliwch eich saethau, na thynwch yn llinyn eich bwa, Gruffydd a'i lu sydd yma," llefai Gruffydd a Thudur yn gydgan ac un llais.

Ar hyn dyma Hwlbwrch yn ehedeg yn mlaen, ac yn estyn allan ei law i gyfarch gwell i Gruffydd a'i lu.

"O ba le y daethost yma? a pha fodd, a chyda pha newydd?" llefai Gruffydd.

"Tangwystl a'm cyfarwyddodd i ddyfod allan i fynegu i ti pa fodd i weithredu."

"Pa fodd y daethost i wybod ein bod ar y maes, ac ar ein ffordd i gyfeiriad y Castell?"

"Rhai o'r gelynion y bu ymladdfa rhyngoch â hwy a ddianganasant acw am eu heinioes i draethu y newydd."

"Beth ydi dy genadwri, a pha beth ydi dy gyfarwyddyd?"

"Dyfod gyda ni, a dilyn ein sodlau, ac yna bydd pen ar y rhyfel hwn."

"Yr ydym yn lluddedig a diffygiol. Nid yw ymladd yn beth allwn wneyd. Yr ydym yn barod wedi rhedeg allan."

"Y mae ymladdwyr o Degeingl wrth law, ac yn barod i gynyg eu hunain at eich gwasanaeth. Ni fu eu dewrach a'u gwell yn cydio mewn bwa, na phybyrach rhyfelwyr yn eu cludo."

"Bendith ar eich penau. Ni fu erioed fwy o angen y cyfryw."

"'Dyw bendith, er yn angenrheidiol i bwmpio i fyny galon yr ofergoelus, ac i chwythu i bwynt ysbryd y gwrageddos, o les yn y byd i ni. Y bwa, y gadfwyell ddau-finiog, a'r cleddyf wedi ei flaenllymu, sydd i wneyd y gwaith, ac nid swn ac adlais bendith. Dodwch eich bendithion i rai ar ddarfod am danynt, a chryfder yn y bwäu, digon o saethau, min ar y cadfwyeill o bob tu, a'r cleddyfau yr un wedd, a medruswydd i wneyd y defnydd goreu o'r cyfryw i ni, ac yna fe drown y fantol o'ch tu, neu yn hytrach o'n tu."

"Sut a ddras y gellaist ti gael cyfle i lithro ymaith, a thithau yn wahanredolaf was y Castell, galw am danat bob eiliad, a Rhobert y Castellwr drwg a dieflig mewn angen o'th gynghor a'th gyfarwyddyd didor?"

"Nid oedd y Castellwr Rhobert ddim gartref. Y mae er's dyddiau wedi myned i Dwr Baili, ar ben Bryn Baili, yn Wyddgrug, i osod y Daniaid sydd wedi cael eu gwahodd a'u cyrchu i wladychu Gwynedd i fod yn ben a pherchen y wlad, i sefydlu llys a llywodraeth iddynt hwy; yno hefyd y mae Huw Flaidd,

Digitized by Google

neu Huw Fras—Iarll Caer. Y maent yn gwneyd parotoadau anferth i fwrw ac i ymlid ymaith bob gwrthwynebiad a ddygwydd fod ac a gyfoda yn eu herbyn."

"Pwy ydynt yn fwriadu osod ar yr orsedd?" ebai Tudur.

"Hyny sydd anhysbys. Nid oes unrhyw awgrymiad hyd yn nod wedi cael ei amlygu. Dichon na fydd ond chwanegiad at derfynau Gwilym Fastardd. Pa wedd bynag, y mae yn amlwg na fydd yn un Gymreig; a bydd i'r Cymry gael eu diwreiddio hyd y gellir."

"Ho yn wir! Dyna'r fath ddyn, neu yn hytrach y fath dd——l ydi Rhobert? Gwyneb un ffordd a chalon ffordd arall, fe welaf, sydd ganddo. Ond waeth am dano, bydd yn anhaws iddo fy nhwyllo y tro nesa'. Lled wahanol i'w addewid i mi, y mae wedi troi allan. Ond chwareu teg iddo, y mae yn anhawdd dwyn dyn oddiar ei dylwyth. Nid ŵyr yn well. Tri pheth sydd anhawdd eu hadnabod,—diwrnod, derwen, a dyn. Y mae mewn cyflwr truenus odiaethol. Symudir ef gan yr un gallu ag sydd yn symud bwystfilod y maes."

Yr oeddynt, tra yn siarad fel hyn, yn teithio yn mlaen i gyfeiriad lle saif tref y Wyddgrug y dyddiau hyn. Canfyddid ar bob llaw fân fythynod,—rhai wedi eu gwneyd o wiail, ac eraill o goed, y rhai oeddynt wedi eu toi â brwyn, tra mewn rhai amgylchiadau gwneid y tô i fyny o ddail. Dyma nhw bellach o flaen y Castell, y gosgorddlu yn fân fyddinoedd,—mintai yma ac acw, fel yr oedd yn arferiad yr adeg foreu hono gyda rhuthriadau milwraidd. Y marchogion llurigawg, helmawg, ymsaethant yn mlaen, a phedyd arfog a ymfyddinant. Y mae y llu o bob tu yn swnio corn y gad. Yr arwyddion i daraw yn cael ei anfon allan. Y llumaii i fyny. Dyma y rhyfel yn dechreu. Y meirch a'u marchogwyr yn cwympo yn nghyd i'r llawr. Y cadfwyeill trymion a hyrddir yn erbyn penau y ceffylau, y rhai a holltid gyda chan lleied o helynt a phoen ag a geir i hollti cloron. Yr oedd mynedfa gul trwy y goedwig i gyfeiriad y Castell. Ar hyd y fynedfa ymwthiai y gelynion fel llif ddyfroedd. Yr oedd ein harwr yn sylwi ar eu rhuthriadau ffyrnigwyllt ar hyd y goriwared. Gwelai yn amlwg nad ellid eu gwrthsefyll ar yr allt heb i hyny ddwyn oddiamgylch ddinystr echryslawn ar fywydau dynion a meirch. Yr oedd y fynedfa, yr hon a droellai yn debyg i'r afonydd a elwir ystumiau, yn arwain igam-ogam. Buasai eu gwrthsefyll ar yr allt neu ael y Bryn Baili yn peri iddynt gael eu hyrddio gan y marchogion, y rhai a fuasent yn taraw yn erbyn y rhai a'u cyfarfyddent

Digitized by Google

yn dringo i fyny i gyfeiriad y Castell, hyd nes y buasent yn pellenu yn erbyn y rhai a ddilynent eu sodlau. Hyn a fuasai yn dwyn oddiamgylch un o'r cyflafanau a'r galanasdra mwyaf erchyll y clybuwyd son am dani. Buasai y meirch yn rhuthro yn eu herbyn gyda'r fath hyrddiadau fel i achosi iddynt fesur y llawr, y rhai yn ddiamheu a fathrasid gan garnau y cyfryw. Galwodd Gruffydd ei wyr i encilio i waelod y fynedfa, ac i sefyll mewn tro. Lleolid pob un yn nghongl y coed yn y fath wedd fel na welid un o honynt gan y gelyn pan yn cyflymu i lawr ael y bryn. Gosodai ei hun yn ngwyneb ac yn nesaf i'r tân.

"Gofalwch chwi," llefai ar y rhai oedd o'r tu ol iddo, ac yn is i lawr, "am adael i bob ceffyl a dyn a ddianga heibio fi fyned ymaith heb ei ben. Croesaw i bob march a dyn wneyd ei ffordd ymaith, ond heb ei ben!"

"Holo!" llefai Collwyn yn groch, pan y methodd Gruffydd roddi ergyd i ben un march a'i farchogwr, "'dyw gwynt y gadfwyell ddim yn ddigon cryf i dori pen y march na'i farchogwr, er mor frau ydyw penau y Saxoniaid a'r Daniaid hyn. Er cymaint o wynt sydd yn eu penglogau, nid yw gwynt cadfwyell yn ddigon nerthol i chwythu gwynt y penglogau ymaith."

Pan y dylifai yr ymadroddion hyn dros ei wefusau, chwyrndaflai ei gadfwyell i gyfeiriad y march, ac yn y fan dyma y march yn cwympo i'r llawr, ac yntau ar yr un adeg yn chwyrnellu y cleddyf, yr hwn oedd yn ei law chwith, i gyfeiriad pen y marchogwr. Ni fethodd ei nôd. Dododd yr ergyd is law clicied ei ên, a threiddiodd trwodd i'r ochr arall. Wele ei ben yn ehedeg ymaith oddiar ei gorff, a'r marchogwr yn codi ei ddwylaw i fyny. Beth a ddalia ond ei ben ei hun. Cwympa i lawr gyda'i farch, gan gludo gydag ef ei ben ei hun. Cwympodd y ddau i gyfeiriad traed Collwyn.

"Cerdd i ffordd y burgyn," llefai yntau, gan roddi hylldroediad i'w benglog yn gyffelyb i'r wedd y gwelir y bechgyn yn troedio y bêl droed, "galla'i fforddio gwneyd heb ddefnyddio'th ben yn gôd wen, na chymeryd dy ystlysau yn facwn i arbed cig moch ein gwlad."

Diangodd llu arall heibio ein harwr heb iddo lwyddo i dori ymaith eu penglogau, ond yr oedd digon o gadfwyeill a chleddyfau eraill yn segur, a rhyfelwyr yn llechu yn nghanol y coed, yn dysgwyl yn awchus y fraint a'r cyfleusdra i dori eu penglogau ymaith, y rhai a synent na fuasent eu hunain wedi gwneyd er's llawer o amser, gan nad oeddynt ac nad allent fod wedi *bod* erioed o un gwasanaeth iddynt.

Digitized by Google

Parhai y gwyr meirch a'r pedyd i wasgu yn mlaen i ddanedd y dinystr. Rhuthrent gyda'r fath gyflymdra fel yn fynych y mathrai y rhai o'r tu ol y rhai oeddynt o'r tu blaen. Neidiai y meirch o'r tu ol gan sathru y rhai o'r tu blaen gyda'u marchogwyr yn ddrylliau. Daeth y rhai oeddynt o'r tu ol yn y pellder i ganfod nad oedd ymwthio yn mlaen yn ddim amgen nag ymwthio i ganol y dinystr. Gwelid amryw mewn canlyniad yn ymlithro i'r goedwig, fel pe yn penderfynu ymlechu yn y cyfryw, hyd nes y byddai i'n harwr a'i lu wneyd eu ffordd tua'r Twr, ac yna ymosod arnynt a'u lladd yn y goedwig. Aeth y galanasdra yn fuan drosodd, a daeth yr adeg iddynt ymwthio i fyny i gyfeiriad y Castell.

"Nid alla 'i wel'd," sylwai Cynfrig Hir, pan y canfu hwy yn hwylio i ddirwyn eu camrau i fyny ar hyd y fynedfa gul i gyfeiriad y Twr, "ei bod yn ddyogel i ni weithio ein ffordd ar hyd y llwybr hwn i fyny trwy y coed, tra cynifer o'r gelynion yn cynllwyn am ein bywyd. Y mae yn beryglus i ni fyned cyn eu hela allan fel bwystfilod rheibus."

"Nis gwn pa beth a allwn wneyd. Nid yw'n ddyogel i ni ymwthio ar eu hola'. Y mynyd y croeswn i'r coed, o gysgod y prenau, daw eu saethau a suddant yn ddios i'n cnawd, gan gymeryd ymaith ein bywydau. Byddai i hyny ddwyn ein holl amcanion i'r terfyn, a thaflu yr holl frwydro yn salach na chwareu cath-glap;" ebai Collwyn.

"Ni wela 'i ond un ffordd i'n dwyn allan o'r dyryswch a'r benbleth yma. Mae yr hin yn sech a dymunol. Yr holl goed yn llawn o ddrain a mieri. Dodi yr holl goed yn un coelcerth, yn un wenfflan o dân."

"Byddai i hyn eu hymlid o'r coed ac o'r Twr ond odid," ebai Gruffydd.

PENOD XII.

DAROGANAU LLYWARCH HWLBWRCH.

Nid cynt nag yr oedd y geiriau "dodi yr holl goed yn un goelcerth" wedi eu llefaru nag y darfu i'r holl goedwig gael eu rhoi ar dân gan rywun o blith y llu. Cyn pen ychydig oriau yr oedd yr oll yn lludw. Dyrchafai y mwg fel mwg ffwrn, ac esgynai y fflamau i'r awyr. Parodd hyn arswyd a dychryn yn mhlith y rhai a breswylient yn Nhwr Baili. Chwythai yr hyrddwynt y

Digitized by Google

fflamau i gyfeiriad y Twr, a chrëid arswyd yn mhlith y rhai oeddynt o'r tu mewn y byddai i hwnw, yn nghyda'r holl breswylwyr o'r tu mewn, syrthio yn aberth i'r elfen danllyd, a llosgi yn ulw—yn lludw. Gwelid hwy yn ffoi am eu heinioes. Goddeithiodd y tân yr oll oedd yn llosgadwy. Ymwthiodd ein harwr a'i fintai yn ddilynol i gyfeiriad y Twr, yr hwn erbyn hyn oedd wedi ei lwyr waghau o'r oll o'i breswylwyr. Treiddiasant i mewn a dygasant allan anrhaith fawr mewn aur, arian, ac yspail werthfawrth ac amrywiaethol. Diangodd Huw Flaidd a Rhobert Gastellwr mewn dygn gynddaredd, ac yn gynddeiriog o lid a digofaint, i gyfeiriad Castell Caer. Ffodd y gweddill o'r llu a ddygwyd i wladychu Gwynedd yn ol i'w gwlad eu hunain, yn benisel ac athrist.

Ni raid i ni ddyweyd bod Gruffydd a'i osgorddlu yn teimlo ar uchelfanau y maes. Y maent yn hwylio i ddychwelyd yn ol gyda'r anrhaith, yn orfoleddus eu hysbryd. Y mae yn dygyfor gan orfoledd, ac yn tori allan i lefain:

"Henffych, henffych, henffych byth, O! ddedwydd ddydd! Mae fy llywodraeth wedi ei llwyr ddiwreiddio o dreiswyr o bob lliw a llun, y gelyn olaf wedi ei droedio allan o derfynau fy ngorsedd. Y fi bellach sydd ben a pherchen,—bydd i mi lys a llywodraeth ddisigl. Ni chlywir llais na gwaedd yn fy erbyn,—y wich olaf wedi diffodd yn y fflamau."

"Gwaith ffol ac ynfyd," ebai Llywarch; "ydi llefain cyn myn'd allan o'r coed. Llais hoio! cyn enill y gamp, cyfrif a bwrw ar ddydd cyn y delo, a barnu cyn gweled y diwedd, ydi peth fel hyn."

"Yr wy'n synu atat, Llywarch, a'th wraig yn gares agos i mi! Beth! a wyt ti yn cenfigenu ac yn llidio at y llwyddiant anarferol sydd wedi coroni ein cadgyrch! A fuasit yn dewis yn hytrach i'r frwydr droi yn ein herbyn, ac i ni orfod ffoi o flaen ein gelynion?"

"Dim o'r fath beth! Nid oes neb yn fwy cyfan i ti na mi. Ond rhaid i ti ddeall nad yw pob un felly. Y mae o fewn fy ngho' i uwchlaw ugain o wahanol dywysogion wedi bod yn honi hawl, ac yn eistedd ar orsedd Gwynedd, ac fe syrthiodd y rhan fwyaf o honynt yn aberth i fradwriaethau. Rhai o'r un dras ac o'r un gwaedoliaeth a hwy eu hunain yn codi gwrthryfel yn eu herbyn, ac yn cymeryd ymaith eu bywydau."

"'Does dim *os* nad wyt yn coleddu meddyliau drwg, ac yn ceisio fy narbwyllo nad oes obaith i mi gael eistedd ar orsedd Gwynedd, gwir dreftad y teulu. Y mae pob un, nid oes ddadl,

Digitized by Google

yn deall mai fy eiddo treftadol cyfreithlawn i ydi gorsedd Gwynedd."

"Yr oedd Llewelyn ab Gruffydd, i'r hwn y bum yn drysorwr cywir, ar hyd yr adeg, yn honi na fu tywysog erioed yn meddu gwell hawl, nid yn unig i eistedd ar orsedd Gwynedd, ond Gwynedd a Deheubarth; a chredai hefyd y meddai hawl a gallu i chwanegu ati ranau o diroedd a ddygwyd gan y Saeson. Ond fe laddwyd Gruffydd gan ei frodyr ei hun, Bleddyn a Rhiwallon!!"

"A fuasit ti yn hoffi i'r un trychineb syrthio i'm rhan i?" ebai Gruffydd gyda gwyneb cuchiog a llais digofus.

"Dim o'r fath beth! Yr hyn oll a fuaswn i yn ddewis i ti wneyd ydi bod yn ochelgar. Nid elli ymddiried i neb. Y mae yn ymladd o'th blaid ac yn proffesu eu bod yn gyfeillion i ti lu o rai y bu perthynasau iddynt yn llenwi yr orsedd, y rhai y mae hil iddynt eto yn aros, ac yn credu mai ymhonwr dihawl ydi pob un a ddelo yn mlaen i hawlio yr orsedd, *ond* rhai o'u gwehelyth hwy! Y mae llu o'r rhai hyn yn ymladd o'th blaid, y rhai y byddai iddynt y cyfle cyntaf droi yn fradwyr i ti, a chodi gwrthryfel yn dy erbyn. Credaf na raid i ti aros yn hir hyd nes y cai weled hyny. Y mae hyn wedi cymeryd lle mewn cysylltiad â phob tywysog a fu yn eistedd ar orsedd Gwynedd a Deheubarth. Bydd dy hynt a'th helynt dithau, dichon, rywbeth yn debyg."

"Wyt ti yn tybio y bydd i rai o'm deiliaid fy hun—rhai o drigolion Gwynedd—droi allan yn ffals fel hyn? neu ynte a wyt ti yn cyfeirio at yr hyn sydd yn debygol o ddygwydd mewn cysylltiad â Rhobert, dy arglwydd, a Huw Fras, Iarll Caer?"

"Oddimewn ac nid oddiallan yn gymaint y mae dy berygl di. Ni fyddi yn hir heb i rai o'r rhai wyt yn eu haner addoli dynu yn dy erbyn, a gwneyd eu goreu i'th droedio, na fydd genyt na glan na chilfach i ymlochesu ynddi."

"Tybed dy fod yn traethu ymadrodd ag arlliw gwirionedd ynddo?"

"Cred di yr hyn a fynot am y dyfodol llwyddianus a addewi i ti dy hun, y mae hyny yn fwy nag elli obeithio na breuddwydio. Y mae yr hyn a gymerodd le ac a ddygwyddodd yn ymgyrch a helyntion bywyd yr oll o'r tywysogion eraill, yn fychain a mawrion, yn Ngwynedd a Deheubarth, mor wahanol i'r hyn wyt yn addaw i ti dy hun ag ydi y t'w'llwch i oleuni. Pe teithiem yn ol hyd ddyddiau Cadwaladr, gan alw i fyny a dwyn i'n gwydd bob un o'r amser hwnw hyd yr oriau hyn, yr

Digitized by Google

un un ydi y swn, y llais, a'r iaith :—Bradwriaeth o bob lliw a llun, ac ymgais gan feibion i ddiorseddu eu tad, brodyr i lofruddio brodyr. Yn lle gwellâu yn hyn o beth wrth droedio i'r cyfeiriad agosaf atom, o ran amser, lluosogi yn eu rhif a throi yn fil mwy ysgeler yn eu natur y mae y bradwriaethau. Felly, yn lle cael tir cadarn a rheswm i obeithio y daw pethau yn fwy pur a dilychwin o ran bradwriaethau, y mae lle i ofni, lle i gredu, lle i ragweled, ac i deimlo, y bydd i bethau droi allan yn llawer iawn gwaeth. Yr hyn a fu à fydd, a wnaed a wneir; yr hyn a ddygwyddodd i'th dadau a ddygwydd i tithau, y mae lle, nid yn unig i ofni, ond i ti benderfynu beth a ddaw i'th ran ac a'th gyferfydd. Yr hyn fu dynion ydynt, yr hyn a wnaeth dynion a wnant, yr hyn ydynt a fyddant, a wnaed a wneir ganddynt."

Nid oedd yn gallu ymwrandaw na sylweddoli dim ar yr hyn a ddywedid. Yr oedd wedi ei feddianu a'i lyncu i fyny yn hollol gan y gred y byddai iddo esgyn i'r orsedd, a chael pob un o'i blaid,—pob un o hyn allan o fewn terfynau ac yn holl ranau rhandir treftad ei hynafiaid—Gwynedd, yn ufudd a gwir ostyngedig ddeiliaid iddo. Tybiai a chredai yn ddiysgog bod pob un yn edrych yn yr un goleuni ac o'r un cyfeiriad ag yntau ar helyntion ei gadgyrch. Yr oedd wedi olrhain allan ei hawliau—i'r orsedd—fel nad oedd dim dau feddwl i gartrefu yn un gongl o benglog neb, mai efe a neb arall oedd hawlydd a gwir a chyfreithlawn etifedd yr anrhydedd o fod yn dywysog Gwynedd; a phe buasai rhywun wedi bod yn coleddu cred wahanol, yr oedd y llwyddiant dihafarch oedd wedi dilyn ei ymdrechion, er pan wnaeth ei ymddangosiad yn y dywysogaeth, yn ddigon i argyhoeddi pob un bod y duwiau a ffawd yn penderfynu mynu ei osod yn ben a pherchen y dywysogaeth. Yr oedd yn hynod a thra hygoelus. Credai yn ei allu i wneyd pawb yn *wir* gyfeillion y gallai ymddiried ynddynt; ac er iddo gael ei dwyllo lawer canwaith, nid oedd ac ni fu yn llawer mwy gochelgar a gwyliadwrus. Syrthiodd i'r un pwll lawer gwaith drosodd. Y mynyd y deuai allan gollyngai agos yn drylwyr dros gof yr anffawd, ac anghofiai wneyd penderfyniad i ysgoi y cyfryw yn ei hynt a'i helyntion dyfodol. Ni wybu ac ni chafodd yr hen ddiareb erioed le yn ei feddwl, "Achlod i'r dyn a'm twyllodd i ddwywaith; achlod i minau o'm twylla y drydedd waith." Ceid ef i fyny ar uchel-fanau y maes, ac ar ben uchaf yr ysgol, pan yn llwyddianus, yn llawn o hwyl ac asbri yr ysbryd,—pob copa walltog o'i blaid; ac yna pan y cyfarfyddai â siomedigaeth, disgynai i ddigalondid ac anobaith am yspaid;

Digitized by Google

ond buan y diflanai yr anobaith a'r tywyllwch, ac y deuai uchelfrydigrwydd a goleuni llachar i dywynu ar ei goryn, yr hyn mewn gwirionedd oedd ac a fu ei elfen lywodraethol trwy ei oes. Nid oedd ac ni fu un anffawd nac anffodion yn ddigon i fwrw i lawr uchelgais ac uchelfrydigrwydd ei feddwl.

Yr oedd yn cyflymu yn ol i'w lys i Aberffraw i fyned yn mlaen i sefydlu llys, llywodraeth, a threfn, yr hyn oedd ar goll er's llawer o ddyddiau; yn wir, yr oeddynt ar goll er's cymaint o amser fel nad oedd y rhan fwyaf o'r deiliaid yn meddu un math o wybodaeth na dirnadaeth am danynt.

Yr oedd Llywarch wedi encilio yn lladradaidd ar ol yr ymddyddan a basiodd rhyngddo a'n harwr. Nid oedd yn ddyogel iddo ei ddilyn, gan y bwriadai ac y mynai fyned ar ei daith yn ol heibio Castell Rhuddlan, lle yn sicr y cymerai cyflafan erchyll le, ac y byddai i'r coedwigoedd oddeutu ar bob llaw gael eu gosod yn un goelcerth danllyd. Ar ol ymdeithio yn galed ar hyd tir yn llawn o helyg, brygyll, manwydd o bob math, drain a mieri, dyma Gruffydd ar ei daith yn ol, yn dynesu at Gastell Rhuddlan. Mae y gelynion yn canfod y llu yn y pellder, hanes y rhai yn creu hafog a dinystr sydd wedi cyraedd er's meityn. Y mae pob byddin yn fân finteioedd yn parotoi i ryfel, i anfon allan eu saethau, i ergydio gyda'r cadfwyeill, ac i fesur cledd,—y tarianau trwy y gwyll a welir yn cael eu cludo i dderbyn y saethau gan fyddinoedd y ddwy blaid. Uchelfloedd a lleisiau cyrn y gad a seinir, fel y clybuir eu hadsain o wahanol gyfeiriadau. Y mae saethyddion ein harwr yn ymgynddeiriogi yn eu ffyrnigrwydd. Ymferwa eu gwaed i fyny i'w penglogau. Y maent bron a hollti o ffyrnigrwydd a dialedd at wyr y Castell am y dirmyg, y gwarth, a'r sarhad y mae Rhobert, nai Huw Fleiddyn, asynol ac ellyllaidd, wedi amcanu daflu ar drigolion Gwynedd, trwy ddwyn estron-genedl i wladychu Gwynedd.

"Nid yw hyn ddim mwy na llai nag ymgais ddieflig i ddiwreiddio ymaith wir berchenogion y tir, ac oesol drigolion Tegeingl a Dyffryn Clwyd," llefai Cynfrig Hir, "a phlanu trigolion—silod salach—yn eu lle, y rhai ydynt fel llygod a llyffaint o'u cymharu â'n cenedl ni, y rhai sydd yn y wlad, ac i fod hefyd. Gadewch i ni fwrw saeth ar ol saeth, a chymeryd digon o ofal am saethu pob saeth i galon y giarchod. Nid ydynt hwy a'u calonau ond gwynt. Saethu i'r awyr yr ydym pan yn saethu i'w calonau, ond awyr afiach ac awyr eisieu ei chynhyrfu ymaith ydi, a rhaid gwneyd!"

Disgynai y saethau yn drwch tew fel gwlith y plygain, ac yn

Digitized by Google

grynswdd fel barug yr hwyr. Nid saethu ar antur a wneid chwaith. Suddai agos bob saeth i gnawd, y rhai oeddynt wedi eu blaenllymu a'u trochi mewn gwenwyn. Gwaedd a llef a glywid oddiwrth y llu a gwympent yn myddinoedd y gelynion. Teithiai ein harwr a'i wyr yn mlaen o fewn ergyd y cadfwyeill. Dyma hwy yn hyrddio eu cleddyfau, eu penau a holltid fel cregyn malwod, a'u calonau a arddid yn rhychau â'r cledd, fel yr arddir maes âg aradr. Y mae y gelyn yn gweithio yn ei dro yn llawn mwy deheuig, ac yn gorfodi gwyr ein harwr i encilio. Y mae yntau yn rhuthro yn mlaen i'w symbylu ac i'w cefnogi. Ail ffyrnigrwydd a'u meddiana, a gwneir y defnydd mwyaf deheuig o'r cledd a'r gadfwyell, hyd nes mae y gwaed yn pistyllio yn genllif, ac yn rhuddo y llawr. Y mae y gelyn yn canfod ei wyr yn cael eu medi i lawr fel rhedyn, ac yn rhagweled mai colli y frwydr a wna er dewred yr ymleddir. Y mae y llef yn cael ei rhoi allan i ffoi, a ffoi a wneir nerth y traed a'r coesau, fel y clywir swn eu traed a charnau y meirch fel taranau. Mae tân yn cael ei roi yn y coed. Maent yn rhuthro yn mlaen ac yn rhoi y gadwrfa allanol ar dân, yn lladd llawer o'r gwarchodlu, ac yn hyrddio y gweddill i'r tyrau am ddyogelwch. Mae y frwydr drosodd, ac yspail fawr yn meddiant y gorchfygwyr. Y maent yn dygyfor gan lawenydd, a chlywir yn eu plith loddest a sain cân a moliant. Ond a ydyw hyn i barhau? A yw gorsedd Gruffydd wedi ei sicrhau? ac a fydd iddo dreulio y gweddill o'i oes mewn heddwch diderfyn? Tybiai ein harwr y bydd, ac mai dyma y gadgyrch olaf byth y gelwir arno i'w hymladd. Ond amser ac nid cred na thyb sydd i benderfynu hyny.

PENOD XIII.

LLAWENYDD YN NINAS DULYN.—DYFODIAD GWYNGU GYDA CHENADWRI I ABERFFRAW.

Mawr a dwfn oedd yr hyfrydwch a'r llawenydd yn mhlith gwir bleidwyr a chefnogwyr ein harwr pan ddygwyd y newyddion o'i lwyddiant anarferol o'i gadgyrch yn erbyn ei elynion—Normanaidd a Saxonaidd yn Nhegeingl a Dyffryn Clwyd. Helynt y gadgyrch a'r ymladdfeydd gwaedlyd yn erbyn y marchogion llurigawg a helmawg,—y Ffrancod yspeilgar a dienwaededig a ddygwyd o Loegr i wladychu i gyffiniau Gwynedd gan Huw

Digitized by Google

Flaidd a Rhobert Gastellwr, Arglwydd Rhuddlan, i wneyd y trais ar hawliau priodol ein harwr yn fwy ymhongar a sarhaus fyth,—a gludwyd megis ar adenydd yr awelon i'r Werddon. Y brenin yno a grochfloeddiai, ei farwniaid a ddychlament ac a neidient mewn uchel sain gorfoledd—mewn perlewyg o natur wallgofus,—i groesawu y llwyddiant a ddamweiniodd i'w cydnabod a'u câr, y gwr enwog o waed ac o wehelyth dywysogaidd ddyblyg, o allu a theilyngdod penadurol ar wahan i waedoliaeth—Gruffydd ab Cynan. Arlwywyd gwledd i lawenhau a gorfoleddu. Yr oedd holl dref Dulyn mewn helynt a miri yn diaspedain, ac adsain cân o lawenydd mawr yn llenwi yr holl awyrgylch. Y beirdd Gwyddelig, fâch a mawr, a arllwysent eu molawdau dihafal, yn y rhai y dyhysbyddid yr iaith o'i geiriau mawl a chlod, ac y bathid rhai newyddion, am y dangosid bod y dygwyddiad yn galw am hyny. Yr holl grythau, telynau, ac offerynau cerdd a chwareuid gydag asbri a medrusrwydd na welwyd ei gyffelyb o fewn cof neb yn fyw. Yr oedd yma offerynau cerdd na fuont ar waith er's degau o flynyddoedd yn cael eu chwareu gan rai oeddynt wedi rhoi eu ffidil yn y tô, ac wedi bwriadu ei gadael yno, yn cael eu chwareu, meddir, gyda'r fath fedr fel pe buasai rhyw ysbryd o'r byd anweledig wedi talu ymweliad â hwy i reoleiddio eu bysedd a'u geneuau. Ond nid felly yr oedd y llwyddiant yn cael ei dderbyn a'i groesawu rhwng creigiau Eryri, ac yn Ngwynedd yn gyffredinol. Yn mhlith y gwyr a fu yn ymladd, a fu yn ddewr a phybyr ymladd ar faes y gwaed, ac yn hyll-hyrddio o fodolaeth y rhai oeddynt wedi cynllunio i gyfyngu ar hawliau ein harwr fel tywysog, a bradfwriadu i drais gipio y cyfan o'i feddiant, a'i gilgwthio a'i ddanfon fel crwydryn ar ffo, yr oedd iddo guddlofruddion lu afrifed, yn gwau fel gwybed ac yn dyheu am ei einioes. Yr oedd yn mhlith yr ymladdwyr rai yn cenfigenu ac yn teimlo chwerwder chwerw at ei lwyddiant, er wedi ymladd yn ddewr a chlodwiw yn yr oll o'r brwydrau a drodd y fantol o'i blaid. Yr oedd llid a malais yn llenwi eu mynwesau. Ni wnaethant ddefnydd o'r gadfwyell nac o'r cleddyf gyda'r bwriad o balmantu ei ffordd ef i'r orsedd. Dyben hollol wahanol oedd mewn golwg ganddynt. Un arall oedd ganddynt hwy mewn golwg i lenwi yr orsedd, ac nid ein harwr. Buasai yn llawn cystal gan lu o honynt, er yn ffuantu eu bod yn ymladd o blaid hyrwyddo ei fynediad ef i'r orsedd, pe buasai wedi syrthio yn gelain trwy fin y cleddyf, fel y bydd i'r dygwyddiadau dyfodol feallai ddatguddio; ond bychan a wyddai pan yn dychwelyd adref i'w lys

Digitized by Google

yn Aberffraw, o'r hwn yr oedd wedi hwylio rai dyddiau yn ol. Y mae yn dychwelyd adref o'r ymgyrch i fedi o ffrwyth ei lwyddiant. Datgana hyny yn ddifloesgni yn ngwydd y rhai sydd gydag ef; ond nid yw Cynfrig yn hollol yr un farn ag ef, ac y mae yn sibrwd yn ddigon uchel i'n harwr glywed, yr hyn sydd yn peri i'w amynedd—yr hyn nid yw yn orchwyl anhawdd o gwbl—gyneu allan; ond er hyny parhau i sisial y mae Cynfrig, yr hwn nid yw yn hygoelus, nac yn gallu edrych ar yr ochr oleu i helyntion na bywyd. Sisial y mae Cynfrig, fel y sylwyd, "Gad i mi fyned allan o'r coed cyn llefain."

"Be's nâd i'r drelyn," llefai Gruffydd, "yn prophwydo tymhestl a dryc-hin tra yr awyr yn glir heb un cwmwl arni, nac un golwg bod un yn ngwraidd y gwynt, nac yn un man yn nghyfeiriad y pedwar gwynt!"

"Nid y boreu mae canmawl diwrnod teg," nıwmiai Cynfrig.

"'Dwyt ti am ganmawl diwrnod teg un adeg, foreu na hwyr. 'Fyni di ddim ei bod yn tywynu haul pan y mae ei belydrau bron a'th daraw i'r llawr, y drwg-ddaroganwr a'r chwenychwr drwg o waelod dy galon. Gad aros hyd nes y daw y drwg. Y mae codi bwganod fel hyn tra nad oes rhith o sicrwydd o'u bodolaeth yn gwanychu ac yn lladd un cyn eu dyfodiad, fel na fydd gan un ddim i'w wneyd pan ddeuant ond gorwedd i lawr a marw. Y mae bwgan yn y pen yn lladd un lawn cymaint a bwgan gwirioneddol."

"Nid felly mo hono, cai wel'd," ebai Cynfrig; ond cymerwn bethau fel yr wyt ti yn eu gwel'd, a gadawn hi yma."

Dyna nhw wedi teithio hyd Aberffraw; y mae ein harwr yn uchel ei feddwl, a'i galon yn dychlamu o lawenydd. Y mae yr hwyrbryd danteithiol yn barod, a phawb yn gwledda; y cwrw o ddarllawiad cartref yn cael ei dywallt yn helaeth i olchi yr ymborth i lawr i'r cylla, a phob un yn ymneillduo i'r gwely i orphwyso, o'r hyn y maent oll yn teimlo mawr angen. Cwsg melus yn eu meddianu, a hûn dawel yn eu llywodraethu. Y mae y boreu eto yn gwawrio, a chwsg eto heb ffoi. Mae haul y boreu yn tywynu yn danbaid, a hwythau yn parhau yn meddiant melus a thawel hûn. Dyma guriad wrth ddor ystafell wely y naill yn gystal a'r llall, a llais yn hysbysu bod boreufwyd er's meityn yn barod, a galwad arnynt i wneyd eu ffordd allan o'r gwely i fwynhau y wledd. I'r alwad y maent yn ufuddhau, ac i lawr y grisiau prysurant at y danteithion dymunol i'r chwaeth, a llawn mwy maethlon i'r cylla, sydd wedi eu harlwyo i gyflenwi eu hangenrheidiau. Nid oes ball ar y chwaeth nac ar y

Digitized by Google

gorchwyl o lenwi y genau, a bwrw y cyfryw i lawr i ddiwallu y cylla; ond cyn gorphen o honynt, yn wir, cyn iddynt gael haner eu digoni, y mae un o'r rhai oeddynt yn gwasanaethu y bwrdd yn galw Cynfrig o'r neilldu, ac yn sisial rhywbeth yn ei glust. Elai ein harwr yn mlaen gyda hwyl a blas o lenwi y cylla â'r danteithion, ac ni sylwai ddim ar y dygwyddiad y cyfeirir ato. Y mae Cynfrig yn ffrochwyllt a diamynedd yn rhuthro yn ol, ac yn rhoi dyrnod i Gruffydd ar ei ysgwydd, ac yn datgan yr un adeg:

"Y mae Gwyngu, y Barwn, wrth y ddor y tuallan yn galw am dy wel'd; y mae ganddo genadwri o bwys. Nid oes dim amser i'w golli!"

"Eisio 'ngwel'd i!"

"Ië, eisio'n gwel'd ein dau. Nid oes dim amser i fregedd."

"Dim amser i'w golli—dim amser i fregedd yn wir! 'Dydym yn gwneyd y naill na'r llall. Os bu dynion erioed yn teilyngu cael eu gwala a'u gweddill, y ni yw 'rhei'ny, ar ol ymladd mor ddewr a llwyddianus. Gad iddo aros hyd nes y llanwn ein cylla, beth bynag ydi y neges. Beth bynag ydi y newydd, cysurus neu ddrwg, fe fyddwn yn llawer parotach i'w dderbyn gyda chylla llawn nag yn wag; ac os oes rhyw aflwydd yn aros, yr hyn nis geill fod, a'r hyn sydd allan o bob rheswm, gad gael y ceudod yn llawn, bydd yn llawn haws i ni fyned trwyddo, neu ei ysgoi. 'Dyw dyn a'i fola yn wag yn werth i deithio na dim arall: mewn eiliad y ca yr anwyd, ac y syrthia ei fywyd yn ysglyfaeth. Dyn gwanach a salach o lawer a ladda ei gryfach pan y mae y cylla a'i fola yn wag. Mae dyn a chylla gweigion yn haner dyn marw, a dyn a chylla hollol weigion yn ddyn marw hollol!"

"Mae Gwyngu yn sefyll yn anmhwyllog wrth y ddor tuallan yn dysgwyl ein dyfodiad. Y mae ganddo neges o bwys."

"Gad fwyta a gwledda. Dim lol! Os awn ni i godi ar ganol y wledd, waeth gen' i heb wledd,—os na chawn ni ymborth pan mewn angen o hono, waeth gen' i heb ymborth o gwbl! Gad iddo aros hyd nes y gorphenwn, ac yna cawn wrando ar ei lais os yn werth!"

Yr oedd Cynfrig wedi ei feddianu â dwfn bryder ac ofnau. Nis gallai nac eistedd wrth y bwrdd na llwytho ei enau a'r ymborth. Crynai pob aelod fel deilen, a phan y gwnai ymgais i godi tamaid at ei enau, dirgrynai ei ddwylaw yn nghyda'i holl adeilwaith, fel y chwalai yr ymborth i bob cyfeiriad,—peth ar hyd y bwrdd, a pheth ar hyd y llawr oddeutu ei draed. Y

Digitized by Google

ddiod a godai at ei enau a chwistrellai ar draws ac ar hyd, fel pe buasai wedi cael ei osod mewn gardd i ddyfrhau y llysiau ddechreu haf heulog a sech; ymliwiai a gwelwai ei wyneb. Wedi llwyddo i gael tamaid neu lymaid i'w safn, glafoeriai y cyfryw allan yn y fath fodd ag y gwelir ambell anifail. Ei lais a ddeuai allan yn ddirgrynedig, fel nad ellid gwneyd allan beth a amcanai draethu. Yn ddamweiniol taflodd holl gynwysiad y corn, pan yn gwneyd ymgais i'w gludo gyda'i ddwylaw dirgrynedig, i wyneb ein harwr, yr hwn a dröai ato ac a arllwysai gawod o wersi mewn melldithion ar ei benglog, ac yna llefai:

"Wyt ti ddim yn meddwl na 'nai y cwrw yna lawer mwy o les yn dy fol di nag a wnai i mi, trwy ei dywallt a'i ysponcio fel hyn am ty mhen?"

"'Dallai na cherdded, sefyll, eistedd, bwyta, nac yfed. Y mae pob aelod yn crynu fel deilen. 'Rwy'n ofni bod gan Gwyngu ryw newydd drwg, a byddai yn well i ni gael ei weled, a chael allan be' ydi ei neges. Nid da sydd ganddo! Y mae ei wynebpryd yn gwisgo arwyddion amlwg bod helynt flin a brad wedi tori allan. Gwell i ni hwylio heb oedi."

Y mae ein harwr ar hyn yn cael ei lanw â math o arswyd, ac yn hwylio ei gerddediad i fyned gyda Chynfrig i chwilio allan yr achos o'i ddyfodiad a natur ei neges. Dyma y ddau yn cyflym weithio eu ffordd ar duth ochr yn ochr, ac am y cyntaf i'w wynebu ac i wrandaw ar yr hyn sydd ganddo i'w lefaru. Dyma hwy wyneb yn wyneb, a hawdd darllen yn ngwedd Gwyngu, y Barwn, nad ydyw yr hyn sydd ganddo i'w draethu yn gyfryw a bara foddlonrwydd i'r naill na'r llall, ac nid yw chwaith yr hyn a fuasai yntau yn chwenych iddo fod. Y maent yn sefyll yn syn, ac yn edrych yn myw llygaid eu gilydd. Nid yw yn anhawdd canfod bod y naill a'r llall yn yr un a'r unrhyw sefyllfa,—y naill yn ofni traethu, a'r llall yn ofni clywed. Y mae tawelwch a dystawrwydd y bedd yn teyrnasu, a buasai yn ddigon hawdd i un glywed trwst pin yn syrthio. Y maent yn fud ac yn methu penderfynu pa sut i agor yr ymddyddan. Dysgwyliai Gwyngu i'r naill neu y llall ofyn iddo beth sydd ganddo i'w hysbysu, tra y dysgwylia y lleill iddo yntau dywallt i'w clyw yr hyn sydd ganddo i'w hysbysu.

Digitized by Google

PENOD XIV.

BRADGYNLLUNIAU.—ERCHYLL-FRWYDR BRON-YR-ERW.

Y MAE y Barwn o Fon o'r diwedd yn cael hyd i'w dafod, ac yn datgan nad yw yr hyn sydd i'w fynegu yn gysurus na dymunol i'r naill mwy na'r llall. Ei bod yn llawn mwy poenus iddo ef, ei fod yn sicr, i'w wneyd yn hysbys nag a fyddai iddynt hwythau ei wrandaw.

"Y mae Tywysogaeth Gwynedd yn llawn o ferw a brad trwyddi. Y mae liu o'r rhei'ny a fuont yn dewr-frwydro ar faes y gwaed, yn bloeddio ac yn uchel-grochlefain o'th blaid, ac yn llefain 'Byw byth fyddo Gruffydd,' wedi troi yn fradwrus, ac yn gosod pob cynllun mewn gweithrediad i'th ddiwreiddio wreiddyn a changen o'r tir, ac i'th ymlid di a'th holl bleidwyr o'r wlad. Drwg a thrallodus dros ben ydyw baich feichiog fy neges a'm cenadwri,—meibion Merwydd a holl wyr Lleyn wedi adduno (ymuno) a'u gilydd yn dy erbyn di, ein harglwydd priodawr. Yn llechwraidd a dirgelaidd tuhwnt i ddim y clybuwyd son am dano erioed, teithiasant fel haid o gacwn neu wenyn, liw nos, yn mherfeddion eigion y nos. Y gwyr o wlad a chiwdawd teulu dy fam—y Gwyddyl a ddygwyd i'r wlad, ac a osodwyd i gadw pen a pherchen ac i amddiffyn llys a llywodraeth Gruffydd, a laddwyd yn eu lletyau yn y cyfnos. Fel hyn syrthiodd deuddengwyr a deugant o'th farchogion Gwyddelig, llawer cant yn fwy o bedyd. Nid ydynt wedi sefyll yma chwaith, ond y maent yn hwylio at oddeithio y wlad o ben-bwygilydd. Bydd yn fuan yn un oddaith gyffredinol. Trahaearn, treisiwr dy deyrnas, sydd wedi ei wahodd i adduno; ac y mae wedi teithio yn gyflym at wyr Powys i'w gwahawdd allan i'r maes i gadgyrchu ac i ddial ar ben Gwynedd am y camwri a wnaed â Chynwrig, eu câr. Y maent yn hwylio eu cerddediad ac yn dyfod yn amlder eu torfeydd. Hyn oll sydd wedi codi oddiar genfigen at dy lwyddiant dihafal. Y mae Tudur, y Barwn o Fon, a Chollwyn, yn casglu byddin, ac yn adduno i'th erbyn. Y mae pla y bradwriaeth yn un cyffredinol, a bydd dianc gyda'th hoedl yn dy law yn orchwyl caled; ac os y bydd i ti ddianc, yr hyn yn fy meddwl i sydd yn lled amheus, fe wnai hyny gyda chroen dy ddanedd. Cerddais hyd yma hyd nos. Nid gwaith bychan oedd teithio yr holl ffordd o ynys Adron, neu y Moelrhoniait. Cerddodd Collwyn a Thudur hyd ataf i'm gwahawdd i adduno â'r llu i'th ymlid ymaith fel treisiwr a gor-

Digitized by Google

meswr haner Gwyddelig, os nad cwbl Wyddelig. Myn rhai o honynt i ti gael dy genedlu tra yr oedd dy dad Cynan yn Nghymru yn brwydro â Gruffydd ab Llewelyn. Mae hyn wedi dwyn y rhan fwyaf i gredu nad oes genyt rith o hawl i'r dywysogaeth."

"Ynfydion gwallgof," llefai Gruffydd, "yr oedd fy mam gyda'm tad pan yr oedd yn brwydro. Ni fu dau erioed mwy hoff ac anwyl o'u gilydd. Nis gallai mam feddwl am edrych nac ymwneyd â neb ond â fy nhad, na nhad â neb ond â fy mam. Ni fu unwriad nac unwreigiad erioed tebyg iddynt. Bob amser pan welid un byddai y llall heb fod nepell. Pwy, pa rai, beth ydyw enw, a pha le y mae y rhai sydd yn taenu y fath chwedlau am fy nhad a'm mam yn byw? Y fi yn haner Gwyddel, yn dreisiwr dihawl, ac yn Wyddel gan y lleill o waed coch cyfan heb rith o hawl! Mae fy nhad a'm mam o deulu a hil freninol o bobtu, ac y mae hyny yn fy ngwneyd a mil mwy o hawl wirioneddol na neb arall i'r orsedd! Aïe, a wyt tithau yn gwrandaw ac yn adrodd hen chwedlau sal fel y rhai hyn?"

"Yn araf deg, Gruffydd," sisialai Gwyngu, "ni ddywedais air na haner gair i'th gythruddo, ac ni ddymunais i ti feddwl fy mod yn rhoi rhith o gred i'r chwedlau a ledaenir i geisio cael gan drigolion Mon, Arfon, a holl ddeiliaid Gwynedd i gredu mai ymhonwr ac ymyrwr dihawl ydwyt. Adroddais hwy oll i amlygu i ti y cynlluniau bradwrus a dichellddrwg a ledaenir o 'bant i bentan,' er cael pobl i godi gwrthryfel yn dy erbyn, ac i'th ddiorseddu. Buasai yn hollol annichonadwy cael gan luaws ymuno i roi cad ar faes os nad ellid cael ganddynt gredu dy fod o dras ac o wehelyth hollol wahanol i'r hyn ydwyt. 'A arbeto ei fach, arbeted ei gynogyn.' Nid ellir dal pysgod heb fach, a phryf priodol ar y bach. Pryfaid neillduol a phriodol ydyw y llu chwedlau a ledaenir am danat."

"Pa fodd, pa sut, pa le, a pha amser yr ydym i aerfu yn eu herbyn, ac i ostegu y dymhestl hon, a'r gwrthryfel sydd wedi cael ei godi yn ein herbyn mor ddiachos?" parablai ein harwr, gyda'i ddau lygad yn fflachio. Ond cyn agos iddo derfynu ei ymadroddion, wele genad arall yn carlamu ar gefn march i gyfeiriad y llys yn Aberffraw. Gwelwai a dychrynai at yr olygfa. Adnabu y marchogwr fel Cadwgan, ei nai. I'w gyfarfod y rhuthrai, a chyn iddo yn agos gyraedd hawdd darllen ar ei wyneb ei fod yn dwyn newydd drwg. Nid oedd angen aros mynyd i ddysgwyl wrth Cadwgan. Gallai draethu drwg neu dda, fel y byddai yn dygwydd, neu wedi dygwydd, heb oedi

Digitized by Google

na phetruso dim, na malio yn y mesur lleiaf beth fyddai yr effaith neu yr hafog mewn canlyniad.

"Y mae y wlad yn Lleyn ac ar hyd holl derfynau Meirion yn llawn berw a chynhwrf rhyfel. Y mae Trahaearn a llu aneirif o farchogion a phedyd Powys, holl ryfelwyr Powys, wedi ymwthio i'r wlad i ryfela, i'th ddifreinio fel tywysog, ac i ddial ar ben Gwynedd ac ar dy ben dithau y camwri a wnaed â'r wlad pan dywalltwyd gwaed Cynwrig ab Rhiwallon yn Mhenygaer. Y mae yn bryd i ti barotoi byddin i'w gwrthsefyll. Ond nis gallaf weled beth a ellir wneyd. Yr wyt er gwarth wedi gosod o'r neilldu dy wyr meirch a'th wyr traed, ac wedi diarfogi dy holl fyddin ar ol y brwydrau diweddar. Ni wnaethost yr hyn a ddylasit ei wneuthur. Tybiaist na fuasai fyth alw arnat i ryfel, am hyny llaesaist ddwylaw, a dyma y gelyn yn cyflymu yn mlaen fel llifeiriant, a thithau yn hollol anmharod. Er cystal rhyfelwr wyt, y mae lle i ofni mai colli y dydd a wnai, ac y bydd i ti a minau a'r oll syrthio trwy fin y cleddyf."

Yr oedd Cadwgan yn arweiniwr cad i'r frwydr, ac yn rheolwr a threfnwr diail—y cyntaf yn yr oes hono. Cydnabyddid hyn gan y gelynion, y rhai a fuont mewn cadgyrch ag ef. Yn ei fedr, yn ei ddeheurwydd, yn ei graffder, yn ei ragweledíad, yn ei ddoethineb, ac yn ei allu i gyfarwyddo y marchogion a'r pedyd i ruthro yn mlaen, neu i gilio yn ol, fel y byddai yr amgylchiadau yn galw, ac i drefnu y bwa, i saethu pob saeth, i daraw gyda'r gadfwyell, ac i fedi gyda min y cleddyf, rhagorai ar bob arweinydd a fu o'i flaen, ac ni ddaeth ond ychydig os un o'i gyffelyb ar ei ol. Yr oedd yn gadarn fel careg gallestr, ac yn ddewr fel y llew. Ni chynhyrfai ac nid arswydai yn y mesur lleiaf pan y caufyddai ei hun megis yn y fagl, ac yn sicr mewn rhai amgylchiadau o syrthio yn nghanol cawod o saethau, yn nghanol mil myrdd o gadfwyeill a chleddyfau can amled eu rhif a heidiau o wenyn. Safai mor gadarn a digyffro a chareg filldir. Ond beth sydd i'w wneyd heddyw, nid oes gan ein harwr fyddin i'w harwain, ond byddin chwaledig. Y mae yr ychydig farchogion a phedyd ar wasgar. Rhaid casglu yr hyn a ellir gasglu mewn amser byr. Nid yw y gelyn nepell. Nid ellir brwydro na ffoi. Y mae y chwedlau disail, y rhai a ledaenwyd gan ryw fileiniaid o haniad a thras dieflig, wedi gwenwyno achos ein harwr. Y mae lluoedd a fuasent yn ymladd hyd farw gynt wedi troi eu cefnau arno, ac yn barod i frwydro yn ei erbyn. Nid hawdd cael neb i ymladd o blaid awdurdod un

Digitized by Google

nad oes ganddo rith o hawl i'r cyfryw awdurdod. Y mae llwyddo i gael pobl i gredu bod dyn y peth yma neu y peth arall, er nad yw hyny mewn gwirionedd, yn ei drawsffurfio yn ymarferol yn y fath fodd fel pe buasai felly mewn gwirionedd, ac ni fuasai waeth iddo fod felly o ran dim a wna hyny o wahaniaeth iddo yn y naill ffordd neu y llall. Yn y sefyllfa yma y mae ac y ceir ein harwr heddyw.

Y mae yr awel yn chwythu yn oer a ffyrnig o'r dwyrain—"gwynt traed y meirw," yr awyrgylch yn llwythog o dew gymylau duon. Y mae yn oer, ac yn oer erwin; ac ni fu rhagolygon ein harwr erioed yn fwy cymylog, a mwy o dywyllwch o amgylch ei obeithiou i esgyn yr orsedd fel Tywysog Gwynedd,—erioed yn fwy llawn o anobeithion. Cymylau a thywyllwch sydd yn gordoi ei feddwl, ac yn ehedfan uwch ei ben. Y maent yn sefyll yn syn, yn cychwyn weithiau y ffordd yma ac weithiau y ffordd draw. Nis gwyr y naill na'r llall ar ba law i droi.

Nid oes amser i'w golli. Y mae rhyw belydr gwan—rhyw wreichionen—megis yn ehedeg ac yn goleuo ychydig ar eu meddyliau. Y maent yn penderfynu casglu byddin i gyfarfod Trahaearn mewn aerfa erchyll ar faes y frwydr. Y mae byddinoedd o wyr Mon, Arfon, Gwyddelod, a Daniaid yn cael eu dygynull yn nghyd. Y mae yn arwain ei lu ar ei fuan farch i faes y rhyfel i gyfarfod Trahaearn. Ei gleddyf llathraid sydd yn dysgleirio yn ei law, yn medi ei fradwyr a'i elynion i lawr yn y fath wedd ag y medai Agamemnon, brenin y Groegiaid gynt, yn rhyfel Caerdroai. Cadfwyell a wrthdarawa yn erbyn cadfwyell, cleddyf yn erbyn cleddyf, bidog yn erbyn bidog, a chyrff bradwyr a gelynion a gwympant y naill ar gefn y llall. Gwaed bradwyr, gelynion, a chyfeillion a ffrydia ac a lifa allan yn un llifeiriant. Cydgymysga y naill a'r llall. Dolefau a chwynfanau torcalonus y rhai a drengant a ferwina glustiau y rhai sydd yn ymwthio yn mlaen, ac yn suddo eu cleddyfau i galonau y bradwyr a'r gelynion. Clywir yn eu plith ochain a llefau,—cydnabod a cheraint anwyl a hoff yn marw! Yn mhlith y cyfryw clywai ein harwr uchenaid ac adlais wanaidd a threngol Cerit ei dadmaeth, a Marndri, Tywysawg y Gwyddyl, ac Arglwydd Cruc Brenan, y rhai oeddynt yn nghyda llawer cant eraill wedi ymuno o ewyllys da ac o wirfodd calon i ddyfod trosodd i ddiwreiddio ac ymlid ymaith y treiswyr oedd yn eistedd ar yr orsedd, yr hon y dylasid ei llenwi gan ein harwr. Hyn ni ddigalonai mo hono, ond ymgreulonai ac ymffyrnigai ef a Chadwgan i'r frwydr. Y maent

Digitized by Google

wedi ymwthio yn mlaen a rhuthro mewn cynddaredd fel i orfodi y gelyn i gilio o derfynau Arfon dros derfynau uchaf y Traeth Bach, ac yn mhell i gyfeiriad Harlech. Y mae holl Forfa Harlech yn orchuddiedig â chyrff meirw o wyr y naill yn gystal a'r llall. Y mae y bradwyr a'r gelynion yn syrthio fel pabwyr o flaen byddin ddysgybledig a deheuig Cadwgan. Er mai byddin ddarniog a gwasgaredig oedd ar y cychwyn, ond ychydig amser a gymerai ef bob amser i ad-drefnu ac i reoleiddio gwyr difedr yn wyr medrus. Meddai dalent tuhwnt i neb y clybuwyd son am dano at hyny. Canmolai a cheryddai fel y byddai amgylchiadau yn galw am y naill neu y llall. Yr oedd eu rhagolygon am enill y frwydr yn ddysglaer ac addawol tuhwnt i'w dysgwyliadau mwyaf gobeithiol, a'r fantol yn amlwg yn troi o'u tu. Ond och! dyma lu o'r newydd o wyr o diriogaeth Powys yn cael eu chwanegu at adeinlu y gelynion. Dyma y frwydr yn dechreu ail ffyrnigo,—y gelyn a'r bradwyr yn gwneyd eu rhuthrgyrch, ac yn bwrw mân-fyddinoedd ein harwr i lawr gallt gerllaw Harlech, yr hon a elwir Bron-yr-erw, neu Erw-yr-allt. Y maent yn amlwg yn colli y frwydr. Y maent mewn dygn astrusi. Nid yw yn gallu ymladd. O'r tu ol iddo gwelir Tudur y gwas o Fon, pen bradychwr ein harwr, yn rhuthro yn mlaen o'r tu ol iddo, ac yn cyfeirio ei gleddyf i'w suddo i'w gefn, yn gyfagos i'r cyfrwy. Llygad Gwyngu a ganfu hyn. Neidiodd i'r adwy. Tarawodd ei gleddyf hyd nes y chwyldrodd yn ol i gyfeiriad pen y bradwr, a bu agos i'w gleddyf ei hun a chneifio ei ben ymaith. Mae yr holl Forfa a'r wlad wedi cael eu duo â chymylau o ryfelwyr dewr o blith y gelynion. Y maent wedi ffyrnigo, ac y mae ein harwr a'i wyr yn colli y dydd; ac os y daw ymwared, rhaid ei gipio megis o ddanedd y dinystr. Y mae yn canfod yn eglur bod Trahaearn a'i lu yn orchfygwyr. Y mae ef a'i nai Cadwgan, er eu holl ddewrder a'u cadernid, yn gorfod ymostwng a phlygu i'w tynged, er mor anhawdd ydyw ymfoddioni; y maent yn gweled y llu yn gwasgu yn mlaen. Ymladd chwaneg nis gallant, a ffoi sydd agos yn anmhosibl. Y mae y morfa gwlyb, siglenllyd, yn llawn pyllau a thyllau dyfnion yn y cyfeiriad lle maent i ffoi—Arfon, ac y mae y fyddin tu arall. Nid yw ein harwr na Chadwgan yn gwybod nac yn deall pa ffordd i ffoi. Y mae y wlad yn hollol ddyeithr i'r naill yn gystal ag i'r llall. Dyma rai o wyr Trahaearn yn dynesu, ac mae llais uchelfloedd a chrechwen orfoleddus i'w chlywed. Y mynyd nesaf bydd y ddau yn garcharorion. Nid oes dim tu allan i wyrth a ddichon eu dwyn allan o'r fagl. Y

Digitized by Google

mae wedi darfod am byth arnynt. Ni ddaw ymwared iddynt; o ba le y daw hi! Y mae iasau oerion dychrynfeydd yn treiddio o wadn y troed i ben y coryn. Nid oes ond tywyllwch caddugawl ar bob llaw. Pob gobaith am orchfygu wedi cilio yn hollol, a'r gobaith i allu dianc, os yr un, yn llawn mwy annichonadwy. Yn y sefyllfa anobeithiol yma y rhaid eu gadael oll.

PENOD XV.

GORCHFYGIAD, LLONGDDRYLLIAD, A GALAR.

Er mor anobeithiol ydyw eu sefyllfa, y mae un llwybr eto yn aros trwy yr hwn y gallant ffoi o gyraedd y dinystr. Y mae y meirch ar ba rai y maent yn marchogaeth yn llawer cant yn gyflymach na rhai y gelyn, ond pa fodd y gallant ddianc? Y mae y wlad yn hollol ddyeithr iddynt, ac yn llawn o byllau a thyllau yn y corsdir. Ped y meiddiasent yspardyno eu meirch a chyflymu ymaith eu hunain, deg i un na fuasent gyda'r carlamiad cyntaf yn hyrddio y meirch a'r marchogwyr i siglen, fel y buasent yn suddo oll gyda'u gilydd i ddiddymdra tragwyddol, fel na fuasai neb byth yn gweled y meirch na'u marchogwyr mwy. Y mae Gwyngu yn gwybod am y wlad bob modfedd, wedi ei theithio lawer cant o weithiau, wedi bod mewn llu o ryfeloedd yn flaenorol,—mewn cadgyrchoedd o bob natur, pryd y bu y rhai a arweiniai yn orchfygwyr yn y naill amgylchiad, ac yn orchfygiedig yn y llall; pryd y bu yn erlyn ar rai adegau, ac yn cael ei erlyn ar adegau eraill. Y mae Gwyngu yn canfod bod gobaith eto y ceir ymwared trwy farchog yn gyflym ymaith. Heb fynyd o amser i ystyried, y mae yn neidio i ysgil ein harwr, ac yn cyflym yspardyno y march ymaith, ac yn llefain ar y lleill i'w ddilyn. Y march a garlamai nerth y carnau, pryd y dilynir ef gan y lleill gyda'r un cyflymdra. Gafaela yn yr awenau a chyfeiria y march o gam i gam gydag ochr y pyllau a'r siglenydd, a llefa ar y lleill am ofalu ei ddilyn yn fanwl ac i drwch y blewyn. Hyn a wneir. Yn mlaen y teithir fel cysgod barcutan. Y maent, cyn pen nemawr amser, wedi gadael meirch y rhai sydd yn eu herlyn yn y pellder, ac yn fuan y maent wedi enill cymaint arnynt fel nad ydynt i'w gweled o gwbl. Heblaw hyny, nid oedd y gelyn yn gwybod y cyfeiriad. Rhuthrodd rhai o honynt i siglenydd, fel na welwyd byth mwy mo honynt. Yn

Digitized by Google

fuan canfyddir hwy yn ffoi ar ffrwst trwy ranau o dir Lleyn. Y meirch sydd yn furym o chwys—yn plympio allan. Rhaid carlamu. Y mae y wlad yn llawn o elynion, a cheir hwy yn mhob congl a chilfach yn cynllwyn am einioes. Cawodydd o saethau a ollyngir allan i geisio ysgubo ymaith eu heinioes; ond diangasant yn hollol ddiniwaid, er i amryw o honynt daraw yn erbyn yr helmau llurigawg. Y maent o'r diwedd yn cyraedd y porthladd, Abermenai, lle y mae gan ein harwr long fechan. Heb oedi dim, y mae yn cael ei gynghori gan Gwyngu i hwylio yn y gadlong fechan un hwylbren, yr hon sydd yn llestr fechan hollol ddisylw,—dim mwy na chwch camlas yn y dyddiau hyn, nac yn llawn mor gadarn, ac yn gwbl anaddas i'r môr. Y mae ein harwr, ei nai Cadwgan, Cynfrig, a Gwyngu yn hwylio i'w reidwyf (fordaith).

Yr oedd Gwyngu a'r rhai a hwylient y gadlong mewn pryder ac enbydrwydd ar hyd y fordaith, yn ofni mai yn y dyfnder y byddai eu gwely, tra yr oedd ein harwr yn gymylog a llwythog ei feddwl, yn drallodus ac egwan ei galon, a Chadwgan yn dawel a digyffro, yn benderfynol, fel arferol mewn cyflwr o astrusi, i gyraedd y lan, neu fyned i'r dyfnder heb gyffroi na chynhyrfu ei feddwl, ac yn gweithio allan gynlluniau o ymwared,—yn rhoi pob gewyn ar waith, ac yn gosod y lleill yr un wedd i weithio y gadlong gandryll yn ddyogel i dir. Gydag yni anghymharol y maent yn lluchio y dwfr allan. Mynych y pistylliai mwy i mewn nag a deflid allan. Yr oeddynt yn llifo o chwys, ac yn aml mewn dwfr uwchlaw eu haner. Y mae croeswynt ffyrnig yn chwythu, ac er yr holl ymdrech a wnaed ac a wneir gyda ladeni cafniog, gyda choesau hirion fel rhawiau, i fwrw y dwfr allan, y mae chwaneg yn ymwthio trwy holltau ac agenau yn yr ochrau, ac yn y gwaelod, nag ydynt yn allu fwrw allan. Ac er dychryn mawr i bob un, ond Cadwgan, y maent yn canfod bod holltau amrywiol yn agor o'r newydd yn yr ochrau ac yn y gwaelod. Nid oes dim gobaith y bydd i unrhyw dynged eu cyfarfod ond suddo i'r dyfnder. Erbyn hyn y maent hyd eu ceseiliau mewn dwfr, ac mewn rhai adegau y mae cryniadau ac ymchweliadau y gadlong yn hyrddio y genllif oddimewn dros eu penau, hyd nes y maent bob un yn cael eu cludo gan y rhyferthwy i fesur y llawr. Hyrddir y gadlong gan y rhyferthwy anarferol o hyrddwynt sydd wedi ymgodi i bwynt corwynt. Ysgubir hi fel cawnen ar wyneb y dyfnder. Y mae yn cyflym suddo. Y llongwyr a'r oll mewn cyffro a braw erchyll, ond Cadwgan, yr hwn a saif ar y pen blaen yn wyliwr.

Digitized by Google

Nid oes ddadl yn meddwl neb nad suddo a wna, ac y bydd iddynt gyfarfod â dyfrllyd fedd. Y mae tywyllwch y nos yn gaddugawl, fel nad eill neb weled ei law pan ei gosodir o fewn ychydig fodfeddi i'r gwyneb. Pan oedd y dyfroedd agos wedi ei llenwi, dyma yr osghwylbren a duryn y llestr, agos ar yr un adeg, yn claddu i ryw sylwedd ychydig yn fwy sylweddol na dwfr. Nid allai un ddirnad pa beth oedd y gwrthdarawiad, nac yn erbyn pa beth yr oedd wedi gwrthdaraw. Dyma waedd a chrochlef y tu mewn. Nid oedd yn syflyd mwy, ond rhuthrai y tonau mawrion gyda'r fath gynddeiriogrwydd o'r tu ol hyd nes y mae y pen ol yn codi i fyny, a'r cynwysiad oddimewn yn cael ei fwrw allan,—y bobl a phob peth blith draphlith. Cadwgan sydd eto mor ddewr ag erioed, ac mor gadarn a digyffro a phe buasai dim wedi dygwydd. Llefai yn uchel bod yn rhaid eu bod wedi gwrthdaraw yn erbyn banc o dywod, neu draeth ryw ynys. Y tywyllwch dudew sydd eto mor dew fel nad ydynt yn alluog i wneyd allan yn mha sefyllfa y maent, na pha beth ydyw eu rhagolygon am arbed eu bywydau. Y mae Cadwgan yn ymwthio yn mlaen i'r cyfeiriad lle y mae tir, fel y mae yn tybio, ac yn cael ei hunan cyn pen ychydig o eiliadau ar draethell, ac yn llefain ar y lleill ymwthio hyd ato, y rhai yr oedd wedi gorchymyn iddynt beidio syflyd cyn iddo gael allan pa gyfeiriad a fyddai oreu iddynt gymeryd. Dyma nhw oll ar y draethell; ac ymă gyda'u dillad yn wlybion yn ysgrydu ac yn crynu, fel y mae eu danedd yn clecian yn erbyn eu gilydd. Y maent yn gorfod ymdawelu ac aros i'r dydd oleuo; y fangre dan sylw a adnabu Gwyngu fel Ynys Adron, gerllaw Caergybi, ei fro enedigol a'i breswylfod.

Yn fuan ar ol hyn yr ydym yn eu cael wedi cyfnewid dillad, ymdrwsio, ac ymddadebru ar ol yr enbydrwydd, y dymhestl, a'r rhyndod a fu agos a throi yn angeu i'r naill yn gystal a'r llall, yn hwylio yn gyflym mewn chwimlong newydd, un o rai Gwyngu, yr hwn nid arbedodd unrhyw draul na thrafferth i'w harlwyo â'r cyfryw, ac i fyned ymaith gyda hwy am ddinas Dulyn. Tymhestl a chroeswynt erchyll fu eu rhan ar hyd y fordaith. Y mae y llongwyr yn rhai lled anmhrofiadol, ac yn anhysbys i raddau o'r cyfyngfor. Dyma hwy, ar ol hwylio yn hollol annyben, yn cyraedd pen y fordaith, a'n harwr yn prysuro at y brenin, Ranallt ei frawd, yr hwn nid oedd wedi clywed dim am ei helyntion a'i helbulon. Yr oedd ei gwynion a'i achwynion yn lluoedd, y rhai a drallodasant y brenin a'i dywysogion yn ddwys. Treiglai dagrau yn ffosydd i lawr eu gruddiau,

Digitized by Google

—dolefus a thorcalonus oedd y cri a ddeuai allan, ac ocheneidiau cwynfanus a esgynent i fyny. Ymdaenodd y si o'i anffodion a'i aflwyddiant fel tân gwyllt ar hyd a lled y ddinas, ac yn mhell tu allan i'w therfynau. Nid llai, na llai dwfn-dreiddiol, oedd galar a chwynfanus floedd y brenin, ei dywysogion, trigolion y ddinas, a phreswylwyr y cyffiniau, i gyraedd ac i glyw y rhai y cludwyd yr hanes, na galar a chwynfanus swn ein harwr a'r rhai oeddynt yn gymdeithion ac yn ddilynwyr iddo.

"'Rwy'n methu gwybod," seiniai Gruffydd yn gwynfanus, ac mewn tôn rwgnachlyd, "pa beth i'w wneyd, nac ar ba law i droi. Trodd pob peth yn fy erbyn fel cwpan yn y dwfr,—y rhai a fuont yn gyfeillion, yn bleidwyr o'r fath oreu a mwyaf ffyddlawn, yn arweinwyr fy nghadgyrchoedd, ac yn ymladdwyr dewr ar faes y gwaed, a droisant eu cefnau arnaf, ac a gynlluniasant frad yn fy erbyn. Gwnaethant yr hyn oedd yn eu gallu i'm diorseddu ac i'm hyrddio yn grwydryn diorsedd a dihawl!"

"Pa beth," ebai Ranallt, "ydi hyn a glywaf,—cyfeillion yn troi yn fradwyr! y rhai fu yn ymladd o'th blaid yn troi i ymladd yn dy erbyn? Pa beth a wnaethost i'w tramgwyddo? Pwy oeddynt? gad wybod."

"Jë, y rhai a fuont yn ymladd o'm plaid yn troi i ymladd yn fy erbyn! Ni wnes ddim i'w tramgwyddo, nac i beri iddynt oeri mewn un wedd. Ond yr oedd rhai o'r cyfeillion, Cynfrig yn eu plith,—yr wyt yn ei adnabod yn dda,—yn fy hysbysu nad oedd eu calon gyda mi. Nid oeddwn i ddim ond pawen cath i dynu y cnau o'r tân. Yr oedd pob un yn fwy tueddol i osod rhywun arall ar yr orsedd. Bu Rhobert Gastellwr yn brwydro ac yn ffuantu ei fod yn arloesi y wlad i'm hyrwyddo i'r orsedd; ond mor fuan fyth ag y gwelodd ei gyfle, dygodd Ffrancod, Danysiaid, a Saeson i wladychu cyffinian Gwynedd. Yr oedd wedi llenwi Tegeingl a Dyffryn Clwyd â'r cyfryw, ac yn eu gwthio yn mlaen i dueddau creigiau Eryri, ac oni b'ai i ni ymarfogi ac ymwthio i'w hymlid ymaith, fe fuasai yr holl wlad wedi ei llenwi â'r cyfryw, a chiwdawd ein cenedl wedi eu lladd, neu eu hanfon i alltudedd; ac un arall,—nid y fi, gan yr hwn yn unig y mae y wir hawl,—wedi ei osod ar yr orsedd. Bu meibion Merwydd—Asser, Meiriawn, a Gwgawn, Tudur y gwas o Fon, a Chollwyn, yn ymladd o'm plaid; ond yn fradwrus, tra mewn tawel hûn yn llys Aberffraw, addunasant a hudddenasant holl wyr Lleyn trwy chwedlau anwir i godi gwrthryfel yn fy erbyn i, eu 'harglwydd priodawr.' Teithiasant liw nos, anrheithiasant holl derfynau a chyffiniau tir Lleyn; lladdasant

Digitized by Google

yn eu lletyau, tra yn cysgu yn dawel yn eu gwelyau, y rhai oeddynt wedi rhoi gwyliadwriaeth heibio, heb fawr feddwl fod drwg a blinfyd yn agos—rifedi nas gwn yn iawn eu rhif—rai canoedd o'r marchogion a'r pedyd goreu a feddwn, y rhai a gefais genyt i fyned drosodd gyda mi i ymladd ac i amddiffyn y rhandir, i'm gwarchod rhag gelynion o bob lliw a llun, ac i gadw i fyny gyfanrwydd y dywysogaeth a'r orsedd."

"Beth oedd y chwedlau drwg y soni am danynt?" ebai Ranallt.

"Yr oeddynt gydag eraill wedi bod wrthi yn ddiwyd a manwl ar hyd yr amser yn lledaenu mai bastardd i fy fam oeddwn i, wedi fy nghenedlu tra fy nhad Cynan yn ymladd brwydrau chwerwon â Gruffydd ab Llewelyn. Darlunid fy mam fel Gwyddeles, lac hollol ei chymeriad gyda dynion, ac yn teimlo yn rhydd hollol i gadw cwmni ag unrhyw un a alwai heibio, tra na byddai fy nhad, ei gwr neillduol, gartref. Ei bod mor rhydd i ffurfio cysylltiad ag unrhyw ddyn a dalai ymweliad a'r llys, pan y byddai Cynan allan o olwg, ag a fuasai i wneyd amod ag unrhyw weithiwr i gwblhau gorchwylion a negesau oddeutu y palas, y rhai nad oedd o bwys pwy a'u gwnelai, os yn alluog i'w cyflawni yn ddifai; nad oedd yn teimlo ei hun dan rwymau i ymlynu wrth yr hualau priodasol ond tra y byddai ef wrth ei hochr ac yn *gafael* ynddi! Mor fuan ag y cefnai ar yr ystafell fod pob peth yn cefnu ac yn cilio, a phob cysylltiad yn tori yn gant o ddarnau. Lledaenid mai bachgen o ddarddiad a haniad felly oeddwn i, yr hyn ar unwaith oedd yn diddymu fy hawl a'm hawdurdod i eistedd ar orsedd Gwynedd."

"Ffwlbri, ffwlbri! siarad ofer hollol," ebai Ranallt; "yr oedd ein mam yn ddynes nad anadlodd awyr erioed un yn cadw yr undeb priodasol yn fwy pur a difwlch. Ni fu dau erioed yn cadw cyfanrwydd y cwlwm yn fwy difwlch. Nid newydd hyn i ti, ond â'r lleill yr wyf yn siarad. Nid allai y naill feddwl gadael i'r llall fyned i unlle heb eu gilydd, a byddai bob amser yn methu gadael iddo fyned ymaith hebddi. Dilynodd ef dros y weilgi pan aeth drosodd i ryfela â Gruffydd y Treisiwr, fel y galwai Gruffydd ab Llewelyn, a chredwyf mai yr ochr arall y lluniwyd di. 'Does ddichon i neb gredu hen chwedlau penrydd fel yna. Os ydi y Cymry yn bobl ehud a hygoelus fel yna, nid ydyw bod yn dywysog iddynt ac eistedd ar orsedd Gwynedd ond dianrhydedd a diraddiad o'r fath fwyaf. Buasai yn well gen' i fod yn dywysog ac yn frenin cathod a chwn hela gan'waith."

Digitized by Google

"Coeliwyd y chwedlau yn lled gyffredinol. 'Does yno neb yn gwybod nemawr ddim am fy nhad, ac y mae dysgwyl iddynt wybod dim am fy mam allan o'r cwestiwn. Hawdd y geill celwyddogion gael gan bobl gredu unrhyw chwedl am yr hyn nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth am dano, yn enwedig pan nad ydi y celwyddogion yn hysbys ac yn adnabyddus yn y wlad lle y maent yn traethu. Nid hawdd a fuasai iddynt gael neb i gredu *gwirionedd* a draethant yn eu cartrefloedd, ac yn mhlith eu cydnabod.

"Cafodd Trahaearn, fy hen elyn a threisiwr fy awdurdod, afael yn y chwedl. Teithiodd, llefodd, a dyrchafodd y cri penweigyn coch hwn, trwy holl derfynau a chyffiniau gwlad Powys. Goddeithiodd y wlad, ac enillodd holl drigolion y lle i godi mewn gwrthryfel. Gwenwynai eu meddyliau yn mhob dull a modd. Achwynai ein bod wedi lladd Cynwrig, ei gâr, mewn gwaed oer, yr hwn nid oedd wedi gwneyd dim yn galw am hyny. Adgofiai iddynt greulondeb anhysbydd Iago ab Idwal a'i wehelyth er cyn cof, yn lladd, yn dyspaddu, ac yn dilygeidio pob un na thueddai i ymuno yn eu rhengoedd. Ni safai yma chwaith, ond traethai filoedd o anwireddau eraill. Yr oedd pob un yn y wlad yn sicr o syrthio trwy fin y cleddyf, os dyrchefid fi i'r orsedd. Nid oedd gen' i ddyben uwch mewn golwg nag arloesi y wlad o'r holl hiliogaeth frodorol, a dwyn i mewn rai Gwyddelig o'r Werddon, llu o'r rhai oeddynt yn barod yn y wlad. Yr un cri, yr un hanes hefyd a ledaenwyd yn Mon gan Tudur a Chollwyn, fradwyr, ac eraill. Yr un llef a udgenid yn nghilfachau creigiau Eryri, yn holl randir Lleyn, Arfon, a chantrefydd Meirionydd. Meddianwyd y wlad o benbwy-gilydd a'r chwedlau hyn. Ysgubodd fel haint, ac ymledaenodd fel tymhestl o eira gyda gwynt y gogledd. Y werin bobl, a llu gynt a geid yn unfryd unllais yn bloeddio 'Byw fyth fyddo Gruffydd,' a welid yn troi yn chwimwth ar eu sodlau, ac yn bloeddio yn saith uwch ac yn clochdardd yn unllef, 'I lawr yn ystremp, i lawr yn deilchion, i lawr yn siwrwd yr elo Gruffydd, gwehelyth y llofruddion, y cudd-lofruddion, y dyspaddwyr, y dilygeidwyr creulon, y bastardd o gymysgryw y Wyddeles, o ishaniad a thras na Gwilym Fastardd.' Chwedlau cythreulig fel hyn a wenwynodd feddyliau da a theyrngarol y bobl yn ein herbyn. Yr oedd y mân demigau o fyddinoedd a feddem yn egwan a bychain eu rhif. Nid oedd dim dichon i ni allu eu gwrthsefyll. Yr oedd y wlad oddeutu Harlech, dan arweiniad Trahaearn, yn ddu o honynt, yn amlach eu rhif na brain. Crafanc erchyll a

Digitized by Google

gerwin fu yno. Trodd y frwydr i'n herbyn, a buaswn i wedi fy lladd—wedi syrthio oddiar y nghyflym farch yn farw trwy gleddyf Tudur, ben fradwr o Fon, oni b'ai i Gwyngu Farwn fendigedig yma, o'r un rhandir, ond o anianawd hollol wahanol, neidio i'r adwy, a tharaw ei gleddyf ymaith, fel y bu agos iddo a chneifio pen y llechgi i ffordd. Hyll hwyliodd ni o'r 'frwydr,' rhwng pyllau a thyllau y morfa, o Grafanc Erwin y Fron. Enw gwell nis gellir gael arni, a gelwir hi felly hyd ddiwedd amser. Dyma ni yma o'th flaen, o flaen dy lu tywysogion a phobl y ddinas a'r cyffiniau, yn grwydrwyr tyllog a holltog o wisg, ac yn wag ein cylla, heb lys na llywodraeth, wedi cyfarfod â thymhestl a llongddrylliad. Rhaid i mi dreulio y gweddill o'm dyddiau heb fod yn ben na pherchen, heb lys na llywodraeth.

PENOD XVI.

LLYNGES A GWYR ARFOG YN HWYLIO I DDYCHWELYD I'R WERDDON YN OL.

Yr oedd gwallt pob un yn yr ystafell yn sefyll yn syth ar ei ben, ac iasau o gynddaredd yn rhedeg trwy eu gwythenau. Llywodraethid pob un â theimlad o ddirmyg at y rhai oeddynt wedi troi yn fradwyr creulawn i'n harwr. Meddianwyd hwy, meddir, ar y naill law â theimlad ysgornllyd at ei fradwyr a'i elynion, ac ar y llall â thosturi a gresyndod at y sefyllfa adfydus a thrallodus y dygwyd ef iddi. Yr oedd Gruffydd oherwydd y driniaeth chwerw a gyfarfu, y chwedlau anwireddus a ledaenwyd am dano, y rhai oeddynt wedi cael eu credu yn lled gyffredinol, ac wedi, nid yn unig gymylu a thywyllu ei ragolygon o esgyn ac eistedd ar orsedd Gwynedd, ond chwythu pob hawl a phob rhith o hawl i fod yn ben a pherchen, i feddu llys na llywodraeth mewn unrhyw ran. Yr oedd yn ei feddwl wedi gadael y wlad, heb fwriad i ddychwelyd byth yn ol. Y mae y chwedlau drygionus yn nghylch ei haniad a'i darddiad wedi gwenwyno meddyliau a throi calonau y bobl yn ei erbyn. Nid oes ganddo yn marn llawer na hawl na rhith hawl, nid yn unig yn nhywysogaeth Gwynedd, ond i aros fel deiliad, ac i anadlu awyr y wlad. Gwyddyl a gordderch o Heberniad ydyw! Nid oes neb o'r trigolion yn barod i'w gydnabod fel eu tywysog, ped y llwyddai i gasglu llynges a byddin i fyned drosodd i'w gorchfygu, a phed y llwyddai i'w gwastadhau trwy fin y

Digitized by Google

cleddyf. Hyn, a hyn yn unig, ac nid colli y frwydr, oedd yn tori ei galon. Yr oedd Ranallt a'r tywysogion yn canfod oddiwrth eiriau, tôn, a llais ein harwr, ei fod wedi rhoi y syniad i fyny am byth o weithio ei ffordd a hòni ei hawl i fod yn dywysog Gwynedd. Y mae ei olygon, ei wynebpryd, ei drem, ei osgedd, ei ysgogiad, a'i rodiad, yn hawdd darllen oddiwrthynt ei fod yn credu ac yn argyhoeddedig ei fod wedi cwympo, fel nad oes obaith iddo godi mwy. Y mae wedi dychwelyd yn ol i'w enedigol fro, i dreulio y gweddill o'i ddyddiau mewn ymneilluaeth, unigedd, a dinodedd tragyfyth, fel y tybia. Dychwelodd yn ol i greu arswyd a dychryn yn mynwes Ranallt ei frawd a'i lu. Ei lygaid awchus ac erfyniadol a enilla ddwfn dosturi a chydymdeimlad. Llenwir ei lygaid â dagrau, y rhai a dreiglant i lawr yn genllif ar hyd ei ruddiau.

Y mae hyn yn enyn ac yn cynhyrfu cydymdeimlad o'i blaid. Y maent oll o'r mwyaf hyd y lleiaf yn llawn awydd i ymwirfoddoli ac i ymarfogi i fyned gydag ef i ryfel, i roi curfa dda i'r rhai oeddynt wedi troi yn fradwyr iddo, a throi eu cefnau arno ar faes y gwaed, ac ymosod yn llyfrgwn—annheilwng o'r enw dynion—liw nos, a lladd ei wylwyr tra yn eu hystafelloedd ac yn eu gorphwysfeydd. Y maent yn llwyddo i'w ddarbwyllo y diffydd y chwedlau anwireddus a ledaenwyd am dano. Maent yn credu hyny am nad oes i gelwydd goesau, ac y byddai o ganlyniad wedi hen gwympo, a chwympo a diflanu o fodolaeth cyn byth yr elai yn ol, fel na fyddai iddo godi byth mwy. Buan y llwyddwyd trwy hyn i'w argyhoeddi y gellid ac y mynid tywysog Gwynedd o hono, er yr holl fradwriaethau, holl gynllwynion a dichellion y fall, ac anffodion o bob lliw a llun, y rhai a ddaethant i'w ran o bob lle. Y maent yn ei anog ac yn ei hwylio yn ol.

Y fuan gwelir llynges gadarn o ddeg llestr ar hugain ar wyneb y dyfnder, yn llawnion o bigion rhyfelgar o blith milwyr Dulyn a'r cyffiniau, oll yn wirfoddolwyr, yn awchus i ryfel. Yma ceir Gwyddelod, Daniaid, a phob math o wyr arfog, fel teigriaid a llewod, yn llawn o ysbryd lladd a llarpio, a thalu y pwyth yn fwy na dau ddyblyg. Mae ein harwr, os bu ei galon yn isel islaw rhewbwynt ychydig amser yn ol, yn llawen ac yn dychlamu mewn hwyl. Anhawdd gwybod pa un ai efe ar fwrdd y llestr sydd yn dawnsio yn fwyaf hoenus, ai ynte y llestr ar wyneb y dyfnder. Ei galon sydd lawn cymaint uwchlaw uchbwynt ag a fu o'r blaen islaw isbwynt. Mae y darpariaethau mewn celfi milwrol a lluniaeth yn ddigon i ddwyn yn mlaen gadgyrch â Gwynedd a Deheubarth.

Digitized by Google

Y maent yn hwylio gyda'r cyflymder mwyaf. Ar ol mordeithio gyda chyflymdra cysgod yr hwyr, ceir hwy yn dyfod i olwg Abermenai, ac yn cyraedd y porthladd, yn tirio, ac yn ymwthio yn mlaen i gyfeiriad Lleyn, lle mae Trahaearn yn gwladychu. Y si a'r son sydd yn y fan yn cyraedd ei glustiau. Tristâu ac ocheneidio a wnaeth, ac ergryn ac ofn a'i dygyrchodd; a mudo a wnaeth wyr Lleyn ac Ardudwy a'u da i Gantref Meirionydd, fel na chafodd ein harwr na dynion na dâ. Y mae yntau yn dilyn ei esiampl, trwy fudo y rhan arall o Leyn ac Arfon i dir Mon, fel y gallant fod yno dan ei amddiffyn. Yr oeddynt wedi mordwyo o'r Werddon i ymladd â Thrahaearn, i ymosod yn ffyrnig arno ef a'i wyr mor fuan ag y byddai iddynt lanio; yr oedd yspail fawr yn eu haros ar ol terfyn yr ymgyrch. Dysgwylient anrhaith o bob math yn y wlad, ac y byddai i'r hyn a geid eu gwneyd yn foneddigion am eu hoes. Yr oedd cynlluniau y frwydr wedi eu tynu allan, ac ymladdfeydd o'r fath fwyaf llewpartaidd a theigraidd i gael eu rhoi ar droed mor fuan fyth ag y byddai iddynt gyraedd. Hwyliodd yr oll mewn llawn cynddaredd, ac yn dyheu am gael cyfle i dalu y pwyth i Trahaearn, yn ad-dal iddo am y grafanc erchyll a gymerodd le gerllaw Castell Harlech. Siomedigaeth o'r fath fwyaf i'r rhai a ddaethant trosodd oedd gweled nad oedd gobaith iddynt gael dechreu brwydro. Yn lle ymladd, y maent yn cwblhau gwaith bechgyn buches a bugeiliaid,—gorchwyl isel a diraddiol yn eu golwg,—cymeryd ymaith o dir Lleyn y daoedd a'r defaid i dir Mon. Hyn sydd yn eu golwg fel encilio a cholli tir,—llyfrgwn ac nid rhyfelwyr pybyr ydynt yn eu golwg eu hunain. Mae hyn yn eu llidio, ac yn eu llenwi o gynddaredd at Gruffydd. Nid yw yn eu golwg yn well na gwaeth na gwallgofddyn. Hwynt-hwy wedi ymwirfoddoli ac ymarfogi i ddyfod gydag ef i frwydro ac i yspeilio Trahaearn, i'w ladd ef a'i wyr, ac i lenwi eu llongau ag yspail. Nid oes obaith iddynt gael y naill na'r llall. Yr oeddynt ac y maent eto yn llawn awydd i dreio eu hunain fel ymladdwyr, fel rhyfelwyr dewr a diail. Nid yw ein harwr yn son haner gair am ymwthio ar ol ei hen elyn Trahaearn i Gantref Meirionydd, a dangos iddo y fath ryfelwyr a'r fath wyr cedyrn ac ymladdgar a pheryglus yw y Gwyddelod—y bastarddiaid, fel y galwai ef hwy—i'w cyfarfod mewn ymgyrch. Yn lle dangos nad oes ganddo eu harswyd, a'i fod yn benderfynol o ymwthio ar eu hol a brwydro â hwy pa le bynag yr elont, dyma ef yn actio rhan y llyfrddyn, yn cludo pobl, daoedd, a defaid i Fon, yn y fath wedd a phe b'ai yn

Digitized by Google

encilio o'u ffordd. Y mae mynwesau y Daniaid a gwyr ei dŷ a'i dylwyth ei hun yn cael eu llenwi o lid tuag ato, am na ddarfu iddo wneyd fel yr addunedai wrthynt pan yn cychwyn. "Hwylio trosodd gydag ef i ryfela, ac i ddangos ac i brofi ein gwrhydri ar faes y gwaed!" Yr oeddynt yn eu golwg eu hunain fel ynfydion llwfr, ac nid rhyfelwyr. Yn lle dyfod i ddangos ac i brofi yn ymarferol nad oedd arnynt arswyd Trahaearn a'i lu olynwyr, na'r rhithyn lleiaf o ofn i'w gyfarfod a'i orchfygu ar faes y frwydr,—i'w orchfygu yn deg ar ei domen ei hun, a meddianu yr hyn oll a feddai o oludoedd,—fel *hen wrageddd* hudir hwy i encilio yn lle erlyn.

Yn wrol o feddwl ac uchelfrydig o galon y maent yn lleisio yn uchel ac yn rhwygo yr awyr wrth ruthro yn mlaen a chilio yn ol i ymbarotoi a dysgyblu eu hunain gogyfer a'r adeg pan y bydd iddynt ddyfod i wrthdarawiad â'r gelyn, Trahaearn a'i gadlu. Nid yw encilio yn unol â'u hanrhydedd; ac os encilia y gelyn, penderfynir ymlid ar ei ol; ond dyma ein harwr yn ofni, yn syrthio yn ol! Y mae ysbryd gwrageddos wedi ei oddiweddyd. Mae y gurfa a dderbyniodd oddiar ddwylaw Trahaearn y waith flaenorol wedi codi yn fwganod mawrion i'w benglog. Y Daniaid a'r Gwyddelod ydynt yn glaf o galon, ac yn greulawn o lid wrth feddwl am y gwarth a'r gwaradwydd y dygwyd hwy iddo: maent yn rhuthro ar oludoedd a chyfoeth Mon—cyfoeth a goludoedd y cefnogwyr a'r pleidwyr—yn lle yr eiddo y gelyn, o'r hwn yr oeddynt mewn addewid ac mewn hawl o hono; yn llenwi eu llongau â'r cyfryw, ac yn ddiweddaf oll cipir Gruffydd, a chludir ef fel y gwelir cudyll goch yn cludo aderyn bach yn ei chrafangau, i un o'r llongau, yn erbyn ei ewyllys ac o'i anfodd, i'w gymeryd trosodd gyda hwy i'r Werddon yn ol. Ofer ydyw iddo siarad, na chynyg dadl na rheswm;—ofer ydyw iddo godi ei lais a'i lef, ac ymnhedd mewn dagrau i erfyn arnynt oedi ac aros hyd nes y deuai yr amser a'r adeg briodol iddynt ymwthio yn mlaen i ymdaraw ac i ryfela â'i hen elyn Trahaearn.

Nid oedd wedi ymosod a dwyn yn mlaen ei gadgyrch rhagllaw ar ol glanio, am hyny nid oeddynt hwythau am ryfela o gwbl, nac am aros yn y wlad. Pallodd eu hamynedd; mynasant, nid yn unig fyned eu hunain i'w llongau i ddychwelyd yn ol, ond cipiasant yntau, yn nghydag anrhaith fawr o dir Mon, cyfoeth cyfeillion dewraf a ffyddlonaf Gruffydd, yr hyn a chwerwodd eu hysbryd a'u teimladau tuag ato. Brad y rhai hyn ni fu lai niweidiol na llai dinystriol i Gruffydd na brad y Cymry.

Digitized by Google

Y mae y si a'r son am hyn yn cyraedd clustiau Trahaearn a'i fyddinoedd, yn creu eu tristwch a'u wylofain yn orfoledd, ac yn duo rhagolygon Gruffydd i frwydro ac enill y dydd yn y dyfodol. Y mae yr anffawd wedi creu rhai canoedd o elynion o'r newydd iddo yn Mon, ac mae lle i ofni y bydd i hyny ei niweidio trwy holl ranau tir Gwynedd, fel y bydd ganddo lawer cant mwy i'w enill i weithio ei hunan i'r safle a feddai—cyn glanio y waith hon—yn yr amrywiol randiroedd, a gweithio ei hunan i lwyddiant. Ni fu ei ragolygon erioed yn dduach. Y mae yr hyn a ddygwyddodd yn agor y drws i ddinystr ddyfod i'r wlad o bob cyfeiriad. Nid oes wybod pa beth a ddygwydd, na pha genllif a ysguba tros arwynebedd y wlad, fel y bydd iddi gael ei diffeithio, a'r trigolion gael eu herlyn a'u hymlid fel defaid o flaen bleiddiaid.

Mae Gruffydd yn cael ei gludo yn ol, megis ci yn erbyn ei glustiau. Mae hyn wedi dygwydd trwy anghydwelediad, un bychan iawn—dim ond y *cwestiwn o amser i ymosod.* Nid yw hyny yn codi oddiar ddim ond byrbwylldra a nwydwylltedd, yr hyn sydd afiechyd treftadol yn disgyn o genedlaeth i genedlaeth yn y gwaed Celtaidd. Un cam wedi eu taflu yn ol ddeg. Dyma hwy wedi dychwelyd yn ol i'r Werddon. A fydd o ryw ddyben i'n harwr ail gasglu llu eto yn y Werddon i ddychwelyd i Gymru? Y mae lle i ofni ar hyn o bryd na fydd; ond cawn weled pa fodd y bydd i ddygwyddiadau gael eu dadblygu yn y dyfodol.

PENOD XVII.

HWYLIO AM ABERMENAI, A GLANIO YN MHORTH CLAIS.

Fel y crewyd ofnau y byddai i'r anghydwelediad bychan rhwng Gruffydd a'r gwyr a ddaethant gydag ef o'r Werddon i ymlid Trahaearn a'i lu o'r wlad, ac i urddo ein harwr yn ben a pherchen tywysogaeth Gwynedd, gan yr hwn yn unig, yn anad neb arall, yr oedd y wir hawl,—agor y drws i alanastra cyffredinol ymdaenu fel haint ar hyd a lled y wlad. Nid ydym yn myned i son dim am ddoethineb nac annoethineb ymddygiad y naill na'r llall. Y mae wedi dygwydd—y mae y cam wedi ei roi, ac nis gellir neidio yn ol bellach,—rhaid i'r hyn a ddygwyddodd aros. Ni fyddai i athronyddu a chwilio allan yn mha le, na pha sut yr ymwthiodd, ac y gweithiodd yr anffawd dan sylw

Digitized by Google

i'r golwg fel y cynyddodd ac yr ysgubodd bob peth o'i blaen, ac y dygodd hafog gyffredinol ar y wlad.

Cyn agos bod y llynges—i un o'r rhai yr oedd ein harwr wedi ei wthio o'i anfodd—yn ei llawn hwyliau, ac yn hwylio yn ol am y Werddon o Abermenai, y mae Hugh Flaidd, yn nghorpws yr hwn hefyd y preswylia Huw Fras, Iarll Caer, Rhobert Gastellwr o Ruddlan, Gwarain o Amwythig, a Gwalter Iarll Henffordd, yn cynull, fel y dywed yr hen groniclau, y llu mwyaf yn y byd o farchogion a phedyd, ac yn dwyn gyda hwy Gwrgenau mab Seissyll, a gwyr Powys—yn lluosog ac aml eu rhif, i wneyd rhuthrgyrch cyffredinol ar y wlad. Dygir y Cymry gyda hwy i gelu Normaniaeth yr ymosodiad, a Gwrgenau a ddygir i sylw fel un y maent yn bwriadu ei urddo yn dywysog, wedi y byddo iddynt arloesi y wlad oddiwrth surdoes noddwyr ac amddiffynwyr Gruffydd. Y maent yn teithio ar hyd y mynyddoedd hyd nes y daethant i randir Lleyn. Nid cynt y maent yn cyraedd yma nag y ceir fod eu cynddaredd yn crychferwi mewn digllonedd. Y bwäu saethau, y cadfwyeill, a'r cleddyfau sydd yn hau dinystr i bob cyfeiriad. Ceir hwy yn lluestu mewn gwahanol ranau o'r Gantref am saith o ddyddiau, yn lledaenu angeu a marwolaeth ar bob llaw. Hen, canol oed, ac ieuanc a hyrddir yr un wedd—i'r tir dystaw. Y genethod a'r bechgyn ieuainc, pan wedi cydgyfarfod yn mrig yr hwyr i gyd-deithio ac i rodiana fraich yn mraich, i gofleidio ac i fwynhau yn anwyl ac yn felus gyfeillach eu gilydd, ac i siarad am yr adeg pryd y cylymid hwy, fel na fyddai datod hyd oni wahano angeu, a syrthiant trwy y gadfwyell neu fin y cleddyf; yn ochr yn ochr ac yn bentwr y gwelir hwy yn gelaneddau meirwon gyda'u breichiau eto yn cynhes gylymu eu gilydd yn nghyd. Penau plant bychain a rhai yn sugno a dorir ymaith. I'r aneddai a'r bwthynod bychain yn nghilfachau ac yn holltau y creigiau y rhuthrir; yr hen wyr a'r hen wragedd, gyda methiant henaint—eu llygaid wedi pylu, eu clustiau wedi trymhau, y rhai oherwydd hwyrddydd eu bywyd, a rhifedi eu dyddiau, ydynt wedi cael eu cyfyngu i'r gongl fel nad allant ymlwybro i, nac o'r gwely, heb gynorthwy rhai o'u plant—nid arbedir ac nid atelir min y cleddyf rhag gwneyd ei waith. Heu wyr a gwragedd yn orweddiog yn eu gwelyau a hyrddir heb rith o dosturi, gan Huw Flaidd. Iawn ebai pob llais a hanes y gelwir ef yn "Flaidd"—math o anifail, nid yn unig a gynrychiola, ond a heria ac a'i blaenora yn mhell yn eithafrwydd anghymharol ei greulondeb a'i ddialedd annaturiol. Hyn oll a wneir i chwynu

Digitized by Google

y rhandir o bob gwreiddyn, boncyff, pren, cangen, a blaguryn a ddichon fod yn bleidiol ac yn gefnogol i'n harwr, yr hwn sydd yn awr yn y Werddon, ac hwyrach yn gerain yma a thraw am lynges, milwyr a lluniaeth, i wneyd ymgais ychwanegol i forio trosodd i adenill treftad ei dad, ac i osod ei hun yn dywysog Gwynedd.

Y mae y trigolion yn canfod yn eglur y bydd i bob un syrthio trwy fin y cledd. Dinystr ac angeu diarbed ydyw tynghed pob un i fod—nid oes arbediad na thrugaredd i gael i neb. Gweloddy rhai oeddynt mewn hoenusrwydd iechyd a chryfder nad oedd dim a allent wneyd yn well na ffoi, a hyny a wnaed, gan adael rhieni methedig a rhai ieuainc o'u hol, i gael eu lladd gan y Blaidd ag oedd wedi gweithio ei ffordd i'w bro a'u rhandir heddychol gynt. Aeth llu a llengoedd i alltudedd i wleddydd eraill am ddegau o flynyddoedd, ac eraill fel na chlybuwyd air byth o son am danynt. Y rhai oeddynt yn berchenogion tiroedd a ymlidiwyd allan o'u hanedd a'u tir, ac a drowyd i ehedfan yn y byd llydan, heb le yn unlle i roi eu penau i lawr. Y perllanau a blanwyd ganddynt a gymerwyd o'u meddiant, fel na chawsant fwynhau o'u ffrwyth; y defaid, y buchod, y rhai a berchenogent a gymerwyd ymaith, fel na chawsant wlan y naill i'w cynhesu, na llaeth y lleill i ymborthi arno. Y ffynonau a gynlluniwyd ac a gloddiwyd ganddynt, ni chawsant yfed o'u dyfroedd. Anrheithiwyd y wlad o ben-bwy-gilydd, a pharhaodd y diffeithiad am wyth mlynedd.

Nid oedd y Normaniaid erioed wedi croesi drosodd i dir Gwynedd cyn y waith hon, a bu eu dyfodiad yn gyfryw fel na ddymunai ac na charai neb ei weled eilwaith. Ni fu y fath haint a phla dinystriol mewn rhandir na gwlad erioed. Son am locustiaid a'r pläau eraill yn yr Aifft, yn difa ac yn dinystrio, yr oedd pla a haint y Normaniaid, yn Ngwynedd, yn llawer gwaeth, ac yn fil mwy difäol. Difäodd a diffeithiodd Gantref Lleyn ac Arfon am wyth mlynedd, fel y sylwyd, ac ymledaenodd fel tân gwyllt i bellfanau tir a Chantref Meirionydd. Dygwyd hyn oddiamgylch gan ddygwyddiadau hollol wybyddus. Y mae y gath wedi myned oddicartref, a'r llygod, o ganlyniad, yn cael lle i chwareu. Y maent yn llenwi y tir. Nid hawdd, y mae lle i ofni, fydd eu lladd na'u hymlid ymaith. Mae Gruffydd wedi ei gymeryd ymaith, ac y mae y rhai mwyaf aiddgar o'i blaid a'i gefnogwyr goreu—y rhai mwyaf hyderus o'r rhai sydd yn credu yn ei hawliau i gael ei osod yn dywysog Gwynedd, wedi syrthio i anobaith, ac nid yn unig yn ofni, ond

Digitized by Google

yn llwyr gredu, na welir hyny byth, ac na chanfyddir mo hono yn y wlad, os yn fyw. Heblaw hyny, pe yn fyw, a phe dygwyddai dalu ymweliad eilwaith, y mae ei ragolygon i wastadhau pethau yn fwy cymylog, ac yn fwy dudew-dywyll nag erioed. Y mae miloedd o'r rhai fuasent yn sefyll i fyny o'i blaid, yn ymrestru yn ei fyddinoedd, ac yn colli y dyferyn olaf o'u gwaed, ac yn trengu gyda'r llais a'r adlais olaf ar eu gwefusau, "Byw fyth fyddo Gruffydd Frenin," wedi syrthio o flaen arfau y Normaniaid, yn filoedd ar filoedd, ac eraill wedi ffoi ar ffrwst i alltudedd, heb galon, awydd, na bwriad i ddychwelyd byth mwy yn ol! Nid oes gan neb y rhithyn lleiaf o sail i gredu, nac hyd yn nod i dybio, y dychwela mwy. Nid eill lwyddo i godi gwyr ac i gasglu byddin yn ninas Dulyn, ar ol dychwelyd yn ol, heb gwblhau un math o orchestwaith gyda'r llynges a'r byddinoedd o farchogion a phedyd dewr a diail yn dygyfor o yni ac ysbryd rhyfel. Y maent wedi dychwelyd yn ol yn llyfrgwn, yn warthus orchfygedig, heb weled gelyn yn agos, na brwydro un frwydr, na meddwl am frwydro. Mae hyn wedi ei dynu i lawr yn nghyfrif y wlad, a'i osod, yn eu hamcan-gyfrif, mor isel ag y gallai unrhyw ddyn fod. Ei frawd Ranallt, a'r holl dywysogion yn y ddinas, sydd yn ei gyfrif ac yn ei ystyried yn gyff-cler, ac yn teilyngu ac yn haeddu ei ddirmygu yn fwy nag unrhyw din-y-gler a bon-y-gler o'r fath fwyaf dirmygus a gyfarfuwyd erioed. Y mae yn wawd i bawb, a phob un a gyfarfydda a'i hwtia.

Y mae hyn yn fwy nag y gall ei anrhydedd ei oddef! Y mae y marchogion a'r pedyd a ymwirfoddolasant i fyned gydag ef i forio trosodd wedi ei bardduo a'i huddyglo. Eu chwedlau drygionus ydynt afrifed, yr oll mor hollol anghyfiawn ag ydynt o annheg, mor gamarweiniol ag ydynt o anwireddus. Er hyn oll y maent yn cael eu credu, yr hyn sydd yn effeithio yr un fath a phe yn wirionedd bob gair. Y mae y sarhad a'r dirmyg hwn yn fwy nag a all oddef. Ei anrhydedd a'i sefyllfa mewn cymdeithas yma wedi myned! Nid hyny yn unig chwaith; ond y mae ei fywyd mewn perygl. Y mae ei deimlad gofidus yn codi, nid oddiar unrhyw euogrwydd cydwybod, nid oddiar unrhyw weithred anfad a fwriadodd, nac a gwblhaodd, ond oddiar y chwedlau drygionus a chreulawn a ledaenwyd gan y rhai oeddent yn gwybod ac yn argyhoeddedig mai rhai felly oeddynt! Y mae ei deimlad oherwydd hyny, meddwn, yn debyg i deimlad Cain ar ol lladd ei frawd, pan y ciliodd o wydd yr Hollalluog, ac yr aeth i dir Nod. Yntau a ddilynodd yr un

Digitized by Google

llwybr—aeth yn wibiad a chrwydriad. Ni wyddai neb, ac mor ddiystyr a dibarch oedd, fel nad ymholodd neb pa beth ddaeth o hono chwaith. Aeth ar goll.

Yn mhen yspaid o rai misoedd ar ol yr hanes a gofnodir uchod, y mae boneddwr o urddas ac o safle anrhydeddus, wedi ymwthio ei hun i lewys Diermit, neu Diennic Frenin, yn rhandir Porthlarc. Y mae o rodiad a gosgedd dywysogaidd, ac yn siarad yn fynych ei fod o hil dywysogaidd, ac fod tywysogaeth mewn hawl iddo yn Ngwynedd, yr hon oedd yn cael ei meddianu gan dreisiwr dihawl. Siaradai yn hyrwydd, dawnus, a galluog, a dangosai yn amlwg os nad oedd o dras a gwaedoliaeth dywysogaidd, ei fod yn deilwng, ac yn haeddu iddo ei hun yr anrhydedd hwnw. Yr oedd Diermit yn mawr werthfawrogi ei gwmni, ac yn sugno llawer o wybodaeth a budd oddiwrth ei ddysgeidiaeth glasurol. Nid oedd ball na choll ar ei gyraeddiadau ieithyddol. Teimlai awydd yn wastad, a datganai hyny wrth y brenin, gasglu llynges a llu arfog i fyned trosodd i frwydro a meddianu y dywysogaeth a berthynai iddo, a gwueyd ei hun yn ben a pherchen y cyfryw. Mae y brenin, yn unol â'i diriondeb a'i haelioni, yr hwn sydd yn ddiarebol am hyny yn ei deyrnas, yn cymeryd y cwestiwn i ystyriaeth, ac yn gwneyd ymchwiliaeth pa beth a allai wneyd yn y cyfeiriad hwnw drosto. Canfydda allan cyn pen ychydig ddyddiau y *gall* hebgor iddo ei lynges freninol ei hun, yr hon nid oes galw am dani yn ei arfordir ar y pryd, ac y gall yn rhwydd ganiatau iddo adgyflenwad anferth mewn rhifedi, gwroldeb, a chadernid milwrol, farchogion a phedyd o Daniaid, Gwyddelod, a Brytaniaid, yn arfog ac yn barod i ryfel.

Mae y llynges yn cael ei pharotoi, diwrnod hafaidd a dymunol yn gwawrio, yr awel yn chwythu yn ddymunol, ond nid yn rhy uchel i'r cyfeiriad y mae arnynt eisieu hwylio. Dyma yr awr wedi dyfod, a'r adeg iddynt hwylio wedi eu goddiweddyd. Yr awyr sydd yn ysgafn a chlir, y môr yn dangnefeddus—pob un a'i galon yn llawen,—iechyd a hoenusrwydd yn chwareu ac yn dawnsio ar bob gwedd, yr hwyliau a ledir, ac i'r fordaith y cychwynir. Y gwynt sydd yn hyrwydd, ac o'u hol, yr hwn a'u hysguba o olwg Porthlarc, neu Waterford y dyddiau presenol.

Yr oedd y boneddwr dyeithr, neu dywysog Gwynedd, fel y gelwid ef, wedi datgan ar y cychwyn ei fod eisieu tirio mewn porthladd o'r enw Abermenai, lle hollol anhysbys i'r oll o'r llongwyr oeddynt yn hwylio y llynges, a hollol anhyshys i'r oll oedd ar y bwrdd. Nid oedd yr un o honynt erioed wedi bod

Digitized by Google

yn mhellach na rhyw ychydig filldiroedd i'r cyfeiriad y gofynid iddynt fordwyo Yr oedd enw neillduol a phersonol y tywysog yn gwbl anadnabyddus. Yr oedd hyny, oherwydd rhyw resymau nad oedd yn hysbys iddynt, wedi ei gadw oddiwrthynt, er bod hyny wedi ei ddatguddio i'r brenin a thywysogion eraill mewn gwahanol leoedd yn nghyffiniau Porthlarc, yn cynwys holl diriogaeth Mumhan, neu Munster, fel yr adnabyddir y cyfryw yn bresenol. Mae y tywysog yn eu cyfarwyddo bod y lle yr oedd arno ef eisieu hwylio yn gorwedd i'r gogledd megis o Borthlarc; ond y mae trwyn tir yn cyfryngu fel y rhaid iddynt hwylio am rai milldiroedd i'r gorllewin, ac yna newid y cyfeiriad i fyned i'r gogledd ar hyd Eglan Sant Sior. Ond yr oedd hwylio i bwynt neillduol yn orchwyl nad allai mordeithwyr tra phrofiadol ei gwblhau yr adeg hono. Aml y byddant yn colli y pwynt; yn lle llwyddo i gyraedd yr hafan y byddent yn hwylio am dani, byddent yn tirio mewn porthladd hollol wahanol i'r hwn y bwriadent hwylio iddo. Y fath anturiaeth ansicr oedd mordwyo yr adeg hono, pryd nad oedd nodwydd y morwr wedi ei dwyn i fod, fel na wyddent yn fynych i ba le yr oeddent yn hwylio.

Fel y mae y boreu yn ymwthio yn mlaen at ganol dydd, llewyrcha yr haul yn danbaid—nid oes cynifer ag un cwmwl uwchben; ond ar ol croesi o'r boreu i'r prydnawn, y mae tawch dudew yn gorchuddio gwyneb y dyfnder, fel nad ydyw y rhai sydd ar fwrdd y naill long yn alluog i weled eu cyd-fordeithwyr ar fwrdd y lleill. Hwylir yn mlaen, fodd bynag, gyda'r tywysog yn y llestr flaenaf, yr hwn sydd yn datgan ei fod yn gwybod i ba gyfeiriad y mae i hwylio, ac yn deall i drwch y blewyn yn mha gyfeiriad y saif y porthladd y myn, ac y mae arno angen hwylio iddo. Yr oeddynt wedi hwylio trwy y prydnawn agos heb allu canfod allan yn mha gyfeiriad yr oedd yr haul, yr hwn yn unig yr adeg foreu hono ydoedd eu harweinydd a'u hyfforddydd y dydd i wneyd allan pa sut i hwylio, a'r ser yn y nos, yn enwedig y rhai a elwir ser y llongwyr, Daliwyd hwy gan y ddu nos. Y mae niwl dudew—niwl y gellir ei deimlo—yn toi gwyneb y dyfnder, fel nad ellir gweled un fodfedd yn y naill gyfeiriad na'r llall. Yn mhen yspaid o ddyddiau y maent yn dyfod i olwg tir. Nid wyr y tywysog amcan daear pa le ydyw y fangre—y mae yn hollol ddyeithr iddo. Mae yn sicr yn ei feddwl na chanfu y lle erioed o'r blaen. Nid wyr yn y byd pa beth i'w wneyd, na pha beth i'w ddyweyd. Canfydda eu bod wedi llwyr ymgolli, ac wedi hwylio

Digitized by Google

ar antur, heb wybod i ba le. Ei hunan-feddiant yn llwyr a golla, a syrthia i synfyfyrdod, ac i ddyfalu pa le allai y rhandir fod. Lled sicr ydyw yn ei feddwl na chanfu y trwyn tir hwn erioed o'r blaen, ac nad ŵyr pa wlad ydyw. Mae Gwachris—Gwyddel o wrhydri ac o feddwl cryf, yn galw ei sylw at y diriogaeth, yn ymyl yr hon y maent bellach, ac at afon fechan, ac yn gofyn a ydynt i hwylio i mewn i'r porthladd sydd yn ngenau y cyfryw. Nid ydyw yn cael gair o atebiad, ac nid ymddengys chwaith ei fod wedi clywed y cyfryw fel ag i'w alluogi i'w sylweddoli. Os yw ei glustiau yn agored, ac yn derbyn seiniau, y mae ei feddwl a'i ddeall yn glöedig, fel nad yw y gofyniadau a ofynir, na'r hyn a siaradir, yn cael mwy o effaith arno na phe b'ai bren neu faen—y mae yn hollol synllyd, fel pe wedi penderfynu gadael i bob peth redeg gyda ffrwd amgylchiadau. Yn mhen enyd, fodd bynag, y mae yn ymddadebru, ac yn dechreu ymysgwyd o'i lewygfeydd syfrdanllyd, ac yn edrych o'i ddeutu, fel y maent yn dynesu at y porthladd; ond er craffu a sylwi yn fanwl, y mae yn aflwyddo yn llwyr i wneyd allan pa le ydyw y fangre. Y mae Gwachris yn dynesu ato, ac yn rhoi ei safn ar ei glust, yn credu yn sicr fod rhyw ddrwg ar ei glyw, neu y buasai wedi ateb pan wnaeth ymholiad yn flaenorol, yn llefain gyda'i holl egni:

"Pa ochr i'r afon yr wyt am fyned i'r lan?"

"Yr ochr llaw dde; ond rhaid i mi dy hysbysu nad hwn ydyw y fangre, ac nad i'r lle yma yr oeddym i hwylio. Yr ydym wedi colli y ffordd, neu yn hytrach, golli cyfeiriad y fordaith. Pa fodd bynag, nid oes dim ond glanio yma bellach, a gwneyd y goreu o'r gwaethaf. Feallai nad ydym eto wedi ymgolli yn y fath fodd fel nad ellir ein cael yn ol, a'n gosod yn y lle priodol."

Yn fuan y maent yn tirio. Yr oedd llu ar y lan, ac yn dangos llawenydd mawr oherwydd y dygwyddiad, yr hyn a synai yr hwn a elwir yn dywysog yn fawr. Teimlai awydd mawr cael gwybod pa le oedd, a than ba enw yr oedd yn myned yn mhlith y deiliaid. Yr oedd dyn gerllaw o ystum ac ymddangosiad uchelfrydig ac arglwyddaidd. Buasai yn hawdd i un ei gymeryd, neu ei gamgymeryd, am fab tywysog. Yr oedd yn hawdd darllen yn ei wedd ei fod yn dipyn o ysmalddyn. Anturiodd y tywysog dyeithr tuag ato, enw yr hwn eto sydd heb fod yn adnabyddus, a gofynodd iddo:

"Pa le ydi y fan yma?"

"Nid y fan acw," atebai, gan gyfeirio at yr ochr arall i'r porthladd.

Digitized by Google

"Lolyn gwirion, ond ydym yn gwybod hyny. Beth ydyw enw y lle?"

"Lolyn call, lolyn diball, wedi hwylio gyda'i long nad ŵyr i ba le; lle anhawdd i neb lwyddo i gardota, nac i ladrata gwybodaeth, ydyw y lle hwn. Y mae pob un yn gwneyd defnydd o hyny o wybodaeth sydd ganddo at ei wasanaeth ei hun, ac iddo ei hun—nid oes yma neb a dim i'w hebgor. Porthladd, neu Porth, y byddwn ni yn galw hwn—lle i longau ddyfod i mewn a myned allan."

"A oes rhyw enw neillduol ar y fangre? y mae canoedd o byrth, ond y mae rhyw enw neillduol yn cael ei roi ar bob porth, heblaw porth. A raid myned i weddi i gael allan yr enw genyt, ac enw y Gantref yn mha un y saif?"

"Na, na, na, 'dwyt ti ddim i fyn'd i weddi yma. Archesgob Mynyw a'i athrawon sydd i wneyd rhywbeth felly. Porth Clais ydyw hwn, heb fod nepell o archesgobdy Mynyw; y mae helynt a rhyfel yn y wlad weithian. Beth ydyw dy enw di?"

"Gruffydd ab Cynan ydyw fy enw i. Hwyliais o'r Werddon gan fwriadu glanio yn Abermenai, ond collasom lwybr y dyfnder, a hyd yma yr ydym wedi dyfod. Beth ydyw dy enw di?"

"Goronwy, mab i Rhys ab Tewdwr, un o wehelyth ragorol a diymwad Hywel Dda. Mae fy nhad yn nghanol rhyfel, a buasai yn dda ddigon ganddo gael ymgom â thi, a chael dy gynorthwy."

"Aïe! Pa le y mae dy dad, a pha le y mae y rhyfel?"

"Y mae nhad gydag Arglwydd Dewi, yn gofyn ac yn ceisio ei weddiau i'w amddiffyn ac i'w gadw. Anrhaith fwyaf y rhyfel sydd yn Nghantref Arwystli. A fyddai ddim yn well i mi redeg i 'nol fy nhad, yr esgob, a'i lu i ddyfod i'th wydd?"

"Hoffwn weled Rhys, ond rhaid iddo gael rhywbeth heblaw pader i wastadhau rhyfel," ebai Gruffydd.

PENOD XVIII.

PADERAU DDIM YN DEBYG O ENILL Y FRWYDR—BRWYDRAU ERCHYLL—GORCHFYGU A LLADD TRAHAEARN.

Y MAE Rhys ab Tewdwr, brenin Deheubarth, gyda rhodiad brysiog, yn cael ei flaenori gan yr Arglwydd Dewi—Archesgob Mynyw—yr athrawon, mynachod o rifedi y ser, a'i holl clas, y rhai ydynt yn paderu, fel y mae eu swn yn ddigon a merwino

Digitized by Google

clustiau unrhyw un; y maent i'n harwr fel swn llyffaint yn yr adeg pan y mae y blwydd yn lladd y dwyflwydd. Amneidiai gyda'i law arnynt gilio yn ol, y rhai ydynt yn ufuddhau i'r *llythyren*. Rhys a ymwthia yn mlaen, yr hwn nid yw Gruffydd yn ei adnabod, ac a gwympa ar ei ddau benlin, a chyn iddo gael amser i'w gyfarch, y mae yn llefain:

"Henffych well i ti, Gruffydd Brenin y Cymry, clywais fil myrdd o son am danat. Ni chyfarfuais di erioed o'r blaen. Y mae'n well genyf dy weled na neb, yn y wir na'r duwiau. Ar ffo rhag llid dig y gelyn y daethym atat. Ger dy fron yr wyf yn ymostwng; erfyniaf a gweddiaf am dy gynorthwy ar ben fy nau lin. Dy nerth mewn byddin arfog a ddeisyfaf, ac a alwaf yn ostyngedig i'r maes i dywallt gwaed y rhai sydd yn hela fy einioes, ac i osod eu celaneddau yn abwyd i bryfedach ac ymlusgiad y maes ac ehediaid yr awyr."

"Gad wel'd pwy wyt ti sydd yn siarad fel hyn â mi? Nid wyf am ddyweyd ïe, na nage, gwnaf, na, na wnaf, hyd nes y bydd i mi gael allan pwy yw y dyn sydd yn paderu ac yn erfyn arnaf amddiffyn ac achub ei gam. Hwyrach mai ffonod ac nid amddiffyniad ydyw yr hyn yr wyt yn sefyll mewn angen o hono. Dichon mai llwfrgi annewr—un yn ffoi rhag ei gysgod, ac yn cilio rhag bwganod o'i greadigaeth ei hun wyt. O ba le'y daethost hyd yma, wedi colli y dydd wrth fyned yn wysg dy drwyn, fel y collasom ninau y fordaith? Pa fodd y daeth i hyn arnat?"

"Rhys wyf," ebai yntau, "mab Tewdwr, arglwydd y cyfoeth hwn o fewn ychydig," gan gyfeirio ei law i wahanol fanau ar hyd Ddeheubarth Cymru, "a'r awr hon yn wrthodedig, wedi fy llwyr orchfygu, yn ffoedig, ac yn ddiflanedig. Dyma fi bellach mewn sefyllfa o ddinodedd, o angenoctyd a thlodi, yn ymguddio, yn ymddirgelu, ac yn ymlochesu dan aden Archesgob Mynyw yma."

"Pwy yw dy elynion? pwy yw y brwydrwyr? pwy a barodd i ti ffoi ac a'th ymlidiodd fel hyn i'r trwyn yma, fel yr wyt agos a chael dy daflu dros y dibyn i'r môr, yn abwyd i bysgod?"

"Arglwydd Gruffydd," ebai yntau, "tri brenin o'r gwledydd penaf yn Nghymru, gyda'u holl farchogion a phedyd, a ddisgynasant fel gwenyn neu gacwn ar fy nghyfoeth, ac a'm dygasant i'r diwedd hwn, ac y maent beunydd yn ei anrheithio."

"Pwy ydyw y breninoedd a ruthrasant ar dy wyr a'th gyfoeth yn llu ac yn dyrfeydd mor fyddinawg a hyny?"

"Un ydyw Caradawc ab Gruffydd o Went uch Coet, ac Is

Digitized by Google

Coet, a'i Wenhwyson, a gwŷr Morganwg, gyda llawer o Albrys-wyr, a Normaniaid yn cyd ac yn cyfochrog hafogi ag ef, dan ei arweiniad, ac at ei alwad. Un arall, nid llai cadarn yn ei ddinystr, Meilyr ab Rhiwallon, yn arwain y Powyswyr, ac yn ddiweddaf, ond yn fwy ffyrnig a chreulawn fyth, Trahaearn frenin gyda'i wyr o Arwystli."

Pan y llithrai enwau y breninoedd tros wefusau Rhys—pan y disgynai yr enwau ar glustiau Gruffydd, canfyddid ei wyneb yn brochi o lid, a'i ddau lygaid yn fflachio o gynddaredd. Gwel-odd rhagllaw mai yr un gelynion oedd yn blino Rhys ag oedd yn ei flino yntau; y rhai oeddynt yn anrheithio gwlad y naill, oeddynt yn anrheithio gwlad y llall. Yr oedd cynddaredd Gruffydd yn rhedeg yn iasau eiriasboeth o fawd ei droed i ben ei goryn. Nid oedd yn anhawdd ei enill i ymladd yn erbyn y cyfryw elynion difäol a gelyniaethus; yn y wir, nid oedd gwaith enill arno—i hynyma yr oedd wedi dyfod trosodd, yn enwedig i filwrio ac i ladd Trahaearn. Nid oedd wedi anghofio y drin-iaeth chwerw a'r gorchfygiad diraddiol a dderbyniodd mewn brwydr a fu rhyngddo a Thrahaearn gerllaw Harlech. Nid oedd dyn ar y ddaear ag y buasai yn hoffi yn fwy ei ladd a'i falu yn chwilfriw deilchion mân, yn y fath fodd fel na fuasai dim yn aros o hono—na migwrn nac asgwrn. Yr oedd yn fil gwell ganddo am y *cythraul* ei hun nag am y *dyn!* Ond nid oedd yn teimlo yn selog er hyny o blaid ymruthro gyda'i farch-ogion a'i bedyd i dreulio ei amser i frwydro brwydr Rhys, os na fyddai i hyny ddwyn rhyw elw iddo wedi y terfynai yr ym-gyrch. Gwelai, gan y gallai gael mantais, na fuasai waeth iddo gael mantais na pheidio. Yr oedd yn lled gredu y byddai raid iddo o hyn allan gymeryd gafael ar bob cyfleusdra a phob man-tais a ddelai i'w arfod ac i'w ran, neu ei fod yn lled debyg na lwyddai i ddringo i fod, a chael ei gydnabod yn dywysog Gwyn-edd. Yr oedd yn crychferwi yn grychias, ac yn orawyddus i hwylio gyda'i fintai i ryfel yn erbyn gelynion Rhys; ond nid heb gael ychydig o gyfoeth Rhys am fyned. Wele efe yn troi at Rhys, ac yn gofyn:

"Pa beth a roddi i mi am ymunaw â thi, ac ymladd trosot, am ruthro i'w cyfarfod ar faes neu fynydd, fel y dygwyddo, a'u medi oll fel medi rhedyn, neu dori mieri, fel ag i glirio y wlad o'r pla heintus hwn, a'th osod eto mewn meddiant o'th awdur-dod? Pa beth a roddi, pa beth a deli, mewn pa beth y teli—arian, cyfoeth, ynte be? Khaid cael tâl—os heb dâl heb ryfel; os na chaf sicrwydd y bydd i ti dalu wedi yr elo y frwydr

Digitized by Google

trosodd, ni bydd i mi gychwyn un fodfedd gyda thi. Dim tâl, dim gwaith; neu fel y dywed hen grythwyr, 'Heb dâl, heb chwareu.'"

"Yn bwyllog, ac mewn gwaed oer, bydd i mi wystlo i ti haner fy nâ--haner fy holl gyfoeth, ac yn ychwanegol at hyny, talaf warogaeth iti. Nid oes dim yn ormod genyf wneyd. Buasai yn well gen' i roi Deheubarth i ti bob modfedd am dy gynorthwy nag iddynt hwy ei chael."

"Da, da, godidog! ond rhy hael o lawer; ond deall di y rhaid i ti ymladd a'm dilyn yn hollol. Ni wna mor tro i mi gymeryd y pwysau. Rhaid i bob un wynebu y gelynion, ac os rhaid syrthio a marw, syrthio a marw fyddai y goreu gyda gwyneb at y gelyn, ac nid gyda chefn ato. Hyn raid, nid yn unig benderfynu, ond *ymwroli* a *chadw* ato yn ddiwyro. Pob un a leddir wedi troi ei gefn ar y gelyn, mi hoffwn ddilygeidio a dyspaddu pob un o'i hil, os gellid cael allan pwy fyddant, fel na fyddai yn aros ac na chenedlid chwaneg o'r llyfrgwn!"

"Ha," ebai Rhys, gan ymgrebachu ac ymnyddu yn ei ysgwyddau, "choelia' i ddim na fyddai hyny yn cosbi mwy nag y mae unrhyw gyfraith yn ofyn, ac yn llawer mwy nag a ofyna unrhyw ddialedd o'r fath fwyaf dialeddol. Dyspaddu a dilygeidio y creaduriaid diniwaid, tra hwythau yn hollol glir a rhydd oddiwrth un arlliw o ffaeleddau eu gwehelyth."

"Na, nid felly mae chwaith i fod. Ni wiw chwaith son am gyfraith gyda hen lyfrgwn a'u holl wehelyth. Ni ellir gwella y genedlaeth heb ddilyn y cynllun a osodais i lawr. Mae rhyw ddiffyg yn ngwaed pob teulu. Hynodir ambell wehelyth fel llyfrgwn, na cheir na dewrder, na gwrhydri, na gwroldeb yn un o honynt, yn wryw na benyw; y rhai hyn bob amser a geir yn llechgwn bradwrus. Nid oes gwaelod, canol, na phen uchaf iddynt. Os bydd iddynt ymosod o gwbl, fe wnant tu ol i'r twmpathau, o'r coed, tu ol i'r gwrych, a thu pellaf oddiwrth y frwydr i'r gwrthgloddiau. Nid oes dim sydd well na diwreiddio a chwynu y rhai hyn o'r tir, a'r unig ffordd a allaf fi ganfod i wneyd hyny ydyw ymwneyd â hwy yn gyfunwedd â'r cynllun a osodais i lawr; ond waeth heb siarad, y mae yn bryd i ni fyned i frwydro, a hyny heb oedi dim."

"Gwir bob gair ei bod yn hwyr glas gwyllt cychwyn, ond hyny ni ddylem wneyd heb ofyn a sicrhau bendith yr Esgob—yr athrawon, y mynachod, a'r holl glas. Awn dan bererinio, gweddio i Eglwys Dewi, i ofyn bendith y seintiau ac i arfolli y creiriau, neu mewn geiriau eraill, i ymgysylltu â'r creiriau, i

Digitized by Google

ofyn a galw am eu nawdd a dilyn eu cyfarwyddyd. Byddai yn beryglus myned allan i ryfel heb hyny. Nid oes dim byd yn debyg i hyny, nac yn fwy sicr o'n coroni â llwyddiant yn erbyn y gelyn. Hwtiaist yr Esgob a'i lu bendigaid ymaith. Yr oedd hyny yn drosedd gwrthun a phaganaidd; gad i ni wneyd iawn trwy fyned ato, a dwyn penyd."

"Y fi fyned ato," ebai ein harwr yn hollol ddiamynedd, gyda gwrid yn cochi i fyny i'w benglog, "nac af byth. Af allan gyda rhywbeth mwy sylweddol i frwydro na'r hyn a eilw yr Esgob a'i lu ofergoelus, yn fendith! Be wna ei fendith ef, a be wnaeth bendith un o'r giwdawd erioed? Mae yn rhyfedd genyf na fuasit yn dwyn i'th gof pa beth wnaeth gweddi yn mhell uwchlaw deuddeg cant o fynachod, yn Mangor Is-y-coed, yn adeg Awstin Fonach,—nid arbedodd uchel-floedd eu gweddi mo honynt, ac ni wna eto. Ond eto nid oes gen' i un gwrthwynebiad i ti geisio nawdd ac amddiffyn mil myrdd o esgobion a seintiau, fach a mawr."

Yr oedd gan Rhys, fodd bynag, y fath ffydd mewn gweddiau, fel yr aeth yn bennoeth, a throednoeth goesnoeth i gyfeiriad yr archesgobdy. Yr oedd ein harwr yn syllu arno yn ymlwybro, gyda gresyndod. Chwarddai yn ei lewys am ben y fath ynfydrwydd, a chlywid ei lais yn arllwys allan:

"O ynfydrwydd! O ffolineb! O hygoeledd a gwendid pen!"

Cyn pen hir y mae yn dychwelyd yn ol, a Gruffydd yn danod iddo ei fod yn dysgwyl y byddai i weddi y gwyr da, santeiddiol, wneyd y brwydrau oll ar eu rhan, fel na fyddai angen iddynt hwy a'u holl lu o Ddaniaid, Gwyddelod, Brytaniaid, a'r rhai oll oeddynt gyda hwy yn myned allan dan arfau, wneyd dim ond myned yn mlaen i gymeryd meddianau ar ol galanasdra brwydr y gweddiau.

Yr oedd Rhys yn gwybod yn lled dda lle yr oedd y gelyn—y tri brenin yr achwynai o'u herwydd. Rhagddynt yr oedd wedi gorfod ffoi at yr archesgobdy am nawdd, fel Joab at gyrn yr allor. Yr oedd taith hirfaith i'w chwblhau cyn y deuent lle yr oedd Trahaearn a'r ddau dywysog arall a enwyd gyda'u llu yn gwersyllu, yn nhueddau mynydd Carn. Yr oeddynt yn awr yn nghornel orllewinol swydd Benfro, ac eisieu teithio ar draws y wlad i ganol swydd Drefaldwyn—pellder o rai ugeiniau o filldiroedd. Yr oedd ein harwr yn cyflymu yn mlaen ar gefn ei farch, gyda'i holl adeilwaith yn ymwau o yni a bywiogrwydd. Ymsaethai math o elfen ffrwydrol yn ddiswta iddo, pryd y disgynai oddiar gefn ei farch, ac y rhedai gan ei dywyso, fel y

Digitized by Google

byddai raid i'r anifail garlamu i'w ganlyn. Safai yn sydyn, fel pe buasai pinau neu nodwyddau yn ei bigo, a syllai, fel pe yn dysgwyl canfod y fan lle y lluestai ei hen elyn Trahaearn, yr hwn y sychedai ei gyfarfod ar faes y frwydr, ei ladd a'i falu yn grybibion mân, a'i chwalu gyda phedwar gwynt y nefoedd, fel na fyddai i lwchyn at lwchyn o hono gael byth ei gasglu at ei gilydd, yma na thu draw. Yr oedd yn mawr obeithio na welid ail argraffiad o hono, ac na ddeuai ei fath i flino ac i boeni plant dynion. Curai a phlanai ei droed yn y llawr, fel pe buasai wedi ei feddianu â chynddaredd cŵn cynddeiriog. Yn mhen yspaid dacw ef yn eu canfod yn llu banerog ar ochr mynydd. Y mae y llechwedd yn ddu o honynt—mor aml eu rhif ag adar yr awyr.

"Ust, ust, ust," llefai, "dacw nhw; yr wyf yn clywed eu swn. Maent wedi ein canfod, ac yn ymbarotoi i'n gwrthsefyll. Y mae y dydd yn trengu—y nos agos wedi ein goddiweddyd."

"Gruffydd, Gruffydd frenin," bloeddiai Rhys, "rhaid i ni oedi y frwydr a'r ymladdfa hyd yfory, canys gosper ydyw—dydd Iau. Aflwydd a dinystr ofnadwy a ddaw i'n rhan os bydd i ni frwydro ar ddydd Iau, ac adeg gosper. Ni wna na gweddi, bendith yr esgob a'r seintiau, ac arfoll y creiriau roi i ni lwyddiant, os rhyfela a wnawn ar adeg fendigaid, a halogi santeiddrwydd y dydd. O bydded i ni oedi hyd yfory, neu fe'n goddiweddir gan farnedigaethau am fod yn ysgeler a halogedig. Fe ddaw cosb arnom am ein hannuwioldeb a'n hanystyriaeth."

"Taw, O ynfyd! O hygoelus wreng! Buasai yn rheitiach i ti lawer fod wedi ymneillduo i fonachdy, a throi yn fynach, na dyfod allan i'n dilyn ni fel rhyfelwyr a brenin, 'rwyt wedi camgymeryd dy safle a'th swydd, y llwfrgi afiach seintiol; oeda di hyd ugain niwrnod neu hyd fyth. Gwn nad oes ddaioni i hirymaros; daeth i mi anffodion o hyny nad adgyweirir mo honynt hyd dragwyddoldeb. Ni a ymosodwn yn ddiamod—yn ddiaros; myfi a'm byddin a ruthrwn yn awr."

Gyda bod y geiriau wedi llithro tros ei wefusau, dyma fe yn rhoi gorchymyn i Meiriawn Goch, ei brif farwn, osod ei gadlu ar waith, yn nghydag eraill yr un wedd. Saethau blaenllymion a phicellau tanllyd a ollyngir allan fel cawod o genllysg, y rhai ydynt yn medi y gelyn fel pabwyr. Bloedd ac ochain wylofus y lladdedigion—rhai yn mhangfeydd marwolaeth—a glywir. Y mae y Daniaid gyda'u bwyeill daufiniog, y Gwyddelod gaflachawg gyda'u pelau haiarnawl cyllellawg, a llu o wyr Gwynedd dan arfau gleiniawg taraniawg, yn ymwthio ac yn rhuthr-hyrddio

Digitized by Google

yn mlaen. Y mae yr olwg ellyllaidd ffyrnig arnynt yn ddigon a dychryn llengoedd o ysbrydion y fagddu. Meddianwyd hwynt â braw a dychryn. Y mae pob aelod fel deilen yn crynu; ac i chwanegu at y sefyllfa anobeithiol y maent ynddi, y mae rhai anwyl a chyfeillion yn cwympo y naill ar ol y llall wrth draed, ac yn fynych yn erbyn y rhai byw. Y mae ein harwr yn gyntaf un yn ymwasgu yn mlaen, gan dynu y lleill i'w ddilyn. Y mae fel llew neu gawr yn fflachio ei gleddyf lluchedenawl. Ymwasga ei wyr yn mlaen. Seinia a tharana y ddaear gan swn gwyr meirch a gwyr traed. Tyrfa a rhua y bwyeill, y pelau, y cleddyfau, a'r arfau eraill, fel swn miloedd o daranau, a thân a fflachiai ac a fflamiai allan oddiwrth y curiadau a'r gwrthdarawiadau yn erbyn arfau y gelyn mewn rhai dygwyddiadau, ac yn y lleill yn erbyn eu penau, eu breichiau, eu canolau, eu coesau, a rhanau eraill, y rhai a gwympant ymaith fel llorpiau ysgol wedi tynu y ffyn ymaith. Y mae chwys a gwaed yn llifo yn ffrydlif. Dyma Trahaearn ei hun yn myned yn nôd i'r bwyeill, y cleddyfau, a'r arfau eraill. Y maent yn suddo i'w goluddion, ac yntau yn cwympo i'r llawr; ac yn mhangfeydd marwolaeth ac arloesion angeu, canfyddir ef yn gynddeiriog o gynddaredd, yn tynu ymaith ac yn pori gwellt y ddaear gyda'i ddanedd. Y mae yn ymdrybaeddu yn ei waed; ac i wneyd yr olygfa yn fwy dychrynllyd, y mae yn ymrolio yn erbyn min ei arfau ei hun, y rhai ydynt yn aredig ei gnawd ac yn ei falu fel pryf genwair. Y mae Gwachris Wyddel yn rhuthro yn mlaen, ac yn ei hollti fel mochyn—yn ffurfio ystlysau fel y buasai â hwch, yn ei grogi i fyny yn erbyn coeden, ac yn llefain allan:

"Fe wna abwyd rhagorol i hudo pryfaid drwg i'r fagl."

PENOD XIX.

CYNFRIG YN DARBWYLLO GRUFFYDD I EDRYCH Y NAID CYN EI NEIDIO.

Y MAE y frwydr, fel y gallesid dysgwyl yn naturiol, drosodd. Yn mhlith y lladdedigion ceir yma lu o wyr o nôd a thywysogion. Ar fynydd Carno, yn gelain farw, yn ysglyfaeth i fwystfilod rheibus y maes ac adar yr awyr, ceir cyrff Gruffydd a Meilir, meibion Rhiwallon ab Cynfyn. Gorchuddia y lladdedigion rydau os nad erwau o dir, ac yn aml ceir pentwr ar bentwr o

Digitized by Google

gyrff. Y mae y gelynion yn troi eu cefnau ac yn ffoi mor gyflym ag y geill y meirch eu cludo, a'r gwyr traed yn ei gwadnu can gyflymed ag y mae yn ddichonadwy i draed gludo unrhyw rai. "Llawer o filoedd o honynt a gwympasant yn farw, a'r lleill a roddasant eu cefnau ar wyr Gwynedd," ebai yr hen groniclau, "ac ymchwelasant ar ffo."

Nid yw ein harwr yn sefyll yma; ond yn unwedd a'i arferol ddefod, gyda'i wyr yn fuddugol ac ar uchelfanau y maes, a'u hymlidiodd trwy y llwynau, y glynau, y gwerni (corsydd), a'r mynyddoedd, ar hyd y nos, wrth oleuni y lleuad a'r ser, ac ar hyd y dydd dranoeth, a braidd y diangodd un enaid o honynt o'r frwydr i'w gwlad eu hunain.

Yr oedd y llawenydd yn uchel: pob un yn mwynhau ei hun, ac yn adrodd ei chwedl am yr hyn a wnaed yn y frwydr,—y modd y diangodd megis o safn angeu, y tarawodd yn farw yr hwn a annelai am ei fywyd, y pwyodd ei gadfwyell trwy benglog amryw o wyr y gelyn, y suddodd ei gleddyf i'w galon. Yr oedd yr adroddiadau yn ddychrynllyd o greulawn, a thu hwnt i ddim erioed a glybuwyd son am dano, mewn breuddwyd neu a welwyd mewn gweledigaeth. Gyda hyfrydwch ac asbri yr eid trwy y gwahanol olygfeydd, ac yr ymgystadlai pob un trwy osod ei hun yn llorweddol ar lawr, i gynrychioli rhai o'r gelynion yn mhangfeydd marwolaeth, wedi cael eu trywanu trwy eu calonau, neu ranau eraill o'u cyrff, neu ergyd y gadfwyell yn y pen, trwy yr hwn yr holltwyd rhan o hono ymaith. Yr oernadau torcalonus, yr ysgrechfeydd, y wylofain chwerw a ddynwaredid mor agos ag y gellid, yr hyn a greai ddyddordeb neillduol, ac a barai foddhad nid bychan. Yr oeddynt wedi gosod eu hunain i orphwys am yspaid ar ol y caled frwydro a'r ymlid fu, mewn llecyn noethlwm ar lechwedd dymunol, gerllaw llwyn o goed. Yr oeddynt mewn sefyllfa adloniadol a difyrus, gyda mwsogl yn ffurfio esmwythfainc iddynt. Yr ehedyddion a esgynent i fyny o'r llwyn gan byncio eu tonau mewn uchel sain, ac mor fuan ag y cyrhaeddent i uchder neillduol fe ddisgynent tuag i waered, pryd y lleihai ac y gwanhai y dôn yn raddol, ac yn unol â rhyw anianawd a blanwyd ynddynt gan natur, hyd nes y dystawai yn fain ac isel cyn disgyn yn ol gerllaw congl y llwyn. Y fwyalchen—yr aderyn du, yr asgell fraith, y fronfraith, a llu eraill o adar, a ganent eu swynol gerddi, hyd nes yr oedd yr holl filwyr, ar ol y blin frwydrau yr aed trwyddynt, yn teimlo adloniant a sirioldeb yn gweithio i fyny. Yn nghanol y llwyn clywid swn a sisial llais dynol. Nid oedd yn peri unrhyw

Digitized by Google

arswyd na dychryn. Yr oedd yn swnio yn gwynfanus ac alarnadol, ac nid allai cynifer ag un ddyfalu pa beth a allai fod; ac yn nghanol y swn clywid lleferydd yn galw allan am i dri braich galarnadol gael eu hail adrodd, y rhai a redent:—

"Pobl anhywaeth Nanhyfer,
Y Gwyddyl diefyl duon,
Ysgodogion ddynion lledfer," &c.

"Dyna alargan y gelyn," chwarddai Gruffydd. "Pwy yw y bobl sydd yn y coed yn ochain ac yn cwynfan tybed? Druain o honynt. Nid oes ganddynt ddim arall i'w wneyd. Y maent yn fil gwell allan fel oernadwyr a galarwyr nag ar faes y frwydr. Pe buasai arnaf eisieu galarwyr, fe fuaswn yn eu hurio am unrhyw bris a fuasent yn ofyn; ond ni fuaswn yn eu cymeryd i weithio ar faes y gwaed pe cawswn eu pwysau o aur gyda hwy. Mae llyfrgwn yn tori calon gwroniaid, ac yn eu dwyn bob amser i'r un ystad a hwy eu hunain."

Gyda bod yr ymadroddion wedi llithro oddiar ei wefusau, rhuthrwyd i mewn i'r llwyn coed, a gwnaed ymchwiliad manwl, ond ofer fu y cyfan. Ni lwyddwyd i ddyfod a hyd i neb. Pe buasai ein harwr a'i lu yn rhai hygoelus, fe fuasent yn sicr o gredu mai lleisiau a galarnadau bwganod neu ysbrydion yr ymadawedigion oeddynt, y rhai a gwympasant yn nydd y frwydr. Yr oedd erbyn hyn mewn ychydig o astrusi. Nid oedd wedi sylwi pan yn arwain y fyddin, ac yn rhuthro yn mlaen fel cawr neu lew, wedi llwyr ymgynddeiriogi, pan yn rhoddi cad ar faes, ac yn rhyfela, pwy oedd yn rhyfela gydag ef. Ni chafodd gymaint a hyny o amser. Yr oedd yn cofio yn lled dda bod Rhys i gynorthwyo,—i ymladd brwydr yr hwn yr oedd wedi dyfod allan, yn ei anog i oedi ei ymosodiad hyd dranoeth am ei bod yn ddydd Iau, yn gosper, ac fod y dydd yn trengu. Nid oedd unrhyw le i ddysgwyl llwyddiant, os eid allan i frwydro ar ddydd santaidd y seintiau. Dygwyd i'w gof yr helynt a godai yn nghylch gweddiau, gofyn bendith y seintiau, ac ymbenlinio o flaen y creiriau. Beth oedd wedi dyfod o Rhys, a pha beth a wnaeth, a pha ran neillduol a gymerodd ef a'i lu yn y frwydr, nid allai ddeall. Troai ei olygon oddeutu, nid allai ei ganfod yn unlle, na chynifer ag un o'i wyr. Yr oedd hyn yn syn ganddo. Y dyn dwl! yr hwn a alwai ac a ddymunai gael ei gydnabod yn dywysog Deheubarth! wedi ei wahodd a'i daer gymhell i ddyfod allan i frwydro, i ymlid ac i ladd y rhai oeddynt wedi trais-gipio ei awdurdod a'i lywodraeth gyfreithlawn

Digitized by Google

oddiarno, ac wedi addaw iddo am hyny o orchwyl haner ei gyfoeth, ac nid hyny yn unig, ond y rhoddai iddo warogaeth. Y dyn ei hun! Pa beth a wnaeth ei hun! Pa le y mae yn awr? Yr oedd Meiriawn Goch yn gyfagos, ac nid allai lai na gofyn iddo pa beth a ddaeth o Rhys:

"Er craffu yn fanwl, fanwl, nis gwelaf mo hono yn un man, ac ni welais ef ond yr adeg cyn i ni ruthro ar y gelyn, pan y gwnai ymgais i'n darbwyllo i beidio ymosod hyd dranoeth."

"Mae yn syn i mi nad wyt yn gwybod mwy. Ni fu yn y gadgyrch o gwbl. Ymgiliodd ac aeth o'r golwg, fel llyfrgi, am na wneid ei gynghor i oedi heb daraw hyd oni wawriai y dydd canlynol. 'Ymdynu dan gel a wnaeth cyfliw gwr llwyn,' o'th gymdeithas di a'th wyr, a'n gadael, ac nid yw yn debyg y cawn ei weled byth eto. Ni cheir haner y cyfoeth, na gwarogaeth o fath yn y byd."

"Wel, oes neb yn gwybod yn mha le i'w gael?" gofynai Gruffydd mewn llais digofus yn tanio o ddigllonrwydd a dialedd.

"'Dwn i ddim yn sicr, na pha le i fyned i ymholi am dano," ebai Meiriawn Goch.

"Ai tybed," mwmiai mewn tôn edliwgar a llais nad oedd yn ddichonadwy ei gamgymeryd, "ei fod wedi sori? ai tybed ei fod wedi dychwelyd yn ol i Fynyw at yr Esgob i baderu ac i benlinio o flaen y seintiau, ac i gusanu bodiau traed y delwau? Rhad Duw arno! Nid oes na gwaelod na phen arno. Ond gwn yn lled dda sut i dalu y pwyth i anfadyn difoes. Fe ruthraf arno, ac fe anrheithiaf ei gyfoeth. Os bu annyn erioed, efe yw hwnw. Tramwywn hefyd ar hyd a lled Arwystli, ac oddiyno hyd derfynau eithaf Powys. Gwnawn ein hunain yn bla mwy heintiol a difäol na'r Fall Felen, yn nyddiau Cadwaladr Fendigaid. Ni fu ac ni fydd llindys erioed tebyg i ni! Gwrywiaid y wlad a laddwn bob copa walltog, y gwragedd a'r morwynion a ddygwn gyda ni i gaethiwed. Ni bydd son mwy am werin Arwystli a Phowys, ond mewn oernad a galarnad. Eu tai, eu hysguboriau, eu beudai, eu hydlanau, eu gweiriau, eu perllanau, eu coedwigoedd, a phob peth llosgadwy, a losgwn yn lludw; y tai paderu, lle cludir pob un ar ei orwedd, gyda'i draed yn mlaenaf, yn nherfyn ei daith, a losgwn yn garnedd. Y paderwyr, y seintiau, a'u holl hil heintiol, a osodir yn wledd i gwn a chathod. Gwna hyn ymaith â llawer o afiechyd y coryn, a chwilod yr ymenydd; a theimlad galarus a merchedaidd y galon a yrwn ar garlam ar ffo. Dygai hyn i derfyn haint

Digitized by Google

y seintiau, haint ofergoeliaeth, a haint y bendro-wibwrn. Gosodwn y wlad yn gydwastad â'r llawr i ddial ar ein hen elynion,—dyspaddwn a dilygeidiwn y rhan fwyaf o honynt, oddiyno hyd derfynau pellaf rhandir Powys. Bydd i ni hyfrydwch mawr, y bydd i ni trwy hyny ddiwygio natur, yr hon a ddylasai ffurfio y cyfan,—yr ymwneir â hwy yn y wedd yma,—yn amddifaid o'r naill yn gystal ag o'r llall. Hyn a wnawn heb wyro un fodfedd ar y naill law na'r llall;" ac yna sylwa yr hen groniclau, "Ac wedi lladd felly ei elynion, a dystrywio eu daear yn gwbl, ymchwelodd i'w briodolder a thref ei dad ei hun, i'w meddu ac i'w thangnefeddu, ac i orphwys yn Ngwynedd."

Dyma ef unwaith yn rhagor wedi cyraedd ei lys yn Aberffraw. Y mae yn canfod ei fod wedi llwyddo i ddringo i ffon uchaf yr ysgol. I'w dyb ef, fu ysgol erioed gyda'i phen isaf yn pwyso ac yn gorphwys ar dir mwy dyogel. Na, nid yw tir chwaith yn air cywir,—y mae yn gorphwys ar graig gallestr,—y pen uchaf hefyd yn pwyso yn erbyn craig. Y mae digon hefyd o ogwyddiad ynddi, fel nad oes un math o enbydrwydd y bydd iddi gwympo yn ol na dymchwelyd, a gosod neu fwrw i lawr yr hwn sydd yn awr yn yr entrych ar y ffon uchaf. Ymddengys ei safle yn un gadarn a dyogel tu hwnt i ddim a glybuwyd nac a welwyd erioed. Y mae y rhai y mae yn symud ac yn troi yn eu plith yn barnu am ei sefyllfa yn debyg iddo yntau, ei bod yn un gadarn. Pob llais a swn a seinia yn unfryd unfarn, ac unsain, ei fod wedi ymchwelyd i'w briodolder a thref ei dad ei hun, i'w *meddu* ac i'w *thangnefeddu*, ac i *orphwys* yn Ngwynedd. Ond lle enbydus yw ffon uchaf yr ysgol. Hawdd ydyw i un wneyd ei ffordd i lawr y naill ochr neu y llall, a chael ei hunan mewn amrantiad ac yn ddiarwybod yn y gwaelod, ac yn mhell oddiwrth ei gwaelod, fel y ceir gwaith dringo neu gerdded cryn lawer i gyraedd ei bon.

Os ydyw wedi llwyddo i ladd ac i ymlid y gelynion oddiallan, y mae gelynion oddimewn yn llawn mwy peryglus a dinystriol. Os llwydda un i ladd ac i ymlid nadroedd sydd o'i ddeutu, fel nad oes unrhyw berygl y bydd iddo gael ei golynu gan y cyfryw, dichon bod llyngyr neu elfenau *colic* oddimewn iddo, ac yn ngwahanol ranau ei gyfansoddiad, ac mai y rhai hyny a ddygant ei oes i derfyn, neu o'r hyn lleiaf a beryglant ei fywyd. Os llwydda un i ladd y bwystfilod rheibus sydd yn rhuo ac yn bygwth cymeryd ymaith ei fywyd, rhaid iddo ofalu na fydd i bryfaid llawer llai niweidiol sydd oddimewn iddo gymeryd ymaith ei fywyd. Y mae hyny wedi dygwydd mewn mil myrdd

Digitized by Google

o amgylchiadau,—yr hyn a fu a fydd, a'r hyn a ddygwyddodd a ddygwydda; ond geill nad oes dim o hyny yma.

Y mae llawenydd cyffredinol trwy holl dir Gwynedd oherwydd y llwyddiant a ddilynodd ei ymgyrch, ac y mae pob un fel o ewyllys calon yn cyduno i'w urddo yn ben. Y mae sibrwd bod holl arglwyddi y cyffindiroedd, fawr a bach, yn cyfranogi o'r llawenydd hwn, ac yn dymuno yn fawr cael cyfarfyddiad ag ef, i'w longyfarch ac i gydlawenhau ag ef. Huw Flaidd a ymddangosai wedi cael ei foddhau yn fwy na neb, a Huw Goch, Iarll Amwythig, o eigion ei galon hefyd a seiniai ei amen. Nid oedd dim ond arfoll a chlod yn seinio ac yn adseinio i'w glustiau o bob cyfeiriad. Yr oedd ei glod yn ymdaflu y naill ar ol y llall fel tonau y môr. Y barwniaid Normanaidd a amlygent eu bod yn awyddus i ymdrin yn heddychol ag ef—i ganiatau iddo estyn ei derfynau. Gwneid hyn, meddid, am ei fod yn dywysog o graffder a doethineb, ac yn haeddu cael ei gydnabod yn fwy nag un fu o'i flaen, ac yn teilyngu cael chwanegiad at gyffiniau ei dywysogaeth. Yr oedd hyn yn cael ei gredu, ei sibrwd, a'i siarad. Yr oedd ei holl ddeiliaid yn falch o hyny, ac yn pentyru clod dau ddyblyg ar ei ben. Cawn weled o ris i ris i ba le yr arweinia hyn. Yr oedd y clod a'r anrhydedd a arllwysid ac a ledaenid o luosogrwydd llwydrew, yn ngwydd ac yn nghlyw Gruffydd, yn gyfryw fel yr oedd yn angenrheidiol iddo feddu gallu anghyffredin i lwyddo i gadw ei deimlad o ymchwydd ac ymffrost o fewn terfynau priodol. Nid oedd ei adeilwaith yn gyfryw a ddaliai yr oruchwyliaeth o gnithio na churo—o ganmawl na lladd, o wenu na gwgu. Gwnai y naill iddo golli ei fantol yn gystal a'r llall. Ymchwyddai dan ganmoliaeth, hyd nes y byddai fel chwysigen yn llawn o wynt. Effeithiai *gweniaith* a chanmoliaeth *wirioneddol* arno yn hollol fel eu gilydd. Yr oedd y geiriau o glod a draethid i'w glyw, ynddynt eu hunain, yn disgyn fel trydan arno, ac yn ei gludo i'w dilyn. Yr oedd yn gyfryw o ran ei anianawd fel na lefarai ond yr hyn oedd yn ei galon. Yr hyn a ddatganai ei wynebpryd, yr hyn a ddatganai mewn geiriau, a ddeuai o eigion ei galon. Nid ymadroddai ei enau ond a guddiai ac a lechai oddimewn,—yr hyn oedd i *mewn* a ddeuai *allan*. Yr oedd yn ddyn syml, hollol onest a mawreddog, yr hyn oedd yn hollol anghydweddol âg ansawdd yr oes yr oedd yn byw ynddi.

Ni ddaeth i'w feddwl bod natur yn ffurfio ac yn cynyrchu ffrwythau gyda golwg allanol ddymunol i'r llygad, ond eto yn hollol ddiwasanaeth i'w defnyddio fel ymborth. Yn y goedwig

Digitized by Google

ceir cnau ceindlws a bochgoch, y rhai y tueddir un i'w dewis a'u casglu yn gyntaf rhai, ond wedi eu tori gwag ydynt! Aml feipen ar y maes ac aml afal ar y goeden, oll yn dra dymunol a dewisol i'r edrychiad, ond nid felly i'r chwaeth a'r cylla. Hyn hefyd, fel y mae yn eithaf hysbys ac wedi ei brofi fil o weithiau, sydd wirionedd am holl gysylltiadau ac amgylchiadau natur. Deil y ffaith hon ei thir, nid yn unig yn y deyrnas lysieuol, ond yn yr anifeilaidd; ond ni allodd ein harwr sylweddoli y ffaith hon o'i febyd i'w fedd, er yr holl wersi ymarferol a chwerwon y dygwyd ef trwyddynt. Darllenai a chymerai bob peth wrth yr olwg allanol. Er syrthio i'r fagl droion, ni ddysgodd hyny ef i ochel syrthio i'r un fagl ac yn hollol dan yr un amgylchiad eilwaith.

Yr oedd y waith hon wedi meddwi ar glod gwirioneddol a ffugiol a ddeuai i'w glustiau o bob cyfeiriad. Yr oedd gorchestion ei gadgyrch, a llwyddiant anarferol a ddilynodd ei ruthrgyrch o Borth Clais i Borth Menai, yn codi yn awyr i'w benglog, ac yn gwneyd iddo ddawnsio a llamu o orfoledd a llawenydd. Yr oedd fel pe buasai trwy ryw gyfaredd wedi cael ei arwain i gredu bod yr elyniaeth a fodolai tuag ato wedi diflanu yn llwyr, fel y nos o flaen y dydd, yn ngoleuni ei orchestion dihafarch ar faes y gwaed, fel i droi pob llais i lefain, "Yn ben coronwch ef!"

Pan fel hyn yn uchel ei feddwl a'i galon yn dychlamu, hyd nes yr oedd ei babell agos yn rhy gyfyng i ddal y naill na'r llall,—yr oedd bron a ffrwydro dan y lluaws canmoliaethau,—daeth gair i'w hysbysu bod rhedegydd gyda nodyn yn ei law yn sefyll yn yr ystafell neillduol, i'r hon bob amser yr arweinid y cyfryw frys-negeswyr i aros caniatâd i gael eu galw i'w wyddfod.

"Brys-negesydd gyda nodyn! Be sy'n bod, o ba le y mae'n dyfod, ac oddiwrth bwy tybed?" mwmiai mewn tôn lawen a chwerthinllyd. "Dygwch ef yma—y ddau gyda'u gilydd."

Cyn bod eiliad wedi llithro ymaith, dyma ddyn yn ei wyddfod, llawn dwy lath o daldra—hirheglog ac eiddil: nid yw natur wedi dangos unrhyw wastraff pan yn ei wisgo â chnawd, tra nad yw felly gydag esgyrn a chyhyrau. Gwyneb hir, genau agos, yn cyraedd o glust i glust—digon o le agos i luchio ymborth â rhaw ac i anadl wneyd ei ffordd allan ar yr un adeg. Gwefusau trwchus, yn torchi,—y rhai isaf tuag i waered, a'r rhai uchaf tuag i fyny. Y maent fel dwy deisen surgeirch; trwyn bwäog ac o faintioli mawr; dau lygad melynddu, wedi tyfu i'w llawn faintioli, ac wedi eu cyfleu yn eu heisteddle heb

Digitized by Google

fod yn rhy bell yn ol nac yn mlaen,—yn edrych y naill i gyfeiriad y llall, fel pe na fuasent yn ymserchu mewn un gwrthddrych heblaw eu hunain. Y maent yn fflachio ac yn chwyrlïo, fel pe yn bygwth ehedeg i ymgyfarchwel â'u gilydd. Symuda mor chwim ac ysgafn ar ei droed fel mai prin y gellir credu ei fod yn cyfleu unrhyw bwysau arnynt, ond pan y mae yn sefyll yn llonydd. Y mae digon o asbri ac awyr oddimewn iddo i'w gynal agos i grogi yn yr awyr, rhwng nefoedd a daear. Dyma ef yn ngwyddfod ein harwr, yr hwn sydd yn syllu arno yn frysiog a gwibiog o fawd ei droed i ben ei goryn.

"Dyma y nodyn i ti," ebai efe, heb roi haner gair o eglurhad o ba le, oddiwrth bwy y daeth, na pha beth ydyw ei faich.

Gafaelodd yntau ynddo yn frysiog ac yn ddiamynedd, rhwygodd y clawr gyda'i ddwy law er gwneyd ei ffordd mor gyflym ag y gallai at ei gynwysiad. Hawdd canfod oddiwrth ei wynebpryd ei fod yn ymdrechu gwneyd allan pa beth a allasai ei gynwysiad fod. Yn anffodus, tra yn ei ffrwst yn rhwygo y clawr, rhwygodd beth o gynwysiad y nodyn.

"Wel, aflwydd ac aflwydd," llefai; "mwya' fo'r brys, mwya' fo'r rhwystr. Dyma fi wedi darnio y nodyn fel nas gall yr un dewin ei ddeongli."

Ond Luan y llwyddodd i gysylltu y darnau yn gyfunol a chyson, fel i'w alluogi i ddarllen yr hyn a fwriedid iddo gyfleu, yr hwn a redai fel y canlyn:—

"Mae Huw Flaidd, Iarll Caer, a Huw Goch, Iarll Amwythig, yn dy anerch, yn dy longyfarch, ac yn dy weddiaw di a'th wyr i ddyfod i gyfrwch â hwynt hyd Crug (Rug), yn Edeyrnion, lle mae gwledd i gael ei pharotoi i'th arfolli di a'th lu. Mae swn ac adsain dy glod o afon Gwy i afon Gaer. 'Does neb yn fwy clodfawr nac anrhydeddus na thi. Maent yn awyddus i lawenhau gyda thi, ac i ddyfod i gytundeb heddychol yn nghylch y cyffiniau, ac i osod allan y llinell derfyn rhwng terfynau dy dywysogaeth a'r cyffiniau.

MEIRIAWN GOCH, dy Farwn."

Yr oedd Cynfrig Hir yn sefyll tu ol iddo, ac yn darllen y cynwysiad. Yr oedd hyfrydwch a boddhad i'w ganfod yn eglur yn ngwedd Gruffydd tra yn ei ddarllen yn ddystaw iddo ei hun, tra y crychai ac y cuchiai yr eiddo y llall, ac echrydai ei ysgwyddau tuag i fyny, fel pe buasai wedi llyncu dognau o wenwyn, a hwnw yn lledaenu ei effeithiau gwenwynol i bob cyfeiriad. Y mynyd nesaf gwelid ef yn troi at Cynfrig, ac yn gofyn:

Digitized by Google

"Beth feddyliet ti?"

"Meiriawn Goch ydyw Meiriawn Goch, Huw Flaidd ydyw Huw Flaidd, a Huw Neidr ydyw Huw Leidr. Cynllun cathaidd o ddenu y llygod o'u tyllau ydyw. Nid wy'n coelio dim un gair o hono. Y nhw o bawb yn llawenhau oherwydd dy lwyddiant ar faes y gwaed! Y nhw yn dy longyfarch ac yn cyduno ag eraill i'th goroni yn ben! Mae yn llawn tebycach gen' i mai cyduno â'r Daniaid eraill y maent i dori dy ben. Ni fuaswn yn myn'd gam i gyfrwch â hwy ond i ryfel. Nid ydynt yn bobl i wneyd cymdeithas â hwy mwy na seirff a nadroedd y maes. Y mae colynau ganddynt, a cholynau i golynu ydynt. Cytundeb heddychol yn nghylch y cyffiniau! Felly wir! Nid oes dim caws i'w gael yn mol ci."

"Cynfrig! Cynfrig! nid eill pethau fod felly. Dyma nodyn oddiwrth Meiriawn Goch, fy marwn fy hun. Mae yn amlwg ei fod wedi bod yn ymgomio â'r iarllod; ac y mae mewn mantais o ganlyniad i hysbysu yn gywir hollol fel y mae pethau."

"Yr wyf finau o Edeyrnion, yn adnabod Meiriawn, ei dad, ei fam, ei daid, ei nain—yr holl hil a'r epil. Tylwyth ydynt a allent chwerthin yn rhagrithiol gyfeillgar yn dy wyneb, estyn un llaw yn llawn o gariad, a chymeryd dagr gyda'r llall i'th drywanu yn dy galon!"

"Ni dda gen' i mo'r ffordd yma o edrych ar bawb fel bradwyr, celwyddogion, a lladron. Gwell meddwl yn dda am bawb, a gwneyd cyfeillion o honynt. Yn fynych cei bobl fel byddi yn meddwl am danynt. Mae yr uchelwyr hyn yn llawer rhy anrhydeddus i ddilyn y cynlluniau a'r arferion isel a barbaraidd o rwydo a maglu neb trwy weniaith a thwyll."

"Y mae holl ysgogiadau a hynt bywyd y barwniaid Normanaidd hyn, eu holl ymwneyd â, a'u holl ymddygiadau at ein cenedl ni, yn gwrthdaraw ac yn bwrw i lawr yr hyn a fyni gredu a llefaru. Nid wyt ti dy hun chwaith heb wybod hyny, a'i wybod trwy brofiad. Beth wnaeth y Rhobert Gastellwr, sydd yn ddigon newydd a byw yn dy gof! Nid yw uchelwyr i ymddiried ynddynt. Y mae meibion wedi troi yn fradwyr i'w tadau droion, a'u traddodi i ddwylaw estrawn genedl o Saeson a Normaniaid. Am fil o wartheg—gwartheg yspail—y prynodd Berthrwyd, brenin Mers, wyr Brycheiniog i ladd Ithel ab Hywel, brenin Morganwg a Gwent. Enillasant iddynt eu hunain yr enw o 'Fradwyr Brycheiniog,'—y mae ar lafar gwlad yn ddiareb hyd heddyw; ond brad sydd eto yn aros. Ond gwna di a fynot. Cyfeillion o seirff, cyfeillion o nadroedd colynog a gwenwynllyd, na 'nawn byth!"

Digitized by Google

"Credu fel arall am danynt ac am eu gwahoddiad yr wyf, eu bod yn fawreddog ac anrhydeddus, ac na ddylwn eu dirmygu a'u sarhau hwy trwy wrthod eu gwahoddiad. Gallai hyn greu anghydfod a chodi rhyfel. Yr wyf erbyn hyn wedi arloesi holl Wynedd o'm gelynion, ac wedi dychwelyd i'm priodolder fy hun a thref fy nhad i'w meddu ac i'w thangnefeddu. Nis gallaf weled un llwybr doethach, nac un yn debycach o sicrhau heddwch parhaol, nag ymwneyd yn gyfeillgar a heddychol a chyfrwch â'r iarllod hyn yn nghylch terfynau y cyffiniau. Iddynt hwy y bydd y dianrhydedd os bydd iddynt ymwneyd â mi a'm gwyr a throseddu llythyren ac ysbryd y gwahoddiad hwn."

Tra y maent yn llefaru ac yn oedi rhoi atebiad i'r brysnegesydd, y mae hwnw yn ymsymud yn mlaen ac yn ol ar hyd yr ystafell, fel pe buasai *golic* anferthol yn ei goluddion. Y mae o'r diwedd yn blino, ac yn hysbysu ei fod wedi ei osod dan rwymau i ddychwelyd atebiad o ryw fath yn ol o fewn pedair awr ar hugain, ac yn niffyg iddo ddyfod i fyny â'r hyn a ofynid fod ei benyd yn golygu "gwlad y tyrchod daear!"

Ar hyn gafaelodd Gruffydd yn ei asgell-ysgrif, a dododd yr atebiad canlynol i Meiriawn Goch:—

"Byddaf yn sicr o ddyfod i gyfrwch â'r iarllod i'r wledd, ac i ymgom yn frawdol a heddychol. Da gen' i gael yr egwyl i'w cyfarfod ac i wneyd cyfeillion o honynt, y rhai fel yr ymddengys ydynt yn barod, a phenderfynwn ar linell derfyn y cyffiniau rhyngom a'n gilydd. Gwna dithau dy ran, Meiriawn, fy marwn da, i chwanegu eto at ein cyfeillion, y rhai ydynt yn preswyliaw ar y cyffiniau. Cyraeddaf tua'r pedwerydd dydd.

GRUFFYDD AB CYNAN,
Tywysog Cyfreithlawn Gwynedd."

PENOD XX.

YN Y CARCHAR YN NGHASTELL CAER—CYNFRIG HIR YN EI RYDDHAU.

Y MAE hanes yr arlwyaeth a wnaeth ein harwr i fyned i'w daith—nifer y marchogion a'r pedyd a ddygodd gydag ef, y modd y teithiodd—pa un a aeth mewn llong neu longau o Abermenai, ai ynte a deithiodd ar hyd y tir—yn anhysbys. Nid oes air o son chwaith, er chwilio yn fanwl yr holl hen groniclau, am

Digitized by Google

Cynfrig, pa un a ymunodd yn yr osgorddlu i fyned hyd yn Nghrug. Y mae lle cryf i gasglu na ddarfu iddo. Yr unig hanes a gawn ydyw yr eiddo ein harwr a llu arfog. Yr oedd eu mynediad yno yn heddychol. Cyraeddodd ef a rhan o'i osgorddlu o flaen y lleill. Mae Meiriawn a'r iarllod yn eu cyfarfod, gyda gwên lawn o gyfeillgarwch, yn ei arfolli mewn geiriau ac ymddygiad. Mwy o garedigrwydd a chroesaw nid allai ddysgwyl. Yr oedd yr holl ymddangosiad, yr holl wenau llawn o deimlad da a chroesaw, yr holl ymadroddion llongyfarchiadol i Gruffydd fel Pen Gwynedd, a'r holl weithrediadau yn gyfryw a'i hargyhoeddodd ar unwaith bod llythyren ac ysbryd y gwahoddiad i gael ei gadw yn fanwl. Yr oedd hyn yn peri iddo deimlo braidd yn oeraidd tuag at Cynfrig am geisio codi bwganod yn ei ben i'w atal i dderbyn y gwahoddiad, a myned i "gyfrwch a hwy." Pe buasai wedi ufuddhau i'w ddaroganau a'i fygythion yn nghylch brad a natur wenieithus yr alwad, fe fuasai hyny, fe ddichon, wedi achosi rhwyg a rhyfel blin rhyngddo ag arglwyddi y cyffiniau, yr hwn na chawsai byth ei gyfanu. Y fath wallgofddyn a fuasai pe y gwrandawsai arno yn codi bwganod.

Hyn oedd y dyn, a hyn a fu er pan y cyfarfu ag ef y waith gyntaf, a hyn a fyddai yn ol pob tebyg. Ond oedd ei farwn, ei brif-farwn ei hun—Meiriawn, yr hwn yr oedd wedi gwneyd cymaint iddo, yn ei wahodd, fel y buasai yr ynfydrwydd mwyaf iddo ef beidio ufuddhau i'r alwad. Cyfaill ydyw Meiriawn, a chyfaill o'r iawn ryw. "Nid y boreu y mae canmawl diwrnod teg," yn y wir, beth bynag am hyny diwrnod teg ydyw hwn i fod ar ei hyd.

Y mae ef a'i fintai fechan yn teithio yn mlaen yn hoenus a llawen ychydig yn nes i Gorwen na Gwyddelwern, pan y maent ar wastat-tir, gyda llwyn o goed ar bob llaw, yn ymgomio yn felus a chalonog, yn sicr nad oes na brad na drwgfwriad yn agos nac yn mhell. Yn sydyn wele y ddau farwn yn troi ar eu sawdl, ac yn ymneillduo i'r llwyn coed, dan y ffug esgus eu bod wedi gadael eu meirch yn rhwym yno. Y maent yn rhoi chwibaniad dyeithrol, gan esbonio y cyfryw fel moddion i gael y meirch i'w hateb mewn gweryriad, er iddynt gael allan pa le yn y llwyn coed yr oeddynt wedi eu gadael. Mor fuan agos ag yr anfonwyd y chwibaniad allan, wele ruthrgyrch o wyr meirch a phedyd yn cyflymu tuag atynt o'r naill ochr a'r llall. Maent yn cael eu dal â madrondod pensyfrdanaidd, fel pe buasent uwchben dibyn, a llynclyn heb waelod yn y dyfnder

Digitized by Google

islaw. Y mae gweithrediadau y meddwl, y golwg, y clyw,—mewn gair, holl synwyrau y corff a'r enaid, wedi eu difodi megis. Y maent wedi eu parlyso yn hollol. Maent wedi eu taraw megis gan gadwyn o fellt. Y maent yn cael eu hamgylchu a'u cymeryd oll yn garcharorion, cyn iddynt ymddadebru a chanfod yn mha sefyllfa yr oeddynt. Y mae ein harwr yn cael ei osod mewn gefynau haiarn, ac yn cael ei gludo fel pe yn wybedyn mewn gwe pryf copyn yn garcharor i Gastell Caer. Ei osgorddlu yn cael ei thrin yn greulawn—bawd ddehau llaw pob un o honynt yn cael ei thori ymaith, ac yna yn cael eu rhyddhau i fyned ymaith yn anafus. Clybu yr ol-fyddin yr holl helynt, ac ymwasgarasant fel defaid heb fugail.

Yn Nghastell Caer y rhaid i ni ei adael, os ydyw yno hefyd. Mae y gred yn ffynu ar hyd a lled y wlad ei fod wedi cael ei ladd er's llawer o ddyddiau.

Yn mhen deuddeng mlynedd ar ol yr helyntion a grybwyllwyd yn flaenorol, y mae angen a phrinder lluniaeth trwy holl ranau Edeyrnion oherwydd methiant yn y cynyrch. Y mae yn dyfod i'r chwareule wr grymus, o daldra mwy na'r cyffredin—dyn a golwg llym, cadarn, a phenderfynol, breichiau fel carfan gwehydd a chluniau fel dylathau. Buasai dyrnod ganddo mor angeuol a throediad ceffyl. Gafaelai mewn sachaid dau hobaid a thaflai hi ar draws ei ysgwydd gyda llawn llai o drafferth a thuchan ag a gymerai i ddyn arall daflu phiolaid. Hwn gyda llu o gymdeithion a aeth i Gaer, fel meibion Jacob gynt i'r Aifft, i brynu lluniaeth, fel y gellid cadw trigolion Edeyrnion yn fyw. Maent yn cyraedd Caer pryd y mae agos yr holl ddinas yn nghanol cynhwrf a rhialtwch mawr. Ceir pob un agos wedi yfed yn uchel, fel maent yn cerdded yn gyffelyb i rai ar fwrdd llong, yn cael ei hysgwyd a'i siglo gan gynddeiriogrwydd tonau y môr. Mae hyn yn creu syndod yn eu plith, ac yn creu ysbryd chwilfrydedd i wneyd ymholiad, pa beth oedd wedi galw am y fath wledd ac asbri. Ond er holi un a holi arall, y maent yn y fath sefyllfa fel nad allent gael hyd i'w tafodau i lefaru, neu pan y llefarir, gwneir hyny mor floesg fel nad ellir gwneyd pen na chynffon o ddim a ddywedir.

Y maent yn parhau i ymlwybro ac i ymholi, ond yn gwbl aflwyddianus. Mae awydd cael gweled y castell ar y gwr talgryf. Y mae ei gymdeithion yn sylwi bod dagrau yn treiglo fel defni parhaus o'i ddau lygad. Y mae yn dechreu tori allan i wylo, hyd nes y mae, er mor gadarn ydyw ei adeilwaith, ac er mor ddisigl ydyw ei gerddediad, yn siglo fel brigyn bedwen ar

Digitized by Google

ddiwrnod ystormllyd. Yn mhen yspaid y maent yn dyfod i olwg y castell, yr hyn sydd yn dwyshau ei deimladau. Nid ydyw yn gallu siarad un gair,—os oedd ei ddagrau yn treiglo fel defni o'r blaen, y mae dwy ffos yn llifo yn genllif o'i lygaid erbyn hyn. A thyna ei anadl yn glonciog gyda'r yll, yll, yll, a dirgryna uwchben ei draed, fel deilen yn nghanol corwynt. Mae wedi llwyr golli ei hunan-feddiant. Ei gymdeithion ar hyn a welir wedi eu meddianu gan yr un teimlad ag yntau, ac yn cydymuno ag ef mewn cydgan wylofus. Y mae yn sefyll yn syn. Nis gŵyr ar ba law i droi, na pha beth i'w wneyd. O'r diwedd y mae yr afiechyd o wylo yn treio fel y treia llanw y môr. Y mae yn llwŷr fyned i lawr, ac yntau gyda'i lewys yn sychu ei wynebpryd, ac yn symud ymaith ei ddagrau. Pan wrth borth y castell y maent yn cyfarfod dyn o ymddangosiad mwy pompus a mawreddog na'r cyffredin, ond nid ydyw yntau heb fod dan ddylanwad y ddioden. Mae yn casglu digon o nerth i ofyn.

"Beth ydyw yr helynt sydd yn y ddinas heddyw?"

"Pen blwydd—pen y deuddeng mlwydd o garchariad Gruffydd tywysog Gwynedd yn y castell ydyw."

"Gruffydd—pwy ydyw Gruffydd tywysog Gwynedd? chlywais i erioed son am dano. A ydyw ef yn fyw eto?"

"Byw ydyw! ac yn garcharor yn y castell—yn y ddaeargell ddu isaf mewn gefynau. Fydd o byth farw, neu fe fuasai wedi gwneyd. Y mae wedi ei fwydo a'i ddiodi droion â'r hyn a ddel oddiwrtho."

Trodd y gwr talgryf a'i gymdeithion ymaith. Wedi teithio ychydig cawsant allan nad oedd yr hwn y buwyd yn ymddyddan ag ef neb mwy na llai nag un o fwrgeisiaid y castell.

Fel yr oeddynt yn ymdroi ac yn ymdrosi yn nhueddau y castell llithrodd yn berfeddion y nos. Aeth y fintai gyda'u gilydd i mewn yn lladradaidd trwy y porth, a llwyddasant i fyned i'r ddaeargell ddu, lle yr oedd nifer o garcharorion yn efynawg, y rhai nid ellid eu canfod oherwydd du-dew dywyllwch —tywyllwch trwchus fel llaid—un y gellid ei deimlo, fel y pla gynt yn yr Aifft. Nid oedd gyda hwynt un math o oleuni. Yr oeddynt wedi ymwthio i lawr ar hyd y grisiau troellog trwy y mur. Nid oedd dim i'w wneyd ond ymbalfalu, ond pa fodd i gael hyd iddo trwy ymbalfalu yr oedd yn fwy nag a allent. Yr oedd goleuni gwanaidd canwyll yn mhen uchaf y grisiau. Y maent mewn astrusi ac ofnau mawr yn y gwaelod. Yr oedd tawelwch a dystawrwydd y bedd yn ofynol. Buasai y swn

Digitized by Google

lleiaf hyd yn nod feallai yn dyrysu eu holl gynlluniau. Hyny, ond odid, a fuasai yn creu drwgdybiaeth yn mhlith ceidwaid y carchar, neu y bwrdeisiaid, er mor farw feddw y tybid eu bod, ac y canfyddwyd pob un o honynt. Mae pob un yn ddystaw—arswyd ac ofnau yn eu meddianu oll, hyd nes y mae chwys yn dylifo allan trwy bob chwysdwll ar eu cyfansoddiad. Teimlai pob un gryndod, a'i wallt yn sefyll yn syth ar ei ben. Si, swn, na gair ni ddaw allan o enau un o honynt, a'r anadliad a ollyngir allan gyda'r dystawrwydd mwyaf.

Ymsaetha y syniad yn sydyn i feddwl y gwr talgryf i encilio yn ol i ben uchaf y grisiau i ymofyn y goleuni y darfu iddynt fyned heibio iddo yn lladradaidd ychydig eiliadau yn ol. Cyflymodd yn ol gyda dystawrwydd a nodwedda lygoden. Cymera ymaith y goleuni a dychwela yn ol. Dyma ef yn y gwaelod yr ail waith, gyda'r goleuni gwanaidd yn ei law. Canfydda yn ei ymyl yn ngwaelod y grisiau garcharor, i'r hwn y gofynodd yn ddystaw.

"A elli di fy nghyfarwyddo yn mha le mewn cadwynau y mae Gruffydd dywysog?"

"Yn y gongl bellaf acw," atebai llais gwanaidd.

Gwnaeth ef a'i gymdeithion eu ffordd i'r fan hono. Canfyddai ddyn canolig o faintioli, golwg welw a thruenus o deneu, gwallt haner yn felyn a haner yn wyn, gwyneb wedi gwisgo allan, heb ddim yn gorchuddio yr esgyrn, ei lygaid agos wedi gweithio allan o'i ben, trallod ac angeu megis yn argraffedig ynddynt. Ei drwyn yn deneu ac yn finiog, fel asgwrn coel. Yr oedd o'r coryn i'r sawdl wedi gwisgo allan. Nid oedd yma ddim yn aros ond esgyrn, croen, a giau. Ni chanfu un o honynt â'i lygaid, mewn gweledigaeth na breuddwyd, ddyn mor deneu yn fyw nac yn farw. I'w tyb hwy, yr oedd yn ddarlun goreu a thecaf a ellid ganfod o angeu. Yr oedd syllu arno yn ddigon a pheri i ddyn syrthio mewn llewyg a threngu wrth syllu. Bu agos iddo ef a'i gymdeithion syrthio mewn llewyg pan ei canfyddasant. Nid oes dim amser i synfyfyrio uwchben yr olygfa druenus,—ar y tipyn o ddynoliaeth a orwedda mewn cadwynau o'u blaen.

"Ai Gruffydd wyt ti?" gofynai y gwr talgryf.

"Ie," ebai llais gwanaidd, "Gruffydd oeddwn, ond nid oes dim o honof yn aros. Croen ac asgwrn ydwyf erbyn hyn! Pwy wyt tithau?" ebai yntau, gan syllu yn llym arno, fel pe yn edrych trwyddo.

"Cynfrig Hir," ebai yntau, "ond 'does dim amser i siarad.

Digitized by Google

Yr wyf am wneyd ymgais i'th ladrata a'th gludo ymaith o grafangau y fileiniaid."

Heb aros eiliad yn hwy cipiodd afael ynddo, a gosododd ef ar ei ysgwyddau a chludodd ef ymaith, trwy ganol y gweddill o'r carcharorion, a chyflymodd i fyny y grisiau, mor dawel a dystaw fel nad oedd cymaint o swn oddiwrth ddisgyniad eu traed ag a fuasai oddiwrth ddisgyniad pinau. Y maent yn llwyddo i weithio eu ffordd tu allan i derfynau y castell, heb gyfarfod na gweled un dyn, hyd yn wybod iddynt, ond y maent yn gofalu am beidio edrych na sylwi o gwbl, fel pe buasai hyny yn dylanwadu ar y neb a ddygwyddai fod o fewn eu sylw ac yn gyfagos, i ymddwyn yn gyffelyb. Y maent fel coedieir, y rhai ond cuddio eu penau o'r golwg yn y gwellt a wnant hyny yn ymguddio fel na wel llygaid mo honynt, am nad ydynt hwy yn gweled. Dyma hwynt bellach tu allan i furiau y castell, ond nid eto tu allan i enbydrwydd. Cyfleir sach drosto, neu yn hytrach dodir ef mewn sach, gan dori twll bychan yn ei gwaelod fel i adael i'w ben fod allan i anadlu awyr, er gochel iddo fygu i farwolaeth. Mae hyn yn ei wneyd i ymddangos yn debyg i sachaid o luniaeth, ac fel y cyfryw y cymerir ef gan bob un a gyfarfyddir, os darfu i rywun sylwi ar Cynfrig a'i gymdeithion o gwbl. Tra y teithiai Cynfrig gyda chyflymdra march pedwar carnol, y lleill a alwant am luniaeth, ac a ddilynant ol eu sodlau gyda'r unrhyw gyflymdra. Maent ar ol taith flin, yn lled ddihoenllyd a lluddedig, yn cyraedd eu cartrefle yn Edeyrnion. Mewn ystafell glud y mae yn cael ei borthi yn ofalus ag ymborth maethlawn, dan gêl, ac yn guddiedig yn nhŷ ei gyfaill a'i gymwynaswr Cynfrig. Mae mor wanaidd o nerth fel nad yw yn alluog i ymddyddan ond ychydig. Nid oedd unrhyw foddion o fewn ei allu i'w ryddhau o'i gadwynau, y rhai oeddynt yn ei ddirwasgu, ac yn peri nid ychydig o boen iddo. Mae yn mhen rhai dyddiau yn dechreu ymadnewyddu ei nerth a sirioli ei feddwl, ac yn teimlo awydd cael ymgom ar yr helyntion a fu. Dechreuai gyda hanes y driniaeth greulawn a chwerw, yr ymborth difaeth—ychydig o fara surgeirch, teisenau surion, y rhai a gaffai, ac y buasai yn ffiaidd gan unrhyw un fwydo ci â hwy. Yn fynych gorfodid ef i fwyta ac yfed yr hyn a garthai allan, a fflangellid ef am nad allai wneyd hyny; ac yna tröai ei feddwl oddiwrth helyntion y carchariad yn y castell at ddygwyddiadau ei dywysogaeth ei hun yn ystod yr amser y bu yn dihoeni yn ei gadwynau, ar y rhai yr edrychai yn bruddaidd, gyda llais cwynfanus a gruddfanol, pan y siaradai.

Digitized by Google

"Y fath asyn, y fath ynfytyn a fum na fuaswn wedi gwrandaw ar dy gynghor a'th addysg. Chwanegodd hyny fwy na dim at fy mhoenau. Nid aeth eiliad, mynyd, nac awr heibio na fyddai blinderau ac adgno yn treiddio trwof o'm coryn i'm sawdl. Yr oedd felly pan y daethost i lawr y noson hono i'm cipio ymaith megis o safn angeu."

"Nid oes am a fu ond tewi a son, a gadael iddo. Paid a galw i'th gof y gorphenol ond i hyrwyddo a gwella y dyfodol," ebai Cynfrig.

"Ni chlywais beth a ddygwyddodd o fewn fy nhywysogaeth fy hun—treftad fy nhad a'm taid; myfi a'i piau hi yn gyfreithlawn. Ond be waeth heb son am gyfraith, pan mai ffordd y byd ydyw trecha' treisied a gwana' gwaedded."

"Bu galanas ddychrynllyd ac ofnadwy o fewn holl amrywiol gantrefi Gwynedd yn y mynyd ar ol dy garchariad. Rhuthrodd Huw Flaidd—Fras, a dieflig i'th holl diriogaeth, can belled a rhanau eithaf Ynys Mon, yn amlder ei dorfeydd. I gadw y lladrad a feddianodd trwy frad ac yspeiliad yn ei feddiant ac yn eiddo bythol iddo ef a'r Normaniaid, adeiladodd gestyll ar y ffurf a'r cynllun Normanaidd, yn Meirionydd, yn Mangor, yn Nghaercystenyn (Caernarfon), ac yn Aberllienawg yn Mon. Gosododd ynddynt farchogion, pedyd, a saethyddion, a chymaint a wnaethant o ddrwg ag na wnaethant er dechreuad y byd, fel yr ocheneidiai y bobl rhag y gorthrwm."

"Dichon y daw y cestyll hyn i'm meddiant eto ryw ddydd, ac y bydd iddynt fod yr un gwasanaeth i mi a'm llu ag a fu cleddyf y cawr Goliath i Ddafydd, yn y dyddiau gynt."

"Nid wy'n gwel'd y gellir llwyddo i ddwyn hyny oddiamgylch yn fuan; os byth y llwyddir rhaid dwyn gallu oddiallan i adenill yr hyn a gollwyd. Y mae dy sefyllfa yn fwy anobeithiol na phan y darfu i ti lanio y waith gyntaf yn Abermenai. Y wlad sydd wedi bod yn llawn bradwriaeth er pan y cymerwyd di yn garcharor yn Nghrug. Mae y mân dywysogion wedi bod ac yn parhau i borthi dialgarwch a chenfigen at eu gilydd,"

"Yn nghanol y siarad, yn mha sefyllfa y mae Rhys ab Tewdwr yn Neheubarth?"

"Rhys ab Tewdwr wedi syrthio yn ysglyfaeth i fradwriaethau! Cyfarfu â thynged lawer gwaeth na thithau; yn lle ei gymeryd yn garcharor, torwyd ymaith ei ben. Bu y bradwriaethau mor luosog yn Neheubarth hyd nes y maent wedi llwyr anrheithio y wlad o ben-bwy-gilydd. Daeth Gwilym Fastardd ar bererindod i Fynyw. Bu yn offrwm gweddiau ger bron creirfa Dewi

Digitized by Google

Sant, yn ngwydd ei osgordd a'r mynachod. Dygodd roddion i'r eglwysi, yr esgobion, yr offeiriaid, y mynachod, a'r mynachlogydd; ond ni safodd yma, mynodd warogaeth breninoedd a thywysogion y tir. Dywedir iddo ryddhau llawer cant o wyr. Y mae yr holl dywysogaethau yn un berw cyffredinol. Llewelyn ac Einion, meibion Cadifor ab Collwyn, Arglwydd Dyfed, yn eu brad a'u cenfigen a anogasant Gruffydd ab Meredydd i ymgadgyrchu yn erbyn Rhys ab Tewdwr, ond ei orchfygu a gafodd Gruffydd. Daliwyd ef a thorwyd ymaith ei ben, fel teyrnfradwr. Llewelyn ac Einion a ffoisant; ond casglasant lu o Loegr, a'r diwedd fel y sylwyd fu i ben Rhys gael ei dori ymaith. Dilynwyd y bradwriaethau hyn gan lu o fradwriaethau eraill, fel y mae Deheubarth oll agos yn nghrafangau arglwyddi Normanaidd. Fel hyn, y mae yr holl dywysogaethau, fychain a mawrion, yn llithro i ddwylaw estronol, trwy frad gynlluniau afrifed luoedd o rai sydd yn hòni hawl mai hwy yn anad neb arall sydd yn meddu yr hawl flaenaf i eistedd ar yr orsedd, tra nad yw ac nad oedd y rhan fwyaf o honynt yn teilyngu cael eistedd ar blocyn, chwaithach ar orsedd. Brad yn yr awyr, tu ol i'r twmpathau, yn yr ogofau,—brad a llofruddiaethau yn mhob congl,—yn sicr o ddinystrio yr holl fân dywysogaethau, ac o drais-gipio rhyddid ein gwlad," llefai Cynfrig, gan ddyrchafu ei ddwylaw ac ymddryllio mewn digllonedd.

"Pa beth a fuasai dy gynghor i mi yn y dyfodol?" ebai Gruffydd, fel pe buasai wedi ei ddychrynu, ac yn dysgwyl i ryw ddinystr ofnadwy ddisgyn ar ei ben, megis o'r awyr.

PENOD XXI.

CLUDO GRUFFYDD I FON—TYMHESTL ERCHYLL A LLONGDDRYLLIAD.

Am yspaid y mae Cynfrig mewn astrusi, yn analluog i roi atebiad; yn y wir, hwyrfrydig ydyw i ateb y gofyniad. Gŵyr yn dda oddiwrth drem ei wynebpryd nad yw eto wedi rhoi i fyny y gobaith o adenill treftad ei dad, fel y gelwai Wynedd, a meddianu ei briodolder ei hun a'i thangnefeddu. Rhyfedd yn ei olwg ydyw ei fod yn gofyn cwestiwn o'r fath. Cyn ei garchariad, ni fuasai yn ymostwng i gyfeirio gofyniad o'r fath i sylw neb. Meddai feddwl a chynlluniau cyn hyny o'i eiddo ei hun, y rhai nid oeddynt bob amser o ddoethineb, ond mynai

Digitized by Google

eu gweithio allan, yr hyn mewn lluaws o amgylchiadau a'i dygodd i drybini, ac yn fin-fin â dinystr ar ei lywodraeth a'i fywyd; ond y mae deuddeng mlynedd o garchariad wedi ystwytho ychydig arno, ac mae eto yn efynawg. Nid yw y cadwynau wedi eu dryllio. Nid yw Cynfrig yn ateb. Yntau a ail ofyna gyda'i lygaid yn llawn o erfyniadau.

"Nis gallaf weled ond un llwybr i ti i'w ddilyn, dychwelyd yn ol i'r Werddon, a chasglu llu byddinawg i wneyd ymgais chwanegol i adfeddianu treftad dy dad; neu os nad elli gasglu marchogion a phedyd, aros yno i losgi allan y gweddill o'th fywyd. Gad dy esgyrn yn rhyw gongl yn rhywle yno!"

"Pa sut y galla'i fyn'd yno? Dyma fi yn efynawg. A oes dim dichon cael rhywun i'w tori? Gallwn deithio yn weddol ar ol hyny, a chael llong i hwylio o Abermenai, neu o rywle."

"Nid ellir cael neb yma, am y byddai i hyny greu enbydrwydd. Hwyrach y byddai yn dda gan rai o honynt fyned at Huw Flaidd i Gaer i fynegu, yr hyn a'th ddygai eilwaith i'r ddalfa. Fe ddywedaf i ti beth a wnaf, os ewyllysi, cludaf di eto yr holl ffordd oddiyma i Fon, ar fy nghefn, gyda'm cymdeithion i'm cynorthwyo. Y mae yno un Sandef, mab Aere, câr i mi, a chyfaill cywir, a allai dy ryddhau o'th efynau. Bydd raid i ni dy gludo yn y nos. Byddai unrhyw symudiad yn y dydd yn sicr o greu drwgdybiaeth y Normaniaid, y rhai ydynt fel cacwn yn mhob dyffryn, glyn, nant, a mynydd yn heidio, ac yn gwylio yn fanwl bob ysgogiad, ac yn archwilio pob teithydd o'i sawdl i'w goryn. Y maent yn dysgwyl, ac yn sicr yn eu meddyliau, y bydd i ti hwylio o Fon am y Werddon. Wedi y cyraeddom Fon, cuddir a chyflenwir di ag ymborth gan Sandef am yspaid o ddyddiau, i aros i'r ystorm ostegu, ac yna ceir dy roddi ar fwrdd llong i hwylio trosodd heb golli dim amser."

"'Rwy'n gwel'd hwna yn gynllun da odiaeth. Pa bryd y gelli gychwyn?"

"Heno nesa'. Fe gyraeddwn odreu yr Eryri yn mhell cyn goleuo o'r dydd, ac yna fe ymlocheswn yn rhai o'r ogofau hyd oni ddaw y nos drachefn. Bydd raid i ni ddarparu gogyfer â'r daith mewn lluniaeth."

Yn mhen deuddydd ar ol yr ymddyddan blaenorol, yr ydym yn cymeryd hynt i Fon, lle y mae heb fod yn mhell oddiwrth lan y Menai drigianydd, yn preswylio yn ymyl y culfor, mewn anedd-dy o faintioli lled fawr, ag ystyried yr adeg foreuol y mae yn byw ynddi. Ei dô a wneir i fyny o lafrwyn, y rhai sydd yn

Digitized by Google

tyfu yn lled helaeth oddeutu y rhandir lle y saif yr anedd-dy. Ei ddrysau ydynt o astellod tewion, a chleddyfau llydain ar eu traws o'r tu mewn, a hoelion pren wedi eu curo trwyddynt i'w cyfanu wrth eu gilydd. Y maent fel drysau carchar. Dolen bren arno o faintioli a phraffder y tu allan. Mae yn gofyn llaw fawr i allu gafael am dani i gau neu agor y ddor, fel y bydd amgylchiadau yn galw. Clicied a bollt pren. Troa y drws ar golyn o goed, yr hwn yn y gwaelod ac yn y pen uchaf sydd wedi ei naddu o'r astell—rhan o'r astell ydyw. Nid yw y ffenestri a geir yma ond tyllau bychain a disylw—rhai heb wydr arnynt. Cauadleni sydd arnynt, y rhai a gauir y nos, ac a agorir y dydd. Ceir yn y tô ffenestri a elwir yn y dyddiau hyn yn trafesi. Tyllau ydyw y rhai'n yn nen yr anedd-dai, heb eu gwydro. Dyn bychan—coryn agos ydyw y trigianydd. Un bywiog ac ysmala neillduol. Y mae yn hynod fedrus a thalentog yn mhob peth y cymera afael ynddo. Ni fu ei fath am gywreinwaith. Gall wneyd gwaith gôf yn well na nemawr ôf yn y wlad. Os troir at waith saer, y mae yn gyffelyb yn y cylch hwnw. Ond rywfodd, er fod ei gywreinrwydd a'i allu yn cael ei gydnabod, nid yw yn cael ei barchu yn deilwng o'i fedrusrwydd,—y mae ei ddull cellweirus, gwamal, a'r mynych fân gastiau a phranciau ac ystrywiau cellweirus a gwblha, yn tueddu rhai i gredu nad yw yn gall, ac ymddyga rhai tuag ato fel y cyfryw. Y mae pob un yn gorfod addef ei fod yn dra thalentog a chywrain tu hwnt i neb, nid yn unig yn yr ardal, ond yn yr holl wlad; ond yr oedd ei branciau yn tynu rhyw fwy na haner cant y cant oddiwrth ei anrhydedd. Gollyngid dros gof ei allu a'i dalent,—y castiog a'r pranciog a welid. Siarada yn athrylithgar a thalentog, a buasai yn cael gwrandawiad astud oni b'ai fod pobl yn ei adnabod fel cellweiryn castiog a hocedus. Methid a thaflu o'r neilldu y naill pan ddeuai y llall i'r chwareufwrdd.

Y mae iddo wraig o faintioli anferth, llawn mwy na dwy lath o daldra, a ffyrnig yr olwg arni. A dywedir y bydd arfer a rhoi curfa iawn i'r gwr, hyd nes y bydd yn ymgreinio ar hyd y llawr. Pan y cyfyd rhyw ymrafael rhyngddynt, yr hyn sydd yn gwneyd yn fynych, fel yr ymddengys, ni siarada ac nid ymgecra hi nemawr, ond cymer ei dyrnau i benderfynu y pwnc. Pan y tafla air croes, rhuthra tuag ato, a gafaela ynddo gan ymdrechu rhoi tro yn ei safn. Ar un adeg hysbysir ddarfod i ymrafael godi rhwng y ddau yn y gwely, pryd y collodd hithau ei thymher, gafaelodd yn ei war, a thaflodd ef allan trwy ffenestr

Digitized by Google

y siamber. Gwrthdarawodd yn erbyn rhywbeth y tu allan, hyd nes yr oedd yn pistyllio gwaedu fel mochyn.

Ryw foreu yn mhen deuddydd ar ol yr ymddyddan, fel y crybwyllwyd, y mae mintai o grwydriaid, fel y tybir, yn gwneyd eu hymddangosiad wrth yr anedd-dy a ddarluniwyd. Y mae mor hynod foreu—nid yw y wawr wedi tori. Y mae y wraig yn clywed eu swn yn tabyrddu muriau yr anedd-dy, ac yn mhen enyd clywir hwy yn curo, curo, curo, ar y ddor tu allan. Y mae heb gwbl ddeffro, ac nid yw yn gwybod amcan daear pa ochr i haner nos y mae yr amser. Nid ydyw wiw iddi son am dani ei hun a'r coryn. Bob amser o ran eu syrthni, eu cysgadrwydd, eu diymadferthedd, eu tuedd a'u cariad at gwsg, y maent yn cael eu hunain un ochr i haner nos, yr haner brydnawnol, a'r amser yr haner foreuol. Felly y maent y waith hon. Y mae y wraig, fodd bynag, yn deffro, ac yn clywed swn curo. Teimla ei hunan yn gysglyd, ac yn naturiol, fel y gallesid tybio, y mae yn meddwl ei bod yn gynar yn y ddechreunos. Mae yn ymsaethu i'w meddwl mai rhyw fechgyn sydd wedi galw yma i "browla" am y morwynion. Nid ydyw yn caniatau peth felly. Pwnia ei phriod, yr hwn sydd yn cysgu yn dawel wrth. ei hochr. Nid ydyw yn dadhuno mor gyflym ag y dysgwylia iddo wneyd. Ei hamynedd, fel arfer, a ddyhysbydda. Doda hergwd iddo dros yr erchwyn. Pan ar ei balfa ar lawr y siamber, y mae yn deffro, ac yn dechreu gollwng allan ei ymadrodd yn fwy rhydd nag y mae yn caniatau iddo.

"Os nad wyt ti yn dewis hwylio atynt, a gofyn paham y maent yn dyfod yma i gythryblu yr amser yma ar y nos, fe roddaf un hergwd chwanegol i ti allan trwy y ffenestr," llefai yn awdurdodol, gyda llais dreng. Ar ol ymwisgo, y mae yn hwylio i'r cyfeiriad y mae y curo, ac yn gofyn,

"Pwy sydd yna?"

"Dy gar Cynfrig Hir, gyda Chymdeithion eraill. Agor y drws Sandaf, y mae arnom eisieu dy weled ar achos o bwys."

Mae yr holl anedd-dy mewn cynhwrf cyn pen ychydig eiliadau. Y wraig, Catrin, yn gweithio ei ffordd allan o'r gwely, ac yn curo i fyny y morwynion. Tân yn cael ei gyneu, a pharotoadau yn cael eu gwneyd i roi derbyniad croesawgar iddynt. Y maent oll yn cael eu gollwng i mewn i'r ystafell. Ar gefn Cynfrig y mae dyn mewn cadwynau.

"Pa beth ydyw hwna sydd genyt?" gofynai Sandaf.

"Gruffydd ab Cynan, yr hwn y tybiai agos bob un ei fod wedi marw yn naeargell Castell Caer. Dygais ef yma yn ei

Digitized by Google

gadwynau am nad allem eu datod, na'u tori. Gwyddwn na chymerai ond amser byr i ti."

"Dwg ef i'r gweithdy. Bydd i mi ei ryddhau cyn pen ychydig eiliadau."

Hyn a wnaed, ac wele ein harwr wedi ei ryddhau o'i efynau ac yn eistedd o flaen tanllwyth o dân. Lluniaeth maethlawn a osodir o flaen y llu ar y bwrdd. O hono cyfranoga pob un yn helaeth. Y mae yni a gwroldeb cyn dyddiau ei garchariad yn dechreu gwneyd ei ymddangosiad yn y carcharor. Gyda'i ryddhad o'i gadwynau, gyda drylliad y cadwynau, gyda diflaniad y gefynau, diflanodd llyfrdra. Gyda chwilfriwiad yr hualau, y mae llonder ac adnewyddiad ysbryd yn gweithio i mewn, ac yn gwthio allan y gwrageddos a'r syrthni. Nid yw Gruffydd, y carcharor, y cadwynog, y gefynawg, a'r llyffetheiriog, ar gael ddim mwy; ond Gruffydd y tywysog, y rhyfelwr a'r ymladdwr. Y mae rhyw fath o oleuni yn fflachio ar ei feddwl yn nghanol y tywyllwch dudew. Ei lygaid yn lloni ac yn sirioli, ei wedd bruddaidd yn cilio ymaith, a llawenydd a hoenusrwydd yn dawnsio ac yn chwareu o glust i glust. Mae yn sylwi gyda gwên gellweirus ar y wraig, y deyrn-frenines gawresaidd, yn symud ar hyd yr ystafell, gydag un cam y mae yn croesi o'r naill ystafell i'r llall. Pan nad oedd ond efe a Chynfrig a'i gymdeithion yn yr ystafell, sylwai,

"Welais i erioed ddynes mor hir. Y mae hir yn eiddo mwy priodol a chyfreithlawn iddi hi lawer nag i ti. Y mae cyhyd ag un goeden. Greda' i pe buasem yn sefyll un ochr i'r Wyddfa, y buasem yn gweled ei phen, pe buasai yn sefyll wrth ei throed yr ochr arall. Son ddarfod i fedd Walwey Gawr gael ei ddarganfod ar lan y môr yn ngwlad Ros—nai fab chwaer i Arthur Frenin, corff yr hwn, oddiwrth faintioli yr esgyrn, y tybid ei fod yn bedair troedfedd ar ddeg. Y mae yn llawer hwy na hwnw," ebai ein harwr, gan chwerthin yn uchel a chalonog. "Pa un o honoch a ddywedodd ddarfod i ddarganfyddiad o'r fath gael ei wneyd, tra yr oeddwn i yn y carchar, nis gwn, ac nid yw lawer o bwys chwaith."

Gyda hyn y mae Sandef goryn yn dychwelyd i'r ystafell. Y mae yr olygfa yn un chwerthinllyd, a chydag anhawsder eu cedwir dan lywodraeth. Y mae fel baban yn ei hymyl. Nid yw ei ben yn cyraedd yn agos at ei gwasg. Eu danedd a wesgir yn nghyd i atal cawod o chwerthiniad, yr hwn er hyny sydd agos a mynu ffordd i weithio allan ei hun trwy eu hochrau. Ond yn mhen yspaid y mae yn treio ac yn diflanu. Y mae Sandef y coryn yn gofyn,

Digitized by Google

"Pa lwybr, Gruffydd y tywysog, wyt am gymeryd yn y dyfodol?"

"'Rwyf am chwilio am long, os gellir cael un rywfodd, i hwylio yn ol i'r Werddon unwaith yn rhagor, a sicrhau yno lynges—marchogion a phedyd, i ddychwelyd yn ol i roi cad ar faes i adenill treftad fy nhad, priodolder fy hun—ei meddianu a'i thangnefeddu. Fy eiddo cyfreithlawn i ydyw, ac ni pherthyn i neb arall."

"Rhaid i ti ymfoddloni i aros yma am rai dyddiau gyda ni, i adenill dy nerth. Cei ymborth o'r fath oreu i faethu dy gylla—i godi y pantiau yn dy fochau, ac i dy dywychu o'th sawdl i'th goryn. Y mae y Normaniaid yn gwylio yn fanwl bob porthladd ar hyn o bryd. Pe y cychwynid weithian, fe fyddit yn sicr o syrthio i'r fagl."

"Ond," ebai Cynfrig, "pan yr adenilla nerth, pa fodd y geill gael llong a llongwyr cyfarwydd i'w rwyfo ymaith! Af fi, a chaiff y cymdeithion hyn, y rhai ydynt wyr parod a medrus i ryfel, fyned ymaith yn warchodlu iddo, pe dygwyddai i fôrladron fyrddio y llong."

"Y mae llong gadarn yn Abermenai—pysgod-long, heb fod o faintioli mawr, a berthyn i mi a gaiff. Mae y pysgotwyr yn ddifai llongwyr, ac yn alluog i hwylio goelia' i oddiyma i'r Werddon."

Yn mhen dyddiau, ar ol cael ei wala a'i weddill o ymborth maethlawn a rhagorol, y mae gyda'r naw cydymaith detholedig yn teithio yn lladradaidd yn y nos; yn esgyn y llong y soniwyd am dani yn barod. Y mae y gwynt yn uchel a'r môr yn ymgynddeiriogi. Swn y gwynt fel taranau yn gwrthdaraw yn erbyn y bryniau a'r bwrdd diroedd gerllaw—gwynt y gogledd-orllewin. Maent rhwng dau arswyd—rhwng dau enbydrwydd. Arswyd rhag dygwydd i'r gelyn Normanaidd ddyfod ar eu gwarthaf, a chymeryd Gruffydd eilwaith yn garcharor; os dygwydd hyny, bydd trugaredd allan o'r cwestiwn. Mae hwylio allan yn llawn mwy arswydus a pheryglus ar y fath dymhestl; ond gwell gan Gruffydd fil o weithiau drugaredd y tonau a'r rhyferthwy ofnadwy na syrthio eilwaith i ddwylaw y Normaniaid. Y mae deuddeng mlynedd o garchariad wedi dysgu rhywbeth iddo erbyn hyn. Nid yw y rhywbeth hwnw yn peri iddo deimlo y buasai yn well ganddo garchariad arall cyffelyb na chael taith dawel a dystaw i eigion y môr! Yr oedd gobaith y gostegai helynt a chythrwfl y môr, wedi hwylio ar ei wyneb, ond am y gelynion Normanaidd, os unwaith y syrthid i'w crafangau, ofer

Digitized by Google

fyddai dysgwyl tawelwch a thrugaredd. Cyn eu cychwyniad allan o'r porthladd, rhuai a tharanfolltai y corwyntoedd a'r hyrddwynt fel pe buasai miloedd o daranau wedi cyfarfod. Seiniai yn llawer uwch na chadfloedd i ryfel. Mae y corwynt a'r trowynt yn chwyrlio. Rhaid cychwyn—rhaid hwylio, a hyny cyn goleuo o'r dydd, neu hwyrach mai mintai o'r Normaniaid a ddaw ar eu traws i'w cymeryd oll i'r ddalfa.

Maent yn hwylio allan yn gyflym—chwythir hwy gan yr awel—na, nid gan yr awel, nid yw hwnw yn enw priodol, ond gan y trowynt, y cylchwynt—yr hyrddwynt. Nid yw y llongwyr, y rhai y dywedai Sandef eu bod yn fedrus, ac yn gyfarwydd â llwybrau y moroedd, fel y gelwid yr eglan (*channel*) ganddo rhwng culfor y Menai a'r Werddon, yn gallu cael un llywodraeth ar yr hwyl-long fechan yn mha un y maent yn hwylio allan ynddi. Cyn eu bod ychydig ystadau oddiwrth y tir, y mae y trowynt a'r corwyntoedd ffyrnig a chynddeiriog-wyllt yn eu hyrddio. Y mae yn chwythu o bob cyfeiriad, ac yn lluchio y llestr oddiar ei sodlau, hyd nes y mae yr ochr uchaf yn cael ei rhoi yn isaf. Dychryn ac arswyd a greuir yn mhlith yr oll sydd ar ei bwrdd—crochlef ac udlef o ddychryn a ymddryllia allan o enau pob un megis yn anwirfoddol, a chanfydda Gruffydd ei hun a Chynfrig yn ymrolio gyda'u gilydd, yn nhu gwynt ystlysdyllau y llestr, yn wlyb—drochedig wlyb, ac anadliad megis wedi cilio, ac yn syfrdanedig.

Nid ydyw y naill na'r llall yn dysgwyl dim amgenach na fydd iddynt gael eu golchi ymaith i'r dyfnder, yr hyn a fuasai yn fil gwell gan Gruffydd na'i fod wedi aros ar y traeth hyd nes y buasai yr ystorm wedi gostegu cyn cychwyn, yr hyn a olygasai myned yn ysglyfaeth i fachau Huw Flaidd. Mae y llestr bellach wedi ei chwythu a'i chwythu i berfeddion yr eigion. Y tonau yn golchi trosti. Y mae yn pellenu ar wyneb y dyfnder. Hyrddir hi i'r naill gyfeiriad neu y llall fel cragen malwen. Y maent er's amser maith at drugaredd y tonau. Nid ydynt yn deall nac yn gallu dyfalu amcan daear i ba gyfeiriad y maent yn hwylio. Gyda galar y mae y llywiwr yn canfod nad yw yn ufuddhau ddim hwy i'r llyw. Ni waeth iddo ddal y naill ffordd neu y llall, yr un ydyw yr effaith. Ysgubir hi megis trwy ryw gyfaredd na wyddis i ba le. Ymdafla y tonau fel mynyddoedd drosti, ac ar rai adegau ceir hwy o'r golwg am yspaid hirfaith. Y llyw a olchir yn llwyr ymaith, yr hwn nid oedd o un gwasanaeth yn flaenorol, yr hwyliau hefyd a rwygir yn gant o ddarnau, ac a gludir ymaith gyda chynddeiriogrwydd y weilgi, yn debyg

Digitized by Google

i'r modd y cluda y dyfroedd fanus, fel na welwyd hwy byth mwy. Hyrddir hi heibio creigiau uchelfrig ac ysgythrog. Canfyddir y tir yn fynych, a choedwigoedd heb fod yn mhell. Mynyddoedd a ymsaethant fel gwreichion oddiwrth dân i'r olwg, a chyda'r un cyflymder agos ag y collir golwg ar wreichion, collir golwg ar y mynyddoedd. Y maent yn cael eu hysgubo o'r naill ben i'r llall fel graian. Ysponcia tuag i fyny fel defnyn o ddwfr oddiwrth wrthdarawiadau dig y don. Eu llygaid oll ydynt lawn o ddyfroedd, fel nad ydynt yn gallu gweled dim mwy na deillion. Y maent yn hollol ddiymadferth—ddiobaith, er eu bod yn y fath sefyllfa, fel nad ydynt yn teimlo dim mwy oddiwrth enbydrwydd eu sefyllfa na'r llestr, ar fwrdd yr hon y maent yn aros. Mae yn rhyfedd na fuasent wedi eu hysgubo i'r dyfnder er's amser maith. Yn mhen yspaid dyma hi yn gwrthdaraw yn erbyn rhyw sylwedd meddal fel mawndir, ac yn claddu iddo yn gyfangwbl. Nid oes dim o'r gwrthgloddiau allan o hono. Y mae yr hyn a drychwyd ganddi yn y gwrthdarawiad yn cael ei luchio i fyny fel mwg ffwrn, ac yn ysponcio yn gymylau duon i'r entrych hyd nes y mae yn tywyllu yr awyrgylch.

PENOD XXII.

GWLAD ANHYGYRCH—ARFOLLIAD MEIBION COLLWYN YN ARDUDWY.

Mae yn anhawdd gwybod pa un ai byw ai marw ydyw y dwylaw a'r teithwyr. Pe buasai rhywrai yma ar y pryd, ac yn rhuthro i'r fangre i roi llaw o ymwared iddynt o'r cyfyngdra y maent ynddo, fe fuasai yn anhawdd iddynt, ar y cyntaf, et edrych a theimlo y ffurfiau o fodau dynol sydd yn llarpiau fel penwaig ar eu hyd gyhyd ar waelod y llestr, wneyd allan eu bod ddim amgen na chyrff meirw. Y maent yn drochwlyb, ac yn llwyr a hollol ddiymadferth. Nid oes mwy o arwyddion bywyd ynddynt nag sydd yn y llestr, ar waelod pa un y maent yn gorwedd.

Ond ust! ust! y mae arwyddion yn gwneyd eu hymddangosiad bod yr anadl heb ymadael eto. Swn rhwnc a glywir yn y gyddfau. Y maent yn dechreu ymddadebru. Arwyddion bod bywyd eto yn aros. Mae Gruffydd a Chynfrig yn adfywio. Gruffydd ein harwr ydyw y cyntaf i gyfodi ar ei benelin, yna ar

Digitized by Google

ei liniau, a chydag ysponc wele ef ar ei draed; y mae yn sigl-honcian o'r naill ochr i'r llall, fel meddwyn. Er agor ei lygaid —er cymeryd ei ddwylaw i ddarledu ei amrantau—pwyso i lawr y rhai isaf a chodi i fyny y rhai uchaf, nis gall weled llewyrch. Teimla â'i fys, er cael allan i sicrwydd pa un a oedd cigfranod, neu adar ysglyfaethus eraill, wedi eu tynu ymaith ai peidio tra yr oedd yn gorwedd ar lawr fel marw ar waelod y llestr. Pan yn yr astrusi hwn, ac mewn dychryn mawr, y mae yn canfod Cynfrig, ac yn ei adnabod, a Chynfrig yn ei ganfod yntau, ac yn ei adnabod.

"Wel aflwydd, aflwydd," crochlefai,—"yr oeddwn wedi meddwl, Cynfrig, fod cigfranod neu ryw bryfaid wedi tynu fy llygaid. Yr oeddwn, er eu hagor yn llydain,—er cymeryd fy nwylaw i ledu fy amrantau, yn methu gweled llewyrch."

"Yr oeddwn i 'run fath â thi yn union. Yn mha le yr ydym dywed?"

"Yr oedd y tonau yn lluchio y llong, a'r morynod trochion-llyd, cynddeiriogwyllt, yn ei phellenu i gyfeiriad y nefoedd, fel y mae lle i ofni ein bod wedi cael ein taflu i'r lleuad, ac wedi ymblanu ynddi. Aflwydd mawr fyddai hyny. Yn iach, yn iach, os felly, i dreftad fy nhad, fy mhriodolder fy hun!"

"Byddai hyny yn fendith i ni, ac nid yn felldith. Dygai hyny ni o afaelion brad a bradwyr, y rhai oeddynt yn Ngwynedd a Deheubarth, fel morgrug yn eu lluosogrwydd."

"Na, nid felly chwaith. Byddai yn siomedigaeth chwerw i mi beidio cael rhyfela—dial a thalu y pwyth i'r rhai a'm dygasant i'r trybini y dygwyd fi, ac agos i ddinystr. Pa fath le bynag sydd yma, a phe llwyddwn i gael fy ngwneyd yn frenin ar yr holl leuad, pan yn llawn, a phe cyraeddai o gorn i gorn, treftad fy nhad i mi, a phriodolder fy hun a'i pia hi ar ol y cyfan!"

Y maent ar hyn yn dechreu troi i syllu oddeutu, ac yn canfod fod y llestr wedi ei hyrddio i mewn i fachwy—nid hyny yn unig, ond i enau afon. Gweled gwlad o wastattir heb un mynydd yn agos. Y wlad sydd hollol ddyeithr iddynt. Nid oes un o honynt yn gallu dychymygu na dyfalu pa le y maent. Er plymio a phlymio i waelod isaf y meddwl, y maent yn llwyr ac yn hollol anhysbys o allu ffurfio un math o ddirnadaeth pa wlad a all fod, na pha borthladd ydyw y porthladd y pellenwyd y llestr iddo. Y mae yr holl deithwyr a'r morwyr, pe morwyr hefyd, wedi ymddadebru erbyn hyn. Gerllaw gwelid mwg yn ymddyrchafu o anedd-dy. Y maent yn cyfeirio eu hunain tuag yno—yn wlyb fel dyfrgwn, yn dyferu fel defaid newydd ddyfod

Digitized by Google

i fyny o'r olchfa. Ysponciai y dwfr allan o'u hesgidiau, a swn "yslwt, yslot," a glywir. Y mae ein harwr yn mlaenaf gwr, ac yn llawn o wroldeb. Yr anedd-dy a gyraeddir a churir y ddor, a gofynir ar yr un pryd iddo gael ei agor; llais ci a glywir yn cyfarth, a llais hen wraig bob yn ail yn ei ddwrdio i dewi. Buwyd yn meddwl na thawai yr ymddyddau rhwng yr hen wrach a'r ci. Yn fuan y mae ei hamynedd yn pallu, y tafod a'r traed yn cael eu rhoi ar waith, yr hyn a ddygodd y ci i wichian yn uchel a chwynfanus. Llwyddodd i enill y llywodraeth ac i'w gystwyo i ddystawrwydd. Swn ei thraed a glybuir yn cyfeirio ei cherddediad at drafes bach o'r neilldu i'r ddor, yr hon sydd wedi ei llenwi â sypyn o fwsogl, neu garpiau. Tyna ymaith y cyfryw, a gwthia ei phen allan, gan droi ar yr un adeg ei golygon i gyfeiriad y ddor, lle y mae nifer o ddynion yn sefyll, a gofyna mewn llais awdurdodol.

"Pwy sydd yna, a pha beth sydd eisieu—swyn, pa fath swyn?"

"Dyma hi eto," llefai ein harwr, "pa le bynag ydyw y fan yma, y mae yr un fath a rhyw fan arall—rhywbeth arall yn cael ei gymhell a'i gynyg yn lle yr hyn a f'o ar ddyn eisieu. Swyn yn wir! Nac oes eisieu un math. Nid oes un o honom yn sal eisieu gwybod pwy sydd yn debyg o fod yn wraig i'r naill na'r llall. Nid wn am un o honom eisieu rhoi nôd ar ddyn na dynes. Mae genym ni gad-fwyeill, cleddyfau, a buäu, i nodi ein gelynion yn wirioneddol, ac nid mewn ffug trwy swyn un dewin na dewines. Nid ydym wedi colli arian chwaith, ac eisieu cael gwybod pwy sydd wedi eu lladrata. Ai suddas o swynwraig sydd yma yn trigianu?"

"Ie, yr wyf wedi fy awdurdodi gan yr ysbrydion i ddatguddio pob peth—i adrodd ffodion ac anffodion, i fynegu pob peth, i ddwyn i'r goleuni bob peth sydd guddiedig ac anhysbys —i osod melldith yn gystal a'i symud! Nid oes dim nad wyf yn cael fy awdurdodi gan yr ysbrydion i'w gwblhau!"

"Da iawn! ond y mae genyt ystor helaethach lawer nag sydd arnom eisieu. Gallwn gael cymaint ag sydd arnom angen heb swyn na rhaib. Ni raid i ti aflonyddu un o'r ysbrydion wyt yn wasanaethu. Gelli fynegu i ni yr oll, os wyt yn gwybod pa le yr wyt yn trigo, a pha beth ydyw ei enw, heb holi yr un o'r giwed. Gad wybod pa le yr ydym, a pha beth ydyw enw y fangre?"

"Nid wyf fi i ateb, nac yn ateb holion bychain a chyffredin fel yna, ond holion perthynol i remp."

Digitized by Google

"Yr ydym ni," ebai Gruffydd, mewn llais ffrochlyd, "wedi galw gyda thi i ofyn i ti ein hateb yn nghylch pethau a wyddost, ac nid pethau na wyddost. Cadw di dy swyn hyd nes y d'own yma i alw am dano, a gad wybod pa le yr ydym, a pha le ydyw y fan yma, neu ynte fe gneifiaf dy ben ymaith."

Hithau, ar hyn, a gymera ei phen yn ol i'r cabandy, gan wneyd ei ffordd at y drws, yr hwn nid yw nepell, yr hwn a egyr. Maent hwythau yn wlyb ddyferol, yn ymwthio i mewn, lle y mae tanllwyth o dân yn cael ei gyneu—tân ar ganol y llawr, gyda thwll yn nen y bwthyn i'r mwg fyned allan, fel yr oedd yn arferiad lled gyffredin yr adeg hono, ac y bu am rai canrifoedd ar ol hyn. Y maent yn mhen yspaid yn cael allan mai enw yr afon oedd Howni, neu Hodni. Sylwai yr hen swynwraig ei fod yn bwnc o ddadl pa un o'r ddau enw *oedd* yr enw iawn arni. Nid oedd yr ysbrydion, y rhai yr ymgynghorai hi â hwy, yn gallu rhoi boddlonrwydd. Yr oedd yn ddadl yn eu plith hwythau pa un o'r ddau oedd yr iawn enw, ac yn wir yr oeddynt yn synu ambell dro paham nad allai dau enw fod ar yr afon, ac o ganlyniad y naill a'r llall fod yn gywir.

Gelwid y porth yn Borth Howni, neu Hodni. Machwy Ceredigion oedd y Machwy. Deallodd Gruffydd yn fuan eu bod wedi cael eu chwythu yn hollol groes i'r cyfeiriad yr oeddynt i hwylio—i'r Deheubarth yn lle i'r Werddon. Yr oedd wedi colli llwybr y môr o'r blaen, pan yn hwylio y waith olaf y bu ar ymweliad a'r Werddon, ac wedi hwylio trwy niwl agos can dewed â'r dwfr trwy ba un yr holltai y llynges ei mordaith, a glanio yn Mhorth Clais yn lle yn Abermenai. Dyma yr un aflwydd wedi ei gyfarfod eto, ond dan amgylchiadau hollol wahanol. Yr oedd hyn wedi ei gydnabyddu â gwybodaeth ddaearyddol o'r wlad. Yr oedd yn llawn llid a chynddaredd, fel y teimlai bob amser pan wedi cyfarfod ag anffodion, a chyda dirfawr anhawsder y gallai beidio ymddryllio mewn cawodydd o felldithion. Yr oedd yn gweled mai y cam cyntaf oedd y cam goreu i'w gymeryd i ymwthio yn ol.

"Yr ydym," ebai efe wrth Cynfrig yn sarug a dreng, gyda'i aeliau wedi eu gostwng, a surni yn toi ei holl wynebpryd, "wedi cyfarfod ag aflwydd, aflwydd. Mae y tonau, y gwynt, a phob peth fel pe wedi penderfynu *ymelynu* yn ein herbyn. Y mae genym i frwydro, nid yn unig yn erbyn bradwyr o'n cenedl ein hunain, yn erbyn Huw Flaidd a'i lu Normanaidd ac Anglo-Saxonaidd, ond yn erbyn y croeswyntoedd—cynddeiriogrwydd y weilgi a ffyrnigrwydd tonau y môr. Aflwydd ac aflwydd! Y

Digitized by Google

mae yr elfenau yn dechreu troi yn ein herbyn ; a 'does wybod na ddaw y mellt a'r taranau eto i chwanegu at y gosgorddlu ! "

Y mae eu gwisgoedd erbyn hyn wedi eu sychu. Dethola naw cydymaith i naddu llwybr yn ol eto hyd yn Abermenai. Nid oes un o'r gweddill yn gymhwys i ddwyn arfau yn ol ei farn ef. Eiddilod annewr a gwehilion diddim ydynt, yn y rhai nid oes ganddo ddim ymddiried. Digon tebyg y buasent yn gwneyd llawn cymaint o niwaid ag o les. Hyny a wna llyfrgwn yn mhob amgylchiad. Ffalsder ydyw eu hanianawd a'u gogwyddiad. Yn nydd y frwydr nid oes wybod na fydd iddynt ymgilio a chymeryd plaid y gelyn, os bydd i hyny eu dyrchafu i anrhydedd—" boed gam, boed gymhwys." Try y rhai hyn eu cefnau ar gyfneseifiaid o bob rhyw a gradd, a'r cyfeillion anwylaf a werthir am lai nag un saig fwyd. Hyn a wyddai ein harwr trwy brofiad. Y mae am y waith gyntaf wedi dangos ychydig ddoethineb. Nid oedd eto wedi anghofio pa beth a arweiniodd i'w garchariad hirfaith a blin. Y mae ôl gefynau a hualau y carchar ar wahanol ranau o'i adeilwaith. Nid yw yr archollion wedi llwyr wellâu, na'r amrywiol greithiau wedi llwyr ddiflanu, ond y teimlad sydd yn fwyaf clwyfus ac archolledig na'r oll ! Cam dybryd a wnaed ag ef gan ei farwn ei hun. Ei galon dan deimlad archolledig sydd yn gwaedu. Mae yn dethol gwyr pybyr—gwyr y tybiai y geill ymddiried ynddynt i ymladd ei frwydr, ac i'w ddilyn yn yr ymgyrch sydd i'w gyfarfod, a'r afrifed ymladdfeydd gwaedlyd yn ol pob tebyg, y rhaid myned trwyddynt cyn cyraedd pen y daeth.

Anhygyrch a blin ydyw y daith hir o rai ugeiniau o filldiroedd sydd ganddynt i ymlwybro ar hyd-ddi, yn llawn drain, celyn, coedwigoedd, corsydd, siglenydd, glynoedd a glenydd. Ar yr ymdaith ceir amrywiol afonydd y rhaid iddynt eu croesi, feallai heb na chwch nac ysgraff. Nid hyny yn unig, ond y gelynion ydynt luosog, cedyrn a rhyfelgar. Tylwythau neu giwdawd o bobl wedi ymgymysgu—hiliogaethau amrywiol—plant wedi eu geni nad wyr yr un dewin na dewines pwy ydyw eu tadau, y rhai a anwyd tu allan i briodas. Maent erbyn hyn wedi tyfu i fyny yn bobl. Hwynthwy ydynt drigolion y wlad. Dyeithriaid a ddygwydd dalu ymweliad a'u rhandir a dorir i lawr gyda llawn llai o deimlad ag a fynwesir pan yn dinystrio bwystfilod rheibus y maes. Gwneir hyn, nid am y mynwesir unrhyw elyniaeth genedlaethol tuag atynt, ond eu bod yn estroniaid ; y rhai, os bydd iddynt ymsefydlu yn eu plith, a fyddant yn sicr o gyfyngu arnynt a tholli ar eu lluniaeth.

Digitized by Google

Arswyda a chryna pob un pan gyfyd yr ymsyniad i'w feddwl y fath beryglon—y fath ryferthwy o ddinystr y bydd iddynt eu cyfarfod a rhuthro trwyddynt, neu yn ol pob tebyg, fethu.

Cyn eu bod wedi myned nepell, y mae gwrthdarawiad yn cymeryd lle rhyngddynt â chiwdawd y wlad. Saeth yn cael ei gollwng gan y naill a'r llall, a sudda saeth i fynwes un o'r naw fel y syrthiodd i lawr yn farw. Gyda'r dewrder a'r ffyrnigrwydd mwyaf y saethau a gyfnewidir. Cilia y gelyn yn ol ar ffrwst, ond try yn ol ac ail ymosoda. Yn ol eto y gorfodir ef i encilio a ffoi, yr hwn a ddilynir ac a erlynir gyda'r ffyrnigrwydd mwyaf. Y drydedd waith try yn ol, o'r tu ol i dwmpathau a llwyni, gollyngir cawod o saethau, ond yn hollol ar antur, y rhai ydynt yn chwiban yn yr awel mor bell o gyraedd y nôd a phe buasent wedi eu gollwng oddiar fwäu y deillion. Gwyr detholedig ein harwr nid ydynt yn cyfnewid saethau â hwynt ar antur. Nôd penodol y cyfeirir ato, a'r nôd hwnw y saeth a sudda iddo. Cwympa y gelyn yn mhob ymgyrch, y rhai ydynt mor ddiystyr yn eu golwg oll fel nad yw, nid yn unig yn werth son eu bod wedi eu lladd, ond sylwi eu bod wedi marw, mwy na phe baent wybed bach. Y drydedd waith, yn nghanol gorfoledd yr wyth, y maent yn gorfod ffoi am eu heinioes. Nid yw'n harwr, yn unol a'i arferiad, ei ddefod ddiwyro—neu yr hyn a eilw ei gydoeswyr, ei olynwyr, y rhai a fuont yn cydryfela ag ef, a'r rhai oll oeddynt yn ei adnabod yn dda—cyfeillion a gelynion—" ei gnotäedig ddefawt," yn foddlawn i adael iddynt ffoi.

" Ffoi yn wir wedi colli y frwydr ! Ffoi, o ffei lyfrgwn, wedi colli y dydd ! Gelynion ydynt eto, a gelynion sydd yn debyg o'n cyfarfod ar faes y gad. Pe buasai anrhydedd yn perthyn iddynt fe fuasent yn rhoi eu hunain i fyny, ac yn cydnabod eu bod yn cynal i fyny freichiau yspeilwyr treisiog, ac ar eu dau lin yn gofyn am gael eu derbyn i fod yn ddeiliaid ufudd i'm helpu i adenill fy nhreftad—priodolder fy hun. Na, gelynion ydynt y mae yn llawn rheitiach eu lladd pan yn ffoi na'u lladd pan yn ymladd. Encilio y maent i chwilio am adgyfnerthion i'm cyfarfod eto mewn brwydr. Gadewch eu herlyn trwy y glynoedd a'r holl ddiffaeth leoedd a lladd pob un a allwn. Gelyniaeth a welaf fi mewn gelyn pan a'i wyneb neu ei gefn ataf. Yr unig olwg wyf yn chwenych weled arno ydyw yn gorwedd ar lawr, gyda'i ben wedi ei dori ymaith. Fedraf fi ddim bod ryw haner o'r naill neu haner o'r llall, fel na waeth gen' i ar ddaear pa ochr i droi ac i fyned. Cyfaill o'r fath oreu neu elyn o'r fath waethaf raid i mi gael bod."

Digitized by Google

Yr oedd yr encil a'r ffo yn chwyrn; yr erlyniad yn llawn mwy ffyrnig a beiddgar. Gollyngid saethau yn gawodydd, y rhai a suddent yn fynych i gefnau y gwyr ffo, y rhai a gwympent fel brwyn i ganol y drain a'r dyrysni yn farw, o'r rhai ni chymerir mwy o sylw na phe baent yn geiliogod rhedyn. I'w olwg ef, yr oeddynt yn llawn llai dibwys, yn gymaint a'u bod yn cwympo ar ol eu cosi, yn lle neidio, fel y gwnai y cyfryw, yn mhob amgylchiad. Pan yn erlyn fel hyn canfyddai ar y blaen wr o urddas, o dras, ac o wehelyth uchelwr. Galwai sylw ei wyth gydymaith ato, a llefai,

"Gadewch i mi fy hun ei ladd, yr unig un y bydd yn werth i mi grybwyll ar ol yr ymgiprys a'r ymryson plantosaidd hwn, ei fod wedi ei ladd."

Gyda bod yr ymadrodd wedi dyferu oddiar ei wefusau, llama yn mlaen gyda'i gleddyf a'i gadfwyell yn chwyfio oddeutu ei ben—un yn mhob llaw, cura y naill yn erbyn y llall—cledr yn erbyn cledr, hyd nes y mae adsain yn ergydio yn ol o'r llwyn coed gerllaw. Cludir ef megis gan ryw asbri a nwyfiant o'r byd ysbrydol. Neidia y twmpathau, a sua y byrgyll, y manwydd, a'r drain oddiwrth y cyffyrddiad a wna â hwynt â'i draed. Dacw ef yn enill tir ac yn dynesu tuag ato, ac yn rhoi dyrnod iddo a'i gadfwyell ar ei goryn, gyda'r fath nerth fel y mae ei benglog yn hollti yn ddau—un haner yn syrthio i gyfeiriad yr ysgwydd dde, a'r llall i gyfeiriad y chwith, fel dau wadn esgid bren. Tuchaniad, swn, na gwaedd ni ddaw allan, ac nid eill ddyfod allan. Pistylltia y gwaed i'r awyr, fel pe buasai fôrbistyll; ei ddwy fraich a welir yn rhwyfo ac yn chwyfio yn yr awyr fel dwy aden olwyn wynt, ac yntau ar amrantiad yn cwympo i lawr i beidio codi mwy. Tyrfa y ddaear ac adsain a ddychwel yn ol o gongl y llwyn oddiwrth y cwymp. Dywed yr hen groniclau am dano mai "uchelwr oedd ac un o'r gweision boneddicaf a hanoedd o'r cywaeth hwnw."

Dyma hwy bellach wedi cefnu—y gadgyrch wedi terfynu yn fuddugoliaethus iddynt—y gelynion, rhai wedi eu lladd a'r lleill oll wedi ffoi a chwalu megis i bedwar gwynt y nefoedd—i ddychwelyd byth mwy.

"Yr ydym," ebai Gruffydd, "wedi ymladd tair brwydr, ac enill bob tro, ond nis gwn ar y ddaear i ba gyfeiriad y byddai goreu i ni ymlwybro. Y mae y Normaniaid, eu cestyll, eu gwarchodfeydd a'u maglau o bob natur yn llenwi yr holl wlad, ac anturiaeth dywyll ydyw yr ymgais i gyraedd haner y ffordd oddiyma i Abermenai. Nid oes dim ond symud yn lladradaidd

Digitized by Google

o dwmpath i dwmpath ac o gilfach i gilfach. Y mae y wlad yn llawn o elynion, ac nis gŵyr un dewin pa fynyd y bydd haid o honynt, fel cacwn cwn yn eu rhif, ac fel bleiddiaid a llewod yn eu creulondeb a'u rhuthrgyrch ddinystriol yn gwasgar hafog. Yr ydym yn sefyll mewn perygl o gael ein malu hyd nes na bydd temig brasach o honom yn aros na brawn pysgod."

"Nid yw yn llawn mor berygl ag yr wyt yn dyweyd, ond ymlwybro dan gêl cyfliw gwr llwyn, ymsymud yn ddirgelaidd ac yn ddystaw, amgylchu y lleoedd peryglus—ymgadw can belled ag y gellir o beryglon."

Y maent yn ymlwybro ar antur o ogof i ogof, ac o lwyn i lwyn, mewn dygn ofnau am eu bywyd, pryd yn ddamweiniol y daethant, yn nghongl cantref Ardudwy, i gyffyrddiad a phedwar o lanciau rhadlawn a charedig o ymddangosiad. Craffai y naill fintai ar y llall, a gallai un dybio bod rhywbeth yn edrychiad llygaid y ddwy fintai, fel y gallasai un gasglu eu bod yn adnabod eu gilydd; ond eto nid allai y naill mwy na'r llall wneyd allan yr adnabyddiaeth, yn well na'u bod wedi cyfarfod â'u gilydd yn flaenorol ryw dro, ond yn mha le, a phwy oeddynt yn fanwl, yr oedd penderfynu allan o'r cwestiwn. Er chwilio yn fanwl bob ystafell yn y penglog, galw i'w cof, crafu ychydig ar ochr y pen, fel pe buasai hyny yn eu cynorthwyo, a holi eu hunain.

"Rhoswch ch'i, lle gwelsom ni ch'i, y mae eich gwynebau yn dwyn arnynt ddelw cydnabyddion. Pwy allech chwi fod, tybed?"

"Yr ydym ninau yn credu ein bod wedi eich cyfarfod yn rh'wle."

"Meibion Collwyn ydym ni."

"Meibion Collwyn, Collwyn," llefai pob un fel pe buasai saethau yn llawn o wenwyn wedi suddo i'w calonau. "'Dyw yr enw ddim wedi diflanu o'n cof, na'r dygwyddiadau anghysurus wedi eu dileu oddiar ein meddyliau, o'r hyn lleiaf oddiar fy meddwl i," ebai Cynfrig. "Pa beth a'ch dygodd chwi hyd yma? Onid yn Mon y trigai eich tad a'ch gwehelyth fach a mawr?"

"Y cythrwfl fu yn y wlad ar ol tafliad Gruffydd ab Cynan trwy frad i ddaeargell Castell Caer a'n hymlidiodd ac a'n halltuddiodd hyd yma. Collodd ein tad ei fywyd, ac yspeiliwyd ninau o'n cywaeth. Buom yn hir yn grwydriaid, yn symud ac yn llechu o ogof i ogof, ac o lwyn i lwyn. Clywsom fod Gruffydd Frenin wedi marw yn y Castell. A phwy ydych chwi?—nis gall un o honom ein pedwar eich pysgota allan fel i sicrhau pwy o filoedd o'n cydnabyddion a allech fod."

Digitized by Google

"Pa beth yw eich enwau?" gofynai Cynfrig.

"Egnir, Gellan, Merwydd, ac Ednyfed. Dyeithriaid yn y rhan yma o'r wlad ydych chwi debyg."

"Dyma Gruffydd Frenin, y dywedwch chwi ei fod wedi marw yn Nghastell Caer, a minau ydyw Cynfrig Hir."

PENOD XXIII.

O LWYN I OGOF—HWYLIO HEB FYN'D I UNLLE—MALU YSGRAFF Y CANONWYR.

Aeth yr hysbysiad yn bicellau i'w calonau, ac ymddangosai eu gwefusau oll wedi eu cloi i fyny. Teimlai pob un fel pe buasai ei galon wedi hollti yn ddwy. Siglai eu haelodau a chrynai eu cyrff fel pe buasai llecheden o'r cryd wedi eu meddianu. Y maent mewn sefyllfa hollol ddiymadferth. Yr oedd helyntion blin ein harwr, y benbleth, yr adfyd, a'r croesau chwerwon yr arweiniwyd ef trwyddynt, fel yr adroddwyd y cyfryw iddynt, wedi eu llethu i'r llawr. Yn mhen yspaid canfyddir arwyddion o ymddadebriad. Eu gwynebpryd a wisga ddwfn dosturi, ac arwyddion eu bod yn llawn awydd i wneyd i fyny am, ac i unioni y camwri a wnaed ag ef gan eu tad Collwyn. Eu llygaid a dania ac a fflachia o gydymdeimlad, ac o awydd bod yn foddion i wneyd ag ef a'r fintai weithred o dosturi a thrugaredd.

Pan wnaed yn hysbys i ba le yr oeddynt yn cyfeirio eu cerddediad, hysbyswyd nad oedd yn ddyogel iddynt fyned ar eu taith, a datgenid nad oedd y gobaith lleiaf iddynt gyraedd Abermenai, gan fod y wlad yn llawn o Normaniaid arfog; yr amddiffynfeydd a'r gwyliadwriaethau yn llawn amlach yn eu rhifedi na thocynau morgrug. Heblaw hyny, yr oedd gwylliaid ac yspeilwyr yn cynllwyn ar bob llaw, y rhai y byddai iddynt ond odid gymeryd eu bywydau ymaith.

"Nid oes dim a ellwch wneyd yn well nag ymneillduo i rai o'r ogofau, yn y rhai y bydd i ni eich diwallu â lluniaeth; od ydyw eich bywydau o werth i chwi, rhaid i chwi ymlochesu ynddynt am rai misoedd. Y mae y Normaniaid allan yn hela einioes pob un y tueddir hwy i feddwl nad ydynt o'u rhengoedd."

I hyn yr ymfoddlonwyd, a hyn a wnaed i'r llythyren. Diwallwyd hwy oll â'r ymborth mwyaf maethlawn a blasus, fel yr ymbesgasant i gyd, hyd nes yr oeddynt wedi ymdewychu

Digitized by Google

yn y fath fodd fel nad oedd eu gwisgoedd yn ddigon o faintioli. Holltai eu hugenau a'u llodrau yn ddellt o'u deutu. Bu raid rhoi lleinyn i'w chwanegu.

Nid yw y naill na'r llall yn foddlawn o'u bywyd mewn ogof. Nid ydynt o dueddfryd nac o anianawd feudwyaidd. Ni fuasai waeth gan ein harwr a'r lleill fod mewn gefynau a llyffetheiriau yn Nghastell Caer. Nid yw yn teimlo yn foddlawn chwaith i deithio trwy y wlad heb greu hafog a dinystr, a rhoi celaneddau rhai o'i elynion yn fwyd i gwn a chathod. Un boreu yr oedd yn gynddeiriog o gynddaredd, ac yn llawn clefyd o fawd ei droed i ben ei goryn, ac nid oedd Cynfrig chwaith un haden yn well. Y maent yn galw sylw meibion Collwyn, fod aros yn yr ogofau yn fwy nag allent oddef. Yn eu hymgyrch, fel yn eu porthiant, yr oedd y llanciau am ddangos eu bod yn llawn awydd ac yn barod i wneyd a allont i'w hyrwyddo i lwyddiant. Wyth ugeinwyr parod i ryfel a gyflwynwyd i'w gwasanaeth, cynifer a allent gasglu. Yr oedd y llu hwn yn wyr pybyr, ac yn hollol gydnabyddus â gwahanol ranau Gwynedd, yn alluog i arwain Gruffydd a Chynfrig fel i ledaenu dinystr a hafog yn mhob cyfeiriad.

Yr oedd y ddau yn hwyliog ac uchel eu meddwl. Da y gwyddent yn awr yn mha le ac ar ba adeg i ymosod ar fanau gweiniaid llu gorthrymus Huw Flaidd, awdurdod a llywodraeth yr hwn ni chydnabyddid ac ni pherchid yn un lle yn y wlad. Trwy rym arfau ac yn nerth ei gestyll yr oedd yn gallu cadw pen a pherchen. Y rhai hyn a wyddent am y safleoedd y ceid y rhai oeddynt yn gruddfan dan ei iau haiarnaidd, ac yn barod i godi gwrthryfel y cyfle cyntaf y deuai rhywun i'w harwain ac i lefain, "Dewch allan." Symudid o fan i fan yn eigion y nos, a cheid ei wyr ei hun a'i ddeiliaid, y rhai yr oeddid wedi eu gosod i gadw gwyliadwriaeth, yn troi ar eu sodlau ac yn ymuno â llu ein harwr i wasgar hafog, na welwyd ac na chlybuwyd erioed son am ei gyffelyb. Ydlanau, cadleisiau, preswylfeydd a oddeithid, fel dail crin y goedwig ar adeg dês a phoeth ddechreu haf. Mân amddiffynfeydd a osodid yn gydwastad â'r llawr. Hyny a wneid, nid trwy foddion yr wyth ugeinwyr, ond trwy ddeheurwydd ein harwr yn gallu llwyddo i ddarbwyllo rhai o'r wyth ugeinwyr, y rhai oeddynt yn hen gydnabyddion ac yn gynefin, nid yn unig â gwahanol ranau y wlad, ond hefyd â'r rhai oeddynt yn dal y safleoedd mwyaf pwysig—"gwahanredolaf weision y cestyll," i'w cael i godi gwrthryfel, ac i fradlunio cynlluniau i ddwyn y rhai oeddynt yn troi yn eu plith i ddinystr a

Digitized by Google

hafog gyffredinol. Y rhai hyn a geid i ymladd yn ddewrach ac yn llawer mwy pybyr o'u plaid na neb o blith yr wyth ugeinwyr. Yr oedd hyn wedi codi calon ein harwr i bwynt fel y tybiai na fyddai angen iddo fyned i unlle tuallan i derfynau Cymru i godi byddin, nac i gael neb i ymladd o'i blaid.

"Wyddost ti be', Cynfrig," ebai efe un boreu, "y mae yn amlwg i bob un nad oes neb o blith y llu yn hoffi nac yn caru i bethau sefyll dan lywodraeth Huw Flaidd; y maent yn caru ei lywodraeth agos yn gwbl yr un fath ag yr oeddwn ninau yn caru ei efynau a'i hualau pan yn ngharchar Caer. Nid gwaith anhawdd fyddai i ni lwyddo i ddiwreiddio y Normaniaid wreiddyn a changhen o'r tir. Yr ydym yn llwyddo yn dda i ledaenu dinystr cyffredinol yn eu mysg."

"Nid ydym eto allan o'r coed. Y mae yn llawer rhy fuan i ni floeddio. Yr wyt o hyd yn rhy dueddol i orfoleddu cyn enill y gamp, ac o farnu cyn gweled y diwedd," ebai Cynfrig.

"Dyna fel yr wyt ti yn siarad o hyd. Y mae rhywbeth yn peri i mi feddwl fod dy gydymdeimlad yn rhedeg o blaid y gelyn, ac yn fy erbyn i."

"Mae yr hyn a wnaethym i â thi yn bwrw i lawr y syniad yna yn bendramwnwgl."

Y mae y taeru yn terfynu yma. Y mae dywediad olaf Cynfrig yn rhoi terfyn bythol ar yr ymddyddan. Nid yw ac ni fu Cynfrig o anianawd y buasai fyth yn ochri yn y mesur lleiaf yn erbyn i'n harwr gael esgyn llywodraeth Gwynedd. Nid oedd dim yn corddi yn meddwl nac yn peri poen ac alaeth fwy i Gruffydd na dwyn yn ei fynwes y syniad mai eiddo cyfreithlawn iddo ef oedd treftad ei dad, ac mai treiswyr oedd yn ei phreswyliaw. Yr oedd yn hynod ofergoelus ac uchelfrydig ar adegau,—yn coleddu yn ei fynwes nad allai ac na ddylai neb ymladd ond o'i blaid ef, a chredai y deuai yr adeg pryd y byddai i hyn gael ei ddwyn oddiamgylch. Yr oedd ei benglog ar hyn o bryd yn llawn o fwganod uchelfrydig. Ond y mae cyfnewidiad buan yn cymeryd lle. Y newydd a gludir gan fradwyr, y rhai ydynt eto heb ddarfod, ac nid yw yn debyg y bydd iddynt ddarfod ar derfyn amser,—yr hysbysrwydd a gludir fel y mynegir uchod i'r prif amddiffynfeydd, i fwrdeisiaid cestyll Criccieth a Harlech, ac i geidwaid anddiffynfeydd eraill o gyffelyb gadernid, yn nghylch y galanasdra a'r dinystr cyffredinol a achosir gan fintai yspeilgar Gruffydd. Y mae yr hanes yn cael ei fwyhau neu ei leihau fel y byddo hyny yn ateb y

Digitized by Google

dyben oreu i enyn llid a chynddaredd y Normaniaid—"giachod y cestyll," fel y galwai Gruffydd hwy.

"Os na fydd i chwi ddyfod allan ar unwaith," ebai un o'r cyfryw, "bydd Gruffydd, yr hwn a ddiangodd o Gastell Caer, wedi andwyo y wlad o ben-bwy-gilydd. Gwnaeth Huw Flaidd ar fai yn lle tori ei ben pan y syrthiodd i'w ddwylaw trwy garedigrwydd Meiriawn Goch. Os byth y daw i law eto rhaid ei wneyd yn llai o hyd o ben a gwddf. Y mae yn afreoli, yn terfysgu, yn lladd, ac yn ysglyfaethu. Tanau a osodir i oddeithio pob congl a chilfach. Nid oes dim llosgadwy yn cael ei adael heb ei losgi, na dim a bywyd yn cael ei adael mewn meddiant o'r cyfryw, trwy y rhanau hyny o'r wlad lle y mae ef a'i fintai yn ymdaith. O'i flaen y mae llwyni siriol, coedwigoedd talgryf, gwyrddlesni, anifeiliaid a defaid o bob math, ac adar dofion; ond o'i ol dim byd ond tomen o ludw."

Os llosgwyd pob peth llosgadwy gan Gruffydd a'i wyr yn y rhyfelgyrch, yr oedd calonau y bwrdeisiaid a'r holl lu Normanaidd yn y cestyll yn enyn yn llawn mwy o lid a dialedd yn eu herbyn ar dderbyniad y newydd. Gwelid hwy agos a ffrwydro o gynddaredd, yn malu poer ac yn cnoi carnau eu cadfwyeill. Ysglodyn ar ol ysglodyn a gnoid ymaith. Cludir hwy gan ffyrnigrwydd eu hysbryd, megis yn ddiarwybod iddynt eu hunain, yn mhell tu allan i derfynau yr amddiffynfeydd, i'r cyfeiriad lle y dywedir eu bod yn dinystrio ac yn diffeithio y wlad. Yr hynt a osodir yn erbyn llu Gruffydd, ac yn angerdd chwerwder bustlaidd eu heneidiau ceir hwy yn cydymuno, â'r rhai hefyd yr ymunodd ciwdawd y wlad hono i'w erbyn, ei ymlid "yn nghoed ac yn maes, fel gelltgwn neu gallgwn yn hela carw blin, neu gynddeiriogwyllt." Eu danedd a ysgyrnygir yn nghyd. Ciwdawd y wlad nen y tylwythau, y rhai a lefent ychydig fynydau yn ol, "Gruffydd i ni; henffych Gruffydd, Gruffydd Dywysog yn ben a pherchen," a glywir yn bytheirio allan, "I lawr, i lawr, i lawr yn dipiau yfflon, fel wyau morgrug, yr elo Gruffydd." Yntau a ganfydda yr awyr yn tywyllu, ei obeithion ef a'i fintai ryfelgar wedi cilio fel cysgod. Gwel yn eglur nas gall ddal ddim yn hwy. Am y cyntaf y maent yn cymeryd y goes trwy y llwyni, y drain, a'r dyrysgoed. Eu dillad a rwygir yn gant o ddarnau. Ei gymdeithion ac yntau yn eu brys a chwelir rhai i'r cyfeiriad yma a'r lleill i'r cyfeiriad arall, fel y gwelir corwynt a throwynt yn chwalu manus. Y mae yn cael ei adael ei hunan. Nid wyr yn mha le y mae cynifer ag un o honynt. Cynfrig Hir, y cyfaill anwylaf, nis

Digitized by Google

gŵyr pa le y mae yntau! Ffoa wrtho ei hun ac ar ei ben ei hun, a'r gelyn yn bytheirio tu ol, yn dyheu am ei einioes. Llama fel hydd nad ŵyr i ba le. Dyma ef yn wysg ei drwyn yn cyraedd glan y môr. Gwela ysgraff, a gofyna i wr mewn gwisg fynachaidd, gyda'i anadl yn pwffio a'i hoedl ar golli gan galedi a ffyrnigrwydd y llamau,

"Pa beth, pwy bia, a pha beth ydyw yr ysgraff yma dda?"

"Ysgraff y Canonwyr ydyw: gyda hon yr ydym yn hela ysgod a phenwaig."

"Y mae arnaf eisieu i chwi fy rhwyfo ymaith ar wyneb y nder oddiyma i'r Werddon ynddi. Pa le ydyw y fan yma?"

"Nid allwn dy rwyfo. Nid ydym yn deall morwriaeth i'r fath ithrwydd fel y gallwn dy rwyfo i'r Werddon. Canonwyr ni, gwyr o urddas a gweddi, ac nid llongwyr. Aberdaron w y lle."

Y ma ugain neu ychwaneg o honynt yn codi eu golygon i brygawthan gweddio yn Lladin, ac yn cydymuno i nes y mae eu hadlais a'u hudlef fel twrf myrdd o bysedd cochion.

"Dim o'r fath beth," llefai Gruffydd yn gryf ac yn groch; "nid fel yna mae hwylio ysgraff. Gafaelwch yn y rhwyfau a yliau i fyny. Ni hwylia ac ni hwyliodd paderu llong erioed."

Y mae y Canonwyr yn ufuddhau i'r gorchymyn i'r llythyren. Nid ŵyr cynifer ag un o honynt yn mha gyfeiriad y gorwedda y Werddon. Nid ydynt yn gwybod y pwynt, nac yn deall wrth y ser yn y nos na'r hau y dydd pa fodd i hwylio i'r fan y maent yn bwriadu hwylio. Mynych y mae yr hwyliau yn cael eu camgyfleu, a'r llyw yn cael ei ddal i gyfeirio yr ysgraff nad ŵyr na dyn nac ysbryd i ba le y maent yn ei chyfeirio. Y mae ein harwr, er ei fod yn deall morwriaeth yn dda, wedi ymgolli mewn pryder a synfyfyrdod, fel nad yw yn alluog i wneyd sylw, ond llefain,—llef megis yn dyfod allan yn anwirfoddol,—llef fel llef mewn breuddwyd neu weledigaeth:

"Rhwyfwch, rhwyfwch, rhwyfwch, O rhwyfwch i'r Werddon!"

Y maent yn rhwyfo am fis o ddyddiau, ac wele, yn eu tyb hwy, dir y Werddon yn y golwg ond wfft i fongleriaid, y mae un o'r Canonwyr yn llefain:

"Dyma ni wedi dychwelyd yn ol i'r un lle. Dacw aber yr un afon."

"Wel aflwydd, aflwydd, ac aflwydd," llefai Gruffydd, "dyma be' ydyw hen baderwyr,—y bobl sydd yn dysgu y ffordd ac yn

Digitized by Google

hwylio pobl i'r nefoedd. Digon tebyg mai palfalu y maent yn y forwriaeth hôno fel yn y forwriaeth hon. Ië, wedi hwylio am fis i ddim ond i ddychwelyd yn ol! Wel, melldith ar bader a phaderwyr. Dyma be' ydyw codi golygon i fyny a phaderu, a dyma be' ydyw hwylio ysgraff gyda phader!"

Y mae yn colli ei amynedd, yn gafaelyd yn nghoes ei gadfwyell, yn ei throi oddeutu ei benglog, fel pe wedi llwyr wallgofi, ac yn taraw y gongl yma a'r gongl arall i'r ysgraff, fel y mae yn naddu ymaith ranau o honi i'r dyfnder.

"Y mae arnaf flys," llefai gydag ewyn yn dylifo allan yn didau o'i enau, "a'i naddu yn ysglodion oll o dan ein traed, ac hwyrach y gallai pethau fel y chwi wneyd eich ffordd i'r gwaelod, er mor ddiamcan ydych; ac yn y gwaelod y dylech chwi fod bob copa walltog."

Tra yr ymsonai fel hyn parhai i chwyrlïo a chwyrnellu y gadfwyell o'r naill bwynt i'r llall. Lluchia ysglodion i fyny oddiwrth y dyrnodiau, y rhai a chwyrnellent heibio penau y Canonwyr; ac ar rai amgylchiadau hyrddiai rhai yn erbyn eu penglogau gan roi clipan drom iddynt.

"Paid, paid, atal dy law," llefai un o'r Canonwyr, "yr wyt yn malu ysgraff hela pysgod fendigaid Canonwyr Aberdaron. Fe dyni wg a barn y nef ar dy ben."

"Malu ysgraff fendigaid y Canonwyr yn wir! Ysgraff felldigaid y Cynrhonwyr dywed! Ni welais i ddim byd erioed fwy eisieu ei malu. 'Dellir myn'd i unlle lle bydd eisieu. Pendrymiaid yn hwylio ac yn hwylio am fis o ddyddiau i ddim ond i droi ac i drosi, ac i fod yn yr un fan ag ar y cychwyn!"

"A fyddai well i ni," ebai un o'r Canonwyr, "wneyd ymgais chwanegol i'th forio trosodd?"

"Na byth, un hyd rhwyf. Medraf aros yn yr un fan heb Gynrhonwyr. Chewch chwi dwyllo neb eto," llefai, tra y cymynai ac yr holltai yr hen ysgraff yn ddellt o ysglodion. "Byddaf wedi ei malu yn ydwellt cyn pen ychydig, a byddai rheitiach lawer naddu eich penau oddiar eich cyrff."

"Yr ydym yn sicr o allu dy hwylio y tro hwn. Y mae un o'r newydd wedi ei chwanegu, yr hwn sydd yn llongwr, ac yn gallu hwylio wrth gyfarwyddyd yr haul a'r ser."

"Na, na, pe baech yn cael *Ficingiaid* o blith y Gogleddwyr i'm hwylio trosodd hyd yno, nid awn ddim. Y mae cael ei wneyd yn ffwl unwaith yn llawn ddigon. Mi wnaf fi hon o well gwasanaeth. Fe wna goed tân rhagorol."

Digitized by Google

Cymynai yn fân ac yn fuan. Chwyrnellai temigau yn erbyn gwynebau a gwahanol ranau o'u cyrff.

Bu fel hyn yn hir, yn cymynu ac yn malu yr hen ysgraff yn ei gynddaredd. Tybiwyd y buasai yn malu pob astell o honi ysgyrion, fel na fuasai yn aros na gwaelod nac ochrau, ond ysglodion ac ysgyrion. Tra yn bwyellio yr ysgraff gyda'i gadfwyell ddau-finiog, yr oedd alaeth a loesion yn myned i galonau y Canonwyr, y rhai a ystyrient hyn yn weithred bechadurus. Gweddient a phaderent mewn tôn hirllais, ac ar eu penliniau "gweddiaw a orugant" arno beidio dryllio a malu eu cwch bendigaid i bysgota a phenweiga.

PENOD XXIV.

GRUFFYDD YN NGWISG A THAN RITH GWERTHWR PENWAIG, YN LLWYDDO I GREU PLAID, AC I ARLOESI Y NORMANIAID O'R TIR.

TERFYNODD pob cysylltiaid rhwng ein harwr â'r Canonwyr. Ni thalodd unrhyw sylw i'w cwynion, na'u paderau. Gadawodd hwy a'u hysgraff fendigaid, yr hon a gysegrwyd i bysgota ac i benweiga, yn aber afon Aberdaron, yr hon fel yr ymddangosai iddo ef, oedd yn cael ei hattynu yn ol megis gan ryw dŷn-faen. Nid oedd waeth i ba le yr amcenid nac y bwriedid rhwyfo—yn ol y dychwelai. Ni bu cymdeithion erioed yn hoffach o derfynu â'u gilydd, ac o droi cefn. Gyda llawenydd y canai ein harwr yn iach iddynt, a llawer uwch a mwy cyflawn a fuasai ei orfoledd pe y buasai yn cael cerdded ymaith, wedi ei malu yn deilchion ar y traeth, a'i llosgi yn lludw, fel na fuasai y tebygrwydd lleiaf y gallesid ysgraff o honi mwy i beri siomedigaeth iddo ef na neb arall.

Ar hyn yr ydym yn colli golwg arno, ac yn ei gael yn nesaf wedi cyraedd y Werddon. Pa sut a pha fodd sydd yn gorwedd mewn tywyllwch. Teithiodd o le i le yn yr Ynys i erfyn byddin a llynges i hwylio drosodd i "adenill treftad ei dad a'i briodolder ei hun," lle yr oedd "treiswyr yn ei phreswyliaw," ond yr oedd hon yn hen chwedl erbyn hyn, ac wedi myned fel hen erfyn wedi rhydu. Nid oedd mîn arni, ac ni chaffai neb i "druanu wrthaw." Chwarddai pob brenin. Yr oedd wedi eu llwyr siomi yn eu disgwyliadau. Llynges o rai ugeiniau o longau oedd wedi gael droion gyda'r rhai y sicrhai y byddai iddo

Digitized by Google

oresgyn Gwynedd, enill yr orsedd, ei meddu a'i thangnefeddu. Hyn ni wnaeth. Dyma ef eto wedi dychwelyd yn ol, mor anhebyg i dywysog ag y gallai dyn fod, heb yn agos ddigon o ddillad am dano i guddio ei noethni, yn llawn o greithiau. I'w golwg hwy, y mae yn llawer tebycach i grwydriad a chardotyn nag i frenin; ac yn wir crwydriad a chardotyn ydyw. Ei gefnogwyr a'i gyfeillion oll ar goll—wedi ffoi i rywle na wyddai ef na neb arall i ba le.

"Mae genyt wyneb digywilydd," ebai Diermit Frenin, pan o'i flaen yn erfyn am ail lynges, a byddin i fyned drosodd i Wynedd i "adenill treftad ei dad." "Y mae genyt wyneb digywilydd yn dyfod yma i gardota byddin ataf fi. Fy llynges freninawl a gefaist yn flaenorol, a phigion o'm holl fyddinoedd, cynifer ag un o'r rhai hyny ni ddaeth yn ol i fynegu beth ddaeth o honot ti na hwythau. Onid oeddit ti yn dweyd yr adeg hono y buasit ti yn llwyddo i enill treftad dy dad, a gosod dy hun yn dywysog, y buasit yn siwr o feddu a thangnefeddu dy briodolder dy hun. Hyny ni wnaethost—ni wiw i ti son. Y llynges a'r fyddin freninawl nid ŵyr neb pa beth a ddaeth o honynt. Tydi yn unig a ddiangodd i fynegu i mi. Mae yr olwg garpiog a thyllog ar dy wisg yn fy ngalluogi i wneyd allan mai pwff fu y cyfan. Dos o'n ngolwg i yr hergi. Dim chwaneg," gan amneidio a'i law iddo gilio ymaith.

Mae yn gorfod cilio yn ol, heb gael caniatad i ddyweyd gair o eglurhad, nac mewn ffordd o hunan-amddiffyniad, pob adwy a drws sydd wedi eu cau yn y Werddon. Rhaid hwylio i rywle arall; nid ŵyr yn y byd i ba le. Teithia yn gyflym heb edrych i ba gyfeiriad—yr awyrgylch uwchben a ymddengys yn ddu, ac yn llwythog o ddaroganau annymunol. Ni fu ei ragolygon a'i obeithion i enill treftad ei dad a'i briodolder ei hun, erioed yn fwy caddugawl. Ei feddwl sydd wedi ei ordoi â nos ddudew o dywyllwch. Mae ei feddwl mor glöedig a du fel nad yw ei lygaid yn gallu canfod ond duwch a thywyllwch, edryched i'r fan a fyno. Arteithiau a phoenau a deimla yn amrywiol fanau ei benglog,—ystafelloedd ei feddwl; hyd nes y mae yn ofni ei glywed yn hollti yn ysgyrion. Buasai yn dda ganddo pe buasai y ddaear yn ymagor, ac yn ei lyncu i mewn i ebargofiant tragywyddol, ac yn cau arno, fel na fuasai air mwy o son am dano. "O! na fuaswn heb fy ngeni," sibrydai wrtho ei hun. Neidiai ambell dro tuag i fyny, fel pe buasai rhyw ddaeargryn erchyll a ffrwydrol yn chwyrnellu, ac yn chwyrlïo o gongl i gongl yn ei. goryn, ac yn bygwth tori allan yn ffrwydriadau fel mynydd tan-

Digitized by Google

llyd. Ymsaethai yn mlaen yn fuan a chynddeiriogwyllt, gyda thuedd gref ac awydd angerddol i guro ei ben yn erbyn y clogwyn cyntaf y deuai yn ei erbyn, fel y buasai yn chwalu yn deilchion mân. Fel hyn y mae yn rhaid i ni ei adael,—mae yn ymgolli o'r golwg.

Yn mhen rhai dyddiau y mae teithydd blinedig, holltog, a charpiog, ei wisg yn gwneyd ei ymddangosiad yn foreu un bore yn ninas Dulyn. O ba le, a pha sut y daeth yma, nid yw yn hysbys. Mae yn wrthun o deneu, ei gnawd wedi treulio ymaith, fel nad oes yn aros ond croen am yr asgwrn. Esgyrn ei fochau yn bicynau fel ceiliog yspardyn—bron yn ymrithio allan drwy y croen. Y mae fel trychiolaeth, a buasai ambell un gwan ei gyneddfau yn syrthio i lawr i lewyg wrth edrych arno. Y mae fel darlun o angeu. Symuda yn mlaen fel cysgod, a theithia yn ddidaro fel crwydryn, yn y fath fodd, fel pe heb ei feddwl gydag ef, yn meddu na chyfeiriad nac amcan. Y mae fel cwch ar y cefnfor, heb lyw na rhwyfau. Attyna sylw hwn, a thosturi arall. Yn mhen yspaid cyfarfu deithydd arall, yr hwn a sylla arno yn llym. Craffa ac ail graffa, and ni ddyweda air. Chwyrndroa ar ei sawdl, a rheda yn ol amryw latheni o'i flaen,—troa ar ei sawdl i ail syllu yn ei wyneb. Tremia yn myw ei lygaid gyda'r fath graffder, a llymder, fel y metha y teithydd erchylldeneu, yr ysgerbydyn dynol sydd o'i flaen, symud. Adnabydda yn ei lygaid hen gydnabod, a llefa,

"Ai Gruffydd wyt ti, tybed?"

"Ie, dyna fy enw," ebai llais main eto, heb golli ei dôn, "a phwy wyt tithau?"

"Gwcharis, neu Gwrcharci. Pa beth a'th ddygodd yma?"

"Aflwydd ac anffodion tuhwnt i ddim a welodd neb mewn breuddwyd."

"Pa fyd sydd yn Ngwynedd, a pha fodd y mae dy dywysogaeth?"

"Brad, brad! wedi ei dwyn o'm meddiant. Treftad fy nhad a'm priodolder fy hun eto yn meddiant treiswyr, a threiswyr gwaeth fyth yn ei phreswyliaw. Huw Flaidd a'i dygodd oddiarnaf, trwy frad Meiriawn Goch." Nid allai barablu gair arall—dagrau a fyrlyment i lawr ei ruddiau.

"Hwbia dy galon i fyny, nid yw dy obeithion eto drosodd—yr awr agosaf i ddydd ydyw y dywyllaf. Rhaid casglu byddin a chael llynges i hwylio drosodd i ymlid a lladd y giwed, fach a mawr."

"Y mae hyny yn fwy nag a ellir byth ei wneyd, ac yn fwy

Digitized by Google

nag a ellir byth ei ddysgwyl. Yr ydwyf wedi teithio o le i le yn y Werddon, wedi cael fy sarhau, fy nirmygu, a'm gwarthruddo."

"Y mae rhywle heblaw y Werddon y gelli di guro wrth ddor ei brenin."

"Pa le, pa frenin, ac o ba wlad y gallaf gael byddin a llynges unwaith yn rhagor—dim ond unwaith am byth, i wneyd un ymdrech egniol a therfynol."

"Dyma Grothrei, brenin ynyssedd Denmarc — ynysoedd gorllewinol yr Alban—yn gyfaill calon i ti. Byddai iddo ganiatau agos unrhyw ddymuniad i ti. Oni fyddai yn well hwylio hyd yno?"

Fflachiai gobeithion fel trydan trwy ei holl adeilwaith,—ei wedd sydd yn cyfnewid,—sirioldeb a hoenusrwydd a welir yn chwareu yn ei wên a'i lygaid. Cyfeillion eraill erbyn hyn sydd lu wedi ymgasglu ato, y rhai ydynt oll yn hwbio, ac yn hwbio ei galon a'i feddwl i fyny, o radd i radd, fel y mae erbyn hyn wedi cyraedd i'r pwynt uchaf.

Yr ydym yn ei gael yn nesaf yn llys Godred Gronan, y brenin a grybwyllwyd, lle y mae yn cael ei wala a'i weddill o ymborth i gasglu y cnawd a'r nerth corfforol a gollodd. Hysbyswyd ef ar ei fynediad cyntaf i'r llys y byddai iddo gael byddin o wyr arfog goreu y wlad, a llynges o driugain llong.

Nid yw yn angenrheidiol manylu. Hwyliodd gyda hwynt i Fon.

"Dyma ni yn Mon," llefai, "ac y mae yn rhaid i ni ymosod yn ddiarbed o foreu hyd brydnawn ar gastell y Ffreinc (Normaniaid). Bywydr erchyll, greulawn, a raid iddi fod, ac fe enillwn y dydd ond odid, ac yna fe ymwthiwn yn mlaen yn wrol a phenderfynol, yn fuan fe feddianwn yr holl wlad."

Yr oedd fel arfer "o gnottäedig ddefawt a gwychraf gwr yn y frwydr," yn mlaenaf gwr yn curo i lawr, ac yn medi y Normaniaid "lluricawc a helmawc," gyda'i fwyell ddaufiniog, fel Dafydd gynt yn mhlith y Philistiaid. Gyda chleddyf yn un llaw, a'r fwyell yn y llall, llawiai a thriniai y naill gyda'r un medrusrwydd â'r llall. Yn wahanol i bob un a welwyd erioed yn trin arfau, hyrddiai ddyrnod gyda'r cleddyf yn y llaw chwith, ar yr un adeg ag yr hyrddiai ddyrnod gyda'r fwyell yn y llaw dde. Pen a gneifid ymaith gan y naill, ar yr un adeg ag y diwreiddid pen gyda'r llall. Yr oedd y rhengoedd yn syrthio fel pigfrwyn y gors, o flaen pladurwr medrus yn arfodi yn ddeheuig gyda phladur finiog Daeth y nos i gyfryngu, tra y gelyn Normanaidd yn ffoi yn blith-draphlith ar draws eu gilydd.

Digitized by Google

Yr oedd ei ragolygon yn addawol a dysglaer. Nid oedd yr amheuaeth leiaf yn ei feddwl ei hun, nac yn meddwl neb o'r rhai oeddent gydag ef, na fyddai i hyn ddwyn oddiamgylch chwyldroad hollol a thrylwyr yn mhlith trigolion Gwynedd, a'i osod yntau unwaith yn rhagor yn meddiant o'i "dreftad a'i briodolder ei hun." Mae y llu a ddygodd gydag ef yn wyr arfog, addfed i ryfel, ac yn awyddus i ryfela. Yr oedd Godred Cronan wedi rhoddi anerchiad milwraidd iddynt pan yn myned allan, i'w calonogi, yn wyr meirch ac yn bedyd, i sefyll yn gadarn a diwyro yn y frwydr, a pharhau i ymladd tra byddo dyferyn o waed ac anadl ynddynt o blaid ei gyfaill Gruffydd. "Heb eich ffyddlondeb, ac heb i chwi fod yn bur iddo, nid eill lwyddo," sylwai pan oedd ef ar y traeth, a hwythau ar hwylio.

Ar ol y frwydr a grybwyllwyd mae y dydd canlynol yn gwawrio. Nid amser i fod yn segur ydyw. Gwelir Gruffydd yn gwneyd ei ffordd allan o'i lys yn blygeiniol. Sylla a sylwa yn fanwl ar y gwersyll. Canfydda nad oes ond rhyw ddyrnaid o'r gwyr a ddygodd drosodd gydag ef yn eu plith. Y mae y dydd yn ymestyn, ac yntau yn teimlo ei bod yn adeg iddynt ddechreu hwylio allan. Nis gall ddirnad pa le mae y cadlu. Nid oes ond rhyw friwsion o honynt yn aros. Pan yn synfyfyrio fel hyn gwelai yn y pellder, yn symud tuag ato, ddyn o wisgiad ac ymddangosiad uchelwr y dyddiau hyny. Canfyddai pan y daeth yn ddigon agos nad oedd yn neb amgen na Gwyngu, y cyfaill ag y bu dan gymaint o rwymau iddo y dyddiau o'r blaen. Nid oeddynt wedi gweled eu gilydd er's mwy nag ugain mlynedd. Er yr adeg hono yr oedd ein harwr wedi treulio deuddeng mlynedd yn ngharchar Caer, ac wedi myned trwy lu o gylch-gyfnewidiadau ffawd. Gwresog a chynhes oedd yr ymgyfarfyddiad,—anwyl a chyfeillgar oedd yr ymgyfarchwel a'r ysgwyd dwylaw.

"Pa le yr wyt yn preswylio yrwan, ac o ba le y daethost?"

"Yn ynys Adron, ac oddiyno y daethym heddyw. Yr wyf yn awyddus i'th waredu o helyntion a thrybini, os gellir sut yn y byd."

"Yr wyf yn meddwl fy mod ar y ffordd i fyny yr ysgol eto, ac y llwyddwn cyn pen ychydig i chwipio y Normaniaid a'r Saxoniaid yr ochr arall i afon Gaer. Mae y gwyr a gefais yn rhyfelwyr ffyrnig a phybyr, a byddaf yn sicr o lwyddo gyda'r rhai hyn i'w hymlid o'r tir."

"Yr wyf wedi cael fy hysbysu bod yr oll o'r fyddin wedi cael dylanwadu arni trwy genadau i dori ei chynghrair â thi. Huw

Digitized by Google

Flaidd a'r iarllod eraill sydd wedi dwyn hyn oddiamgylch; yr oedd y rhoddion a addewid yn gyfryw a fuasent yn temtio gwell dynion na'r Daniaid i dori cysylltiad â thi, ac i ymuno â llu Huw Flaidd. Y maent wedi troi eu cefnau arnat, a thrwy dwyll gwobr Balaam gadawsant ti oll ond un llong. Hwyliasant ymaith gyda'r cenadau."

"Wel aflwydd, aflwydd, ac aflwydd eto. Nid oes derfyn ar frad ac aflwydd! Nis gwn beth i'w wneyd! Y marchogion a'r pedyd wedi cael eu hanog, eu herchi, eu gorchymyn, eu cynghori, eu rhybuddio, a'u tyngu trwy lw i fod yn ffyddlawn i mi, ac i ymladd o'm plaid tra f'o dyferyn o waed yn eu gwythenau ac anadl-einioes ynddynt! a dyma nhw, os gwir, wedi fy ngwerthu cyn agos ddechreu brwydro!"

"Nid yw hyn ond peth a ddygwyddodd lawer cant o weithiau o fewn fy nghof, er nad wyf eto yn hen; ac y mae yn fwy na thebyg nad dyma y tro olaf. Nid yw dy achos eto mor anobeithiol ag yr wyt yn tybio. Pe buasai y Daniaid yn adnabod yr iarllod dienwaededig hyn cystal ag mae gwyr Gwynedd yn eu hadnabod, y rhai ydynt yn ochain ac yn gruddfan dan eu hiau haiarnaidd, ni fuasai y cenadau gyda'u haddewid dwyllodrus yn cael un dylanwad arnynt. Ni fydd iddynt gael nid yn unig 'y maint a fynont' o dda am dori y cynghrair, ond *dim* o gwbl. Hwyrach mai y cyffion a'r carchar fydd eu gwobrwyon am eu hanffyddlondeb."

"Pa fodd i weithredu, pa le i droi fy wyneb, ac i ba gyfeiriad i fyned i chwilio am gynorthwy, nis gwn. Ofer ydyw troi fy wyneb i'r Werddon nac i'r Alban. Yr wyf wedi dyhysbyddu pob man. Pa beth ydyw dy gynghor di?"

"Hwylio heb golli dim amser gyda'r un llong i Borth Nefyn, yn Lleyn. Byddi yn sicr o gael dy arfolli, ac fe ddeuant atat o bob cyfeiriad. Fe'th gymerant fel eu harglwydd dyledawc, fel un y maent dan rwymau i'w ddilyn ac i'w gynorthwyo i adenill gorsedd Gwynedd."

"Nid wyf mor sicr o hyny. Y mae fy nghiwdawd fy hun wedi troi i'm herbyn cyn hyn, a beth sydd i wybod nad felly fydd y waith hon?"

"Nid wyf fi yn credu hyny, ac y mae genyf well mantais na thi i wybod pa fodd mae y gwynt yn chwythu. Yr wyf wedi treulio fy nyddiau yn y wlad, a rhaid fy mod, gallwn dybio, yn deall teimlad gwyr Lleyn, Eifionydd, Ardudwy, Rhos, a Dyffryn Clwyd yn dda. Nid oes eisieu i ti ond hwylio i Borth Nefyn, a chael rhyw foddion i wneyd y peth yn hysbys, na fydd iddynt

Digitized by Google

ruthro atat, a'th ddilyn i Fon, fel un gwr, a thrwy wahanol ranau Gwynedd."

"Y mae Gwyngu a'n harwr yn hwylio i "Ron Ynys, nit amgen Ynys Dienewyt y môr," gyda'r un llong, ebai hen groniclau. Y maent yma yn dyfod ar draws llong—un o longau yspeilgar Huw Flaidd, wedi hwylio o Gaer, yr hon a ddygodd y cenadau. Yr holl drysorau oedd ar ei bwrdd a yspeilir, neu a gymerir ymaith, yn gyfunwedd â hyfforddiad Gruffydd. Hyn a ddilynir gyda'i gosod yn aberth i'r elfen danllyd.

Lluniaeth a ddarperir, ac angenrheidiau a arlwyir i'r fordaith; a thranoeth ceir hwy yn hwylio yn hyrwydd am Borth Nefyn. Yr oedd ar ei bwrdd ychydig o wyr meirch a phedyd, y rhai yr aflwyddodd cenadau yr iarllod i'w prynu gyda rhoddion i dori cysylltiad. Lled ofnus a chymysglyd oedd meddwl Gruffydd ar hyd y fordaith. Pensynai a synfyfyriai, er fod Gwyngu yn siarad yn eofn a hyderus, ac yn tywallt allan ffrydlif o hyawdledd i'w galonogi ac i chwythu ei feddwl i fyny. Rhesymau cedyrn a ddygai yn mlaen i brofi bod holl drigolion y wlad o Nefyn i afon Gaer wedi llwyr alaru ar orthrwm gormesol iau haiarnaidd yr iarllod, ac yn barod i dori cysylltiad ac i godi arfau yn eu herbyn; nid oedd eisieu ond cael arweinydd cadarn a phenderfynol, a rhywun i chwythu corn y gad, na cheid gwrthryfel cyffredinol yn erbyn eu gormes deyrnaidd a'u tra-awdurdod.

Porth Nefyn a gyraeddwyd, ar adeg pan yr oedd yr holl bysgotwyr yn penweiga. Yr oedd y cewyll ar lan y traeth yn llawn o benwaig, ac asynod llu o fasnachwyr penwaig ar gychwyn i'w taith i'w gwerthu i wahanol ranau o'r wlad. Ni wyddai Gwyngu na Gruffydd pa fodd i wneyd yn hysbys bod yr olaf unwaith eto ar y maes, yn barod ac yn awyddus i ryfela yn erbyn tra-arglwyddiaeth ddirmygus y gormeswyr,—i ddadymchwel eu llywodraeth, a gosod ei hun ar orsedd Gwynedd—yn ben ac yn berchen ar dreftad ei dad.

Gofynai Gruffydd i'hen wr o werthwr penwaig ffeirio dwy wisg, gwerthu iddo ei ful gyda'r ddau gawell. Tynodd ymaith ei wisg ei hun, ac ymwisgodd yn ngwisg y penweigiwr; tra y penweigiwr o'r ochr arall a ymddilladodd yn rhai ein harwr. Pan ar gychwyn i'w daith, trodd yn ol at y penweigiwr, yr hwn oedd erbyn hyn mewn dillad tywysogaidd, gyda'i ddau lygad yn fflachio byrlymiodd allan: "Dywed air ar dy ddanedd am hyn, bydd i mi gael allan rai a'th dynant yn gareiau. Dysga di

Digitized by Google

ddal dy dafod a chau dy safn, neu bydd terfyn bythol ar symudiad dy dafod a swn dy safn." Gyda'r eirchiad dan sylw, marchogodd ar y mul tu ol i'r cewyll gyda'r cyflymder mwyaf i gyfeiriad Ardudwy, gan lefain yn uchel a chroch, yn nullwedd annillyn penweigwyr y cyfnod: "Penwig! penwig! penwig newydd eu dal! 'Rwan am benwig! Penwig i ferched ac i ddynion, a phenwig bychin i blant. 'Rwan am danyn 'nhw!"

Yr oedd yn alluog a medrus yn ei allu i ddynwared tôn a goslef gwerthwyr penwaig yr amseroedd hyny. Nid oedd ganddo nemawr o benwaig yn y cewyll. Nid ymdroai ond ychydig, ac ni wnai yr ymgais leiaf i'w gwerthu. Chwareuai ran y penweigiwr, fel yr oedd yn anmhosbl i amheuaeth godi yn meddwl yr yspïwr mwyaf manylgraff, nac i neb ei wneyd allan yn ei wisg, ei iaith, a'i ymddygiad yn ddim amgen na gwerthwr penwaig, wedi ei ddwyn i fyny yn y fasnach hòno a threulio ei oes ynddi.

Yr oedd yn lled gydnabyddus â gwahanol ranau o'r wlad, ac yn gwybod lle yr oedd ei gyfeillion a'i gefnogwyr yn preswylio pan fu ddiweddaf ar hyd-ddi yn brwydro, lladd, llosgi, a dinystrio. Galwodd ar ei hynt heibio i feibion Collwyn—Egnir, Gellan, Merwydd, ac Ednyfed, i glustiau y rhai y gollyngai eiriau hysbysrwydd i'w gwahodd i Fon i frwydro o'i blaid. Neidiai ar ei ful a chyflymai yn mlaen, a llefai yn grochleisiol, "Penwig! penwig! penwig Nefyn! Newid fawr ar benwig. 'Rwan am benwig mawr Nefyn!"

Teithiodd yn gyflym, gan lefain yn uchel nerth ei safn dermau clasurol ei fasnach, i gyfeiriad Penllyn, pryd y daliwyd ef gan dywyllwch dudew y nos. Yspardynai y mul, yr hwn ambell dro a wnai nadau hyd nes yr oedd penglog ei farchogwr ar hollti. Yn ddiarwybod iddo gyrodd ef tros ddibyn clogwyn lled serth, hyd nes yr oedd y ddau yn rholio i lawr gallt serth. Clywai y cewyll yn pellenu rholio yn y pellder, a'r mul a glybuid gyda'i garnau yn adsain wrth daraw yn erbyn y ceryg pan yn ymbellenu i lawr y goriwaered. Dyma ef yn nghanol y fagddu —wedi colli ei ful a'i gewyll penwaig, ac yn analluog i wybod pa beth i'w wneyd. Nid wyr amcan daear i ba gyfeiriad i ymlwybro. Arswyda wrth feddwl cychwyn. Cropiai a chripiai ar hyd gallt ysgythrog. Cyn hir canfyddai ei fod ar dir y gallai gerdded. Ond am ei ful, ei gewyll, a'i benwaig, ni wyddai pa le yn y byd yr oeddynt. Mewn dygn arswyd teithiai yn wysg ei drwyn na wyddai o bethau y byd i ba le. Canfyddai oleuni yn y pellder. Cyflymodd ei gerddiad tuag yno. Llyma ef o flaen cabandy a tho gwellt arno. Clywai drwst oddimewn.

Digitized by Google

Llais rhywun yn sisial, ac o sisial codai i ymadroddion hyglyw, yr hwn a adnabu fel llais benyw. Curodd wrth y ddor; pryd hyn dystawodd y swn, yntau a gurodd eilwaith, pryd y clywai swn traed yn dringo i fyny megis ar hyd ysgol i gyfeiriad nen y cabandy.

"Pwy sydd yna yr amser yma ar y nos?" ebai llais dreng hen wrach. Ciliodd ein harwr yn ol, a throdd ei olygon i'r cyfeiriad oddiwrth ba un y daeth y llais, pryd y canfyddai ben hen wrach allan trwy drafes yn y to, gyda gwallt can wyned ag eira.

"Pa le ydyw y fan yma, pwy sydd yn preswylio yma, a pha fywyd wyt yn ddilyn?"

"Trawsgoed, Cadi Ruffydd y ddewines, ac yn dilyn y bywyd o ddyweyd tesni."

"Tesni! tesni! tesni! yn wir; beth allai hyny fod tybed?" murmurai drosodd lawer gwaith mewn penbleth. Nid oedd erioed wedi clywed y gair.

"Dyweyd tesni ydyw datguddio pethau cuddiedig trwy gyfrwng yr ysbrydion."

"Felly wir! felly wir!" llefai ein harwr. "Dywed i mi ynte pa beth ydwyf wedi golli, a pha le y mae yr hyn a gollais."

Hithau a hysbysai fod ganddi gyfryngau trwy foddion y rhai y gallai gael allan, ond y byddai raid iddi gael seibiant a marc yn dâl.

"Marc, marc, marc yn dâl!" sibrydai yntau, "y mae yn gryn lawer; ond os gelli hysbysu i mi yn gywir pa beth ydwyf wedi golli a pha le y mae, ti a gei y tâl, ond dim cynt."

Hithau a ddatganai ei bod yn hollol foddlawn i'r amod a osodai i lawr. Ciliodd yn ol, a bu o'r golwg am hir yspaid. Dyma ei phen yr ail waith yn ymsaethu allan, ac yntau gyda'i lygaid a'i safn yn agored yn dysgwyl am y datguddiad.

"Yr wyt wedi colli dy gariad; y mae dyn arall wedi ei dwyn oddiarnat; ond fe flina ar hwnw cyn hir, ac fe ddaw atat eto'n ol."

"Colli fy nghariad! dyn arall wedi ei dwyn oddiarnaf yn wir! A elli di ddyweyd i mi pa sut un ydyw,—dau ynte pedwar troed sydd ganddi?"

"Dau ynte pedwar troed sydd ganddi yn wir! Welaist ti ryw ferch rywdro a phedwar troed ganddi?"

"Beth os mules ydyw fy nghariad, ac mai hòno wyf wedi golli!"

"Taw ag ynfydu! Ni welaist un dyn erioed yn ddigon ynfyd i garu mules eto!"

Digitized by Google

"Do wir! fe welais fwy yn caru mules ac yn priodi mules nag a welais yn caru ac yn priodi un rhywogaeth arall. Fe garai Balaam yr asen a farchogai yn fawr, ac fe'i carai hithau yntau yn fwy, a buasai ei einioes wedi ei gymeryd ymaith oni b'ai am dani hi. Beth sydd i wybod nad yw fy nghyflwr inau yn gyffelyb, ac mai mules sydd yn debyg o waredu fy mywyd!"

"Achlod a rhemp i ti!" llefai yr hen wrach, "dos ymaith i ynfydu!"

"Tyn dithau, yr hen wrach, dy ben i mewn. Mae genyt wyneb mor brydferth fel y mae gen' i ofn syrthio mewn cariad â thi. Ni welais ddim byd erioed tebycach i aur!"

Ciliodd yr hen wrach ei phen yn ol gan ochain, rhochian, a rhwncian ar yr un pryd, ac arllwys allan gawodydd o felldithion ar glopa y truan a ddaeth ati i chwilio am desni, fel yr oedd arferiad yr urdd bob amser pan wedi cael "eu gwneyd." Ymneillduodd yntau i hoewal neu benty wrth dalcen y cabandy. Gorweddodd i lawr hyd nes gwawrio o'r dydd. Aeth ymaith i chwilio am ei ful a'i gewyll gyda'r penwaig. Cyn hir llwyddodd i gasglu yr oll at eu gilydd. Nid gorchwyl bychan oedd hyny. Ceid y penwaig rhai yma ac acw. Yn blygeiniol dyma ef eilwaith yn marchog ar ei ful ac yn dechreu udganu yr un gân.

Llwyddodd fel hyn trwy ei gynllun ystrywgar i ledaenu y newydd o'i ddyfodiad i'w gydnabod, a'r cwrs a fwriadai ei ddilyn yn y dyfodol. Cyn pen nemawr ddyddiau yr hysbysrwydd a ledaenodd trwy holl ranau Ardudwy, Penllyn, Edeyrnion, Rhos, Rhyfoniawg, a Dyffryn Clwyd, fel tân gwyllt. Maent yn codi fel un gwr gyda holl wyr Arfon, Lleyn, ac Eifionydd. I Fon y rhuthrir, y castell a amgylchynir. Parha y brwydro am amryw ddyddiau.

"Nid chwareu ar ol y cyfan," ebai Gwyngu, pan yn nghanol y cadgyrch, ac yn ofni y cymerid ymaith ei hoedl,—"nid chwareu ar ol y cyfan ydyw ymladd gyda'r Ffreinc hyn, y rhai ydynt yn bwrw ergydiau oddiar y bwäu, o chwarelau, a magnelau yn gawodau fel cawodau o genllysg."

Ond y mae y castell yn cael ei osod yn garnedd, a'r Ffreinc yn myned ar ffo. Eu hystiwart llys a laddwyd, yr hwn oedd yn cadw meddiant o'r castell, a phedwar gwr a chwe'ugain, fel yntau, a welir yn gorwedd yn farw.

Ni foddlonwyd ar wastadhau ac arloesi rhandir Mon, ond rhuthrwyd trwy holl ranau Arfon, Lleyn, Eifionydd, Ardudwy,

Digitized by Google

ac oddiyno i Edeyrnion; oddiyno drachefn teithiwyd gan ladd a difa hyd afon Gaer. Yna ymwthiwyd yn ol trwy Degeingl a Rhyfoniawg, ac yn ol drachefn fel haid o gwn cynddeiriog i Ddyffryn Clwyd. Yr holl gestyll, y rhai y darfu y Normaniaid eu hadeiladu pan oedd ein harwr yn y carchar, a gymerwyd oddiar y Ffreinc. Y mae yr oll bellach yn meddiant ein harwr. Y mae wedi llwyddo fel y tybiai i ryddhau Gwynedd oddiwrth râib y giwed, ac i osod ei hun yn ben ac yn berchen, ac i sefydlu llys a llywodraeth yn nhreftad ei dad. Pan oedd Gruffydd fel hyn, weithiau yn rhwydd a phryd arall yn afrwydd, yn ei lawn hwyliau, yn teithio yn chwim o'r frwydr i wneyd ei ffordd i'w lys yn Aberffraw, safai yn sydyn, fel pe y buasai wedi ei daraw ag ergyd ar ei goryn, a dywedai,

"Oni ddarfu i mi ddyweyd mai i hyn y deuai,—adeiladu cestyll, tra yr oeddwn yn y carchar, i gadarnhau ac i achlesu eu hyspail. Dyma fi, fel y dywedais, yn meddu y cestyll ac yn eu preswyliaw."

Mae yn cyraedd ei lys yn Aberffraw. Pa gwrs a fabwysiada yn y dyfodol? A yw am orphwys a bod yn ddiolchgar?

PENOD XXV.

EISTEDDFODAU—GRUFFYDD YN SYRTHIO MEWN CARIAD AC YN PRIODI.

Nid oedd un dosbarth o bobl ag y teimlai ein harwr eu bod wedi dirywio yn fwy yn mhlith deiliaid treftad ei dad na'r beirdd a'r telynorion. Canfyddai fod rheol a threfn yn eu plith yn llwyr ar goll,—nid allai y naill na'r llall ddeall nac amgyffred dim am deithi barddas. Nid oedd cynifer ag un bardd yn y wlad, hyd y gwyddai, o'r hyn lleiaf nid oedd ef wedi cyfarfod ag un. Ystyrid y beirdd a'r telynorion, fel y dymunent gael eu galw a'u cydnabod, yn ddosbarth hollol anwybodus a dirywiedig, yn byw ar glera a bolesta. Yr oedd Meilyr Brydydd, o Drefeilyr, Mon, dan ei nawdd, wedi bod yn lleithiawg (arwr) yn ei fyddinoedd, yn unol ag arferiad beirdd Cymreig y cyfnod. Cafodd tra bu Gruffydd byw y fraint a'r anrhydedd o fod yn fardd teulu iddo, yn ei lys yn Aberffraw. Bu cyn hyny yn ddysgybl i fardd teulu Trahaearn, ac hefyd yn ddilynol i hyny yn fardd teulu iddo. Efe oedd awdwr y rhigymau diddim a arllwysodd allan ar gwymp ei noddwr, y rhai a udai yn nghanol

Digitized by Google

y llwyn coed, ac a gyraeddasant glustiau Gruffydd a'i lu ar ol cwymp Trahaearn. Cofnodwyd hwy yn un o'r penodau blaenorol.

Yr oedd Meilyr Brydydd, fel y sylwyd, yn cael ei noddi gan ein harwr Rhoddid iddo ei wala a'i weddill o holl angenrheidiau y bywyd hwn. Preswyliai mewn tyddyn o'r enw Tre'r Beirdd. Ei eiddo ef yn ddiardreth oedd tra bu byw, ac i bob bardd teulu pob tywysog a'i dilynodd Tre'r Beirdd a roddid yn rhad. Dyma oedd degwm y bardd at ei gynaliaeth. Cynyrch y tyddyn oedd yr oll a gaffai i gyflenwi ei angenrheidiau ef a'r teulu.

Yr oedd prydyddiaeth wedi dirywio cymaint yn y cyfnod hwn fel nad oeddynt oll ond ymhonwyr dihawl. Ni cheid gwir awen yn meddiant cymaint ag un. Yr oedd gwybodaeth ac addysg yr hen ddoethion agos yn hollol anhysbys iddynt. Dosbarth cerdd-dafawd, gwaith Tydain Tad Awen, y gwr a wnaeth gerdd Gymraeg ddosbarthus gyntaf erioed, oedd ganghen o wybodaeth na wyddai cynifer ag un am dani. Pe buasai unrhyw un yn crybwyll wrthynt enw Plenydd, Alawn, a Gwron, ni fuasai y naill na'r llall o *feirdd y cyfnod* yn gallu dirnad pa beth a olygid wrth y tri gair, na'r hyn a fwriedid iddynt osod allan. Nid allent hwy gysylltu unrhyw wybodaeth â hwy, na hysbysu pa un a olygent wrthddrychau difywyd ai ynte rhywbeth arall. Yn yr un sefyllfa yn hollol yr oedd telynorion y cyfnod. Ni feddai un wybodaeth am Gerdd Dant. Nid oedd gan y naill na'r llall reol na threfn; yn y wir, yr oedd y geiriau rheol a threfn mewn cysylltiad â'r canghenau neu y celfyddydau yr oeddynt hwy yn hòni hawl ynddynt, ac yn ffuantu eu dilyn, yn eiriau hollol ddiystyr,—"rhigymwyr oedd y naill, a rhygnwyr oedd y lleill."

Yr oedd hyn yn dwyn mawr alaeth i fynwes Gruffydd,—gofidid a blinid ef yn barhaus; ond yr oedd wedi bod mor brysur ar hyd y blynyddoedd yn ymfyddino, ac yn dysgu yr holl rai oeddynt yn bleidwyr iddo, heb roi o'r neilldu y rhai oeddynt yn cymeryd arnynt eu hunain yr urddenwau o feirdd a thelynorion, i drin y cleddyf, y gadfwyell, a'r celfi rhyfel. Penderfynai, os byth yr enillai ei dreftad a'r orsedd, y mynai lwyr a hollol ddiwygiad, mor fuan fyth ag y byddai iddo dangnefeddu ei lywodraeth.

Dyma ef wedi hir flynyddoedd o ddyheu am weled yr adeg, wedi meddianu ei dreftad, yn eistedd ar orsedd Gwynedd, *wedi* tangnefeddu ei lywodraeth.

Digitized by Google

Y mae yn ymsaethu i'w feddwl y dylai eisteddfod gael ei chynal yn Nglyn Achlach, yn y Werddon. Daeth y meddyldrych o gael y cyfryw un i feddwl Gruffydd. Ei feddyldrych ef ei hun ydyw,—efe ydyw y cynllunydd. Nid yw i fod yn ddim amgen na gwledd farddonol a thelynegol i ymddigrifo, ac i ymlenwi mewn gorfoledd, ar ol ei lwyddiant yn cipio yn ol iddo ei hun ei orsedd, er gwaethaf llid dig y gelyn. Yr oedd y parotoadau a wnaed yn helaeth. Gogyfer â hon y cyfansoddwyd yr alaw, "Difyrwch Gruffydd ab Cynan," i'w chwareu gyda'r tanau, pa un sydd eto ar gael a chadw; ac yma y chwareuwyd hi am y waith gyntaf gan un o'r telynorion, gydag uchel-hwyl,—gwefreiddiwyd yr oll o'r cynulliad i hwyl a gorfoledd. Ymddangosai pob un fel pe yn llawn o win melus. Y beirdd bob un oeddynt yn dangos gallu a medr o'r fath fwyaf mewn cerdd-dafawd. Dangosai y cyfangorff eu bod yn feddianol ar yr awen, ac yn alluog i gyfansoddi yn gyfunwedd â cherdd ddosbarthus o anianawd a theithi un Tydain Tad Awen, Plenydd, Alawn, a Gwron. Hyn nid allai y rhai a gamenwid Beirdd Cymreig y cyfnod. Yr oedd helyntion rhyfelgar, lladd a llarpio am fwy na chanrif agos, wedi dirywio y beirdd a'r telynorion Cymreig, fel nad oedd arlliw dysg na doethineb yn hyn o beth gan y naill na'r llall. Hyn a wnaeth ac a wna chwyldroadau a helyntion yn mhob oes a chyfnod.

Yn ystod uchel-hwyl yr orsedd, clywid Gruffydd yn hunanymddyddan yn y wedd ganlynol:—

"Son yn wir—cofnodi yn wir yn yr hen groniclau bod y Gwyddelod yn un o'r 'tair cenedl a lygrasant a fu ganthynt ar ddysg o farddoniaeth Ynys Prydain, trwy gymysg oferbwyll, ag o hyny a'i collasant,' y mae y beirdd Gwyddelig yn fil gwell na dim sydd gan y Cymry—cenedl fy nhad, a'm perthynasau o wehelyth fy nhad. Nid ellir cael trefn ar gerdd dafawd a cherdd dant yn Nghymru mwy ond oddiyma. Rhaid dwyn beirdd a thelynorion drosodd o'r wlad hon i fod yn athrawon iddynt, i'w dysgu yn y naill gelfyddyd yn gystal a'r llall. Y maent wedi dirywio acw fel nad oes bellach ddim ond dirywiad yn aros. Rhaid cael eisteddfod gyffelyb i hon yn Aberffraw, a dwyn beirdd a thelynorion o allu a medr yn y gwyddorau hyn drosodd o'r Werddon, i weithio allan y dirywiad ac i weithio i'r wyneb yr awen yn y naill, a'r gallu i chwareu gyda'r tanau yn y lleill. Y mae y gwyddorau hyn ar goll. Dysgybl ysbas, hawl, a chyfallwy, ni cheir yn y wiad. Meilyr Brydydd nid yw, er yn fardd fy nheulu, yn deall nac yn gwybod nemawr,—mae ei

Digitized by Google

rigymau oll yn dingleraidd, heb rith o farddoniaeth; rhygnwyr hollol ddiamcan ydyw y telynorion. Fel hyn nid oes yn y wlad acw ddim beirdd na thelynorion, na barddoniaeth na cherddoriaeth perthynol i'r cyfnod hwn."

Aeth yr eisteddfod, yr uchel-wyl lenyddol, heibio. Ni chafodd Gruffydd ddiwrnod o gyffelyb adfywiad ac adloniant er's degau o flynyddoedd,—yn wir, ni fu mewn cyfarfod cyffelyb o'r blaen er pan oedd yn llanc ieuanc, cyn meddwl na son am dreftad ei dad, na thybio am hwylio drosodd i'w hadenill. Mae agos i oes wedi myned heibio,—y gwyneb oedd y pryd hwnw yn llyfndew, bochau cochion fel dau afal, sydd erbyn heddyw yn rhychau ac yn bantiau. Töid ei ran uchaf yr adeg hono â gwallt melyn, ond erbyn hyn mae mwy na'i haner yn wyn.

Y mae corn gwlad yn cael ei chwythu ar gais Gruffydd, i alw yr holl feirdd a'r telynorion yn nghyd. Golyga hyn fod gwyr y crwth a'r llu mân offerynwyr cerddorol eraill yn mhlith y rhai a elwid yn nghyd. Cyn pen ychydig eiliadau y maent hwy a Gruffydd wyneb yn wyneb. Esgyna i ben y Maen Crair, ac amneidia am osteg. Hyn a gaed, heb ail lef, a phob un a wrandawa yn astud. Y mae mewn araeth fer yn eu gwahodd i ddyfod trosodd y flwyddyn ddilynol i gynal dwy eisteddfod yn olynol; y gyntaf yn Aberffraw, a'r llall yr wythnos ganlynol yn Nghaerwys; ac yna llefai hyd nes yr oedd yr holl fryniau o'i ddeutu yn diaspedain,

"'YN NGWYNEB HAUL A LLYGAD GOLEUNI.'
'LLAFAR BID LAFAR.'
'Y GWIR YN ERBYN Y BYD.'
'DUW A PHOB DAIONI.'

Gwneir yn hysbys dan osteg a rhybudd, un dydd a blwyddyn, y bydd i ddwy wyl eisteddfodol gael eu cynal yn Ngwynedd—un yn Aberffraw, a'r llall yn Nghaerwys, yr wythnos ddilynol. Rhoddir gwys a gwahawdd i bawb ddyfod yno, lle ni bydd noeth arf yn eu herbyn."

Yr oedd angenrheidrwydd mawr yn galw am y beirdd Gwyddelig drosodd i ddwyn i mewn welliantau yn y gwyddorau dan sylw.

Daeth pen un dydd a blwyddyn; ond cyn deg rai dydd-

Digitized by Google

iau daeth dwy long o'r Werddon yn llawn o feirdd a thelynorion, a thiriasant yn Abermenai; lle yr oedd Gruffydd a Meilyr brydydd yn eu cyfarfod. Ymwthiasant yn mlaen i'w lys yn Aberffraw. Gwawriodd pen un dydd a blwyddyn; mae yr orsedd yn cael ei hagor gan y Prif-fardd o'r Werddon, yr hwn yn gyfunwedd â Braint a Defawd Beirdd Ynys Prydain, a ddatganai nad oedd noeth arf yn erbyn ynddi, ei bod i'w chynal yn heddwch Duw a'i dangnef, dan nawdd gwlad ac arglwydd; ac yma y ffurfiwyd, neu yn hytrach yr adnewyddwyd "Trefn a Dysgyblaeth gwyr wrth Gerdd Dafawd a Cherdd Dant." Nid oedd ac ni chydnabyddwyd cynifer ag un yn fardd, nac yn gerddor o hyn allan, ond a fyddai i fyny a'r drefn a'r ddysgyblaeth y penderfynwyd arnynt yn yr orsedd hon. Yma y trefnwyd yr ystatutau a elwir, "Ystatutau Gruffydd ab Cynan"—y rhai fuont mewn bri am oesau, ac ydynt ar gael, ac yn fynych cyfeirir atynt eto.

"Paham," gofynai y Prif-fardd Gwyddelig i Meilyr, "y cynelir gorsedd yn yr awyr agored, yn ngolwg a chlyw y wlad, ac yn ngwyneb haul a llygad goleuni?"

"Nis gwn, ac nis gallaf roddi unrhyw gyfrif am hyny," ebai Meilyr.

"A oes yma rywun arall yn gallu dwyn rhesymau pa'm yn yr awyr agored, ac yn ngwyneb haul a llygad goleuni, yn hytrach na than dô ac yn y nos?"

Mae tri neu bedwar o feirdd Gwyddelig gerllaw, ac am y cyntaf i roi eglurhad. Y mae yr ymryson wedi codi mor uchel pa un a gaiff y fraint o wneyd yr ymgais gyntaf i ddatod y cwlwm, fel y mae y naill yn gystal a'r llall yn cau eu dyrnau, ac yn bygwth penderfynu hyny trwy ymladd.

Y Prif-fardd a ganfydda ei bod yn bryd iddo gyfryngu, ac a lefa mai gwyr heddwch, ac i wneyd heddwch, ydyw y beirdd i fod, ac i dori yr ymrafael i fyny rhwng pleidiau pan mewn annghydfod. Yr oedd y beirdd wedi dirywio yn fawr erbyn y dyddiau hyn, ac wedi colli yr ysbryd tangnefedd, ac yn ei le, y mae y cwerylgar a'r ymladdgar wedi gwneyd ei ffordd, ac yna llefai,

"Gadewch i ni dynu cwtws, a'r un a ga yr hwyaf sydd i gael yr anrhydedd flaenaf."

Hyn a wnaed heb golli dim amser. Dyheuai pob un am gael tynu cwtws, a gweddïir am i'r hwyaf syrthio i'w ran. Y cwtws a dynwyd, a dyma yr un a gafodd yr hwyaf yn brasgamu yn mlaen, ac yn siarad yn y wedd ganlynol:

"Y rheswm paham y cynelir gorsedd yn yr awyr agored, yn

Digitized by Google

ngwyneb haul a llygad goleuni, yw am fod awen, deall a gwybodaeth yn dyfod o'r haul. Yr awelon a'r awyr hefyd sydd yn llawn o'r cyfryw, ac o honynt hwythau y sugnir gwybodaeth. Y mae tô yn cyfryngu, ac yn cuddio yr haul—nid oes awel na gwynt na phelydrau yr haul yn gallu treiddio i mewn—gwybodaeth dywell ac ail-raddol ydyw y wybodaeth—y mae lliw tywyllwch ar yr hyn a ddysgir dan dô, a lliw nos ar yr hyn a ddysgir o hyd nos—cawliog a niwliog ydyw awen y rhai sydd yn myfyrio liw nos a than dô."

Y Prif-fardd Gwyddelig a ddatganai ei gydsyniad, a'r holl feirdd a ganmolant ddoethineb yr eglurhad, fel un wedi ei gludo iddo gydag awelon y boreu a'i gyfranu iddo o'r goleuni uwchben.

Darllenwyd mewn tôn uchel a hirllais, Athrawiaeth y Beirdd, nid amgen, "Trioedd Cerdd, Trioedd Braint a Defawd, Trioedd Barddas, Breintiau y Beirdd Cyntefig, Ffurfiau Llwon yr hen Feirdd, &c." Un a ddarllenai lawer gwaith trosodd, fel un tra phwysig: "Tair deddf-ochel sydd ar Fardd:—Gochel diogi, can mai gwr wrth ymgais ydyw; gochel cynhen, can mai gwr wrth heddwch ydyw; a gochel ffolineb, can mai gwr wrth bwyll ydyw."

Yr oedd yr oll mewn hwyl, a phob un a'i gerdd yn ei dro. Ail a thrydedd adroddwyd rheolau Trefn a Dysgyblaeth gwyr wrth Gerdd Dafawd a Cherdd Dant; wele engraifft o'r cyfryw. "Na ddysgont ac na chanont na senau na rhigymau gwaradwyddus, nag un cyfryw â hyny; na gwatwar, na chablu, na dychymyg celwydd, na'i ddyweyd ar ol arall; nag ysbïau, na dwyn athrawd a chwedlau argyweddus, dan boen ffin a charchar, a cholli pob da wrth gerdd."

Dygwyd y gweithrediadau i derfyn, a chyhoeddwyd y byddai cynulliad cyffelyb i ymgyfarfod unwaith yn y tair blynedd.

Yn ddilynol i hyn yr ydym yn eu cael yn teithio yn hyrwydd, ac yn llawn o asbri yr awen, am Gaerwys, lle yr oedd cynulliad y beirdd a'r telynorion i ymgyfarfod. Arllwysai y beirdd ebychiadau barddonol o amrywiol fathau—"Cywydd, Deuair Hirion, Englynion; hyd amgen Unawdl Union, Unawdl Crwcca, Unawdl Cyrch, Prost Cyfnewidiawc, a Phrost Cadwynawc." Dylifent allan fel cenllif ar ddiwrnod tymhestlog yn rhuthro i lawr o benau mynyddoedd Eryri.

Dyma hwynt wedi cyraedd y fan lle yr oedd llu o uchelwyr ac eraill wedi dyfod i'w cyfarfod. Neidia y Prif-fardd i ben y "Maen Crair"—agora yr orsedd yn gyfun wedd a'r ffurf arferol. Darllena y weddi gydag arddeliad ac asbri ysbrydol.

Digitized by Google

Mae ein harwr yma hefyd, ond ychydig o swyn sydd yn nghleciadau barddonol y beirdd, a swynol danau y delyn—nid ydynt yn cael ei sylw. Y mae ei feddwl a'i galon wedi eu dwyn ymaith yn llwyr. Mor fuan ag y cyraeddodd, llygad-dynwyd ef gan ymddangosiad boneddiges ar y maes, deniadol a hawddgar yr olwg, yr hon a ddarlunir yn lluniaidd o gorff, yn syth fel brwynen, gwallt goleu, llygaid o liw gloew—heb fod yn gorwedd yn rhy ddwfn nac yn ormod allan, aelodau lluniaidd a grymus, ysgeiriau hydwf, a'r traed o ffurf a maintioli y buasai pob un yn hoffi meddu rhai cyffelyb, bysedd hirion ac ewinedd teneuon. Hynaws a hyawdl yn ei hymddyddanion, llais tyner a soniarus, moesgar o ymddygiad a rhodiad—cynghorwraig odidog a hael gyda'i chyfoeth. Cyfranai yn helaeth i'r rhai mewn angen a thlodi—yr oedd fel angyles.

Tra yr oedd Gruffydd fel wedi ei lyncu i fyny ganddi hi, ymddangosai hithau fel wedi cael ei llyncu i fyny ganddo yntau—mwynhai y naill ei hun trwy edrych ar y llall. Hawdd darllen a chanfod yn llygaid y ddau eu bod yn anwylo eu gilydd; siriol a hoffus ydyw llygaid y naill pan yn tremio yn llygaid y llall—nid ydynt yn gallu edrych i unlle ond i wynebau eu gilydd. Pan y troir y golygon i ryw gyfeiriad arall, y mae rhyw allu dystaw yn eu troi yn ol. Nid ydynt yn gallu mwynhau dim ond syllu a syllu yn ngwynebau eu gilydd.

Y mae y Pencerdd yn tori ar unffurfiaeth y cynulliad, trwy alw sylw at yr orchest-gamp ganlynol:—

"Yr wyf," ebai efe, "yn galw eich sylw at y wobr o *Bib Aur* sydd i'w chael heddyw i'r goreu am ei orchest yn pibianu. Y mae y Cymry wedi bod yn dirmygu yr ymarfer â phibau. Ceir gweled yn yr orchest hon pwy fydd y goreu. Bydd hir ymryson. Y mae yma rai i ddyfod yn mlaen o Loegr, yr Alban, a'r Werddon."

Enillwyd y gamp gan Ysgodawg.

Mae y Pencerdd eto yn hysbysu ei fod ef ei hun yn myned i chwareu gyda'r tanau, yr alaw "Difyrwch Gruffydd ab Cynan," ac y carai i rai o'r boneddigesau ddawnsio. Y foneddiges y cyfeiriwyd ati a gyflyma yn mlaen, ac a ddatgana ei pharodrwydd i fyned trwy y ffurfiau. Gyda'i fysedd, wele y Pencerdd yn taro y tant, hyd nes y mae yr holl gynulliad fel yn cael ei wefreiddio megis gan ryw ysbryd o'r byd anweledig. Hithau a ddawnsia yn ddeheuig a medrus, yn y fath fodd ag i synu, swyno, a gwneyd y llu yn llon.

Mae yr oll yn terfynu, a Gruffydd yn rhuthro yn mlaen i'w llongyfarch ac i'w chanmawl am ei llwyddiant.

Digitized by Google

"Pa beth yw dy enw, a merch i bwy wyt?" gofynai.

"Angharad yw fy enw, a merch i Owain ab Edwyn."

"Angharad, Angharad, enw nad oes dim ynot yn ei nodweddu. Carad a fuasai yn fwy cymhwys o lawer. A oes genyt wr?"

"Nac oes."

"A fuasai ddim yn ddichonadwy i mi gael cynyg fy llaw a'm calon i ti?"

Neidiai a dychlamai hithau yn ol fel ped yn ofni. Nid allai ei dderbyn, ac eto methai ei wrthod. Bu yn hir yn ymgyndynu. Awgrymai ar adegau ei bod yn llawer rhy ieuanc iddo —y buasai yn rheitiach iddo gael rhywun henach.

Yn mhen yspaid y mae ein harwr gyda llygaid yn enyn ac yn fflachio o gariad, yn dynesu ac yn dynesu tuag ati, yn gafael yn ei llaw ac yn ei gwasgu yn garedig, yn edrych yn myw ei llygaid, ac yn gofyn,

"Angharad, Angharad, a elli di ddim cydsynio i'm caru ac i'm derbyn yn wr i ti, a thithau yn wraig i minau? Ni raid i mi ddim dyweyd fy mod yn dy garu."

Y mae hithau yn toddi ac yn methu dyweyd gair—y demtasiwn sydd fwy nag a eill ddal, ac yn fuan sisial dystaw a ddaw allan ei bod yn foddlawn. Y mae y ddau yn cael eu huno er gwell ac er gwaeth o flaen allor *hymen*.

Y mae Cynfrig yma, a sibryda yn ddigon uchel i bawb ei glywed: "Na wreica ond yn agos."

PENOD XXVI.

NA WREICA OND YN AGOS—A BARHA HEDDWCH—EGNIR YN DWYN DAROGANAU O DDRYGFYD—GWILYM GLEDDYF HIR YN BYGWTH ARLOESI Y WLAD—Y PADERWYR ETO AR Y MAES—GRUFFYDD YN EU GWAWDIO—CYNFRIG YN CLUDO YR HANES AM FRAD OWAIN AB EDWYN—Y GWYDDYL YN CAEL EU HUD-DDENU I DROI CEFN—GRUFFYDD A CHADWGAN YN FFOI I'R WERDDON.

Nid yw Gruffydd yn teimlo yn foddlawn i'r sylw o gwbl. Syna ato. Nid ymddangosai iddo ef fod dim a ddywedai, nac unrhyw ysgogiad a ysgogai, nac unrhyw weithred a whai, yn ddymunol nac yn foddhaol yn ngolwg Cynfrig. Pa fodd bynag,

Digitized by Google

er mor ffyrnig ydyw, y mae yn gwneyd cymaint ag sydd yn ei allu i beidio amlygu fod hyny yn peri gofid iddo.

"Beth sydd ar y dyn!" mwmiai. "'Na wreica ond yn agos' yn wir; wnaeth yn mha le i wreica os llwyddir i gael gwraig ac nid gwreigen."

Er bod Cynfrig yn clywed yr oll, nid amlygai hyny, ac ni ddarfu iddo gynyg gair o eglurhad nac ymddiheuriad am wneyd y sylw. Yr oedd y ddau wedi eu huno yn nghyd,—nid oedd dim datod i fod. Gyda'u gilydd yr oeddynt o hyn allan i deithio hyd derfyn y daith. Yr hyn a glwyfai y naill a glwyfai y llall. Yr oedd Gwyngu yn y cynulliad, a chlybu yr ysgwydd-ymadroddion a wnaed gan y naill yn gystal a'r llall. Teimlai awydd cael allan paham y taflai hen frath-eiriau felly i'w archolli. Yr oedd y ddau yn caru eu gilydd, ac nid oedd siarad felly yn dda i ddim. "Cau drws yr ystabl ar ol i'r march ddianc allan" oedd hyny. Ystyriai ei ymddygiad a'i waith yn traethu y fath syniad, a dyweyd y lleiaf, yn greulawn. Yn mhen yspaid, pan nad oedd ond y ddau yn nghyd, gofynai iddo,

"I be ddrwg yr oeddit yn sibrwd yr hen ddiareb, 'Na wreica ond yn agos?'"

"Dygwyd hi yn ddamweiniol i'm cof. Ni fwriedais iddi beri tramgwydd i neb. Eto yr wyf yn tybio, pe buasai Gruffydd yn gwybod cymaint a mi am deulu Owain ab Edwyn, fe fuasai yn echrydu ac yn neidio rhydau lawer yn ol cyn y buasai yn ffurfio cyfathrach â hi. Y mae yn eneth gain a deniadol o bryd a gwedd, y mae'n wir; ond 'nid wrth ei big y mae prynu cyffylog.' Bydd y teulu yma yn sicr o fod yn ddrain yn ei ystlys,—fe dorant ben unrhyw ddyn am ddimai goch! Ni fu teulu erioed mor ddianrhydedd."

"A wyt ti yn meiddio dyweyd y buasai yn well genyt heb gael y ddynes luniaidd, brydweddol, a hynaws yna yn wraig?"

"Yr wyf yn siwr na fuasai waeth gen' i rywun arall,—'anhawdd dwyn dyn oddiar ei dylwyth,' ac 'nid hawdd tynu mêr o bost.'"

Daeth yr adeg i bobl chwalu, a dygodd Gruffydd ei briod Angharad gydag ef i'w lys yn Aberffraw, a dyma lle y bu yn treulio ei fis mêl. Mae yn credu yn sicr, ac felly hefyd mae y gred gyffredinol a goleddir, y bydd iddo dreulio y gweddill o'i ddyddiau yn Dywysog Gwynedd, mewn heddwch,—maent oll wedi anghofio "nad y boreu y mae canmawl diwrnod teg," ac y mae Cynfrig y waith hon yn eu plith.

Llithra misoedd ymaith, a cheir pob peth o fewn terfynau ei

Digitized by Google

dreftad yn heddychol, fel y mae yn credu ei fod o'r diwedd yn ben ac yn berchen Gwynedd,—yn meddu llys a llywodraeth, ac na chodai byth unrhyw gythrwfl.

Un diwrnod, yn lled foreu, mae Egnir, un o feibiou Collwyn, yn gwneyd ei ffordd at Gruffydd i'w lys. Nis gall feddwl na dychymygu beth allai ei alwedigaeth fod. Y mae yn hollol analluog i ddirnad na dyfalu; nid ymhola ef ei hun pa beth a allai ei neges fod, ac ni ddaeth i'w feddwl chwaith ei holi yntau a oedd ganddo ryw neges neu genadwri i'w thraethu. Y mae yn hollol gadarn yn ei feddwl er's dyddiau fod ei dywysogaeth yn Ngwynedd ar sylfaen ansigledig; nid oes ganddo bellach ond mwynhau ei hun,—dilyn bywyd o ddedwyddwch, a gwneyd ei hun a'i briod yn gysurus. Mae geiriau yn cael eu cyfnewid rhyngddo ef ac Egnir. Ni sylwa ddim ar ei wynebpryd na'i ymddangosiad, gan yr hwn a'i frodyr y cafodd ei arfolli yn fawr pan mewn awr gyfyng. Hawdd y gallasai ddarllen, ped y sylwasai yn ei lygaid awchus, ddwfn bryder, ac arwyddion ei fod yn derfysglyd ei feddwl. Hyn ni sylwodd, ac ni ddaeth i'w feddwl chwaith.

"Mae llawer tro ar fyd wedi d'ygwydd, onid oes?" ebai efe, ar ol siarad am helyntion y dyddiau o'r blaen, "er pan y bu nifer o honom yn nghudd mewn ogofau, ac yn cael ein bwydo genych yn ddirgelaidd yn holltau'r creigiau. Yr oeddym yr adeg hono mewn enbydrwydd am ein heinioes bob mynyd awr —pob swn a sibrwd a greai arswyd yn ein meddyliau, ac a seiniai yn ein clustiau 'Dyma y gelyn wedi eich goddiweddyd, nid oes ond angeu yn eich haros.' Nid oedd i ni le yn un man, na heddwch yn nghilfachau y creigiau. Mor wahanol ydyw ein bywyd 'rwan. Gwynedd oll, treftad fy nhad yn fy meddiant, a ninau wedi llwyddo i'w heddychu a'i thangnefeddu."

"Nid yw felly yn hollol, y mae yr hyn sydd genyf i'w draethu yn anhyfryd i ni ein dau."

"Beth wyt yn ei feddwl?"

"Y mae Gwilym Gleddyf Hir—y Coch—wedi gwneyd ei ymddangosiad yn dy gyffiniau."

"Gwilym Gleddyf Hir! wedi gwneyd ei ffordd i aflonyddu ar fy nhywysogaeth, nid eill byny ddim bod, mae ganddo ddigon o waith gartref goelia' i."

"Dichon hyny, ond y mae rhai pobl yn well ganddynt wneyd gwrhydri a gweithio tu allan i'w cartrefi—un felly ydyw y Coch, ac un felly ydyw ei frawd Rhobert, gyda'i deithiau croes-gadol i ymlid y cenedloedd dienwadedig o'r Tir Santaidd. Y mae

Digitized by Google

gan hwnw ddigon o waith gartref, ond y llall y mae yn ei wneyd. Brawd iddo yntau ydyw Gwilym, a brawd hefyd o waed coch cyfa'."

"Beth, a wyt ti yn meiddio dyweyd ei fod wedi ymwthio i'm cartrefi i, i greu anghydfod, ac i ddwyn arno ei hun ddinystr a marwolaeth? Pa beth a'i cynhyrfodd?"

"Y mae wedi gwneyd ei ffordd i Wynedd yn barod. Mae dy filwriaeth yn erbyn y Normaniaid a'th waith yn eu chwipio ymaith, wedi cynhyrfu ei lid,—ei farchogion a'i wyr traed ydynt nerthol, ac o rifedi y ser. Arweinir ef gan lu o fradwyr Cymreig. Ni chlywais enw cynifer ag un o honynt ond Meiriawn Goch. Mae wedi tyngu yn ol *Florentii Wigornensis*, na fydd iddo ddychwel heb ladd pob gwryw o genedl y Cymry. Bwriada anrheithio, dileu a dystrywio pawb o'r giwdawd yn llwyr, heb adael yn fyw gi na chath. Nid yw am sefyll ar hyn chwaith,—bygythia, os nad yw wedi gwneyd, dori i lawr y coedwigoedd a'r llwyni au, fel na byddo mwy wasgawd nac amddiffyn i neb o hyn allan. Bydd yr holl wlad o'i ol yn noeth-lwm, heb goed na llysiau. Y mae yn barod wedi naddu ei ffordd hyd Mur Castell, yn Ardudwy, ac yno y lluesta ac y pebyllia. Yno y mae i'w gael, os bydd galw am dano."

"A wyt yn meiddio dyweyd ei fod wedi cyflawni y difrodiadau dieflig hyn, ai ynte bygwth y mae?"

"Nis gallaf dy sicrhau y naill ffordd na'r llall; yr wyf yn adrodd i ti yr hyn a glywais a dim arall; ond yr wyf yn sicr ei fod yn lluestu ac yn pebyllio yn gyfagos i Mur Castell."

"Fe fydd i mi wneyd iddo symud ei goesau yn lled ddiswta. Mi dysga' i e' aros gartre' i gadw yr ial. Rhaid ei fod yn ddisgynydd o linach Cain, ac y mae gwibiad a chrwydriad yn cynwys mwy na dwy ran o bedair o hono ef a'i frawd. Fe gludwn holl ddefnydd ymborth—yn ŷd, ysgrubliaid, dâoedd a defaid allan o'i gyraedd i Gestyll Anian, nid amgen hen gymoedd anwyl a chreigiau Eryri. Pob bwlch ac adwy a lanwn â rhagodfâwyr, y rhai a fyddant yn barod i'w dderbyn ef a'i lu ellyllaidd, gyda'u bwäu saethau. Albryswyr a osodir yn mhob congl a chilfach, yn nghyrau y llwyni, y rhai a fyddant yn awyddus i hyrddio y Coch a'i lu i safn angau, yn y bylchau cyfyng, pan yn gwneyd ymgais i esgyn i'r mynydd, a phan yn gwneyd ymgais i ddychwelyd yn ol. Gwnawn iddo ddychwelyd yn ol yn wag ei law, ac yn fwy ei gywilydd. Daw dinystr ar ei ben yn annysgwyliadwy, ac o fanau nad ŵyr am danynt. Fe

Digitized by Google

fyddwn fel nadroedd yn y glaswellt yn ei golynu yn y man a'r lle na fydd yn dysgwyl. Gwnawn iddo gael ei siomi yn ein dewrder, medr ein harweinwyr, ac anhawsder anorfod iddo dreiddio trwy'r wlad a'n tynu allan i gad ar faes. Bydd dda i'r cigfranod a'r brain gael ei lygaid ef a'i lu i fwydo eu cywion, y rhai ydynt yn awr mewn angen o'r cyfryw. Fe arbeda hyn lawer o hafog ar y mynod a'r ŵyn bach. Gosodwn ein hunain weithiau y tu ol, ac weithiau y tu blaen iddynt. Byddwn ar y dde ac ar yr aswy, rhag iddynt wneyd unrhyw golled ar ein cyfoeth. Gwnawn, nid yn unig ddangos y ffordd iddynt yn ol, ond chwipiwn hwynt yn ol dros afon Gaer at y Bleiddyn, os nad allwn eu dieneidio yn gystal a'u di-lygeidio."

"Y mae," ebai Egnir, "holl esgobion, athrawon, a holl Class—mynachod yn holl fynachlogydd y wlad, yn anfon i fyny weddiau at Dduw am iddo ddyrysu holl gynlluniau a chynllwynion y Coch—ei daraw â dallineb, efe a'r rhai sydd yn ei ddilyn. Ymostyngir o flaen delwau y seintiau, a phengrymir i'r creiriau. Swn gweddiau a phaderau a glywir yn mhob eglwys a mynachlog—y maent yn hyderus y bydd iddynt trwy nawdd ac amddiffyniad y nef ei ddychryn ef a'i lu yn ol wedi ei doi mewn gwarth."

"Dyma fel y mae y pendroniaid hyn o hyd. 'Ddaw un ymwared i ni o'r cyfeiriad hwnw—y giwed yn llefain ac yn bloeddio yn lle dyfod allan gyda'u cleddyfau, eu cadfwyeill, ac arfau eraill i'w cyfarfod, fel y maent hwy yn dyfod allan. Taw a son am danynt! Ddaw dim daioni oddiwrthynt hwy. Ie, gweddio a phaderu! Achlod iddynt, ac achlod i tithau am son am danynt!"

Anaml, os byth, y mae pethau yn dyfod i fyny â dychymyg cynifer ag un o blith dynolryw—y mae bob amser un ai gwell ai gwaeth; ond gan amlaf gwaeth y mae yn dygwydd; ond y waith hon sylweddolwyd dychymygion ein harwr. Y mae hyny yn ei godi ef a Chadwgan, ei nai, ar uchelfanau y maes. Mae llwyddiant cyson a difwlch, a thangnefedd i'w dilyn o hyn allan. Gwleddoedd a gynelir yn ngwahanol ranau o'r wlad, heblaw gwledd urddasol yn ei lys yn Aberffraw. Y beirdd a ganant ei glod, a'r telynorion a glywir yn tonio gyda'r tanau, a'u bysedd mewn hwyl a chwareuant yn soniarus a nefolaidd *Ddifyrwch Gruffydd ab Cynan.* Ni fu erioed hwyl well a llawenydd mwy digymysg. Ond aroswch dipyn—a barha! Mae yn ymddangos felly.

Cyn bod y gwleddoedd drosodd, a blas y cwrw, y mêdd, a'r

Digitized by Google

gwinoedd wedi sychu yn eu safnau, cerddi a rhigymau y beirdd a seiniau y ceincio gyda thanau y delyn wedi diffodd yn eu clustiau, a'r hyfrydwch wedi cilio o'u meddyliau, dyma Cynfrig, y cyfaill goreu a mwyaf ffyddlawn a feddai, yn rhuthro i'w wyddfod—y mae ei ymddangosiad wyllt wallgof, a'i edrychiad wibiog, yn suddo fel saeth i'w galon. Deallai ar unwaith bod penbleth a drygfyd eto wrth y drws, a dinystr yn chwanegol fel cerbyd yn curo ei sodlau.

"Beth 'rwan?" bloeddiai Gruffydd, gyda dychryn yn teyrnasu yn ei lygaid, ac yn gwefreiddio trwy ei holl adeilwaith.

"O ba gyfeiriad mae'r dymhestl yn cychwyn y waith hon?" gofynai Cadwgan hefyd.

"Y mae un yn llawn ddigon i holi un," ebai Cynfrig, mewn tôn edliwgar. "Bydd i'r hyn a ddywedais i ar dy ymuniad di ag Angharad gael ei wirio heddyw—'Na wreica ond yn agos.' Y mae Owain ab Edwyn, neu yn hytrach Owain Fradwr wedi troi yn dy erbyn."

"Na ddywed y fath chwedl heb na lliw na llun—heb na phen na chynffon. 'Does ddichon fod fy chwegrwn wedi troi yn fy erbyn, neu pwy ellir ddysgwyl o'm plaid!"

"Yr wyt yn un ehud," ebai Cadwgan, "yn coelio ac yn oredu pob peth. Dyn mawr fel swmer, a chan wirioned â llo. I be' yr wyt ti yn dwyn hen chwedlau fel hyn i'n dychrynu?"

"Un ar unwaith yn llawn ddigon i siarad ac i holi. Yr wyf yn myned i draethu y gwirionedd heb golli dim amser—y mae Owain ab Edwyn, Arglwydd Tegeingl, ac Uchtryd ei frawd, o genfigen at dy lwyddiant dihafal, ac yn enwedig at dy nai Cadwgan, at yr hwn y mae yn mynwesu llid a dygasedd, am iddo wrthod cyfeillachu a chymeryd merch iddo yn wraig. Y maent o genfigen at eich llwyddiant, ebwyf, wedi gwahodd Huw Fras a Huw Goch—nid oes eisieu unrhyw chwanegiad at eu henwau i fynegu pwy ydynt—i frwydro yn eich herbyn. Byddant yn llenwi y wlad yn mhob congl, fel gwenyn Awst, cyn pen ychydig. Y maent wedi hwylio gyda llynges gadarn o afon Gaer, yn llawn o farchogion a phedyd, ac wedi cyraedd hyd y Fenai, a holl wyr Gwynedd, dy ddeiliaid, ydynt wedi cilio gyda'u daoedd i gilfachau creigiau a bryniau Eryri, a llu i Fon, a dyma fi yn un o'r cyfryw."

"Wel aflwydd, aflwydd, ac aflwydd, Cadwgan, be 'nawn ni?"

"Nid oes dim yn sicr ond eu gwrthsefyll. Nid ydym i blethu dwylaw ac i gysgu, fel hen ferchetos. Nid ydym yn ddiffygiol o ddigon o allu i'w cyfarfod. Dyma'r un llong ar

Digitized by Google

bymtheg sydd genyt o'r Werddon, yn llawnion o wyr arfog—y maent hwy wedi cael eu gadael yn borth i ti—nid oes arnaf fi ddim arswyd nac ofn y bydd i ni gael ein gorchfygu; mae genym fantais fawr arnynt hwy—pob modfedd o'r wlad yn hen gynefin i ni; mewn amgylchiad felly un gwael ydyw y rhyfelwr hwnw nad all saethu tri o ddyeithriaid a wrthladdo yn ei erbyn."

"Nid y Gwyddyl yn unig," ebai Cynfrig, "sydd genym i ymladd o'n plaid—mae holl wyr Gwynedd a Phowys yn awyddus i gydymuno ac i ryfela o'n plaid. Yr wyt ti, Cadwgan, a'th frawd Meredydd, arglwyddi Powys, yn rhai na fu eich cyffelyb i roi cad ar faes; os ceir pawb yn unol a ffyddlawn, fe drechwn, a bydd raid i'r iarllod gilio yn ol mewn gwarth a chywilydd."

"Yr ydym yn sicr o gael pawb yn unol a chytun, a bydd y cenedloedd (Gwyddyl) yn sicr o golli y dyferyn olaf o waed o'n plaid, er holl ystrywiau y Blaidd a'r Coch, a brad Owain ab Edwyn, fe'u chwipiwn yn ol—yr ellyll ei hun, ar ddim nad anfonwn ei ferch yn ol iddo!"

Pan oedd ein harwr yn ymbarotoi i'r frwydr, ac yn hwylio i roi cad ar faes, gwnaeth Gwyngu ei ymddangosiad, ac heb ymdroi datguddia ddarfod i'r iarllod ddyfod hyd i wybod am y llongau oeddynt wedi dyfod yn borth iddo o'r Werddon, ac "anfon atynt i erchi iddynt ballu, pan f'ai cyfyngaf arno, a dyfod atynt hwy, ac y caent a fynent o dda; ac felly y darfu, wedi credu o honynt i dwyll y Ffreinc. Felly y twyllodd y cenedloedd yr holl Ynys, gan dori eu harfoll wrth Gruffydd."

"Wel aflwydd, aflwydd, ac aflwydd, Cynfrig a Chadwgan, nis gwn i beth i'w wneyd, nac i ba le i droi. Ni fu erioed fwy o gymylau a thywyllwch, ac ni funi erioed mewn sefyllfa mwy adfydus—brad a bradwriaeth o bob cyfeiriad,—gelyn dyn hefyd ydyw tylwyth ei dy ei hun; y mae nos dragwyddol wedi fy nal, ac ni wiw i mi son mwy am Ben Perchen a threftad fy nhad—mae y cyfan wedi myned o'm meddiant."

"Y peth goreu a allwn wneyd," ebai Cadwgan, "ydyw hwylio am y Werddon uwaith yn rhagor. Oni fyddai yn well i tithau ymuno â ni, Cynfrig?"

"Mae anhawsder—nis gallaf wel'd fy ffordd yn glir, gan y rhaid i mi ddychwelyd yn ol i Edeyrnion, ac aros yno am yspaid; ond hwyrach y deuaf yno cyn y dychwelwch yn ol."

Y mae Gruffydd a Chadwgan yn esgyn i ysgraff, ac yn hwylio ymaith, gan adael Angharad gyda'r rhai bychain ar ol. Nid yw mor ddigalon ag y gwelwyd ef lawer gwaith—mae bellach wedi hen gynefino ag anffodion o fath y rhai hyn. Mae yn

Digitized by Google

canfod treftad ei dad wedi myn'd—yn chwysu wrth feddwl am y sarhad a'r dirmyg a raid iddo fyned trwyddynt—cyfarfu hyny o'r blaen lu o weithiau. Y mae yn gadael ei wlad, ei briod, a'i ddau blentyn—Cadwallawn ac Owain—o'i ol, nid yw yn meddwl y canfydda y naill na'r llall—i lawr ei ddwy foch y pistylla dagrau.

PENOD XXVII.

DAU DEITHYDD DYEITHR YN CYFARFOD TEITHYDD FFO YN DULYN.

I BA le yn y Werddon y darfu iddynt hwylio nid yw yn hysbys —nid oes un cofnodiad ar gael. Y mae y fan y darfu iddynt dirio yn hollol anhysbys—nid oes un gair o grybwylliad yn un o'r croniclau, er chwilio yn fanwl, pa fyd fu arnynt yn y wlad hono yn ystod eu harosiad. Mae yn lled sicr ddarfod iddynt deithio o le i le, ac oddiyno i ynysoedd gorllewinol yr Alban, y rhai a elwir yn ei Fuchedd "Ynyssedd Denmarc," am eu bod o dan lywodraeth y Daniaid yr adeg hono. Yr oedd wedi teithio ar hyd a lled y wlad yn flaenorol, ac wedi cardota cynorthwy mewn llynges, marchogion, a phedyd, ond y mae wedi bod dros y wlad, ac yn mhlith yr amrywiol dywysogion—cafodd lynges, marchogion, a phedyd yn *echwyn*, ond ni ddychwelodd hwy byth yn ol. Mae ei ragolygon yn fwy cymylog nag y bu erioed. Nid oes dywysog yn unlle na chafodd gynorthwy ganddo bob tro o'r blaen, llwyddodd i wneyd ei ffordd i ryw randir newydd, ac i allu llwyddo i gael byddin; ond y mae erbyn hyn wedi myned fel y rhaid iddo alw yn y lleoedd y bu o'r blaen. Nid oes iddo ef na Chadwgan gydymdeimlad na chwyn yn unlle. Pob tywysog a dry glust fyddar, ac a ateba yn erwin. Y mae mor dywyll fel nad oes lewyrch o oleuni ar ei ragolygon o un cyfeiriad. Maent yn ymgolli ac yn cilio o'r golwg. Nid ydynt ar gael, ac ni ŵyr neb pa un ai byw ai marw ydynt. Nid oes air o'u hanes, ac os yn fyw, nid ydynt yn dewis gwneyd eu hunain yn hysbys, na chydnabod mai "nhw ydyn' nhw."

Yn hwyr, un noswaith, y mae dau deithydd o ymddangosiad fel pe wedi gweled dyddiau gwell, yn gwneyd eu ffordd i westty bychan yn ninas Dulyn. Nid oes neb yn gwybod pwy ydynt, nac o ba le y daethant. Y mae y ddau yn cyfarch y west-wraig

Digitized by Google

yn foneddigaidd a pharchus, ac yn datgan y buasent yn hoffi, os yn gyfleus, gael lle i aros dros nos.

"Y mae gwestty yr Afr," ebe hithau, dyna oedd enw y tafarndy, "yn lled lawn—mae rhyw gythrwfl yn Nghymru, ac y mae amryw wedi ffoi am eu heinioes, ac y mae pedwar o'r cyfryw wedi galw yma, lle y maent i letya am rai dyddiau."

"A oes rhai o honynt i mewn ar hyn o bryd?" ebai un o'r teithwyr.

"Oes, y mae un yn yr ystafell gefn yn cael ei hwyr-bryd."

"A ellir cael llety yma, a chael gweled y teithydd ffo, er cael ychydig ymgom ag ef?" ebai y llall.

"Y mae yma lety i chwi, ac mor fuan byth ag y bydd iddo gael ei wala a'i weddill o ymborth, fe fydd yn sicr o alw gyda chwi," ebai y west-wraig.

Yn mhen yspaid y mae y teithydd ffo yn gwneyd ei ymddangosiad. Nid oes unrhyw gydnabyddiaeth i fod—y mae hyny allan o'r cwestiwn, gan fod y ddau deithydd dyeithr yn dyfod o wlad Llychlyn, fel yr ymddengys, tra yntau wedi gorfod ffoi o Gymru.

"Pa beth ydyw yr helynt sydd yn eich gwlad?" gofynai un o honynt.

"Un o'r enw Huw Fras, Iarll Caer, a Huw Goch, Iarll Amwythig, dan arweiniad bradwr o'r enw Owain ab Edwyn, wnaeth ruthrgyrch i dir Gwynedd,—y tywysog cyfiawn a ymlidiwyd ymaith trwy frad. Gwnaed yr anfadwaith hwn gan ei dad-yn-nghyfraith."

"Pa beth a ddaeth o'r tywysog cyfiawn fel ei gelwi?"

"Y tywysog cyfiawn, Gruffydd, a Chadwgan ei nai, a ffoisant i'r Werddon, ac ni chlybuwyd air o son am danynt."

"A ddarfu i'r terfysgwyr roi i fyny folesta ac anrheithio y wlad wedi i'r ddau a enwir ffoi?"

"Na, dim byd o'r fath! erlyniwyd y deiliaid fel bwystfilod drwg, y rhai pan wybuant fod y tywysog a Chadwgan wedi ffoi a ddiangasant am eu heinioes i ymguddio mewn ogofeydd, rhedyn, llwynau, gelltydd, diffysau, corsydd, dyrysni, ac yn mhob rhyw leoedd lle gallent ymguddio. Fe ymddygodd y ddau iarll a'u llu yn greulawn, ac yn hollol fel y gallesid dysgwyl i ddyhirod o'u bathau ymddwyn—torwyd dwylaw rhai, traed y lleill, di-lygeidiwyd eraill, dyspaddwyd llawer, a lladdwyd torfaoedd lluosog—a chosbedigaeth y lladdedigion yn wir oedd yr ysgafnaf. Rhuthrodd offeiriad Pabaidd parchus o'r enw Cenred am nodded i eglwys Ty-frydog, oedd gyfagos; canfu Huw Goch

Digitized by Google

hyn, ac archodd iddo gael ei lusgo allan, ei ddallu, tori ei dafod ymaith, a'i ddyspaddu. Ni safodd ar hyn chwaith. Parodd iddo gael ei gludo ymaith wedi ei rwymo gyda rhaff ar ystrodyr pwn ar gefn mul, a'i fwrw bendra-mwnwgl i'r môr. Yr ysgelerdra ni therfynodd yma chwaith. Mynodd lenwi yr eglwys â chwn a chathod, ac yn offeiriad yn y pwlpud dododd fwch gafr.

"Tra yr oedd dialedd anhysbydd fel hyn yn cael ei ddwyn yn mlaen, daeth llynges aml o rif i'r golwg, gyda Magnus ab Olaf, brenin Llychlyn, yn ben ac yn llywydd arni. Rhuthrodd Huw Goch yn mhell i'r môr ar gefn ei farch i'w gyfarfod. Yr oedd holl gorff yr iarll Coch, ond ei lygaid, wedi ei amwisgo â llurig haiarn. Anelodd brenin Llychlyn ei saeth at ei lygad de, a threiddiodd i mewn i'w ymennydd. Neidiodd o'i gyfrwy yn nghanol loesion angau, a llefodd y môr-frenin yn iaith ei wlad, mewn per lewyg, *leit loup*—"Ie dawnsied y dyhiryn,"—cwympodd oddiar ei farch ar draws min ei gleddyf ei hun, yr hwn a dreiddiodd i'w goluddion. Ar hyn diangodd y Normaniaid ar ffrwst yn ol i Gaer.

"Yr oedd Huw Fras a Huw Goch, yn nechreu y cythrwfl, wedi llwyddo i gael gan y Gwyddyl—llonaid un llong ar bymtheg o farchogion a phedyd, y rhai yr oedd Gruffydd, y brenin cyfiawn yr ydym yn son am dano, wedi llwyddo i'w cael yn borth, ac yn wasgawd iddo ryw dro o'r Werddon,—droi eu cefnau ar wyr Gwynedd, a dyfod atynt hwy, ac y byddai iddynt gael a tynent o dda am yr anfadwaith. Mor fuan fyth ag y cyraeddodd y Normaniaid ar eu ffoedigaeth i Gaer, daeth y Gwyddyl a'r Daniaid bradwrus yno i gyfarfod y Blaidd, i dderbyn eu rhoddion am beidio adgyfnerthu Gruffydd a brwydro o'i blaid. Huw Fras gyda gwên wawdlyd ar ei enau a hysbysai ei fod yn barod â'i dâl,—'Yr wyf am dalu i chwi yn ol eich haeddiant.' Cynhullodd holl wrachïod mantach, crwm, cloff, un-llygeidiog, gormesol, diallu, a'u cynyg iddynt yn bwyth eu bradwriaeth; a phan welsent hyny, ebai yr hen groniclau, 'Gollwng eu llynges a wnaethant, a chyrchu'r dyfnder parth a'r Werddon.'"

Yr oedd y ddau yn gwrandaw ar yr hyn a draethid ganddo gyda'u holl egni. Yr oedd eu safnau fel dwy obach mewn clogwyn—yr oeddynt yn gwrandaw a'u safnau. Pan y terfynai yr hanes yn gosod allan y modd y talwyd i'r bradwyr am eu bradwriaeth, chwarddodd y ddau deithydd dyeithr yn galonog. Yr oedd yr hynaf o'r ddau yn chwerthin hyd nes yr oedd ei ochrau bron hollti yn ddwy.

Digitized by Google

"Ni welais i neb yn fy nydd," ebai y teithydd ffo, "tebycach i Gruffydd ab Cynan na thi. Mae dy lais a'th ymadroddion yn hollol yr un fath."

"Pa beth sydd yn dy gorddi ddyn? Dichon fy mod yn debyg i'r Gruffydd hwnw, pwy bynag ydyw, neu oedd. Onid oes digon o ddynion i'w cael lled debyg i'w gilydd yn mhob peth? A welaist ti ef ryw dro?"

"Mae yn lled debyg fy mod wedi ei weled, neu fuaswn i ddim yn gallu dyweyd dy fod di yn debyg iddo. Bu ar ffo gyda ni yn Ardudwy, ac yn llechu yn hir yn nhyllau ac yn ogofäu y creigiau. Bwydasom ef ac eraill am rai misoedd dan gêl, pan oedd y Normaniaid yn hela ei einioes. Ni welais ef byth ar ol hyny. Gwelodd Egnir fy mrawd ef yn lled ddiweddar."

"Pa beth ydyw dy enw, deithydd ffo? paham? rhag pa beth y darfu i ti ffoi? a phwy wyt?"

"Dyna dy siarad eto yn dwyn Gruffydd i'm meddwl. Byddai hwnw bob amser yn holi, yn fân ac yn fuan—pump neu chwech o holiadau yn nglyn, fel nad allai un dewin wybod amcan daear yn mha le i ddechreu ateb. Byddwn yn aml yn colli y dechreu, y canol, a'r diwedd, fel na fyddai gan un ddim i'w wneyd ond ail holi. Fy enw yw Gellan, un o feibion Collwyn,—ffoais gyda llu eraill, pan y daeth Huw Flaidd a Huw Goch i Wynedd i anrheithio a lladd y werin. Nid oedd dim arall am dani. Yr unig lwybr i un achub ei einioes."

"Pa un ai tydi a ffodd gyntaf, ai ynte y tywysog cyfiawn, fel y gelwi e'?"

"Y nhw ddarfu ffoi gyntaf. Ffodd y ddau heb oedi dim pan y darfu iddynt ganfod y bobl yn troi yn fradwyr iddynt—y Gwyddyl a'r Daniaid drwg, y rhai yr oedd y tywysog wedi eu caffael, yn nghyda'u llongau, yn borth iddo o'r wlad hon?"

"Paham y gelwi y Gruffydd y soni am dano yn dywysog cyfiawn? A oedd ef yn fwy cyfiawn na rhywun arall?"

"Nid cyfiawn felly y deallir y cyfiawn yn yr amgylchiad hwn, ond yr unig un oedd ac sydd, os yn fyw, yn meddu hawl gyfreithlawn a threftadol i fod yn dywysog Gwynedd. Treftad ei dad, a'i daid cyn hyny, ydyw Gwynedd. Efe yn anad neb arall a bia ac a ddylai gael ei osod ar orsedd Gwynedd."

"Pwy ydyw tywysog Gwynedd yn awr?"

"Nid wyf yn gwybod bod neb. Fe gafodd Owain ab Edwyn, ond fel yr adnabyddir ef yn y wlad ar ol ei fradwriaeth greulawn, 'Owain Fradwr,' ryw fath o arglwyddiaeth yn y fangre."

"Ped yn fyw, ac ar gael yn rhywle, wyt ti yn meddwl y gallai

Digitized by Google

y Gruffydd yr wyt ti yn cyfeirio ato feddu gobaith eto i adenill ei dreftad, a chael pobl yn unol i'w osod ar yr orsedd?"

"Yr wyf yn credu y gallai; ni fyddai yn anhawdd o hyn allan lwyddo i gadw Huw Fras adref yn Nghaer. Fe wna llai o frasder y tro iddo ar ol y gurfa a gafodd gan frenin Llychlyn. Y mae ysgerbwd y Coch wedi ei fwyta gan benwaig ac adar ysglyfaethus er's llawer dydd, ac hwyrach beth o hono gan gwn a chathod. Ffodd y Bras a'r Normaniaid gydag ef, gan ddwyn cymaint o yspail ag a allent gyda hwy, mewn arian, trysorau gwerthfawr o balasau ac eglwysi, anifeiliaid a charcharorion. Y mae y wlad wedi ei hyspeilio yn llwyr o ddäoedd, a'i diboblogi yn drylwyr."

"A wyt yn bwriadu dychwelyd yn ol o gwbl?"

"Yr wyf yn sicr o ddychwelyd, a llawer cant, os nad llawer mil, heblaw fy hunan, a hyrddiwyd ymaith gan y cad-gyrchoedd creulawn. Pa beth yw eich henwau chwi y ddau deithydd dyeithr, fel y gelwir chwi gan Mair, gwraig yr Afr yma? a pha sut y darfu i chwi ddysgu Cymraeg, tra chwithau yn Llychlynwyr?"

"Fe'n ganed ni ein dau o deulu Cymreig,—un o'r ddwy ochr, a'r llall o un ochr," ebai yr hwn y mynai Gellan o hyd ei fod yn dwyn arno ddelw Gruffydd ab Cynan.

"Felly wir! un â'i ddau haner yn Gymro, a'r llall ag un haner o hono yn Gymro. Rhyfedd iawn!" ebai Gellan.

Gwnaeth Gellan ail a thrydedd ymgais i gael allan pwy oedd y ddau deithydd dyeithr, yn gystal a'u henwau. Bob tro, fodd bynag, ysgowyd y gofyniad, a chyfnewidiwyd cyfeiriad y chwedl. Er craffu arnynt ac arsyllu ar bob modfedd o honynt, o wadn y troed i ben y coryn, nid ydyw ddim haws. Y mae yn adeg iddynt oll ymneillduo i'r gwely. Pan yn troi i mewn i'w ystafell wely, sibrydai Gellan wrtho ei hun, "Pwy allai y ddau fod tybed? Y mae un yn debyg iawn i Gruffydd, ac nid yw y llall yn annhebyg i Cadwgan chwaith; ond pwy ydynt? nis gallaf ddyfalu."

PENOD XXVIII.

CENEDL HEB FOD ERIOED DAN DDYSGYBLAETH TYWYSOG.

Yr oedd cynifer o grwydrwyr a theithwyr yn ystod yr unfed-arddeg a'r ddeuddegfed ganrif yn galw yn y gwesttai, heb ddimai yn eu llogell, fel nad arferid gweini arnynt, na symud un fèr,

Digitized by Google

hyd nes y ceid y tâl yn gyntaf am yr hyn y byddid yn galw am dano. Pan alwai teithiwr mewn gwestty i erchi yr hyn a fyddai arno angen, os byddai yn gwybod y pris, dodai y swm ar y bwrdd, a chymerai yr hon, neu yr hwn, fyddai yn gweini, yr arian i'w cadw cyn ei gyflenwi â'r hyn y byddai mewn hawl o hono.

Mor fuan fyth ag y galwodd y ddau deithydd yn yr Afr, i holi y west-wraig am lety i aros dros y nos, yr oedd ei gwestty mor llawn, fel y sylwyd, fel nad allai roi ond atebiad lled amwys iddynt ar y cyntaf: "Mae yr Afr yn lled lawn," oedd y sylw didaraw a wnaed, mewn tôn anniolchgar, cystal a dyweyd, "Buasai yn llawn cystal genyf pe buasech wedi cadw allan heno." Yn mhen yspaid y maent yn ail ofyn, pryd y ceir allan y cymerai hwy i mewn; ond y mae ei thon eto yn arddangos ei bod yn gwneyd hyny yn fwy oddiar deimlad o letygarwch na dim arall. Y mae y ddau wedi anghofio tynu allan o'u llogell yr arian i dalu. Mae rhywbeth yn eu hymddangosiad fel pe b'ai eu meddyliau yn absenol.

Nid ydynt, fel y sylwyd, yn dwyn allan y pres o'u llogell i ffeirio â hwy am yr hwyr-bryd oeddynt i'w gael, na'r gwely i orwedd arno. Palla amynedd yr hen wraig, a danoda iddynt y geill hi gael llety-wyr i dalu am yr ymborth, yn gystal a gwasanaeth y gwely, ac nad yw hi yn arfer ag agor ei drws i gerddedwyr. Teimla yr hynaf o'r ddau y pigiad i'r byw, a hawdd canfod bod y sarhad wedi ymsaethu trwy ei galon. Tyna allan yr arian a thala. Pan y gofynwyd a fyddai i foreu-bryd gael ei arlwyo iddynt, hysbysa yr hwn sydd yn teimlo y fflangell yn fwy nag a eill ddwyn, na fyddai angen y cyfryw arnynt, gan eu bod yn bwriadu hwylio ymaith yn foreu dranoeth. Y mae eu hystafell wely yn cael ei dangos iddynt Ystafell gul, gyda'r walbant yn fin-fin â'r llofft, y tô heb ei daerio gyda thrafes fechan, trwy pa un y treiddia goleuni i mewn, yr hon, oherwydd ei bod yn noson lled oer, oedd wedi ei llenwi â swp o garpiau. Yr oedd y gwely wedi ei gyfleu ar y canol—nid oedd ond tusw o wellt ar y llofft, ac ychydig o barau o wrthbanau llychweiniog. Yr oedd y ddau yn hynod flin.

Diosgasant eu dillad ac aethant i orwedd. Ond och! cyn iddynt feddwl na son am roi hûn i'w hamrantau, y maent yn cael eu hargyhoeddi fod yr orweddle wedi cael ei meddianu gan hiliogaeth o rywogaeth arall, y rhai ydynt wedi cymeryd yn angharedig arnynt, ac yn eu hystyried fel ymosodwyr a threiswyr ar eu hawliau neilltuol.

Digitized by Google

Y maent yn ymosod arnynt yn y modd mwyaf ffyrnig a chreulawn. Y mae yr hynaf o'r ddau yn gwneyd yr hyn a allai i'w heddychu, ac i'w hymlid ymaith. Hyn nid all, ac mewn canlyniad y mae yn hysbysu ei gydwelywr nad yw am fyned i ymryson dim chwaneg a'r giwed, gan yr ymddangosai iddo ef eu bod yn haid o derfysgwyr dilywodraeth, heb erioed gael eu dwyn dan ddysgyblaeth a rheolaeth tywysog. Y mae y ddau yn blino—yn codi ac yn gwneyd eu ffordd allan o'r gwestty.

Yn fuan canfyddir hwy ar fwrdd llong, yn hwylio yn gyflym am Abermenai. Y maent yn canfod ar fwrdd yr un llong â hwythau y teithydd ffo—Gellan. Gofynai yr hwn y credai ef ei fod yn debyg i Gruffydd iddo, i beth yn y byd yr oedd wedi codi allan o'r gwestty mor foreu.

"Cyn agos i mi orwedd yn y gwely," ebai Gellan, "daeth y chwain a'r pryfed eraill i wybod fy mod yno, y rhai fel yr ymddengys oeddynt yno o fy mlaen, ac yn ystyried mai eu treftad nhw a'u priodolder hwy—chwedl Gruffydd ab Cynan, coffa da am dano—*yr wyt* yn debyg iddo—oedd y gwely, am wasanaeth yr hwn yr o'n i ac un arall wedi talu; ond yn ol fel yr ymddygai y lleill, ymddengys nad oedd gan yr hen westwraig hawl i osod neb i draws-feddianu eu hawliau neillduol. Yr oeddwn wedi meddwl aros yno dridiau neu bedwar, ond pan ganfyddais y fath aflywodraeth yn y gwely, penderfynais i a'r llall *ymwalpio* o hono, a gwneyd ein ffordd allan, a hwylio yn ol am Gymru."

"A wyt ti yn meddwl y bydd yno *heddwch* i ti? A phwy allent gael yn dywysog?"

"Mae brenin Llychlyn, yr wyf yn credu, wedi cystwyo yr iarllod, fel y bydd yn lled hawdd eu trin y waith hon, ac os gellir, rywfodd, ddyfod o hyd iddo, bydd yn hawdd coroni Gruffydd ab Cynan yn dywysog."

"Onid yw y wlad o ben-bwy-gilydd wedi ei hanrheithio, fel nad oes dim ond llymder yn mhob llan a thre'. Pa angen tywysog sydd mewn gwlad wedi tori i fyny yn dipia deilchion! Yspyttai sydd eisieu mewn gwlad felly."

Hwylir ymaith yn gyflym. Fel pob peth, ar ol cryn lawer o siarad ar draws ac ar hyd, y mae yr ymddyddan yn cael ei ddwyn i'r terfyn. O hyd nid eill Gellan lai na chraffu ar y ddau deithydd. Yn ei fyw nid all lai nag edrych a syllu arnynt. Ni waeth i'r naill na'r llall heb daeru, canfydda ynddynt ddelweddiad—un o Gruffydd a'r llall o Cadwgan. Nid oes un o honynt hwythau yn gwadu yn benderfynol. Maent eu dau yn

Digitized by Google

osgoi ei ofyniadau, ac yn anwybyddu ei ddywediadau pan y sonia am y naill neu y llall. Tra maent yn parhau i hergydio y cwestiwn ymaith, y mae yntau yn parhau i gyfeirio ato. Dyga ef i mewn yn niwedd pob chwedl, yr hyn sydd oherwydd hyny yn peri iddynt, nid yn unig ysgoi ei gyfeiriadau, ond ei ysgoi yntau yn gyfangwbl. Cilia y ddau i ben blaen y llong, a dilyna yntau eu sodlau fel ci, hwythau yn chwim a droant yn ol, ac yntau a wna yn gyffelyb. Mae yr hwn a fyna mai Gruffydd ydyw, agos a cholli ei amynedd, ac yn bygwth wrth ei gyd-ymaith y bydd iddo ei daflu dros yr ymyl i'r môr. Pan yn cyflym droedio o'i glyw colla ei droediad, a chwympa ar ei hyd ar fwrdd y llestr, hyd nes y mae ei lewys yn torchi, pryd y canfydda Gellan ol y gefynau ar ei freichiau, a llefa,

"Dyma fi wedi dy gael allan, nid yw creithiau Castell Caer ddim wedi diflanu eto oddiar dy freichiau, os ydynt felly o'th gof!"

"Wel aflwydd, aflwydd, dyma fi wedi cael fy nal—bwriad-asom ein dau gadw yr oll mewn dirgelwch hyd nes y byddai i ni dirio."

Yr oedd llawenydd Gellan yn fawr. Dychlamai mewn gor-foledd—llefai yn uchel a chroch, fel i dynu sylw yr oll oedd ar y bwrdd—

"Gruffydd a Chadwgan eto ar gael—y ddau byth yn fyw! Bendith santaidd y seintiau ar eich penau! Byw byth y bydd-och eich dau."

Blina Cadwgan ar ei swn, llama ato, a doda ei law yn glwt ar ei enau:

"Mi gaua' i y twll i fyny i ti, os nad elli gael rhywbeth gwell na hynyna allan."

Y mae tawelwch yn cael ei adferyd, a'r hwyl-long yn cyflymu yn mlaen. Y maent o'r diwedd yn tirio yn Abermenai. Erioed ni bu yn tirio o'r blaen dan amgylchiadau mor dywyll. Yr oedd wedi aflwyddo i godi byddin. Teithiodd o gongl i gongl i weddiaw am borth, ond ateb gerwin a dderbyniai o bob cyf-eiriad—"os ti a'i gwaredi rhaid i ti wneuthur hyny drachefn."

Aeth trwy wahanol ranau o ynysoedd gorllewinol yr Alban, ac i'r Alban. Tybiodd unwaith ei fod wedi llwyddo i ddar-bwyllo Ysgotiaid, ond y rhai hyny a droisant ar eu sodlau pan wnaed yn hysbys iddynt fod Gwynedd wedi ei hanrheithio fel na fyddai i'r ymgyrch ddwyn unrhyw elw iddynt. Y mae ef a Chadwgan, ar ol tirio, yn ymthio i'r berfeddwlad, ac yn cael yr holl wlad "yn ddiffaeth, a'i phobl wedi myned i le arall." Pa

Digitized by Google

beth i'w wneyd dan yr amgylchiadau dyrys hyn, nid all y naill na'r llall ddeall. Nid ydynt wedi cyfarfod ag un o'u hen gyfeillion. Pan mewn synfyfyrdod daeth Gwyngu yn ddamweiniol ar eu gwarthaf, ac yn dŷn ar eu sodlau, cyn i unrhyw ymddyddan neillduol gael ei gyfnewid rhyngddynt, wele Cynfrig yn ffurfio rhan o'r cwmni.

"Holo! Cynfrig, y cyfaill pur ac anwylaf a safodd ar dir erioed, a Gwyngu hefyd yr un wedd, o ba le yn y byd y daethoch? Pa sut fu? a phaham na fuasit wedi ehedfan ar ein hol i'r Werddon, fel y darfu i ti addaw? Ond be' 'rwy'n siarad, feallai ddarfod i ti fod, ond i ni ein dau ddygwydd peidio dy gyfarfod. Dysgwyliasom lawer am danat, ond yn gwbl ofer," ebai Gruffydd.

"Daethym i Abermenai, a mynegwyd i mi eich bod wedi glanio, a chyflymais ar hyd ôl eich sodlau. Methais a chael egwyl i deithio trosodd atoch."

"Pa beth a fyddai oreu wneyd? Y mae y wlad wedi ei chneifio o bob peth sydd yn angenrheidiol i gynal bywyd a bodolaeth. Nid oes yma le i fod yn ben, perchen, nac i gynal llys na llywodraeth eto,—y mae heb bobl na chynyrch."

"Nid oes dim i'w wneyd, gan nad oes genyt na marchogion na phedyd y waith hon," ebai Gwyngu, "i frwydro ac i enill awdurdod trwy rym arfau, ond ymheddychu â'r Ffreinc (Saeson). Ni fyddai yn anhawdd i ti allu gwneyd cytundeb â Huw Flaidd, fel y gellit ddwyn dy fyd mewn heddwch."

"Pa fodd y gallwn?" ebai yntau.

"Rhaid anfon cenadwri ato, a gwneyd ymholiad blaenorol cyn son am dy enw, na hysbysu dim yn dŷ gylch, er cael allan o ba bwynt y mae y gwynt yn chwythu, os yn chwythu o gwbl," ebai Gwyngu.

"Pwy allem ni gael a fuasai yn ewyllysgar i anturio ac yn foddlawn i gymeryd arno ei hun y cyfrifoldeb, ac yn debycaf o lwyddo ar ol myned?"

"Nis gwn am neb a fuasai yn debycach o lwyddo na Llywarch Hwlbwrch o Gastell Rhuddlan. Y mae Iarll Caer yn galw yno yn fynych. Ni fydd byth yn myned yno heb alw gyda Llywarch. Bydd ymgom hir a melus yn cael ei dwyn yn mlaen rhwng y ddau. Mae Tangwystl wedi gweithio i mewn yn bell i'w lewys. Gŵyr ei bod yn gares i ti, ac mae yn sicr o allu dylanwadu arno."

Nid oedd dim mor anhyfryd i deimlad a syniad uchelfrydig Gruffydd a'r syniad o ymostwng a chydnabod neb yn ben, ond

Digitized by Google

y syniad o ymostwng i Huw Flaidd a barai iddo arswydo ac echrydu. Hyny a raid wneyd. Nid oes le i ysgoi ar y naill law na'r llall.

Aeth Gwyngu a Chynfrig gyda'u gilydd i Gastell Rhuddlan at Llywarch Hwlbwrch, i osod ger ei fron bod Gruffydd wedi dychwelyd yn ol, a'r cynllun yr oeddynt oll wedi ei gyd-dynu allan a'i osod i lawr.

Yno ar y pryd, ac yn mwynhau ei hun yn nghymdeithas Llywarch a Tangwystl, yr oedd Huw Flaidd. Bu raid eu galw o'r neilldu. Ni wyddai yr iarll pwy oedd yn eu galw.

Mae Llywarch yn dychwelyd yn ol. Ni wyr amcan daear pa fodd i agor y cwestiwn. Yn sydyn gofyna iddo,

"Beth sydd yn d'od o'r rhan Gymreig o'r wlad, yr hon a alwai Gruffydd ei dreftad a'i briodolder ei hun?"

"'Dydi hi yn werth un chwyrligwgan; pe buasai Gruffydd yn y wlad buaswn yn barod i adael iddo gael cantref neu ddwy, ac fe fuaswn yn rhoi rhanau o Geredigion a Phowys i Cadwgan."

"Beth ddysgwylit gael fel gwarogaeth?"

"Dim ond iddo ef ymrwymo i beidio tori allan tros y terfynau. Ymfoddloni i sefyll o fewn terfynau y cytundeb a wneir ag ef."

"A alla'i wneyd hyny yn hysbys iddynt pe dygwyddai iddo ef a Chadwgan dalu ymweliad â'r wlad?"

"Byddai yn dda gen' i ti wneyd yr oll yn hysbys, a gallu llwyddo i gael gan y ddau i dderbyn yr amodau a'u cadw hefyd."

Ar hyn gwnaed yr oll yn hysbys i'r iarll, ac i'w wyddfod y mae Gwyngu a Chynfrig yn cael eu harwain. Ni welodd un o'r ddau erioed o'r blaen. Dygwyd i'w gof y gwrhydri a wnaeth Cynfrig yn llwyddo i gymeryd ymaith Gruffydd yn efynawg o'r castell, a chwarddodd yn ei lewys.

Y mae pob peth bellach wedi ei osod i lawr yn eglur. Nid oes gan y ddau ddim i'w wneyd ond dwyn y genadwri yn ol. Hawdd canfod ar olygon ein harwr ei fod yn ystyried yr amodau yn rhai diraddiol, ac mor anfoddhaol ag y gallai unrhyw beth fod.

"Maent yn greulawn o galed," mwmiai yn dorcalonus, "ond yn nodweddiadol hollol o Huw Flaidd. 'Does dim ond eu derbyn,—o ddau ddrwg gochel y mwyaf. Ië, dim ond tair cantref! dim ond tair cantref! tair cantref o dir fy hun! o dreftad fy nhad a'm priodolder fy hun yn rhandir llwm y wlad!" swniai allan yn dorcalonus a chwynfanus, gyda dagrau yn pistyllio i lawr ei ruddiau.

Digitized by Google

Mae ef a Chadwgan yn ymwahanu, hwyrach i beidio cyfarfod byth,—un yn myned i Geredigion, a'r llall i'r cantrefi.

"Yn iach," seiniai Gruffydd, "i gymdeithas a chyfeillach ddedwydd y dyddiau gynt! Ië, Cadwgan, dyna 'chdithau wedi myn'd!" gan edrych arno yn colli o'r golwg gyda dagrau yn llifo i lawr ei ruddiau.

Dyma ni yn ei adael yn Aberffraw, gyda'i briod Angharad. Ni chyfarfu hi o'r blaen er pan adawodd y wlad er's mwy na dwy flynedd yn ol. Nid yw adgofion am ymddygiad chwerw a chreulawn ei thad tuag ato wedi oeri dim ar ei deimladau tuag ati,—"oer yw y cariad a ddiffydd ar un chwa." Nid cariad na chas felly oedd ganddo ef. Y mae ei briod yn derbyn ei wên a'i sirioldeb. Lluosog a chynhes ydyw y cyfarchiadau. Mae wedi dychwelyd i'w lys, fodd bynag, pe llys hefyd, i weled yr holl drigolion a chyfoeth y wlad wedi eu chwalu, fel dail gan y gwynt, i ganfod tlodi yn llygaid awchus ac erfyniadol y fam, a charpiau y plant,—i ganfod prinder yn teyrnasu ar yr aelwyd. Prinder, a phrinder yn mhob congl, a'r trigolion oll ar ffo. Pa beth a wna? Y mae yn methu gweled y geill gadw o fewn terfynau yr amodau; ond pa beth a wna?

PENOD XXIX.

TALU TEYRNGED O FEL CACWN CWN A GWENYN AWST.

Mae Gruffydd yn flin ei fyd. Teimla fod ei amodau heddwch yn llawer rhy gyfyng eu terfynau. Pa fodd i enill, neu pa gynllun a allai gael i chwanegu at derfynau ei diriogaeth, ni allai ddirnad na chwilio allan. Ofer oedd meddwl gwneyd hyny trwy rym arfau. Marchogion a phedyd nid allai gael yn y wlad, yr hon oedd wedi ei hanrheithio a'i diboblogi.

Y cri "treftad fy nhad a'm priodolder fy hun" sydd bellach agos wedi dystewi. Y mae y cylch-gyfnewidiadau, troion a gwrthdroion y byd, ac anffodion o bob math ac yn mhob lle, wedi gostwng ei drem, ac wedi ei argyhoeddi nad allai gael hawl o'i diriogaeth heb ymostwng mewn enw i Harri Bwmwnt, ac addaw gwarogaeth iddo.

Yn sydyn, ymwthia i'w feddwl, fel chwilen yn ymwthio i'w ffau yn mol y clawdd, ryw dyb y gallai lwyddo trwy fyned i lys Harri Bwmwnt. Siriola ei feddwl ac adlona ei galon uwchben y rhagolygon dysglaer sydd eto o'i flaen, ac y daw llewyrch ar

Digitized by Google

ei dreftad. Yr oedd yn llawen a hwyliog pan yn cychwyn i'w daith i osod ei gwynion gerbron y brenin yn ei lys. Nid oedd erioed wedi bod yn rhyw dueddol i ymostwng i ofyn gweddi esgob na mynach, nac i bengrymu o flaen delwau y seintiau, nac i dalu un math o warogaeth i greiriau; ond mae pob dyn yn cyfnewid yn anianyddol ac yn feddyliol yn ystod ei oes. Nid pren na maen ydyw. Ac er mor ddigyfnewid ydyw y cyfryw, mae llawer o effeithiau yn dwyn cyfnewidiadau pwysig arnynt.

Ceir ambell un lled oriog, yn cyfnewid lawer cant o weithiau mewn oes lled dda. Nid yr hyn ydyw ambell ddyn heddyw a fydd yfory. Cyfnewidia mor ddiswta fel nas gellir ei gael yfory yr hyn ydyw heddyw. Coleddir syniadau a thaerir oherwydd hyny nad oes dyn ynddo. Nid hyny ydyw y ffaith mewn lluaws o amgylchiadau,—nid yr hyn oedd ef ddoe ydyw heddyw, ac nid heddyw ydyw ddoe chwaith.

Er ddarfod i Gruffydd trwy ei oes edrych i lawr ar y syniad o weddio a phaderu i balmantu ei ffordd i lwyddiant gwladol—i adenill treftad ei dad—y mae cael ei luchio a'i hyrddio o dòn i dòn, a'i fwrw i lawr yn bendramwnwgl, wedi dwyn llawer o gyfnewidiadau allanol ar ei gorff, ac yn fewnol ar ei feddwl. Canfydda yn eglur bod gweithio ei hunan i awdurdod wedi bod iddo ef ar hyd yr amser fel rholio careg *sisyphus*.

Y mae yn myned yn ostyngedig at Esgob Bangor, i erfyn arno anfon gydag ef eiriolaeth ar ei ran at Harri Bwmwnt. Hwn a ddyga gydag ef, ac a werthfawroga yn fwy na dim a fu yn ei feddiant erioed.

Cyflyma yn mlaen, ar adegau yn llawn o amheuon, ac yn llwythog o ofnau yn nghylch ei lwyddiant. Y mae y daith yn un bell, ac hwyrach mai taith waeth nag ofer a fydd. Hynod mor oriog a chyfnewidiol ydyw. Y mynyd nesaf gwela ei hun yn cael ei dderbyn yn groesawgar a'i arfolli, fel unig dywysog cyfreithlawn Gwynedd. Cyflwynir yn ol iddo holl gantrefi Gwynedd yn hollol ddiamodol. Hwylia a hwylia yn mlaen, heb sylwi dim pa beth oedd o'i flaen, na throi i edrych pa beth oedd yn dygwydd ei ddilyn. Ped y gofynasid iddo hefyd pa beth oedd wedi ganfod ar yr aswy neu ar y dde yn ystod ei ymdaith, fe fuasai yn ateb yn union, nad oedd ei daith wedi cael ei gwneyd gyda'r bwriad hwnw. Y mae o'r diwedd yn cyraedd i olwg y llys. Y mae ei galon yn curo yn fuan ac yn afreolaidd. Mae dychryn a braw yn ei feddianu,—nid ŵyr yn y byd pa beth i'w wneyd. Mae yn glaf, ac mewn cymaint o arswyd fel nad yw ei lygaid yn ei wasanaethu yn briodol. Cyn hir, fodd bynag, adnewydda

Digitized by Google

ei nerth. Anturia yn mlaen at y fynedfa sydd yn arwain i'r llys. Cyfarfu yno dri neu bedwar o ragarweinwyr. Mynega y tywydd garw a'r benbleth y mae ynddi. Un o'r cyfryw a chwardda, fel y mae ei ddillad yn siglo o'i ddeutu. Bu raid iddo orphwys yn erbyn magwyr y fynedfa, rhag chwerthin ei hunan i lawr yn llorwedlol. Yn y cyfamser y mae Gruffydd yn cael ei feddianu â sirioldeb a hwyl. Tra yn yr ystad hon, enciliodd yr un a chwarddai o'r golwg, fel na wyddai i ba le, ac ni sylwodd pa ffordd na pha fodd y darfu iddo ymlwybro ymaith. Diflanodd yn chwap, fel pe y buasai wedi cael ei lyncu i'r ddaear. Dygir ef i olwg ac i wyddfod y brenin gan y tri eraill. Dyma ef ger ei fron, ac yn wyneb yn wyneb â Harri Bwmwnt; ac er syndod nid oedd neb amgen na'r un a fwynhai ei hun i "chwerthin am ei ben" yn mhorth y fynedfa. Cafodd arfoll a chroesaw tywysogaidd. Chwanegwyd at derfynau ei diriogaeth ar yr amod ei fod i dalu gwarogaeth iddo mewn teyrnged, nid amgen tunell o fêl bob diwedd blwyddyn.

"Cai," ebai efe, "mewn tangnefedd a chariad, gantrefi Lleyn, Eifionydd, Ardudwy, ac Arllechwedd, a chwanegir atynt, os ceir allan, gan Iarll Caer, dy fod yn ymddwyn yn weddus, ac yn rhodio yn deilwng. Eu gwerin a'u hanrheithiau hefyd fydd yn eiddo i ti, ac at dy wasanaeth; ond *rhaid* i mi gael tunell o fêl yn deyrnged o warogaeth."

"Nid oes yn y cantrefi na gwerin nac anrheithiau," ebai Gruffydd. "Y wlad sydd ddiffaeth ac anghyfanedd, a'i chiwdawd oll, fach a mawr, wedi myned i le arall. Nid oes gwenyn yn y wlad, oddiwrth y rhai y gellir tynu pwys o fêl, ac o ba le y caf dunell? Nid oes acw ddim ond cacwn cwn a gwenyn Awst. Bydd croesaw i ti o gymaint o fêl a lwydda y rhai hyny i gasglu oddiar y blodau."

"Waeth gen' i fêl y rhai hyny na mêl rhyw rywogaeth arall o blith y trychfilod cacynaidd. Mêl raid i mi gael, a thunell o hwnw, cofia. Rhaid i ti arwyddo cytundeb â mi, a chadw ato i'r llythyren."

"Y mae y gwenyn oll wedi meirw yr adeg yr anrheithiwyd y wlad pan fum ar ffo yn y Werddon. Nid oes acw ond y trychfilod a nodais. Rhaid i tithau arwyddo nad wyt yn dysgwyl nac yn gofyn mêl un math o drychfilod ond mêl cacwn cwn a gwenyn Awst. Yr hyn a gesglir ganddynt hwy wyt yn ddysgwyl ac yn ofyn, a dim arall. Yr hyn a geir ganddynt hwy a dim arall a gei dithau."

"Yr wyf yn hollol foddlawn i hyny," ebai'r brenin.

Digitized by Google

Dychwelodd Gruffydd yn ol mewn hwyl a gorfoledd. Sisialai ag ef ei hun ar ei daith,

"Y mae iddo gan' croesaw o'r dunell fêl. Pethau tebyg iddo yntau ydyn' nhw. Dim byd i gael ganddynt. Caiff weled hyny pan ddaw i chwilio. Gwarogaeth yn wir! mêl yn wir! Y mae halen a wermod yn rhy dda i'w ddanedd o!"

Dyma ef wedi cyraedd tir Gwynedd. Y mae agos a gwaeddi "hoi! ho!" cyn enill y gamp.

Y mae ar ei ffordd adre' yn galw gyda Huw Fras i dangnefeddu ag yntau. Ni fuasai iddo fawr o dangnefedd a chariad â Harri Bwmwnt heb wneyd hyny.

Y mae y cantrefi a gafodd oll yn anghyfanedd. Rhwyddhaodd pob peth yn raddol o'i flaen. Llithrodd ei gydwladwyr ato o Rhos gyda'u hanrheithiau oll, yr hyn a chwerwai deimlad y Blaidd diras tuag ato. Yr hen groniclau a hysbysant: "Ac oddiyna (sef y cantrefi a nodwyd), wedi i'w bobl amlhau, y cerddws i Fon a'i gwerin ganddo, ac a'i gwladychodd; ac oddiyma i'r cymydedd eraill; ac fel hyn y cafas drachefn o'i rym yn Ngwynedd. A dwyn a wnaeth ei holl giwdawd o amrafael alltudedd, y rhai a aethant i alltudedd o'r ymlidfa, ac amlhau däoedd yn Ngwynedd gan lawenydd." Mae unwaith eto ar uchelfanau y maes, ac yn gweled pob peth yn troi o'i du. Methodd enill treftad ei dad trwy rym arfau, a mil myrdd o gynorthwyon oddiwrth holl freninoedd y Werddon ac ynysoedd gorllewinol yr Alban,—llynges, marchogion, a phedyd, y rhai a fenthycwyd, ac ni ddychwelwyd hwynt yn ol. Ymfradodd llawer o honynt yn ei erbyn, a throsglwyddasant eu hunain i feddiant y Blaidd; ac os unwaith yr ai rhywbeth i feddiant y Blaidd, ni ddeuai yn ol byth. Y mae ar hyn o bryd yn ymddangos y geill lwyddo i adenill ei hriodolder ei hun trwy heddwch yn fil gwell na thrwy ryfel. Y mae y warogaeth o dalu i Harri Bwmwnt yn un ysgafn. Nid yw ddim. Mêl cacwn cwn a gwenyn Awst. "Chwilied am dano a holed hwy pa le *y mae* ganddynt. Ddysgu iddo fy rhwymo i. Rheffyn eisin sil hollol," siaradai ag ef ei hun yn fynych.

Pan yn esgyn i'r ysgraff i groesi tros y Fenai un diwrnod, i hwylio am Gaer Cystenyn (Caernarfon), pwy a ganfyddai ond ei gyfaill anwyl Cynfrig. Y mae yn lloni ei galon yn fawr. Llawn cystal ganddo ei weled â phe cawsai deyrnas i'w feddiant.

"A glywaist ti yr hyn sydd wedi dygwydd yn Nghaer ddoe?" gofynai Cynfrig.

"Naddo," ebai yntau, gan neidio fel pe buasai neidr wedi

Digitized by Google

gweithio ei ffordd rhwng ei grys a'i gefn. "Beth ydyw yr helynt?"

"Huw Flaidd wedi marw, a gorfoledd cyffredinol yn seinio o bant i bentan trwy holl dir Gwynedd."

"Diolch byth! O wi! Dduw. Henffych a henffych i ba beth bynag a gymerodd ei fywyd ymaith. Bu fyw yn rhy hir o nifer dyddiau ei einioes, pa nifer bynag oedd rhifedi y rhei'ny. Na fydded i'w gyffelyb ei ddilyn?"

"Y mae hyn wedi ffromi Rhobert ei fab, ac fe ddaeth wedi ei 'ffroenochi a'i ffriw yn uchel' gyda llu i Arllechwedd, yn erbyn y Cymry, a hwynt-hwy heb neb o'u blaen a'u gyrasant ar ffo, gyda cholled a chywilydd."

"Mil chwaneg o ddiolch. Anffawd arw na fuasai ei ben wedi ei gneifio ymaith, a'i lygaid wedi myned i'r gwasanaeth da o borthi cigfranod."

Y maent ar hyn yn tirio yr ochr arall i'r culfor, a'r ymgom yn terfynu.

Llithrodd blynyddoedd heibio heb i unrhyw ddygwyddiad o bwys gymeryd lle. Parha i adenill at ei diriogaeth, ac i wneyd ei hunan yn llawer mwy derbyniol.

Yn mhen yspaid, sydd yn ymddangos i'n harwr cyhyd ag oes, y mae si yn cyraedd y llys yn Aberffraw bod ei nai a'i gydymaith gwrolfrydig a dewr Cadwgan yn arlwyo gwledd fawreddog ac anrhydeddus yn ei gastell yn Aberteifi, i'r hon y mae yn gwahodd holl benaduriaid a phendefigion y wlad. Y beirdd a'r cerddorion tafod a thant goreu a geid yn Nghymru i fod yn bresenol. Dodes gadeiriau iddynt, a chynadl y gorchestion, herwydd defod gwleddau'r "Brenin Arthur." Y mae yn mhen yspaid wahoddiad yn ei gyraedd. Mynega yntau i'r rhedegydd nad eill gilio am un eiliad o'i dreftad.

"Byddaf felly fel aderyn yn cilio o'i nyth wrth ymdaith o'm lle fy hun. Nid wyf eto wedi cyraedd y nôd a osodais i mi fy hun. Ni ddarfu i mi ddych'mygu na breuddwydio y buasai cynifer o anffoddion yn fy nghyfarfod. Y mae cymylau a thywyllwch o'm hamgylch. Er bod fy nghydwladwyr, y rhai y mae genyf yr hawl gyfreithlawn o'u galw yn ddeiliaid, yn ymlithro ataf beunydd o bob congl, ac o alltudedd blin, fel y mae y cantrefi ag oeddynt gynt yn anghyfanedd—heb anifeiliaid, dãoedd, na defaid, na thrigolion,—yn llawnion o'r naill yn gystal a'r llall erbyn heddyw, nid yw hyny yn sail llawenydd na gorfoledd i mi. Y mae hyn yn peri molest ac anheddwch mawr i Iarll Caer. Y mae y tiriogaethau oll wedi eu poblogi

Digitized by Google

a'u gwrteithio heb genad na chaniatad yr iarll. Poblogaeth o'i randir ef sydd wedi encilio ataf fi. Y mae canfod fod pobl yn fy hoffi, ac yn caru bod yn ddeiliaid i mi yn hytrach nag iddo ef, yn ei lenwi o ddigllonedd tuag ataf. Y mae lle i ofni y codir eto wrthryfel yn fy erbyn; ond hwyrach, ar y cyfan, nad i hyny yr arweinia. Ceir gweled. 'Daw drygddyn wrth ei grybwyll.'"

Ni ddarfu iddo dalu sylw o gwbl i'r cytundeb a wnaeth â Harri Bwmwnt. Ni chlybu neb air o son am y dunell fêl. Pan y darfu iddo gydsynio i dalu gwarogaeth iddo, pan yn ei lys, yr oedd amodau y cytundeb yn gyfryw fel y buasai yn hawdd i Harri Frenin ganfod allan, ped yr ymholasai ac y chwiliasai allan pa drychfilod a gasglent fêl, nad allai gael dim o gwbl ganddo.

Mae yr iarll yn dygyfor ac yn crychferwi o falais a llid at lwyddiant Gruffydd. Daeth cenadwri ato oddiwrth yr iarll yn hawlio amryw dunelli o fêl i weithio allan a gwastadhau y cytundeb a wnaeth â'r brenin. Ceir Gruffydd yn hollol ddigyffro yn datgan na chafodd ef ddim mêl yn ystod yr holl amser gan y cacwn cwn a'r gwenyn Awst. Mêl y cyfryw oedd wedi addaw. Galwodd yn eu nythod ar hyd a lled y wlad, ond ni chafodd ddigon o fêl i lenwi ei lygaid. Hwynt-hwy a wnaethant y cytundeb yn ddirym ac nid efe. Nid oedd treth na gwarogaeth i'w gael.

Hyn a enynodd lid ac a osododd gynddeiriogrwydd cynddaredd mab y Blaidd yn oddaith. Rhuthrodd ar garlam i lys y brenin, i enyn cynddaredd hwnw yn erbyn Gruffydd.

"Y mae Gruffydd," ebai efe, "yn ymwthio yn mlaen ac yn lledu ei derfynau,—yn meddianu lleoedd nad oeddit ti yn addaw iddo. Y wlad sydd yn cael ei phoblogi a'i gwrteithio hyd ymylon Tegeingl a Rhyfoniawg, a bydd yn fuan wedi treisio y wlad hyd afon Gaer, ac y mae lle i ofni na fydd iddo sefyll ar hyny chwaith. Ni soniodd air byth am dalu gwarogaeth na threth i ti. Nid hyny yn unig, ond mae ef a Gronw ab Owain yn gomedd cydnabod bod genyt unrhyw awdurdod arnynt hwy."

"Gwrthod talu treth na chydnabod fy awdurdod ai'e, yr hergi!"

"Ië, na siarad dim ar y pwnc,—anfona bob cenad yn ol gyda dirmyg."

"Beth ydyw y rheswm a ddyry dros ei ymddygiad?"

"Ei dreftad gyfreithlawn ef ydyw Gwynedd. Chwardda pan ofynir am fêl y deyrnged iddo. Para i mi fyned at y cacwn

Digitized by Google

cwn a'r gwenyn Awst i ymorol am dano, ei fod ef yn methu cael dim ganddynt, ac na chlybu erioed son i neb arall gael peth chwaith."

Y mae Harri Bwmwnt yn cnoi ei dafod mewn cynddaredd, ac yn analluog i ddyweyd gair. Cawn weled i ba le yr arweinia hyn yn y man.

PENOD XXX.

YSTRYW HARRI BWMWNT YN DENU GRUFFYDD I'R FAGL.

Y MAE Gruffydd yn dysgwyl ystorm. Holl ystumiau ac ystrywiau Iarll Caer wedi cael eu gwneyd yn hysbys iddo. Clywai eiriau yn adsain o'r llys fod dinystr mawr eto ar ddyfod, ac nid oedd dim i'w wneyd ond cymeryd y goes. Y mae Harri Bwmwnt wedi brochi—ei wyneb sydd fel pobty o goch, a'i gynddaredd yn llawer mwy ffyrnig na chynddaredd ci cynddeiriog. Nid yw am adael Cymro yn fyw yn Ngwynedd na Phowys. Nid oes cynifer ag un i gael dianc—y maent i gael eu diwreiddio wreiddyn a changhen. Yn ei olwg y mae eu hoedl yn llawer mwy diwerth na gwybed bach—"y bawiaid." Y newydd a ddygir megis gydag awelon balmaidd y boreu i Gruffydd fod minteioedd Harri Bwmwnt yn ymgasglu fel ystorm, ac yn sicr o dywallt yn rhyferthwy am eu penau, ac y byddant yn sicr o gael eu cludo gyda'r genllif. Maent yn dyfod yn dair byddin drefnus—un i chwythu y Deheubarth i fyny, y llall i Bowys, a'r drydedd, y ffyrnicaf o'r oll, sydd dan arweiniad Alexander, llu o'r Alban—o'r Ysgotland—ac Iarll Caer, i ruthro i Wynedd. Y mae yr hafog i fod yn ofnadwy—i ysgubo pob copa walltog oddiar wyneb y ddaear.

"Harri a'i gadgyrch wedi cyraedd i Fur Castell, ac yn barod i dori pob peth i lawr trwy fin y cleddyf—enciliwch ar ffrwst," llefai Gruffydd wrth wyr Gwynedd, "i gestyll anian. Dygwch gyda chwi—cludwch i'ch canlyn yr holl ddäoedd a defnydd ymborth. Na chaffed ddim, pan yr ymwthia yn mlaen, ond gwagder a chywilydd. Ni feiddia ef nac un o'i lu trahaus-falch ein dilyn un cam i gyfeiriad Eryri. Y rhai a ryfygant a gymerir yn garcharorion 'yn mreichiau Eryri Eiriawg.'"

"Ni wela' i," ebai Harri, "bod clod na golud yn debyg o ddeilliaw i mi o'r ymgyrch hwn. Byddai yn well cael rhyw gynllun i geisio ymheddychu â'r barbariaid ysgymun."

"Mae hyn yn annichonadwy," ebai Iarll Caer, "y mae Owain

Digitized by Google

a Gruffydd wedi ymgynghreirio â'u gilydd na fyddynt ymostwng nac ymheddychu â ni ar unrhyw amodau."

"Nid yw trosodd eto chwaith, fe'i cawn eto i ymostwng. Dyna Meredydd ab Bleddyn wedi dyfod ataf yn bengrymedig, ac yn ymostwng ar ei ddau benlin, a geraiń yn y llwch ani iy maddeuant. Yr hyn a wnaeth un yn sicr a wna y lleill. Cerdda ar frys Alexander yn heddychol, a than gochl baner heddwch, a dywed wrth Gruffydd os ymostynga ger fy mron, a rhoddi ei arfau i lawr, cydnabyddir ef fel tywysog, ac yr arfollir ef yn fawr—y bydd yn mhell yn llewys Harri Bwmwnt."

Mae yntau ar redeg yn troedio at Gruffydd, ac ar ol adrodd y genadwri y mae yn gofyn,

"Beth ydyw dy atebiad di i mi?"

"Par i Harri Bwmwnt fyn'd yr un ffordd a'i drwyn. Y fi ymostwng iddo, na wna' byth. Nid yw enw na gair Harri Bwmwnt ddim gwell nag aderyn y corff. Nid yw haner gystal a gair merch—'gair merch fel y gwynt yn faweidiau.'"

Nid oedd dim i'w wneyd ond dychwelyd yn ol. Ar hyn ni ddigalonodd, ond anfonodd Iarll Caer eilwaith gydag abwyd newydd.

"Y mae Owain," ebai yr iarll, "wedi ymheddychu â Harri heb ymgynghori â thi. Nid oes dim yn well i tithau na gwneyd yr un fath."

"Wel aflwydd, aflwydd, ac aflwydd. Tri pheth sydd yn anhawdd eu hadnabod—diwrnod, derwen, a dyn; ac o bob peth anhawdd ei adnabod dyn ydyw yr anhawddaf. Ninau wedi ymgynghreirio â'n gilydd trwy lw na fyddai i ni roi arfau i lawr—talu na gwarogaeth na theyrnged i'r ystrelgi herfeiddiol Harri Bwmwnt. Ie, yr wyt yn dyweyd bod Owain wedi ymostwng i ofyn am faddeuant y brenin, a gwneyd ei hunan yn odechwr o gaethwas iddo."

"Wel di, goreu po leiaf i ti agor ar yr hollt yna, ac o wynt a ollyngi allan. Nid amser i ti fod ar dy draed ydyw. Gorwedd yn y llwch—ymgreinio yn y llaid, ac ymdrybaeddu yn y dom, ydyw y ffordd i ti enill ffafr a chydymdeimlad y brenin."

"Pa beth ydyw amodau Harri?"

"Gwna enwi enw y brenin yn fwy parchus, a chwanega ato ryw anrhydedd, yn lle dim ond ei enw, fel pe na fai ddim amgen na phedwesyn."

"Harri Aderyn y bwn, Harri Aderyn y corff, Harri Gigfran, ynte. Cymer a fynot o honynt."

"Chwanega urddenw o anrhydedd, ac nid o sarhad a dirmyg."

Digitized by Google

"'Does dim anrhydedd yn perthyn iddo."

"Dim chwaneg o swn gwag. Rhaid i mi ddwyn gair yn ol at y brenin. Mae yn barod i'th dderbyn yn ol i'w lewys—goreu i ti gytuno i roi dy arfau i lawr, ac i dalu swm o arian i ddigolledu y brenin, ac i wneyd iawn am y difrodiadau a'r sarhad a deflaist ar ei awdurdod yn rhandir Caer, lle nad oedd genyt rith hawl i fyned yno.

"Nid wyf foddlawn, ac ni wnaf—y mae arnaf eisieu gweled Owain i ofyn paham y torodd y cynghrair a wnaethym ag ef. Gwir iawn ydyw darluniad Cynfrig o'r teulu, nad oes un o honynt na werthant y cyfaill goreu ac anwylaf am ddimai goch."

"Ni fyddai hyny ddaioni yn y byd," ebai Meredydd, "o ddau ddrwg gochel y mwyaf. Ni fydd yr ymostyngiad yn un diraddiad arnat ti."

Canfydda y genllif a'r rhyferthwy yn fwy nag a eill wrthsefyll. Nid oes dim ond ymblygu ac ymfoddloni i gael ei gludo ymaith, ond swnia yn nhaflod ei enau—"Mel cacwn cwn a gwenyn Awst fydd y tâl eto."

Difrifddwys a galarus ydyw teimladau Gruffydd yn mhen diwrnod neu ddau ar ol hyn, pan y daeth cenad oddiwrth Owain i'w feio yn fawr am fod yn gyntaf yn y camwedd o dori y cynghrair a wnaethant â'u gilydd trwy lw nad oeddynt i ymostwng ar unrhyw amodau i roi eu harfau i lawr i Harri Bwmwnt. Cawodydd o felldithion a lifai dros ei wefusau ar ben Harri Bwmwnt, Iarll Caer, a Meredydd, am ei hudo trwy dwyll a dichell i dori y cynghrair a wnaethai ag Owain.

"Iawn y gelwais ei enw Harri aderyn y bwn, Harri aderyn y corff, a Harri gigfran—y mae yr oll yn cydgyfarfod ynddo."

Llithrodd rhai blynyddoedd ymaith, yn ystod y rhai ni thalodd warogaeth na theyrnged fel yr oedd wedi cael ei fygwth. Mae Cynfrig eto yn dyfod i'w lys, pan y mae newydd ddychwelyd yn ol o lys y brenin.

"Yr wyf yn synu atat, Gruffydd," ydyw yr ymadrodd cyntaf a ddyferai dros ei wefusau, "yn gwneyd yr hyn a wnaethost. Gruffydd ab Rhys wedi ffoi atat am dy nawdd rhag dig a llid y gelyn, tithau yn addaw ac yn ymrwymo i'w achlesu, ei arfolli yn hygar, a'i sicrhau y byddai yn ddyogel yn dy lys, a than dy gronglwyd. Dyna 'chdi yn cael gwahoddiad yn mhen ychydig oriau ar ol hyny, i fyned ar ymweliad â llys y brenin—yr hwn a urddaist, nid heb reswm, yn Harri Gigfran. Aethost yno na wyddit i ba beth. Ynfyd ydyw pwy bynag a êl i unrhyw fan na wyr i ba beth. Gofynwyd i ti; do, anfon y dyn, y tywysog

Digitized by Google

ieuanc, Gruffydd ab Rhys, neu ei ben i fyny i Lundain. Golwg ar anrhegion gwerthfawr a'r 'mynyddoedd o aur' a'th lygaddynodd ac a'th hud-ddenodd i dori dy air a'th lw, gyda llawn can lleied o deimlad â phe bait yn tori cneuen. Mae yn rhyfedd genyf atat, a thithau wedi bod mewn cymaint o helbulon dy hun, a gorfod ffoi lawer cant o weithiau, er pan groesasit y waith gyntaf o'r Werddon, oherwydd bradwriaethau, ac ystrywiau, a malais y rhai hyny. Pe buasit yn llwyddo ni fuasai Harri fyth yn cyflawni ei addewid. Buasai pen Gruffydd ieuanc yn crogi ar ben y Twr Gwyn oni b'ai ni, ei gyfeillion, wybod am yr anfadwaith oedd ar droed, a'i hwylio ymaith o dy grafangau di a Harri. Boed wyw a diffrwyth dy farchogion a aethant i'w ymlid hyd Aberdaron; gwarth a chywilydd mawr i'th enw, ac ystaen annileadwy ar dy goffadwriaeth fydd y gorchymyn a roddaist i'r gwyr a anfonaist i'w gyrchu—ei lusgo o eglwys Aberdaron trwy ruthr. Yn anrhydeddus y byddo y mynachod a wrthodasant dy gais creulawn. Yn wych y byddo gwyr Dyfed a ddaethant heibio, pan yr oedd ymryson ac ymgiprys rhwng dy swyddwyr di a'r mynachod, ac a'i cipiasant ymaith, gan ei gludo i'w llong yn Enlli ac oddiyno i'r Werddon, lle mae yn cael ei noddi heb ofn brad. Bu dda i tithau fod y Werddon oherwydd gweithredoedd tebyg i'r rhai a fwriedaist ti wneyd. Treuliaist ddeuddeng mlynedd yn ngharchar Caer, yr hyn a ddygwyd arnat trwy frad. Yr wyf yn synu ac yn rhyfeddu atat!"

Tra llefarai Cynfrig fel hyn pensyniai Gruffydd; nid ymddangosai fel yn gwrandaw. Nid oedd y wers yn debyg fel pe buasai yn treiddio i mewn. Pa le bynag y mae y fangre hono yn y dyn sydd yn derbyn i mewn wersi fel i effeithio arnynt i'w cyfnewid, er gwell neu er gwaeth, neu i'w gadael yr un fath, nid ellid canfod allan fod gan Gruffydd ystafell yn unlle i roi llety i hwn, yr hon yn sicr a ddylasai fod o wasanaeth mawr iddo, fel y mae gwersi o bob math o wasanaeth i ddynion, yn enwedig gwersi ymarferol.

Heibio, fodd bynag y mae hon fel llawer un arall yn myned. Disgynodd fel gwlith ar fwng llew, ac fel dytroedd ar gareg gallestr.

Mae henaint a dyddiau ei einioes yn prysur ddirwyn i fyny. Ystormydd a thrallodion—bradwriaethau ac anffodion—bradgynlluniau o bob lliw a llun, ydynt wedi ei galedu a'i haiarneiddio fel nad yw y mawreddog a'r duwiolfrydig ddim ond fflachiadau, fel gwreichion yn ehedfan i fyny o dân agos a llosgi

Digitized by Google

allan, ond mae rhyw gymaint o addysg dda ei fam eto yn aros. Y mae ysbryd rhyfel agos wedi diffodd. Pa gyfeiriad a gymera oddiyma i'r terfyn a geir allan yn yr hyn a ddilyna.

PENOD XXXI.

DIWEDD AR DYWALLT GWAED AC EINIOES GRUFFYDD.

Drygioni erchyll rhyfel, ac annhrefn, dinystr, ac ymladdfeydd, nis gallant barhau am byth.

Y mae blynyddoedd lu o dawelwch yn gweithio eto i mewn iddo, yr hyn a ddysgwyd iddo gan ei fam yn ninas Dulyn. Dyga adgof yn ol ddygwyddiadau boreu ei oes, yr hyn a glybu gan yr athrawon. Nid yw bellach yn ddiystyr o bader a phaderwyr. Ar ol hir ymladd a rhedeg yn erbyn y gwddf, y mae cynllun ei fam yn gweithio ei ffordd yn ddystaw i'w feddwl, o wneyd llai o ymrafaelion—ymdangnefeddu a byw mewn heddwch a phawb. Arafwch a heddwch a nodweddant ei rodiad a'i ymwneyd â'r breninoedd agosaf ato. Bygythion a hafog ni chyfeirir yn ei erbyn mwy gan Harri Bwmwnt. Rhwydd-hynt ydyw dymuniad Murchath brenin Werddon, brenin Ynyssedd Denmarc, ac amryw o deyrnasoedd pell.

Hyn sydd yn rhoi cyfeiriad newydd i'w feddwl. Bwganod o'i ymenydd sydd wedi diflanu, ond nid eill dyn o duedd ymrwyfus ac o ymenydd gwresawg aros yn llonydd; os nad yw yn ofynol iddo adeiladu cestyll, fe *fyn* adeiladu; os nad yw yn angenrheidiol iddo bellach hafogi a malurio, fe fyn gyfanu; os nad oes galw arno i ruthro i faes y gwaed, ac i ledaenu celanedd a marwolaeth, fe ymgymera â gwneyd rhywbeth arall hollol wahanol; gwneyd a allo i ddwyn yn mlaen gynlluniau, i gynyddu dyddiau einioes—i gadw a chynal bodolaeth. Hyn o wna gyda llawer mwy o asbri, llawer mwy o foddhad, llawer mwy o hyfrydwch mewnol nag a gaffai pan yn medi i lawr ei elynion.

Tra yn yr agwedd yma o dawelwch, ac yn sugno dwfn gysur, y mae ei hen gyfaill Cynfrig yn galw heibio ei lys yn min y nos. Y mae llu o flynyddoedd wedi llithro ymaith er pan y canfu ef ddiweddaf. Yr oedd hyny yr adeg pan y cafodd wers dda ganddo oherwydd ei waith yn cynllunio brad yn erbyn y tywysog ieuanc Gruffydd ab Rhys. Tybiai Cynfrig yr adeg hono ei fod y tu allan i derfynau gobaith, ac yn ei ddrygioni a'i greulondeb tuhwnt i Herod—mai o ddrwg i waeth yr ai; ond

Digitized by Google

yn ei henaint fel yn ei ieuenctyd, y mae dyn yn cyfnewid o ddrwg i dda mewn rhai amgylchiadau, ac o dda i ddrwg yn y lleill, a chanfydda yn amlwg mai y blaenaf ydyw hanes ei gyfaill Gruffydd. Hyn a bar adloniant a llawenydd mawr iddo.

"Yr wyf," ebai efe, "Cynfrig, heb anghofio y wers chwerw a roddaist i mi. Nid oes dydd yn myned heibio nad yw yn dyfod o'r newydd i'm cof. Nid wyf ryfelwr ddim hwy. Yr wyf gyda'm ciwdawd yn adeiladu eglwysi yn mhob cyfeiriad, hau coedydd, planu perllanau a gerddi, eu damgylchu o gaeau a ffosydd, ac yn ail adeiladu adeiladau bychain a mawrion a osodwyd yn furddynod, yn gydwastad â'r llawr. Ymborth a ffrwythau y ddaear a gynyrchir o ddefawd gwyr Rhufain."

"Y mae yn dda genyf ganfod nad wyt yn bwriadu myned o'r byd heb wneyd rhywbeth heblaw lladd a llarpio. Tybiais dy fod wedi caledu dy war, ac y byddai i ti gael dy ddryllio yn ddisymwth fel na fyddai meddyginiaeth."

"Yr wyf wedi adeiladu eglwysi mawrion yn mhrif leoedd Gwynedd. Chwenychwn lenwi Gwynedd o ben-bwy-gilydd, yn mhob cwmwd a chongl, â rhai calchedig, fel y byddai iddynt ddysgleirio fel ser yn y nos. Byddai i hyn effeithio yn ddaionus a dwyn i feddyliau pobl y syniad gogoneddus am y lle hyfryd sydd i'r cyfiawn ei gael wedi ymadael oddiyma."

"Oni fyddai yn well i ti adeiladu rhyw adeilad i osod allan y lle arall, lle y bygythir y bydd i ddosbarth arall o bobl—nid rhai cyfiawn—gael eu llosgi mewn tân a brwmstan—lle nad yw y pryf yn marw, na'r tân yn diffoddi."

"Yr wyf yn meddwl y byddai," ebai yntau, gyda gwen yn chwareu ar ei ên, "a bwrw ambell un nad yw yn waeth genyf am dano i ganol y cyfryw le, a llefain, 'byth na ddelo ti oddiyna, na neb o'th fath, hyd oni byddi wedi talu y ffyrling eithaf, neu losgi yn lludw; ac os na fydd dy ludw o fwy o fudd i wrteithio y ddaear ac i gynyrchu ffrwythau nag a fu dy fywyd i'th gydbererinion tra yn rhodio yn rhydd ar hyd-ddi, byth na ddelo hwnw oddiyno chwaith.' Cingroen ydyw cingroen yn fyw ac yn farw."

"Nid wyt wedi colli dy ysbryd rhyfela a thalu y pwyth eto," chwarddai Cynfrig.

"Nac ydwyf, nac wedi anghofio llywio rhai o'm pobl gyda gwialen haiarn. Yr wyf yn llwyddo i wneyd cytundeb a thangnefedd â'r teyrnasoedd nesaf i mi. Mae fy meibion Cadwallawn, Owain, a Chadwaladr yn llanciau erbyn hyn. Yr wyf wedi eu gosod ar y cantrefi eithaf—y rhai pellaf oddiwrthyf, i'w rhag-

Digitized by Google

feddu ac i'w 'cynal mal mur o gyrff safedig, yn erbyn estrawn genedloedd a rhai anghyfiawn,' y rhai ydynt fel mynydd tanllyd yn bygwth ffrwydro allan a gwrthryfela o hyd. Breninoedd bychain sydd yn galw yn fynych yn fy llys am fy amddiffyn, i gyrchu fy nghynghor a'm cynorthwy, mor aml ag y mae estrawn genedl yn codi yn eu herbyn."

"Y mae llwyddiant a llewyrch, onid oes, yn toi dy dywysogaeth o ben i ben o'r diwedd?"

"Oes, ond raid i mi ddim diolch i Meiriawn Goch. Clywais ei fod wedi marw er's tro. Pe buaswn i yr ochr draw, ac yn geidwad y ddor, gwn yn lled dda lle y buaswn yn ei roddi."

"A wyt ti am adeiladu llawer o adeiladau eto?"

"Yr wyf am adeiladu adeiladau i'r beirdd a'r telynorion i ymgyfarfod i gynal eu cyfarfodydd a'u gwleddoedd. Y maent i gyfarfod yn fy llys i unwaith yn y tair blynedd, ac yn Mathrafael bob yn ail. Dyna yr adeilad wyf fi wedi barotoi gogyfer a hwynt," ebai efe, gan gyfeirio ei fys at adeilad eang gyferbyn a'i lys.

"A wyt ti ddim yn teimlo yn garedig nac yn ddiolchgar tuag at neb?"

"Yr wyf felly at amryw; ond atat ti yn fwy na neb. Gyda'r anadliad olaf bydd ochenaid yn esgyn i fyny o'th blaid di, pe b'ai hyny o ryw les i ti Credwyf y bydd yn hyfrydwch i ti ganfod, neu glywed, fy mod yn, neu wedi, terfynu fy einioes gyda llef ddystaw, 'Bendith santaidd y seintiau ar ben Cynfrig a'i had o genedlaeth i genedlaeth.'"

"Beth am Meiriawn Goch?"

"O, mae ef wedi myn'd o'm blaen. Arosaf hyd nes yr af yr ochr draw i daranu uwch ei ben ef. Bydded i ydlanau ei hiliogaeth losgi, eu gwyddau gloffi, a'u dofednod gael y big, eu meirch yr ysgyfaint, eu gwartheg eu difa gan y pla, eu plant y cryd, a'u gwragedd eu hanrheithio gan y parlys. Melldith a lyno wrthynt fel y gwahanglwyf o'r cryd i'r bedd!"

Yr oedd yn llefaru hyn gyda'i lygaid yn fflachio, ac mewn tôn uchel ac yn llawn o gynddaredd, fel y syrthiodd arswyd ar Cynfrig, a diangodd ar ffrwst allan—ofnai y buasai rhyw aflwydd yn cael ei dywallt ar ei goryn.

Y mae dyddiau blin wedi ei ddal—trem ei lygaid wedi colli. Dychrynfeydd ac ofn marwolaeth yn ymferwi ynddo. Nid yw treftad ei dad a'i briodolder ei hun yn seinio yn ei glustiau. Ni fwmia ac ni sonia am enill enw tragwyddol trwy filwriaeth mwy. Gogoniant ac anrhydedd maes y gwaed nid yw mwy yn peri

Digitized by Google

hyfrydwch iddo, fel cynt; y mae yr hyn a alwai ac a fynai ef ei gyfrif a'i alw yn ofergoeliaeth, wedi ei ddal. Hiraetha ac ocheneidia yn ddwys am gael myned i le dystaw, dirgel ysgafala, i ddwyn buchedd dduwiol. Galara ac ofna mai ei drigle fydd y lle arall, yn nghwmni Meiriawn Goch. Teimla awydd i brynu ei ffordd i'r nefoedd. Galwa ato offeiriaid a mynachod Pabaidd, y rhai a ddiystyrai ac a ddirmygai mor fawr yn ystod ei fywyd. Ei gymyn-rodd a ffurfir—doda arian i eglwysi mewn llu o wahanol fanau, a "rhoddes ddäoedd i esgobion, archddiaconiaid, offeiriaid, urddolion ac athrawon." "Cymynaf hyn oll," ebai efe, "i amddiffyn yr Ysbryd Glan, yr hwn a ŵyr bob peth ac a'i hadwaen!!"

"Dyma fi," mwmiai mewn tôn orfoleddus, "wedi sicrhau ffordd rydd i'r nefoedd. Arian a delais, a chydag arian y sicrheais gongl i eistedd yno. Caf ymwared oddiwrth y Blaidd a'r Coch, a'r llu du sydd'er's talm mewn cadwynau yn y lle arall."

Y mae yn cael ei gyfyngu i'w wely. Haul ei fywyd sydd yn prysur fachludo. Yn ei gwsg clywir ef yn myned dros helyntion ei fywyd, ei ymladdfeydd gwaedlyd, yn hwtio Rhys ab Tewdwr am goleddu y syniad o fyned i ymofyn am nawdd santaidd y seintiau, delwau a'r creiriau, paderau a gweddiau, i fyned allan i frwydro. Ochain a gruddfan a esgyna i fyny, a llefai, "O! mae yr hen gadwynau yma yn archolli, ac yn rhwygo fy nghnawd. Trahaearn a'i lu yn y golwg; gwthiwch yn mlaen a lleddwch bob un." Ymrwyfa yn ol ac yn mlaen yn ei wely. O'r diwedd y mae yn llonyddu—y llais yn dystewi, yr anadl yn colli, ac yn darfod. Dyma ef yn gorwedd yn fud—y bywyd wedi ehedeg. Nid oes yn aros ond delw o glai. Ni ddaw gair, swn, nac anadl o'i safn mwy. Ust! y mae wedi marw!

UN O HIL GRUFFYDD.

Digitized by Google

OL-NODIAD.

Un o'r beirniaid a wna y sylw canlynol ar syniadau yr awdwr yn tudalen 134: "Anghywir hyn. Pa le y mae y prawf fod y Beirdd Gwyddelig yn rhagori ar y Beirdd Cymreig? Gwel Carnhuanawc ar y pwnc." Yr oeddwn wedi darllen ei sylwadau, ac y mae yn cyduno yn hollol â minau. Dywed, "Canys yn ystod y talm hwn (sef ar ol i'n harwr ddwyn y diwygiad o'r Werddon), y gwelwyd deffroad y cyneddfau dynol allan o'r trwmgwsg yn mha un yr oeddynt wedi gorwedd dros amryw ganrifau. Pa beth oedd yr achos o'r llesgedd rhagflaenol, neu pa beth a achlysurodd y deffroad nid hawdd penderfynu." Ni ddyga enghreifftiau o allu Beirdd y cyfnod. Canmola rigymau Meilyr Brydydd, ond ni sonia am fodolaeth un bardd arall. Druan o Meilyr, gyda'i rigymau. Mola ac udgana ei glod heb sail i'r cyfryw ond yn ei ddychymyg; gwel tudal 534—41.

Am allu y Beirdd Gwyddelig yn y cyfnod hwn gwna y dysgedig Eugene Lawrence y sylwadau canlynol: "Eto fel yr holl Geltiaid, yr oedd y Gwyddelod yn meddu cariad angerddol at gerddoriaeth a barddoniaeth. Yr oedd beirdd yn cael eu hystyried yn enwog o York i Derry—yn canu yn nghynulliadau mawrion Tara—gorchestion mawr yr O'Tooles a'r O'Neils, ac yn llenwi safleoedd gyda'r uchelwyr a'r tywysogion penaf. Yr oedd y beirdd a'r cerddorion Gwyddelig yn rhagori ar holl rai eraill y ddaear. Fe gyffyrddent danau eu telyn gynwynol fel y swynai eu tonau bob un a ddelai yn agos. Byddai eu gorchfygwyr Normanaidd yn gorfod toddi dan eu swynion, a llenwid eu cestyll â beirdd a thelynorion Gwyddelig. . . . . Am amryw ganrifoedd brithid ynys y seintiau gydag ysgolion, lle yr addysgid llu afrifed o athrawon, a lle y deuai ysgoleigion o'r holl wledydd cymydogaethol i dderbyn addysg wrth draed proffeswyr mwyaf cyflawn yr oes." A hyn y cytuna Giraldus Cambrensis yn ei hanesiaeth Wyddelig.

Digitized by Google

CYNWYSIAD

Penod.		Tudan.
I.	—Y modd y mae Gruffydd i ddringo i'r orsedd	5
II.	—Hwylio am lynges...	11
III.	—O flaen Castell Rhuddlan	14
IV.	—Tynu y gath o'r cwd	17
V.	—Trwst gelynion neu dònau y môr	21
VI.	—Nodwedd y genadwri o gadgyrch Penygaer	25
VII.	—Cynlluniau i goroni Gruffydd yn ben	29
VIII.	—Yr ymgyrch yn erbyn Trahaearn	32
IX.	—Cynfrig yn amheu nad yw gorsedd Gruffydd yn ddisigl	34
X.	—Digalondid yn llethu calon Gruffydd fel na fyna ei gysuro	39
XI.	—Hollti yn ddellt y saeth ryfel.—Mater sydd i orchfygu mater	43
XII.	—Daroganau Llywarch Hwlbwrch	47
XIII.	—Llawenydd yn ninas Dulyn.--Dyfodiad Gwyngu gyda chenadwri i Aberffraw	52
XIV.	—Bradgynlluniau—Erchyll-frwydr Bron-yr-erw ...	57
XV.	—Gorchfygiad, llongddrylliad, a galar	62
XVI.	—Llynges a gwyr arfog yn hwylio i ddychwelyd i'r Werddon yn ol...	68
XVII.	—Hwylio am Abermenai, a glanio yn Mhorth Clais ...	72
XVIII.	—Paderau ddim yn debyg o enill y frwydr—Brwydrau erchyll—Gorchfygu a lladd Trahaearn	79
XIX.	—Cynfrig yn darbwyllo Gruffydd i edrych y naid cyn ei neidio	85
XX.	—Yn y carchar yn Nghastell Caer—Cynfrig Hir yn ei ryddhau	94

Digitized by Google

PENOD. TUDAL.

XXI.—Cludo Gruffydd i Fon—Tymhestl erchyll a llong-ddryllíad 101

XXII.—Gwlad anhygyrch — Arfolliad meibion Collwyn yn Ardudwy 108

XXIII.—O lwyn i ogof—Hwylio heb fyn'd i unlle—Malu ysgraff y Canonwyr 116

XXIV.—Gruffydd yn ngwisg a than rith gwerthwr penwaig, yn llwyddo i greu plaid, ac i arloesi y Normaniaid o'r tir 122

XXV.—Eisteddfodau—Gruffydd yn syrthio mewn cariad ac yn priodi 132

XXVI.—Na wreicca ond yn agos—A barha heddwch, &c. ... 139

XXVII.—Dau deithydd dyeithr yn cyfarfod teithydd ffo yn Dulyn 146

XXVIII.—Cenedl heb fod erioed dan ddysgyblaeth Tywysog ... 150

XXIX.—Talu teyrnged o fêl cacwn cwn a gwenyn Awst ... 156

XXX.—Ystryw Harri Bwmwnt yn denu Gruffydd i'r fagl ... 162

XXXI.—Diwedd ar dywallt gwaed ac einioes Gruffydd... ... 166

ARGRAFFWYD GAN JONES A ROBERTS, BLAENAU FFESTINIOG.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Celt 5257.1.30
Rhamant hanesyddol, Gruffydd ab Cyn
Widener Library 006516584
3 2044 080 768 849